Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BIL SEILWAITH (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorfforiʼr
Asesiad Effaith Rheoleiddiol aʼr
Nodiadau Esboniadol

**Mawrth 2024**

# Bil Seilwaith (Cymru)

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Seilwaith (Cymru)**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru.

Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Mehefin 2023 ac mae Memorandwm diwygiedig yn awr yn cael ei osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

**Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil Seilwaith (Cymru), a gyflwynir gennyf i ar 12 Mehefin 2023, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

12 Mawrth 2024

# Cynnwys


Rhestr o Dalfyriadau 3

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL 4

Pennod 1 – Disgrifiad 4

Pennod 2 – Cymhwysedd Deddfwriaethol 5

Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael 6

Pennod 4 – Ymgynghori 13

Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth 17

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL 66

Pennod 6 – Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh) 66

Pennod 7 – Yr Opsiynau 70

Pennod 8 – Costau a manteision 74

Pennod 9 – Asesiadau o’r Effaith 127

Pennod 10 – Adolygu ar ôl gweithredu 130

Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol 131

Atodiad 2 – Mynegai o Ofynion y Rheolau Sefydlog 186

Atodiad 3 – Rhestr o brosiectau i’w rhagnodi yn PSAau 190

Atodiad 4 – Costau Datblygu (Arup 2019) 199

**Rhestr o Dalfyriadau**

ACLlau – Awdurdodau Cynllunio Lleol

Bil, Y – Bil Seilwaith (Cymru) (fel y'i cyflwynwyd)

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

CS – Cydsyniad Seilwaith

DAC – Datblygiad(au) o Arwyddocâd Cenedlaethol

DCGTh 1990 – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

DTG – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992

EIA – Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

KV – Cilofolt

LIR – Adroddiad ar yr Effaith Leol

MIR – Adroddiad Effaith ar y Môr

MW – Megawat

NDPB – Corff Cyhoeddus Anadrannol

PEDW – Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru

PSA – Prosiect Seilwaith Arwyddocaol

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## Pennod 1 – Disgrifiad

1.1 Mae Bil Seilwaith (Cymru) yn sefydlu proses gydsynio unedig ar gyfer datblygu seilwaith yng Nghymru ac yn nyfroedd Cymru, gan ddisodli sawl gyfundrefn statudol. Gelwir y math newydd o gydsyniad yn 'Gydsyniad Seilwaith' ("CS") a bydd yn cael ei roi mewn perthynas â phrosiectau a ragnodir fel 'Prosiect Seilwaith Arwyddocaol' ("PSA"). Mae categorïau o seilwaith a fydd yn cael statws PSA yn cynnwys prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff a dŵr, ymhlith mathau eraill o seilwaith. Rhaid i ddatblygwyr gael CS ar gyfer PSA, a bwriedir i'r CS gynnwys yr amrywiaeth lawn o awdurdodiadau sy'n ofynnol i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo.

## Pennod 2 – Cymhwysedd Deddfwriaethol

2.1 Mae’r cymhwysedd deddfwriaethol gan Senedd Cymru (“y Senedd”) i wneud y darpariaethau yn y Bil yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("GoWA 2006") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

## Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

*Amcanion cyffredinol gweithredu'r polisi hwn drwy ddeddfwriaeth*

3.1 Mae sicrhau datblygiadau seilwaith mawr a charbon isel yn amserol ac effeithiol, a hynny yn y lleoliadau cywir, yn gofyn am drefniadau cydsynio symlach ac effeithlon.

3.2 Mae'r Bil yn cynnig newidiadau mawr i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cydsynio seilwaith yng Nghymru ac yn y môr tiriogaethol cyfagos i Gymru er mwyn darparu trefniadau cymesur a phwrpasol. Nod y ddeddfwriaeth arfaethedig yw creu proses gydsynio unedig ar gyfer prosiectau seilwaith yng Nghymru, gan symud i ffwrdd o'r trefniadau cydsynio presennol, sydd wedi dyddio i raddau helaeth ac sy'n annigonol, i fath newydd o gydsyniad sy'n cynnwys yr ystod lawn o awdurdodiadau sy'n ofynnol i alluogi gwaith datblygu.

3.3 Mae'r darpariaethau sydd yn y Bil yn ceisio diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, yn bennaf Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("DCGTh 1990"); Deddf Trydan 1989; Deddf Harbyrau 1964; Deddf Priffyrdd 1980 a Deddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 ("DTG"). Bydd y trefniadau newydd yn disodli, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, y trefniadau cydsynio presennol.

3.4 Er mwyn ymgymryd â datblygiad neu waith gyda'r nod o adeiladu a/neu newid defnydd i greu PSA, bydd CS yn ofynnol.

3.5 Amcan a diben cyffredinol y Bill fydd uno'r cyfundrefnau cydsynio presennol ar y sail ganlynol:

- *Cysondeb* – Er mwyn galluogi'r cyhoedd a datblygwyr i ddefnyddio un broses ar draws pob math o seilwaith, gan ddarparu effeithlonrwydd gweinyddol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a bod y rhai sy'n ymwneud â'r broses yn gallu dod yn gyfarwydd â hi, a fydd yn lleihau oedi.
- *Sicrwydd* – I roi sicrwydd o ran amserlenni i bawb sy'n rhan o'r broses, fel bod y cyhoedd yn glir ynghylch pryd y gwneir penderfyniadau, ac nad yw achosion yn cael eu hestyn yn ddiangen, ac i alluogi datblygwyr i gynllunio prosiectau gyda mwy o gywirdeb.
- *Gobaith o lwyddiant* – I ddarparu fframwaith strategol a pholisi clir y bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unol ag ef, er mwyn galluogi datblygwr i wybod a oes disgwyl i'r cais fod yn llwyddiannus cyn gwneud cais am gydsyniad.
- *Ansawdd ceisiadau* – I ddarparu'r gofynion y bydd rhaid eu bodloni fan lleiaf o ran ymgynghori cyn ymgeisio a chyflwyno cais er mwyn galluogi'r rhai sy'n

gwneud penderfyniadau i ganfod yn well effeithiau datblygiad o'r cychwyn cyntaf, gan hefyd ddarparu gwybodaeth fwy gwybodus i'r cyhoedd.

- *Dryswch* – I ddarparu proses fwy cyson a chynhwysol, sy'n galluogi'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r broses gynllunio i ymwneud yn fwy effeithiol â hi.
- *Cymhlethdod* – I alluogi datblygwr i gael yr holl awdurdodiadau a chydsyniadau y mae eu hangen arno i roi prosiect ar waith, gan gael gwared ar yr angen i'r cyhoedd ymwneud â sawl phroses gydsynio, a lleihau'r costau cyffredinol i bawb.

*<u>Problemau/Anghysonderau gyda'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol</u>*

3.6 Roedd Deddf Cymru 2017 wedi datganoli'r broses o roi cydsyniad i orsafoedd cynhyrchu rhwng 50 Megawat ("MW") a 350MW, yn ogystal â llinellau trydan uwchben cysylltiedig hyd at a chan gynnwys 132 Cilofolt ("KV"), i Weinidogion Cymru. Gwnaeth hynny drwy gael gwared ar y broses o gael cydsyniad ar gyfer seilwaith ynni datganoledig o dan broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Deddf Cynllunio 2008, a'i gosod mewn cyfundrefnau sy'n bodoli eisoes.

3.7 Rhoddir cydsyniad ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir rhwng 50MW a 350MW (ac eithrio gorsafoedd ynni gwynt ar y tir, sydd eisoes wedi'u datganoli) yn ogystal â llinellau trydan uwchben cysylltiedig o dan DCGTh 1990. Gwnaeth Deddf Cymru 2017 hefyd ddychwelyd y broses gydsynio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y môr rhwng 1MW a 350MW i Ddeddf Trydan 1989, a'r broses gydsynio ar gyfer pob porthladd a harbwr[1] datganoledig i Ddeddf Harbyrau 1964. Mae hyn yn ategu nifer o gyfundrefnau presennol i gydsynio seilwaith sydd eisoes wedi'i ddatganoli gan gynnwys argaeau a chronfeydd dŵr a seilwaith trafnidiaeth megis ffyrdd, meysydd awyr a rheilffyrdd.

3.8 Gwneir ceisiadau o dan y cyfundrefnau hyn i Weinidogion Cymru yn uniongyrchol. Mewn rhai achosion, caiff datblygiad ei hyrwyddo gan Weinidogion Cymru. Mae gweithdrefnau'n amrywio yn ôl y gyfundrefn. Ar gyfer prosiectau arbennig o fawr, mae sawl cam i benderfyniad, ac yn aml bydd angen sawl cydsyniad ar ddatblygiad, ac yna maent yn mynd rhagddo gyda'i gilydd.

3.9 Ar gyfer rhai datblygiadau, efallai y bydd gofynion ar gyfer ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio. Yn dilyn hyn, gwneir cais i Weinidogion Cymru o dan y pwerau statudol. Yn gyffredinol, bydd archwiliad gan Arolygydd Cynllunio annibynnol yn dilyn hynny, a allai gynnwys ymchwiliad cyhoeddus. Bydd yr Arolygydd yn llunio argymhellion i Weinidogion Cymru, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Er mai dyma'r dull cyffredinol o ran ceisio cydsyniad ar

[1] Mae adran 29 ac adran 32 o Ddeddf Cymru 2017 yn eithrio 'porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl' o'r rhai sydd wedi'u datganoli. Mae un porthladd o'r fath yn yng Nghymru, sef porthladd Aberdaugleddau.

gyfer datblygu seilwaith, mae'r gwahaniaethau rhwng cyfundrefnau wedi parhau ac ehangu ymhellach yn sgil datganoli seilwaith ynni o dan Ddeddf Cymru 2017. Mae hyn wedi arwain at nifer o anghysondebau rhwng cyfundrefnau cydsynio ar gyfer datblygiadau y mae eu heffaith yn debyg ac yn gofyn am awdurdodiadau tebyg.

*Mynd i’r afael â’r broblem*

3.10 Yn aml gall y broses gydsynio bresennol fod yn feichus a chymryd hyd sylweddol ac anrhagweladwy o amser i'w benderfynu, o ystyried nad oes amserlen statudol ar gyfer y prosesau presennol. Gall hyn greu ansicrwydd i bawb sydd ynghlwm wrth y broses, gan gyflwyno costau sylweddol yn ogystal â malltod cynllunio posibl. Ar ben hynny, gall yr oedi cyn darparu seilwaith allweddol effeithio’n niweidiol ar gymunedau, busnesau, yr economi a'r amgylchedd, ac mewn rhai achosion, atal datblygiad yn y dyfodol. Gall hyn fygwth gallu Cymru i ddarparu'r seilwaith angenrheidiol i barhau i ddatblygu a denu rhagor o fuddsoddiadau.

3.11 Oherwydd hyd anrhagweladwy amser a chost archwiliad gall fod yn anodd i gyfranogwyr, megis Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau), ymgyngoreion a'r gymuned gymryd rhan yn effeithiol. Ar ben hynny, gall bodolaeth prosesau gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o seilwaith fod yn ddryslyd. Mae hyn yn aml yn golygu mai’r rhai sydd â’r mwyaf o adnoddau a gwybodaeth sy’n ymwneud â’r broses gydsynio, a gellid gweld hyn yn annheg.

*Cysondeb*

3.12 Mae gan y cyfundrefnau presennol lefelau gwahanol o gysondeb a gallant fod yn ddryslyd, oherwydd faint o ddeddfwriaeth gysylltiedig sydd wedi'i haddasu'n sylweddol. Sefydlwyd rhai cyfundrefnau cydsynio mor gynnar â 1964 ac nid ydynt yn briodol bellach ar gyfer cydsynio seilwaith ar raddfa fawr. Bydd mwy o gysondeb yn arwain at wneud penderfyniadau mwy cymwys a chael gwared ar oedi yn y broses.

*Sicrwydd*

3.13 Nid oes gan lawer o gyfundrefnau cydsynio presennol amserlenni penderfynu pendant a gellir eu beirniadu am fod yn aneffeithlon. Gall hyn arwain at faterion yn cael eu hadrodd, eu datblygu a'u lliniaru yn ystod yr archwiliad, sy'n broses lafurus ac nid yw'n annog ymgynghori effeithiol cyn ymgeisio. Pan fo angen mwy nag un cydsyniad ar ddatblygiad, bydd ond yn symud ymlaen ac yn cael ei weithredu mor gyflym â'r cydsyniad arafaf i'w benderfynu.

*Gobaith o lwyddiant*

3.14 I lawer o gyfundrefnau, nid oes polisi clir yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau. Gall hyn arwain at gymhwyso pwyslais neu ddehongliad gwahanol o bolisi, neu ei ddefnyddio’n anghyson fesul achos, a gallai roi ansicrwydd i ymgeiswyr posib ynghylch sail y polisi dros ddatblygu. Gall absenoldeb fframwaith polisi clir annog pobl i beidio â buddsoddi. Gall hyn hefyd achosi oedi sylweddol adeg archwiliad.

*Ansawdd ceisiadau*

3.15 Er bod eithriadau, nid oes proses wirio na phwyso a mesur ar bob achlysur i sicrhau bod ceisiadau'n barod i safon ddigonol i ganiatáu archwiliad trylwyr. Ar ben hynny, nid yw ymgynghoriadau cyn ymgeisio gydag ymgyngoreion statudol a chymunedau lleol yn cael eu cynnal yn gyffredinol. Gall hyn arwain at aelodau'r cyhoedd weithiau'n teimlo nad ydynt wedi ymwneud â datblygiad prosiect. Gall archwiliadau fod yn heriol oherwydd gall materion anhysbys godi yn ystod ymchwiliad. Gall lliniaru ar gyfer y materion hynny fod yn gostus i'r ymgeisydd.

*Dryswch*

3.16 Mae cyfundrefnau cydsynio presennol yn aml yn canolbwyntio ar a fydd gwrthwynebiadau yn sbarduno'r angen am ymchwiliad cyhoeddus. Gall prosesau o'r fath fod yn gyfreithiol ac yn wrthwynebol, a allai fod yn ddigon i godi ofn ar y rhai sy'n ymwneud â'r broses. Felly mae angen prosesau mwy cynhwysol i ganiatáu cynnig ac ystyried safbwyntiau gwerthfawr.

*Cymhlethdod*

3.17 Nid yw cydsyniad datblygu o reidrwydd yn golygu y gall y gwaith adeiladu ddechrau ar unwaith. Ar gyfer seilwaith mawr mae angen cydsyniadau, trwyddedau neu awdurdodiadau pellach yn aml. Gall y diffyg cydsyniad unedig hwn achosi dyblygu gwaith. Gall hyn gynyddu costau ceisiadau a bod yn rhwystr i ddatblygiad, ac achosi rhwystredigaeth a dryswch i'r rhai sy'n ymwneud â’r broses.

*<u>Gwelliannau i’r sefyllfa bresennol a galluogi sectorau i weithredu’n fwy effeithlon</u>*

3.18 Er mwyn gwella'r sefyllfa bresennol, mae angen symleiddio sut mae cydsyniadau yn cael eu rhoi drwy greu ‘siop un stop’, lle gellir cynnwys ceisiadau ar gyfer amrywiaeth o awdurdodiadau neu gymeradwyaethau mewn un cais ynghyd â'r prif gydsyniad datblygu. Bydd proses bwrpasol yn

cynorthwyo Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniadau ar anghenion seilwaith Cymru ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Bydd hefyd yn sefydlu dyheadau Llywodraeth Cymru i ymgymryd â phwerau datganoledig pellach mewn perthynas ag ynni a seilwaith arall.

3.19 Bydd proses gydsynio unedig yn unioni rhai o'r materion gyda chyfundrefnau cydsynio tameidiog (er enghraifft, datblygiad sy'n pontio ardaloedd ar y tir ac ar y môr, megis morlynnoedd llanw a newidiadau i harbyrau, ac sydd ag awdurdodaethau gwahanol ac felly mae angen nifer o gydsyniadau), a bydd yn sicrhau dull mwy hawdd ei ddefnyddio ar gyfer datblygwyr a chymunedau. Byddai cael proses unedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys cydsyniadau eraill ac awdurdodiadau sy'n ofynnol mewn dull 'siop un stop', sy'n hanfodol ar gyfer darparu seilwaith yng Nghymru.

3.20 Ystyriwyd defnyddio'r cyfundrefnau presennol, a hynny gyda gwelliannau, yn erbyn y potensial i gyflwyno trefniadau newydd. Mae cymhariaeth o fanteision y ddau wedi'i nodi isod:

| Manteision defnyddio’r cyfundrefnau cydsynio presennol. | Manteision cyflwyno trefniadau cydsynio pwrpasol. |
|---|---|
| Mae'n debygol y bydd datblygwyr yn gyfarwydd â rhai o'r cyfundrefnau cydsynio presennol, gan gynnwys Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (“DAC”), gorchmynion Diwygio Harbyrau, gorchmynion Deddf Priffyrdd a chydsyniadau o dan y Ddeddf Trydan. | Gallai Cymru sicrhau mantais wrth gael cyfundrefn gydsynio fodern a chyflymach, sy'n cynyddu sicrwydd, yn cynhyrchu penderfyniadau amserol ac yn annog datblygiadau ynni a seilwaith priodol. Mae hyn yn dileu natur anrhagweladwy y trefniadau presennol. |
| Gellir newid y cyfundrefnau presennol rhywfaint i alluogi symleiddio, ac felly arbed amser a chost i bob parti. | Gellid sicrhau mwy o gysondeb ar draws y maes cydsynio ynni a mathau eraill o seilwaith mawr yng Nghymru, sy'n gadael datblygwyr heb fawr o amheuaeth ynghylch y broses gywir ac yn darparu effeithlonrwydd gweinyddol. Byddai dewis proses o'r fath yn anfon y neges bod Cymru ar agor i fusnes. |
| Dim ond nifer bach o brosiectau sy'n ceisio cydsyniad ar hyn o bryd. Byddai'r dull hwn yn sicrhau llawer llai o aflonyddwch yn y tymor byr. | Gall cadw’r cyfundrefnau presennol, sy'n aml-haenog ac o dan Ddeddfau gwahanol, fod yn ddryslyd i randdeiliaid. Gallai cyfundrefn gydsynio newydd, unedig ganiatáu i gydsyniadau cysylltiedig neu ategol gael eu cynnwys mewn un cydsyniad. Mae'r dull gweithredu 'siop un stop' yn cael ei brofi a'i gefnogi gan y diwydiant datblygu yn Lloegr. Ni fyddai sefydlu proses debyg angen fawr o addasu gan ddatblygwyr. |

| | |
|---|---|
| | Gellir cynhyrchu proses gydsynio fwy hyblyg a all ymateb yn well i newidiadau, heriau a chostau yn y dyfodol. |
| | Dysgwyd gwersi o gael trefn gydsynio dameidiog yng Nghymru. Gall cyfundrefn gydsynio dameidiog ac un nad yw’n unedig arwain at awdurdodiadau a thrwyddedau eraill yn oedi datblygiad rhag cael ei weithredu. |
| | Mae potensial i gyflwyno amserlen statudol ar gyfer penderfynu ar brosiectau seilwaith yn gyffredinol, a fydd yn rhoi mwy o sicrwydd i'r diwydiant datblygu. |
| | Mae potensial i gyflwyno polisi statudol cydnaws sy'n rhoi sicrwydd o ran gwneud penderfyniadau. |

*Pwy neu beth y mae’r ddeddfwriaeth yn effeithio arno. A fydd y ddeddfwriaeth yn gwella mynediad neu ganlyniadau ar gyfer adrannau difreintiedig o gymdeithas neu rai sydd wedi’u heithrio*

3.21 Disgwylir i’r broses newydd fod yn berthnasol i’r categorïau seilwaith ynni, trafnidiaeth, gwastraff a dŵr yn bennaf, gyda’r trothwyon lleiaf yn gofyn am gynnwys y seilwaith mwyaf arwyddocaol yn unig.

3.22 Bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio ar bawb sy'n ymwneud â'r system gynllunio, gan gynnwys ymgeiswyr, awdurdodau penderfynu, ymgyngoreion a chymunedau. Yr amcan yw gwella mynediad i'r system gynllunio i bawb drwy symleiddio a chyfuno'r cyfundrefnau tameidiog presennol.

3.23 Diben y Bil yw darparu canlyniadau mwy cyson a thryloyw wrth seilio penderfyniadau ar bolisi clir sydd eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Y bwriad yw y bydd y broses yn electronig i raddau helaeth, gan alluogi'r rhai sydd ag anhawster cael mynediad at wybodaeth ffisegol i ymwneud â'r broses, gan ddarparu'r mesurau diogelu perthnasol i'r rhai sydd ond yn cyrchu gwybodaeth yn ei ffurf ffisegol.

3.24 Ar ben hynny, bwriad y Bil yw cyfuno nifer o wahanol fathau o gydsyniad i greu un broses, a fydd yn rhoi cyfle i randdeiliaid ddod yn gyfarwydd â hi.

*Y risgiau os na fydd y ddeddfwriaeth hon yn cael ei gwneud*

3.25 Mae gan gyfundrefnau cydsynio presennol eu hanfantais eu hunain. Er enghraifft, mae'r broses DAC yn gyfyngedig o ran cwmpas, dim ond hyn a hyn a hyblygrwydd sydd ar gyfer newidiadau, a dim ond ystod fach o gydsyniadau eilaidd y gellir ymgeisio amdanynt ar yr un pryd ac nid ydynt yn rhan o'r prif benderfyniad. Ar ben hynny, nid oes gan y broses bwerau caffael gorfodol. Yn aml, rhoddir awdurdodiadau eraill ar gyfer seilwaith megis harbyrau, priffyrdd a rheilffyrdd fel offeryn statudol a all ychwanegu amser a chost ychwanegol at y mathau hyn o gydsyniad, ac maent yn brosesau technegol a all gymryd cryn dipyn o amser.

3.26 Ni all defnyddio’r prosesau presennol ddarparu'r dull 'siop un stop' y mae'r diwydiant datblygu'n ei chefnogi, ac sydd mewn grym ar gyfer prosiectau heb eu datganoli yn ogystal â phrosiectau yn Lloegr. Byddai’n naturiol cymharu â’r sefyllfa gyfatebol dros y ffin, a byddai gan Loegr fantais gystadleuol sylweddol o ran rhwyddineb defnyddio prosesau cydsynio seilwaith mawr. Byddai defnyddio'r trefniadau presennol yn sicrhau bod y problemau presennol gyda’r prosesau cydsynio yn parhau, a gallai arwain at oedi neu atal datblygiad yng Nghymru.

3.27 Yn y pen draw, byddai methu â darparu proses gydsynio wirioneddol unedig yn sicrhau bod Cymru yn lle llai deniadol i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith ar raddfa fawr.

# Pennod 4 – Ymgynghori

4.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad “Newidiadau i’r broses o roi caniatâd seilwaith: Tuag at sefydlu proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru” rhwng 30 Ebrill a 23 Gorffennaf 2018.

4.2 Roedd yr ymgynghoriad wedi cynnwys rhanddeiliaid i sefydlu proses bwrpasol ar gyfer rhoi cydsyniad seilwaith a cheisio barn ar drefniadau interim hyd nes bod proses bwrpasol ar gyfer rhoi cydsyniad seilwaith yn ei lle.

4.3 Nodwyd cyfanswm o 22 o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori, gyda ffurflen safonol yn cael ei darparu i hwyluso ymatebion. Mynegwyd sylwadau hefyd y tu allan i’r cwestiynau safonol.

4.4 Ar 30 Ebrill 2018, cafodd dros 300 o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau eu hysbysu drwy e-bost bod yr ymgynghoriad wedi’i gyhoeddi. Tynnwyd y rhain o'r rhestr ymgynghori graidd sydd gan Gyfarwyddiaeth Cynllunio Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chyrff eraill a fynegodd ddiddordeb. Roedd hyn yn cynnwys yr holl ACLlau yng Nghymru, cyrff cyhoeddus, grwpiau diddordeb arbennig a grwpiau eraill. Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru.

4.5 Daeth 46 o ymatebion i’r ymgynghoriad i law. Gofynnwyd i’r ymatebwyr gysylltu eu hunain ag un o chwe chategori ymateb eang. Mae Tabl 1 yn dangos dadansoddiad o’r ymatebwyr.

**Tabl 1 – Dadansoddiad o’r Ymatebwyr**

| Categori | Nifer | % y cyfanswm |
|---|---|---|
| Ymgynghorwyr Busnes / Cynllunio | 10 | 22% |
| Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 10 | 22% |
| Asiantaeth Llywodraeth/Corff Sector Cyhoeddus Arall | 12 | 26% |
| Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant | 9 | 20% |
| Y Sector Gwirfoddol | 2 | 4% |
| Eraill (grwpiau eraill nas rhestrir) | 3 | 6% |

4.6 Cafwyd cytundeb cyffredinol ag egwyddorion cyfundrefn gydsynio unedig. Fodd bynnag, awgrymodd yr ymatebwyr fod angen mwy o fanylion am sut y byddai polisi a deddfwriaeth yn dylanwadu ar y broses gydsynio. Codwyd sawl ymholiad a mater mewn perthynas ag egwyddorion penodol.

4.7 Roedd y mwyafrif llethol yn cytuno â’r cynnig ac o blaid disodli'r broses DAC a nodir o dan DCGTh1990 gyda chyfundrefn gydsynio hollol newydd. Er yn gytûn, dywedodd yr ymatebwyr fod angen mwy o fanylion am sut y byddai cyfundrefn gydsynio unedig yn gweithredu’n ymarferol. Dywedodd yr ymatebwyr fod yn rhaid i unrhyw newidiadau sicrhau hyblygrwydd, rôl gryfach i gymunedau ac ni ddylai fod yn orgymhleth na chostus i ymgeiswyr.

4.8 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai cyflwyno trothwyon 'dewisol' yn helpu i hyrwyddo a sicrhau hyblygrwydd yn y broses gydsynio. Daeth ymatebwyr hefyd i'r casgliad y byddai rhagor o fanylion a chanllawiau yn ymwneud â throthwy dewisol yn fuddiol i'r diwydiant datblygu. Roedd ACLlau yn arbennig o gadarnhaol ynghylch yr egwyddor o drothwyon dewisol ar gyfer PSAau, gan ddweud ei fod yn gysur bod cyfnodau penderfynu ACLlau ar gyfer rhai mathau o ddatblygiad yn gallu bod yn gyflymach na'r broses DAC.

4.9 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno ac yn cefnogi'r cynnig i Weinidogion Cymru benderfynu yn y pen draw fesul achos a yw PSA dewisol yn gymwys felly. Roedd ansicrwydd ynglŷn â phwy wnaeth y penderfyniad terfynol ynghylch p’un a yw datblygiad arfaethedig yn gymwys fel PSA ai peidio drwy'r llwybr trothwy 'dewisol'.

4.10 Roedd y mwyafrif llethol yn cytuno â’r cynnig ac o blaid i ddatblygiad sydd wedi’i ddynodi’n ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol gael ei benderfynu ar y lefel genedlaethol. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am eglurhad pellach ar sut y byddai proses y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a’r broses PSA yn rhyngweithio â'i gilydd.

4.11 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r trothwyon gorfodol a dewisol arfaethedig, er bod rhai ymatebwyr yn awgrymu gwelliannau.

4.12 Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i gael gwared ar gydsyniad Deddf Trydan 1989 ar gyfer pob datblygiad yn ardal ar y môr Cymru, lle bo modd, a rhoi'r caniatâd hwn yn y broses CS unedig. Dywedodd ACLlau fod y system gydsynio arfaethedig yn cymryd lle Deddf Trydan 1989 yn ddigonol.

4.13 Roedd cefnogaeth gyffredinol i CSau fod yn gydsyniadau confensiynol ac fel offerynnau statudol pan fo angen, gan awgrymu y byddai hynny yn ychwanegu sicrwydd, cymesuredd a hyblygrwydd, gan gydnabod cymhlethdodau a gofynion cydsynio gwahanol datblygiad. Roedd barn gyffredinol bod angen eglurhad pellach ar ffurf a chynnwys cydsyniadau confensiynol ac offerynnau statudol.

4.14 Roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer rhoi rhai dosbarthiadau neu fathau o PSA ar lwybr carlam, er mwyn sicrhau proses fwy cymesur o wneud penderfyniadau. Yn ogystal, roedd barn gyffredinol bod angen ystyried ymhellach y cysyniad o lwybr carlam.

4.15 Yn gyffredinol, cytunodd yr ymatebwyr gyda'r opsiwn i ymgeiswyr resymoli'r gwahanol gydsyniadau eilaidd sydd eu hangen. Fodd bynnag, roedd consensws y dylai'r pwnc fod yn destun ymgynghori a datblygu pellach.

4.16 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a datganiadau polisi ar sail pwnc ddarparu'r sail polisi ar gyfer penderfynu ar ddatblygiadau seilwaith. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i rôl cynlluniau datblygu lleol.

4.17 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion ymgynghori cyn ymgeisio. Awgrymodd yr ymatebwyr fod angen mwy o wybodaeth am agweddau penodol, gan gynnwys ffioedd a materion trawsffiniol a bod yn rhaid i unrhyw ofynion fod yn ystyrlon.

4.18 Roedd cefnogaeth gyffredinol i gael gwared ar ymchwiliadau o'r broses ar gyfer penderfynu ynghylch CSau ac i wrandawiadau yn unig gael eu cynnal yn eu lle, er mwyn sicrhau cyfranogiad teg a chynhwysol, yn ogystal â'r gred ymhlith rhai ymatebwyr y gall ymchwiliadau fod yn hir ac yn estynedig, effeithio ar raglenni prosiect ac yn gostus. Fodd bynnag, roedd dewis ymhlith rhai ymatebwyr i gadw'r gallu i groesholi.

4.19 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r gallu i amrywio datblygiad yn ystod y broses benderfynu ac ar ôl rhoi cydsyniad. Awgrymwyd yn gyffredinol bod angen mwy o fanylion ac ystyriaeth ynghylch 'mân' amrywiadau a rhoi amrywiadau annadleuol ar lwybr carlam.

4.20 Roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer dynodi'r ACLl yn brif awdurdod gorfodi ar y tir, gyda Gweinidogion Cymru yn awdurdod perthnasol ar y môr. Dywedodd yr ymatebwyr fod angen mwy o wybodaeth mewn perthynas â gorfodi ac awdurdodaethau ar y tir ac ar y môr.

4.21 Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w weld yma: [https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-11/ymgynghoriad-isadeiledd-crynodeb-o-ymatebion.pdf](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-11/ymgynghoriad-isadeiledd-crynodeb-o-ymatebion.pdf)

4.22 Mae'r darpariaethau yn y Bil yn cyd-fynd â'r egwyddorion a nodir ym mhapur yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018, yr oedd yr ymatebwyr yn gyffredinol o'u plaid. Ar ôl yr ymgynghoriad, gwnaeth blaenoriaethau eraill y Llywodraeth, megis gwneud trefniadau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE a'r ymateb i bandemig Covid arwain at ailflaenoriaethu'r holl adnoddau a'r rhaglen ddeddfwriaethol. Fodd bynnag, nid yw nod ac amcanion y drefn gydsynio bwrpasol wedi newid, a chadarnhawyd hynny drwy ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid.

4.23 Mae'r cynigion penodol yn y Bil wedi cael eu mireinio a'u hehangu ymhellach, megis y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer sut mae ceisiadau am CS yn cael eu cyflwyno, yn cael cyhoeddusrwydd, yn cael eu harchwilio a'u penderfynu. Fodd bynnag, bydd llawer o'r elfennau gweithdrefnol manwl yn cael eu cadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth, a fydd yn destun ymgynghoriad pellach.

4.24 Oherwydd hyd a natur dechnegol y Bil, fe'i hystyriwyd yn fwy priodol ac effeithlon i gynnal mwy o ymgysylltu a thrafodaeth barhaus â rhanddeiliaid allweddol ar elfennau penodol o'r Bil i lywio ei ddatblygiad, yn hytrach na chyhoeddi Bil drafft fel rhan o ymgynghoriad llawn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r isod:

- trafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas ag elfennau o gydsynio ar y môr, megis y gofyniad am adroddiadau effaith ar y môr;
- cyfarfodydd gydag adran Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i drafod y weithdrefn ymgeisio arfaethedig, yn benodol, sut y dylid archwilio a phenderfynu ar geisiadau;
- cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr o'r Grid Cenedlaethol a Scottish Power i drafod materion cyfredol o ran cydsyniad ar gyfer llinellau trydan uwchben.

## Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi dyfarniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau, meini prawf a gyhoeddir) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

(i). y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;

(ii). ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;

(iii). priodoldeb y pŵer dirprwyedig;

(iv). y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

5.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir beth fydd union natur yr ymgynghori ar ôl i'r cynigion gael eu ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Seilwaith (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| RHAN 1 – PROSIECTAU SEILWAITH ARWYDDOCAOL (PSA) | | | | | |
| Adran 17(1)(a) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn briodol i ddiogelu'r Bil yn y dyfodol ac i ymateb yn effeithlon i newidiadau i ddeddfwriaeth y DU a datblygiadau technolegol yn y diwydiant. Ystyrir bod hyn yn briodol er budd y broses gydsynio oherwydd y gallai fod angen addasu'r rhestr o brosiectau cymwys yn amlach nag y byddai'n synhwyrol i'r Senedd ddeddfu.<br><br>Mae'r rheoliadau yn gyfyngedig o ran cymhwysedd tiriogaethol a'r math o brosiect neu amrywiad ar brosiect y gellir ei fewnosod. | Cadarnhaol | Mae'r pŵer hwn i ddiwygio, amrywio neu ddileu darpariaeth bresennol mewn Deddf gan y Senedd a Deddfau gan Senedd y Deyrnas Unedig, felly bydd angen rhywfaint o waith craffu ychwanegol arno. |
| Adran 17(1)(b) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn briodol i ddiogelu'r Bil yn y dyfodol ac i ymateb yn effeithlon i | Cadarnhaol | Mae'r pŵer hwn i ddiwygio, amrywio neu ddileu darpariaeth |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | newidiadau i ddeddfwriaeth y DU a datblygiadau technolegol yn y diwydiant. Ystyrir bod hyn yn briodol er budd y broses gydsynio oherwydd y gallai fod angen addasu'r rhestr o brosiectau cymwys yn amlach nag y byddai'n synhwyrol i'r Senedd ddeddfu.<br><br>Mae'r rheoliadau yn gyfyngedig o ran cymhwysedd tiriogaethol a'r math o brosiect neu amrywiad ar brosiect y gellir ei fewnosod. | | bresennol mewn Deddf gan y Senedd a Deddfau gan Senedd y Deyrnas Unedig, felly bydd angen rhywfaint o waith craffu ychwanegol arno. |
| RHAN 2 – GOFYNIAD AM GYDSYNIAD SEILWAITH | | | | | |
| Adran 21(1)(a) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn briodol i ddiogelu'r Bil yn y dyfodol ac i ymateb yn effeithlon i newidiadau i ddeddfwriaeth y DU. Gallai tystiolaeth hefyd ddod i'r amlwg o ofynion y diwydiant a pholisïau ac amcanion y llywodraeth yn y | Cadarnhaol | Mae'r pŵer hwn i ddiwygio, amrywio neu ddileu darpariaeth bresennol mewn Deddf gan y Senedd a Deddfau gan Senedd y Deyrnas Unedig, felly bydd angen rhywfaint o |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | dyfodol, y dylid cynnwys mathau pellach o gydsyniad yn y broses gydsynio hon neu amrywio'r achosion mewn perthynas â pha fath o gydsyniad sydd o fewn y broses hon.<br><br>Gallai fod angen addasu'r ymatebion i’r dystiolaeth sy’n dod i’r amlwg yn amlach nag y byddai'n synhwyrol i'r Senedd ddeddfu. | | waith craffu ychwanegol arno. |
| Adran 21(1)(b) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn briodol i ddiogelu'r Bil yn y dyfodol ac i ymateb yn effeithlon i newidiadau i ddeddfwriaeth y DU. Gallai tystiolaeth hefyd ddod i'r amlwg o ofynion y diwydiant a pholisïau ac amcanion y llywodraeth yn y dyfodol, y dylid cynnwys mathau pellach o gydsyniad yn y broses gydsynio hon neu | Cadarnhaol | Mae'r pŵer hwn i ddiwygio, amrywio neu ddileu darpariaeth bresennol mewn Deddf gan y Senedd a Deddfau gan Senedd y Deyrnas Unedig, felly bydd angen rhywfaint o waith craffu ychwanegol arno. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | amrywio'r achosion mewn perthynas â pha fath o gydsyniad sydd o fewn y broses hon.<br><br>Gallai fod angen addasu'r ymatebion i'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn amlach nag y byddai'n synhwyrol i'r Senedd ddeddfu. | | |
| Adran 22(2)(c) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y bydd yn cynnwys manylion y terfynau i'r pŵer cyfarwyddo hwn. Ystyrir y bydd rheoliadau yn darparu'r math o hyblygrwydd sy'n ofynnol a fydd o fudd i'r broses gydsynio. | Cadarnhaol | Mae'r pŵer hwn yn ymwneud â nodi datblygiad fel prosiect seilwaith arwyddocaol trwy gyfarwyddyd. ond bydd angen rhywfaint o waith craffu ychwanegol arno. |
| Adran 26 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn cynnwys manylion | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a mater gweithdrefnol a |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | materion gweithdrefnol mewn cysylltiad â phwerau gwneud cyfarwyddydau o dan adrannau 22, 23 a 24.<br><br>Mae angen hyblygrwydd hefyd er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau gweithdrefnol os ystyrir eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol er budd y broses gydsynio. | | fydd yn nodi manylion pwerau gwneud cyfarwyddydau.<br><br>Gallai'r rhain fod yn destun newid yn y dyfodol gan ddibynnu ar ba ofynion gweithdrefnol sy'n berthnasol neu'n briodol ar y pryd ac felly mae hyblygrwydd yn ofynnol i ddeddfu'n gyflym os oes angen. |
| RHAN 3 – YMGEISIO AM GYDSYNIAD SEILWAITH | | | | | |
| Adran 27(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn cynnwys manylion sylweddol sy’n ymwneud â gwasanaethau cyn ymgeisio. Mae angen hyblygrwydd hefyd er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau gweithdrefnol, neu newidiadau i ba wybodaeth | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a mater gweithdrefnol a fydd yn nodi pryd a sut y mae'n rhaid darparu gwasanaethau cyn ymgeisio, pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | sy’n ofynnol ei chyflwyno, os ystyrir eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol er budd y broses gydsynio. | | mewn ymateb gwasanaeth cyn ymgeisio a sut y rhoddir cyhoeddusrwydd i wasanaethau o'r fath ymhlith y cyhoedd yn ehangach.<br><br>Gallai'r rhain fod yn destun newid yn y dyfodol gan ddibynnu ar ba wybodaeth / gofynion gweithdrefnol sy'n berthnasol neu'n briodol ar y pryd ac felly mae hyblygrwydd yn ofynnol i ddeddfu'n gyflym os oes angen. |
| Adran 28(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y bydd y gofynion ar gyfer cael gwybodaeth am fuddiannau mewn tir drwy gyflwyno | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a mater gweithdrefnol a fydd yn nodi gofynion i ymgeiswyr gyflwyno |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | hysbysiad yn cynnwys materion manwl. Er enghraifft, ar gynnwys hysbysiad ac amserlenni ar gyfer ymateb. | | hysbysiad ar fuddiannau mewn tir a fyddai'n cael eu heffeithio gan CS arfaethedig. Gall y manylion arfaethedig sydd i'w rhagnodi fod yn destun newid yn y dyfodol; er enghraifft os gwneir newidiadau i'r broses gydsynio drosfwaol neu os ystyrir y dylid ychwanegu neu ddiwygio manylion penodol i'r hyn a gynhwysir mewn hysbysiad. Felly, mae'n bwysig ein bod yn cadw'r hyblygrwydd angenrheidiol i ddeddfu'n gyflym, pe bai'r angen yn codi i addasu materion gweithdrefnol neu wybodaeth benodedig. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Adran 29(1)(d) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y gallai fod angen diwygio'r rhestr o'r personau hynny y mae'n rhaid eu hysbysu am gais arfaethedig yn y dyfodol er mwyn cynnwys personau newydd neu wahanol. | Negyddol | Mae'r rhestr o bersonau eraill y mae'n rhaid eu hysbysu am gais arfaethedig yn fân fater technegol a gweithdrefnol ac mae hyblygrwydd yn ofynnol i ddeddfu'n gyflym, pe bai angen yn codi i ddiwygio'r rhestr o'r personau hynny. |
| Adran 29(2) a (3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod angen i'r manylion sy'n nodi pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn ffurflen hysbysu cyn ymgeisio fod yn hyblyg er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau yn y dyfodol. | Negyddol | Mae hwn yn fanylyn cymharol fân sy'n nodi pa fanylion a gwybodaeth y mae'n rhaid i ymgeiswyr eu cynnwys fel rhan o'u ffurflen hysbysu cyn ymgeisio, gan gynnwys sut a phryd y mae hysbysiad i’w roi. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ni ddiweddaru'r rhestr hon ar fyr rybudd ac mae angen yr hyblygrwydd priodol arnom i wneud hynny, os ystyrir ei bod yn angenrheidiol i ddarpar ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn y dyfodol. |
| Adran 29(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd gall yr wybodaeth a gynhwysir mewn hysbysiad, yn ychwanegol at y cyfnod y mae'n rhaid ei roi, fod yn destun newid yn y dyfodol er mwyn bod o fudd i'r broses gydsynio ac mae angen hyblygrwydd er mwyn ymateb i'r newidiadau posibl hyn yn gyflym. | Negyddol | Mae hwn yn fân fater technegol a gweithdrefnol o fewn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol sy'n ymwneud â ffurf a chynnwys hysbysiad gan Weinidogion Cymru i ddarpar ymgeiswyr, pan fo eu hysbysiad cyn ymgeisio wedi'i |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | dderbyn, gan gynnwys sut y mae hysbysiad o'r fath i'w roi a'r cyfnod y mae'n rhaid ei roi. |
| Adran 30(2) a (3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y bydd y gofynion sy'n ymwneud ag ymgynghori cyn ymgeisio yn cynnwys lefel sylweddol o fanylion a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil. Mae hyn yn cynnwys; pwy y mae'n rhaid ymgynghori â hwy, sut mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal, amserlenni ar gyfer ymgynghori ac ymateb i ymgynghoriadau. | Negyddol | Mae'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio yn fân fater gweithdrefnol o fewn y cynllun deddfwriaethol ehangach.<br>Gall y manylion arfaethedig sydd i'w rhagnodi fod yn destun newid yn y dyfodol os ystyrir bod manylion penodol o bosibl heb gymaint o werth yn y broses ymgynghori ag y tybiwyd yn wreiddiol, neu os dylid ychwanegu manylion penodol. Felly, mae'n bwysig ein bod yn cadw'r hyblygrwydd angenrheidiol i |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddeddfu'n gyflym, pe bai'r angen yn codi i addasu materion gweithdrefnol neu wybodaeth benodedig. |
| Adran 31(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y bydd y broses ymgeisio yn cynnwys lefel sylweddol o fanylion, gan gynnwys ffurf a chynnwys cais a pha wybodaeth a dogfennau y mae'n rhaid iddynt gyd-fynd ag ef, sut y gwneir ceisiadau, y broses ddilysu, y weithdrefn ar gyfer amrywio neu dynnu cais yn ôl a'r cyfnod y mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau o'i fewn. | Negyddol | Ystyrir bod y broses ar gyfer cyflwyno a dilysu ceisiadau am CS yn fân fater gweithdrefnol , sydd hefyd yn cynnwys materion technegol amrywiol.<br>Gall y weithdrefn a'r wybodaeth arfaethedig sy'n ofynnol fod yn destun newid yn y dyfodol, os ystyrir y dylid ychwanegu neu dynnu gofynion penodol o'r rhestr wybodaeth sydd i'w chyflwyno, neu unrhyw faterion gweithdrefnol, gan ddibynnu ar faint o werth sydd iddynt. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Felly, mae'n bwysig ein bod yn cadw'r hyblygrwydd angenrheidiol i ddeddfu'n gyflym, pe bai'r angen yn codi i newid materion gweithdrefnol neu wybodaeth benodedig. |
| Adran 31(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y bydd y rhestr o swyddogaethau posibl y caniateir eu rhoi, ynghyd â'r rhestr o bersonau y caniateir rhoi swyddogaethau o'r fath iddynt, yn cyflwyno lefel sylweddol o fanylion a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil. | Negyddol | Mae'r rhestr o swyddogaethau posibl y caniateir eu rhoi, ynghyd â'r rhestr o bersonau y caniateir rhoi swyddogaethau o'r fath iddynt yn fân fater technegol ac mae angen hyblygrwydd i ddeddfu'n gyflym, pe bai'r angen yn codi i ddiwygio'r rhestr o swyddogaethau a / neu'r personau hynny y caniateir eu rhoi iddynt. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Adran 33(2)(c) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y gallai fod angen diwygio'r rhestr o'r personau hynny y mae'n rhaid eu hysbysu am gais arfaethedig yn y dyfodol er mwyn cynnwys personau newydd neu wahanol. | Negyddol | Mae'r rhestr o bersonau eraill y mae'n rhaid eu hysbysu am gais arfaethedig yn fân fater technegol a gweithdrefnol ac mae angen hyblygrwydd i ddeddfu'n gyflym, pe bai'r angen yn codi i ddiwygio'r rhestr o'r personau hynny. |
| Adran 33(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod nifer o ofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu sy'n ymwneud â cheisiadau, sydd hefyd yn amrywio gan ddibynnu pa un a yw datblygiad arfaethedig ar y tir neu ar y môr. Bydd hyn yn cyflwyno manylion sylweddol. | Negyddol | Ystyrir bod gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu cais yn fân fater gweithdrefnol o fewn y cynllun deddfwriaethol ehangach. At hynny, mae'n bosibl y bydd angen diwygio sut mae ceisiadau'n cael eu hysbysu a sut y caiff cyhoeddusrwydd eu |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | rhoi iddynt yn y dyfodol i sicrhau bod cynulleidfa ehangach yn cael gwybod amdanynt. Felly, mae angen y gallu i ddeddfu'n gyflym. |
| Adran 33(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod y dyddiad ar gyfer cael sylwadau sy'n ymwneud â chais yn fân fater technegol a allai fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol er mwyn cynnwys cyfnod amser gwahanol. | Negyddol | Mae'r dyddiad cau ar gyfer pryd y mae'n rhaid cael sylwadau mewn perthynas â chais yn fân fanylyn technegol a allai fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y broses gydsynio. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn cadw'r gallu i ddeddfu'n gyflym pan fo angen. |
| Adran 34 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y | Negyddol | Mae materion sy'n ymwneud â sut y |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | bydd y gofynion a gedwir ar gyfer rheoliadau yn cyflwyno lefel sylweddol o fanylion a bydd angen iddo hefyd fod yn hyblyg i ymateb i unrhyw newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol. | | caniateir i sylwadau sy’n ymwneud â chais gael eu gwneud a'r gofyniad i bersonau penodedig ymateb yn fân fater gweithdrefnol a thechnegol o fewn y cynllun deddfwriaethol ehangach. |
| Adran 35(4)(b) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod angen i'r gofynion ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn adroddiad ar yr effaith leol fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau mewn gofynion o'r fath yn y dyfodol. | Negyddol | Mae'r gofynion sy'n pennu ffurf a chynnwys adroddiad ar yr effaith leol yn fân fater technegol a gweithdrefnol a allai fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol i adlewyrchu gofynion sy'n newid. Felly, mae hyblygrwydd yn ofynnol i ddeddfu'n gyflym os oes angen. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 36(4)(b) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod angen i'r gofynion ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn adroddiad ar yr effaith ar y môr fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau mewn gofynion o'r fath yn y dyfodol. | Negyddol | Mae'r gofynion sy'n pennu ffurf a chynnwys adroddiad ar yr effaith ar y môr yn fân fater technegol a gweithdrefnol a allai fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol i adlewyrchu gofynion sy'n newid. Felly, mae hyblygrwydd yn ofynnol i ddeddfu'n gyflym os oes angen. |
| Adran 37(2) a (3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y bydd y gofynion ynghylch rhoi hysbysiad i Weinidogion Cymru ynghylch personau â buddiant mewn tir y byddai caffael gorfodol yn gymwys iddynt fel rhan o CS yn cynnwys materion manwl. Er enghraifft, yr wybodaeth sydd | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a mater gweithdrefnol a fydd yn nodi'r gofynion i ymgeiswyr roi hysbysiad i Weinidogion Cymru ynghylch buddiannau mewn tir. Gall y manylion arfaethedig sydd i'w rhagnodi fod yn destun newid yn y |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | i'w darparu ar yr unigolion hynny sydd â buddiant. | | dyfodol; er enghraifft os gwneir newidiadau i'r broses gydsynio drosfwaol neu os ystyrir y dylid ychwanegu neu ddiwygio manylion penodol o ran pa wybodaeth a ddarperir. Felly, mae'n bwysig ein bod yn cadw'r hyblygrwydd angenrheidiol i ddeddfu'n gyflym, pe bai'r angen yn codi i newid materion gweithdrefnol neu wybodaeth benodedig. |
| Adran 38 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y bydd y gofynion ar gyfer ymgynghori ar gais am gydsyniad seilwaith sy'n ymwneud â chaffael gorfodol ar ôl y cam cyflwyno yn | Negyddol | Mae'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad ar gais am gydsyniad seilwaith sy'n ymwneud â chaffael gorfodol ar ôl y cam cyflwyno yn fân fanylyn technegol a |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cynnwys materion manwl. Er enghraifft, ar y dogfennau y mae'n ofynnol eu darparu yn rhan o ymgynghoriad neu ar ei amserlen. | | mater gweithdrefnol o fewn y cynllun deddfwriaethol ehangach.<br>Gall y manylion arfaethedig sydd i'w rhagnodi fod yn destun newid yn y dyfodol os ystyrir bod manylion penodol o bosibl heb gymaint o werth yn y broses ymgynghori ag y tybiwyd yn wreiddiol, neu os dylid ychwanegu manylion penodol. Felly, mae'n bwysig ein bod yn cadw'r hyblygrwydd angenrheidiol i ddeddfu'n gyflym, pe bai'r angen yn codi i newid materion gweithdrefnol neu wybodaeth benodedig. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| RHAN 4 – ARCHWILIO CEISIADAU | | | | | |
| Adran 39(5) a (6) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod angen i drefniadau fod yn hyblyg i ymateb i unrhyw newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol a allai fod yn ofynnol i er mwyn cynnal archwiliadau o geisiadau yn effeithiol. | Negyddol | Ystyrir bod materion sy'n ymwneud â phenodi awdurdod archwilio yn dechnegol a gweithdrefnol. |
| Adran 41(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau am fod y dyddiad erbyn pryd y bydd yn rhaid penderfynu ar weithdrefn archwilio yn fân fater technegol a allai fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol er mwyn cynnwys cyfnod amser gwahanol. | Negyddol | Mae'r dyddiad cau ar gyfer penderfynu ar weithdrefn archwilio yn fân fanylyn technegol a allai fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y broses gydsynio. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn cadw'r gallu i ddeddfu'n gyflym pan fo angen. |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 41(6) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y gallai'r rhestr o bartïon rhagnodedig sy'n destun hysbysiad o weithdrefn archwilio fod angen ei diwygio yn y dyfodol i gynnwys partïon ychwanegol yn y rhestr. | Negyddol | Mae hysbysu partïon rhagnodedig o weithdrefn archwilio yn fân fater gweithdrefnol o fewn y cynllun deddfwriaethol ehangach. Mae angen hyblygrwydd hefyd i ddeddfu'n gyflym, pe bai angen diwygio'r rhestr o bartïon rhagnodedig yn y dyfodol. |
| Adran 42 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y bydd manylion sy'n ymwneud â'r weithdrefn archwilio yn cynnwys manylion sylweddol a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil. | Negyddol | Mae'r manylion ynghylch y weithdrefn archwilio yn fân faterion technegol a gweithdrefnol allai fod angen eu diwygio yn y dyfodol i ymateb i newidiadau o ran arferion proffesiynol. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn cadw'r |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | hyblygrwydd i ddeddfu'n gyflym. |
| Adran 46(6) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol. | Negyddol | Mae hwn yn fân fater gweithdrefnol o fewn y cynllun deddfwriaethol ehangach ac mae hyblygrwydd yn ofynnol i ddeddfu'n gyflym, pe bai'r angen yn codi i newid gweithdrefnau. |
| RHAN 5 – PENDERFYNU AR GEISIADAU AM GYDSYNIAD SEILWAITH | | | | | |
| Adran 53(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau mewn arferion gwaith yn y dyfodol. | Cadarnhaol | Byddai pwerau sydd wedi’u rhoi trwy reoliadau i awdurdod archwilio ar gyfer rhai mathau o geisiadau am gydsyniad seilwaith yn newid y weithdrefn ar gyfer penderfynu arnynt o dan broses gydsynio newydd. Ystyrir bod unrhyw newid i weithdrefn |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | math penodol o gais yn teilyngu rhywfaint o waith craffu ychwanegol. |
| Adran 55(d) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y bydd y materion pellach y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt wrth benderfynu ar gais yn cyflwyno lefel sylweddol o fanylion a bydd angen iddo hefyd fod yn hyblyg er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol. | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a all fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol i sicrhau effeithlonrwydd y broses gydsynio. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn cadw'r gallu i ddeddfu'n gyflym pan fo angen. |
| Adran 56(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y bydd materion pellach y caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod archwilio ystyried y cânt o hyn ymlaen eu diystyru wrth benderfynu ar gais yn cyflwyno lefel sylweddol o fanylion a bydd angen iddo fod | Cadarnhaol | Rheoliadau a fyddai’n newid, dileu neu’n diweddaru materion a enwir ar wyneb y Bil fel rhai y caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod archwilio eu diystyru wrth benderfynu ar gais |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | yn hyblyg hefyd er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol. | | am gydsyniad seilwaith. Ystyrir bod unrhyw reoliadau o’r fath yn bethau sy’n teilyngu elfen ychwanegol o graffu. |
| Adran 57(4)(a) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol. | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a all fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol i sicrhau effeithlonrwydd y broses gydsynio. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn cadw'r gallu i ddeddfu'n gyflym pan fo angen. |
| Adran 57(6) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol. | Cadarnhaol | Ni ddylid newid yr amserlen ragnodedig ar gyfer penderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith ond o dan amgylchiadau eithriadol ac felly fe’i ystyrir yn rhywbeth sy’n |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | teilyngu rhywfaint o waith craffu ychwanegol |
| Adran 58(2)(d) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd gallai'r rhestr o bartïon ychwanegol y'u hysbysir am benderfyniad gan Weinidogion Cymru fod angen ei newid yn y dyfodol er mwyn gallu ychwanegu partïon at y rhestr. | Negyddol | Mae hysbysu partïon rhagnodedig am benderfyniad yn fater gweithdrefnol mân o ystyried y ddeddfwriaeth ehangach. Rhaid wrth hyblygrwydd er mwyn gallu deddfu'n gyflym, os bydd angen newid y rhestr o bartïon rhagnodedig yn y dyfodol. |
| Adran 58(4)(d) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd gallai'r rhestr o bartïon ychwanegol y'u hysbysir am benderfyniad gan awdurdod archwilio fod angen ei newid yn y dyfodol er mwyn gallu ychwanegu partïon at y rhestr. | Negyddol | Mae hysbysu partïon rhagnodedig am benderfyniad yn fater gweithdrefnol mân o ystyried y ddeddfwriaeth ehangach. Rhaid wrth hyblygrwydd er mwyn gallu deddfu'n gyflym, os bydd angen newid y |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | rhestr o bartïon rhagnodedig yn y dyfodol. |
| Adran 58(6) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol. | Negyddol | Mae hwn yn fân fater gweithdrefnol o fewn y cynllun deddfwriaethol ehangach ac mae hyblygrwydd yn ofynnol i ddeddfu'n gyflym pe bai angen newidiadau gweithdrefnol i adlewyrchu arferion gwaith. |
| Adran 60(3)(d) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y gallai fod angen diwygio'r rhestr o'r personau hynny y mae'n rhaid iddynt gael copi o ddatganiad o resymau yn y dyfodol er mwyn cynnwys personau newydd neu wahanol. | Negyddol | Mae'r rhestr o bersonau eraill y mae'n rhaid iddynt gael copi o ddatganiad o resymau yn fân fater technegol a gweithdrefnol ac mae angen hyblygrwydd i ddeddfu'n gyflym, pe bai’r angen yn codi i ddiwygio'r rhestr o'r personau hynny. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| RHAN 6 – GORCHMYNION CYDSYNIAD SEILWAITH (CS) | | | | | |
| Adran 61(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn briodol i ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymateb yn effeithlon i newidiadau i ddeddfwriaeth y DU neu faterion sy'n dod i'r amlwg o weithredu’r Bil. Mae'n bosibl y bydd angen ei addasu'n amlach nag y byddai'n synhwyrol i'r Senedd ddeddfu.<br><br>Mae'r rheoliadau'n gyfyngedig o ran cymhwysedd tiriogaethol a'r math o brosiect neu amrywiad ar brosiect y gellir ei fewnosod. | Cadarnhaol | Mae'r pŵer hwn i ddiwygio, amrywio neu ddileu darpariaeth bresennol mewn Deddf gan y Senedd, felly bydd angen rhywfaint o waith craffu ychwanegol arno. |
| Adran 63(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn cynnwys manylion materion gweithdrefnol i'w dilyn ar gyfer awdurdodi caffael tir | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a mater gweithdrefnol a fydd yn nodi manylion ar gyfer awdurdodi |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | yn orfodol fel rhan o CS arfaethedig.<br><br>Mae angen hyblygrwydd hefyd i ymateb i unrhyw newidiadau gweithdrefnol os ystyrir eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol er budd y broses gydsynio. | | caffael tir yn orfodol fel rhan o CS arfaethedig.<br><br>Gallai'r manylion hyn fod yn destun newid yn y dyfodol gan ddibynnu ar ba ofynion gweithdrefnol sy'n berthnasol neu'n briodol ar y pryd ac felly, mae angen hyblygrwydd i ddeddfu'n gyflym os oes angen. |
| Adran 70(1) a (2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y bydd y gofynion ar gyfer hysbysu ynghylch caffaeliad gorfodol sy'n ffurfio rhan o CS yn cynnwys materion manwl. Er enghraifft, ar gynnwys hysbysiad. | Negyddol | Mae hwn yn fân fater technegol a gweithdrefnol a fydd yn nodi'r gofynion ar gyfer hysbysu ynghylch caffaeliad gorfodol sy'n ffurfio rhan o CS. Gall y manylion arfaethedig sydd i'w rhagnodi fod yn destun newid yn y dyfodol; er enghraifft os ystyrir y dylid |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ychwanegu neu ddiwygio manylion penodol i'r hyn a gynhwysir mewn hysbysiad. Felly, mae'n bwysig ein bod yn cadw'r hyblygrwydd angenrheidiol i ddeddfu'n gyflym, pe bai'r angen yn codi i addasu materion gweithdrefnol neu wybodaeth benodedig. |
| Adran 82(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn cynnwys manylion materion gweithdrefnol mewn cysylltiad ag is-adrannau (2) a (3).<br><br>Mae angen hyblygrwydd hefyd i ymateb i unrhyw newidiadau gweithdrefnol os ystyrir eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol er budd y broses gydsynio. | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a mater gweithdrefnol a fydd yn nodi manylion pwerau gwneud cyfarwyddydau.<br><br>Gallai'r rhain fod yn destun newid yn y dyfodol gan ddibynnu ar ba ofynion |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gweithdrefnol sy'n berthnasol neu'n briodol ar y pryd ac felly mae hyblygrwydd yn ofynnol i ddeddfu'n gyflym os oes angen. |
| Adran 82(2)(3) a (4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn cynnwys manylion materion gweithdrefnol mewn cysylltiad ag is-adrannau (2) a (3).<br><br>Mae angen hyblygrwydd hefyd i ymateb i unrhyw newidiadau gweithdrefnol os ystyrir eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol er budd y broses gydsynio. | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a mater gweithdrefnol a fydd yn nodi manylion pwerau gwneud cyfarwyddydau.<br><br>Gallai'r rhain fod yn destun newid yn y dyfodol gan ddibynnu ar ba ofynion gweithdrefnol sy'n berthnasol neu'n briodol ar y pryd ac felly mae hyblygrwydd yn ofynnol i ddeddfu'n gyflym os oes angen. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 83(4) | Gweinidogion Cymru | Yn ddarostyngedig i weithdrefn benodol a nodir yn is-adran (4) | Mae'r mater hwn yn ymwneud â chyflwyno gorchymyn CS ar ffurf offeryn statudol i'r Senedd. Bydd yn dilyn gweithdrefnau'r Senedd a'r manylebau sydd wedi'u cynnwys yn is-adran (4). | Yn ddarostyngedig i weithdrefn benodol a nodir yn is-adran(4) | Mae'r broses i gyflwyno gorchymyn CS ar ffurf offeryn statudol newydd i'r Senedd yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau penodol a osodir yn is-adran(4). |
| Adran 86 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol. | Negyddol | Mae'r manylion ynglŷn â'r weithdrefn ar gyfer cywiro gwall mewn dogfen benderfynu yn fân faterion technegol a gweithdrefnol a allai fod angen eu diwygio yn y dyfodol er mwyn ymateb i newidiadau mewn arferion proffesiynol. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn cadw'r hyblygrwydd i ddeddfu'n gyflym. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 89(1), (3), (5) a (6)(c) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y bydd manylion sy'n ymwneud â'r weithdrefn o newid a dirymu gorchmynion CS yn cynnwys manylion sylweddol a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil. | Negyddol | Mae'r manylion ynglŷn â'r weithdrefn ar gyfer newid a dirymu gorchmynion CS yn fân faterion technegol a gweithdrefnol a all fod angen eu diwygio yn y dyfodol er mwyn ymateb i newidiadau mewn arferion proffesiynol. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn cadw'r hyblygrwydd i ddeddfu'n gyflym. |
| Adran 92(1)(a) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd ei fod yn fân fater technegol ac mae angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y dyfodol. | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a all fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol i sicrhau effeithlonrwydd y broses gydsynio. |
| Adran 92(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd ei fod yn fân fater technegol ac | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a all fod angen ei ddiwygio |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | mae angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y dyfodol. | | yn y dyfodol i sicrhau effeithlonrwydd y broses gydsynio. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn cadw'r gallu i ddeddfu'n gyflym pan fo angen. |
| Adran 93(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd ei fod yn fân fater technegol ac mae angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y dyfodol. | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a all fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol i sicrhau effeithlonrwydd y broses gydsynio. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn cadw'r gallu i ddeddfu'n gyflym pan fo angen. |
| Adran 94(7)(b) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd ei fod yn fân fater technegol ac mae angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y dyfodol. | Negyddol | Mae hwn yn fân fater technegol o fewn y cynllun deddfwriaethol ehangach a all fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol. Felly, mae |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | angen yr hyblygrwydd arnom i ddeddfu'n gyflym, pe bai angen. |
| RHAN 7 – GORFODI | | | | | |
| Adran 111(8) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau yn y dyfodol o ran arferion sy’n ymwneud â hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig. | Negyddol | Mae hwn yn fân fater technegol o fewn y cynllun deddfwriaethol ehangach ac mae hyblygrwydd yn ofynnol i ddeddfu'n gyflym pe bai angen diwygio'r materion sydd i'w pennu mewn hysbysiad datblygiad anawdurdodedig yn y dyfodol. |
| Adran 116(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau yn y dyfodol o ran arferion sy’n ymwneud â chyfyngiadau ar | Negyddol | Mae cyfyngiadau o ran pryd y caniateir cyflwyno hysbysiad stop dros dro yn fân fater technegol o fewn y cynllun deddfwriaethol |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ddyroddi hysbysiadau stop dros dro. | | ehangach. At hynny, mae hyblygrwydd yn ofynnol i ddeddfu'n gyflym, pe bai angen diwygio'r cyfyngiadau hynny yn y dyfodol. |
| RHAN 8 – SWYDDOGAETHAU ATODOL | | | | | |
| Adran 122(1) a (4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn briodol oherwydd ei fod yn cynnwys pwerau i osod neu gynyddu ffioedd neu feichiau ariannol eraill ar y cyhoedd. | Cadarnhaol | Byddai unrhyw ddiwygiadau i'r rheoliadau yn y dyfodol yn golygu cynnydd mewn ffioedd sy'n debygol o gael effaith ar ymgeiswyr a'r cyhoedd yn ehangach. |
| Adran 126(6), (7) ac (8) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd ei fod yn fân fater technegol ac mae angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y dyfodol. | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a all fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol i sicrhau effeithlonrwydd y broses gydsynio. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn cadw'r gallu i |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddeddfu'n gyflym pan fo angen. |
| Adran 127(1), (3) a (4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod ymgyngoriadau â nifer eang o gyrff cyhoeddus y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt wrth benderfynu ar gais yn cyflwyno lefel sylweddol o fanylion a bydd angen iddo hefyd fod yn hyblyg er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol. | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a all fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol i sicrhau effeithlonrwydd y broses gydsynio. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn cadw'r gallu i ddeddfu'n gyflym pan fo angen. |
| Adran 128(2)(c) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd ei fod yn fân fater technegol ac mae angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y dyfodol. | Cadarnhaol | Mae’r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod datganoledig yng Nghymru a enwir mewn rheoliadau i wneud pethau mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith. Felly bydd angen |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | rhywfaint o waith craffu ychwanegol arno. |
| Adran 128(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd ei fod yn fân fater technegol ac mae angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y dyfodol. | Cadarnhaol | Mae'r pŵer hwn yn ymwneud ag awdurdodau cyhoeddus yn adfer costau o dan yr adran hon. Felly bydd angen rhywfaint o waith craffu ychwanegol arno. |
| Adran 129 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y bydd y pŵer i ddatgymhwyso gofynion yn cyflwyno lefel sylweddol o fanylion a bydd angen iddo hefyd fod yn hyblyg er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol. | Cadarnhaol | Mae'r pŵer hwn i ddatgymhwyso gofynion a osodir gan y Bil, o dan y Bil neu yn rhinwedd y Bil. Bydd is-ddeddfwriaeth yn cyfyngu'r pŵer hwn ond bydd angen rhywfaint o waith craffu ychwanegol arno. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 130(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd ei fod yn ymwneud â mater gweithdrefnol sydd â lefel sylweddol o fanylion a bydd angen iddo hefyd fod yn hyblyg er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau i'r weithdrefn yn y dyfodol. | Cadarnhaol | Mae'r pŵer hwn yn ymwneud â cheisiadau gan y Goron. Felly bydd angen rhywfaint o waith craffu ychwanegol arno. |
| RHAN 9 – DARPARIAETHAU CYFFREDINOL | | | | | |
| Adran 134(2)(e) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod angen i drefniadau ar gyfer rhoi hysbysiadau, cyfarwyddydau a dogfennau eraill fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol. | Negyddol | Mae hwn yn fater technegol a gweithdrefnol a all fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol i sicrhau effeithlonrwydd y broses gydsynio. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn cadw'r gallu i ddeddfu'n gyflym pan fo angen. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 142 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y gallai'r materion dan sylw fod angen eu haddasu'n amlach nag y byddai'n synhwyrol i'r Senedd ddeddfu ar eu cyfer drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. | Cadarnhaol | Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau y caniateir eu defnyddio i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, a darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed. Gallai'r rhain fod yn destun newid yn y dyfodol gan ddibynnu ar ba ofynion gweithdrefnol sy'n berthnasol neu'n briodol ar y pryd ac felly, mae hyblygrwydd yn ofynnol i ddeddfu'n gyflym os oes angen. |
| Adran 145 | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Mae cynsail cryf o ran y defnydd o bwerau dirprwyedig | Dim gweithdrefn | Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd y daw |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ar gyfer cychwyn ac nid yw'n ddadleuol. | | darpariaethau'r Bil i rym. |
| Paragraff 1(3) o Atodlen 2 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd ei fod yn fân fater technegol ac mae angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y dyfodol. | Negyddol | Mae hwn yn fân fanylyn technegol a all fod angen ei ddiwygio yn y dyfodol i sicrhau effeithlonrwydd y broses gydsynio. |
| Paragraff 2(1) o Atodlen 2 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd ei fod yn fân fater technegol ac mae angen i drefniadau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y dyfodol. | Cadarnhaol | Mae'r pŵer hwn yn ymwneud ag iawndal. Felly bydd angen rhywfaint o waith craffu ychwanegol arno. |

**Tabl 5.2: Crynodeb o’r pwerau i wneud cyfarwyddydau a phennu meini prawf a gyhoeddir yn narpariaethau Bil Seilwaith (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| RHAN 2 – GOFYNIAD AM GYDSYNIAD SEILWAITH | | | | | |
| Adran 22(1) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | I gyfarwyddo fesul achos a yw prosiect nad yw'n gymwys fel PSA o dan Ran 1, yn cael ei drin fel CS at ddibenion y Bil. | Dim gweithdrefn Senedd | Mae sylwedd y pŵer i ddyroddi cyfarwyddyd wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas ac o'r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o weithdrefnau'r Senedd. |
| Adran 23(1) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | I gyfarwyddo fesul achos bod cais i'w drin fel cais am CS, yn dilyn cyfarwyddyd a roddir o dan adran 22. | Dim gweithdrefn Senedd | Mae sylwedd y pŵer i ddyroddi cyfarwyddyd wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas ac o'r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | weithdrefnau'r Senedd. |
| Adran 24(1) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | I gyfarwyddo fesul achos nad yw prosiect sydd yn rhannol yng Nghymru neu’n rhannol yn ardal Forol Cymru, a fyddai yn ei gyfanrwydd fel arfer yn gymwys fel PSA o dan Ran 1, yn PSA at ddibenion y Bil. | Dim gweithdrefn Senedd | Mae sylwedd y pŵer i ddyroddi cyfarwyddyd wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas ac o'r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o weithdrefnau'r Senedd. |
| RHAN 3 – YMGEISIO AM GYDSYNIAD SEILWAITH | | | | | |
| Adran 33(9) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | I gyfarwyddo'r ymgeisydd i hysbysu person o gais CS a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais hwnnw yn y modd a bennir yn y cyfarwyddyd. | Dim gweithdrefn Senedd | Bydd y cyfarwyddydau yn dechnegol o ran natur ac yn delio i raddau helaeth â'r broses ac o’r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | weithdrefnau'r Senedd. |
| Adran 36(2) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | I gyfarwyddo Corff Adnoddau Naturiol Cymru i gyflwyno adroddiad ar yr effaith ar y môr o fewn amserlen benodol. | Dim gweithdrefn Senedd | Mae sylwedd y pŵer i ddyroddi cyfarwyddyd wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas ac o'r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o weithdrefnau'r Senedd. |
| RHAN 4 – ARCHWILIO CEISIADAU | | | | | |
| Adran 39(3) | Gweinidogion Cymru | Meini prawf a gyhoeddir | Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi dogfen sy'n nodi'r meini prawf ar gyfer penodi person neu banel o bersonau, i archwilio cais i newid neu ddirymu CS. | Dim gweithdrefn Senedd | Bydd y meini prawf a gyhoeddir yn dechnegol o ran natur ac yn delio i raddau helaeth â'r broses ac o’r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | weithdrefnau'r Senedd. |
| Adran 41(7) | Gweinidogion Cymru | Meini prawf a gyhoeddir | Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi meini prawf i gael eu cymhwyso gan yr awdurdod archwilio wrth benderfynu ar y weithdrefn ar gyfer pob cais y mae'n ei archwilio. | Dim gweithdrefn Senedd | Bydd y meini prawf a gyhoeddir yn dechnegol o ran natur ac yn delio i raddau helaeth â'r broses ac o'r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o weithdrefnau'r Senedd. |
| Adran 42(3) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | I gyfarwyddo bod unrhyw fater neu achosion i'w penderfynu gan Weinidogion Cymru yn lle'r awdurdod archwilio, neu i'r gwrthwyneb.<br><br>Caiff y pŵer cyfarwyddo yn yr achos hwn ei ddarparu drwy gyfrwng reoliadau. | Dim gweithdrefn Senedd | Bydd y cyfarwyddydau yn dechnegol o ran natur ac yn delio i raddau helaeth â'r broses ac ac o'r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | weithdrefnau'r Senedd. |
| Adran 46(2) | Awdurdod Gweinidogol (Gweinidogion Cymru) | Cyfarwyddyd | I gyfarwyddo'r awdurdod archwilio sy'n cynnal ymchwiliad bod tystiolaeth benodol i'w chlywed neu'n agored i'w harchwilio, gan bersonau a bennir yn y cyfarwyddyd. | Dim gweithdrefn Senedd | Mae sylwedd y pŵer i ddyroddi cyfarwyddyd wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas ac o'r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o weithdrefnau'r Senedd. |
| Adran 47(2) | Awdurdod Gweinidogol (Gweinidogion Cymru) | Cyfarwyddyd | I gyfarwyddo “y person cyfrifol” i dalu ffioedd a threuliau cynrychiolydd penodedig, at ddibenion ymchwiliad lleol. | Dim gweithdrefn Senedd | Mae sylwedd y pŵer i ddyroddi cyfarwyddyd wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas ac o'r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | weithdrefnau'r Senedd. |
| Adran 51(1) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | I gyfarwyddo'r awdurdod archwilio i ail-agor archwiliad, ar ôl derbyn adroddiad o dan adran 49 o'r Bil. | Dim gweithdrefn Senedd | Bydd y cyfarwyddydau yn dechnegol o ran natur ac yn delio i raddau helaeth â'r broses ac o’r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o weithdrefnau'r Senedd. |
| RHAN 5 – PENDERFYNU AR GEISIADAU AM GYDSYNIAD SEILWAITH | | | | | |
| Adran 53(4) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | I gyfarwyddo bod gan awdurdod archwilio'r swyddogaeth i benderfynu ar gais am CS yn lle Gweinidogion Cymru, a bod gan Weinidogion Cymru'r swyddogaeth i benderfynu ar gais am CS yn lle awdurdod archwilio. | Dim gweithdrefn Senedd | Mae sylwedd y pŵer i ddyroddi cyfarwyddyd wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas ac o'r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | weithdrefnau'r Senedd. |
| Adran 57(2) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | I gyfarwyddo estyniad amser ar y cyfnod penderfynu ar gyfer cydsyniad seilwaith, naill ai gan yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru. | Dim gweithdrefn Senedd | Mae sylwedd y pŵer i ddyroddi cyfarwyddyd wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas ac o'r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o weithdrefnau'r Senedd. |
| RHAN 6 – GORCHMYNION CYDSYNIAD SEILWAITH | | | | | |
| Adran 71(5) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | Y pŵer i gyfarwyddo bod yr hawl tramwy yn adfer os yw'r hawl yn cael ei ddiddymu cyn i'r gwaith o gaffael y tir gael ei gwblhau ond rhoddwyd y gorau i'r cynnig i gaffael y tir. | Dim gweithdrefn Senedd | Mae sylwedd y pŵer i ddyroddi cyfarwyddyd wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas ac o'r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | weithdrefnau'r Senedd. |
| RHAN 8 – SWYDDOGAETHAU ATODOL | | | | | |
| Adran 128(1) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | I gyfarwyddo awdurdodau cyhoeddus i ymgymryd ag unrhyw faterion perthnasol mewn perthynas â chais cydsyniad seilwaith. | Dim gweithdrefn Senedd | Bydd y cyfarwyddydau yn dechnegol o ran natur ac yn delio i raddau helaeth â'r broses ac o'r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o weithdrefnau'r Senedd. |
| Adran 129(1) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | I gyfarwyddo bod gofynion yn y Bil nad ydynt yn gymwys i gydsyniadau seilwaith yn ddarostyngedig i'r cyfarwyddyd hwnnw. | Dim gweithdrefn Senedd | Bydd y cyfarwyddydau yn dechnegol o ran natur ac yn delio i raddau helaeth â'r broses ac o'r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Caiff y pŵer cyfarwyddo yn yr achos hwn ei ddarparu drwy gyfrwng reoliadau. | | weithdrefnau'r Senedd. |
| ATODLEN 2 – DIGOLLEDU AM NEWID NEU DDIRYMU GORCHMYNION CYDSYNIAD SEILWAITH | | | | | |
| Paragraff (7)(1)(c) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | I gyfarwyddo'r symiau sy'n daladwy i Weinidogion Cymru a phryd mewn perthynas â'r swm sy’n adenilladwy gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â digollediad. | Dim gweithdrefn Senedd | Bydd y cyfarwyddydau yn dechnegol o ran natur ac yn delio i raddau helaeth â'r broses ac o'r herwydd, ni ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso un o weithdrefnau'r Senedd. |

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## Pennod 6 – Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh)

6.1 Cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod.

6.2 Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

6.3 Rhydd y tabl canlynol grynodeb o gostau a manteision y Bil cyfan. Lluniwyd y tabl i gyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix). Mae'r holl gostau isod wedi'u darparu i'r £100 agosaf.

<table>
<tr><td colspan="3">Bil Seilwaith</td></tr>
<tr><td colspan="3">Yr opsiwn a ffefrir: Cyflwyno deddfwriaeth er mwyn –<br>Rhoi math newydd o 'Gydsyniad Seilwaith Cymreig' ar waith ar gyfer datblygiadau neu waith sy'n anelu at adeiladu a/neu newid defnydd i greu 'Prosiect Seilwaith Cymreig' (gweler Penodau 7 ac 8 ar gyfer arfarniad opsiynau a rhagor o fanylion am bob opsiwn a ystyriwyd).</td></tr>
<tr><td>Cam: Cyflwyno</td><td>Cyfnod arfarnu: 2024/25 - 2028/29</td><td>Blwyddyn sail brisiau: 2022/23</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm Cost<br>Cyfanswm: £-2,222,500<br>Gwerth presennol: £-1,938,800</td><td>Cyfanswm y Manteision<br>Cyfanswm: £-<br>Gwerth presennol: £-</td><td>Gwerth Net Presennol (GNP):<br>£1,938,800</td></tr>
</table>

### Cost weinyddol

<table>
<tr><td colspan="4">Costau: Bydd cost weithredu gychwynnol o £385,300 i Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu cyfundrefn cydsyniad seilwaith newydd a ragnodir gan y Bil, gan gynnwys systemau rheoli achosion a systemau TG newydd, canllawiau a hyfforddiant.</td></tr>
<tr><td>Trosiannol: £385,300</td><td>Cylchol: £0</td><td>Cyfanswm: £385,300</td><td>GP: £372,300</td></tr>
</table>

**Arbedion cost:** Amcangyfrif mai'r gost i Lywodraeth Cymru wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau seilwaith o dan y gyfundrefn gydsynio newydd fydd £567,700 y flwyddyn. Fodd bynnag, bydd modd adennill y costau penderfynu hyn yn llawn drwy ffioedd ymgeisio, sy'n creu arbediad cost o £65,400 y flwyddyn i Lywodraeth Cymru rhwng 2025-26 a 2028-29 o gymharu â'r llinell sylfaen (lle nad oes modd adennill costau'n llawn) a chyfanswm arbediad cost o (£65,400 x 4) £261,600. Yn ogystal â'r ffaith bod modd adennill y costau penderfynu yn llawn, bydd arbedion effeithlonrwydd cyffredinol i Lywodraeth Cymru wrth wneud penderfyniadau ar brosiectau seilwaith unigol o dan un gyfundrefn gydsynio, o gymharu â'r cyfundrefnau gwahanol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Yn 2024-25, gwneir penderfyniadau ar geisiadau o dan y cyfundrefnau presennol ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth mewn costau o gymharu â'r llinell sylfaen yn ystod y flwyddyn honno.

| Trosiannol: £0 | Cylchol: £261,600 | Cyfanswm: £261,600 | GP: £232,100 |
|---|---|---|---|
| **Cost weinyddol net: £123,700** | | | |

## Costau cydymffurfio

Amcangyfrifir mai'r gost i ddatblygwyr ar gyfer cyflwyno eu ceisiadau fel rhan o'r gyfundrefn gydsynio newydd fydd £4,208,400 y flwyddyn. Mae hyn yn cynrychioli arbediad cost o ryw £580,500 y flwyddyn o gymharu â'r cyfundrefnau presennol (y llinell sylfaen). Caiff yr arbediad hwn ei wireddu rhwng 2025-26 a 2028-29, gan roi cyfanswm arbediad o £2,322,000 yn ystod y cyfnod arfarnu. Yn 2024-25, gwneir penderfyniadau ar geisiadau o dan y cyfundrefnau presennol ac felly disgwylir y bydd y costau yr un peth â'r costau yn y llinell sylfaen. Bydd costau trosi o £3,000 i ddatblygwyr er mwyn ymgymryd â hyfforddiant ar y gyfundrefn newydd.

Amcangyfrifir mai'r gost i ACLlau ar gyfer cymryd rhan mewn ceisiadau fydd £21,200 y flwyddyn, sy'n cynrychioli arbediad cost o ryw £4,800 y flwyddyn o gymharu â senario'r llinell sylfaen. Unwaith eto, caiff yr arbediad cost hwn ei wireddu rhwng 2025-26 a 2028-29, a bydd y costau ar gyfer cymryd rhan yn y broses benderfynu yr un peth â'r llinell sylfaen yn 2024-25. Felly amcangyfrifir cyfanswm arbedion o £19,200 i ACLlau dros y cyfnod arfarnu. Yn ogystal, bydd costau trosi o £30,300 er mwyn ymgymryd â hyfforddiant ar y gyfundrefn newydd.

Amcangyfrifir mai'r gost i ymgyngoreion statudol ar gyfer cyflwyno sylwadau ar geisiadau o dan y gyfundrefn newydd fydd £35,100 y flwyddyn, sy'n cynrychioli arbediad cost o ryw £9,500 y flwyddyn o gymharu â'r llinell sylfaen. Disgwylir i'r arbediad hwn gael ei wireddu rhwng 2025-26 a 2028-29, a bydd y costau yn 2024-25 yr un peth â'r llinell sylfaen. Felly amcangyfrifir cyfanswm arbediad cost o £38,000 i ymgyngoreion statudol.

Nid yw'r costau i gymunedau yn hysbys.

| Trosiannol: £33,300 | Cylchol: £-2,379,500 | Cyfanswm: £-2,346,200 | GP: £-2,079,000 |
|---|---|---|---|

## Costau eraill

| Dd/G | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £-** | **Cylchol: £-** | **Cyfanswm: £-** | **GP: £-** |

## Costau heb eu meintioli ac anfanteision

Mae'r costau i gymunedau ar gyfer cymryd rhan mewn cyfundrefn gydsynio newydd yn amrywio gan ddibynnu ar eu cefndir a natur eu hymatebion i brosiectau penodol, ac felly nid oes modd eu meintioli.

O ystyried natur y Bil sy'n ymdrin â materion gweithdrefnol, nid oes unrhyw anfanteision amgylcheddol yn deillio ohono. Bydd y ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol yn parhau i fod yn gymwys wrth wneud penderfyniadau ar brosiectau seilwaith o dan gyfundrefn gydsynio newydd.

## Manteision

| Yn ogystal â'r arbedion cost a nodwyd, bydd y Bil yn cynnig manteision sylweddol drwy gynnig proses gydsynio symlach, fwy unedig ar gyfer gwneud penderfyniadau ar PSAau. Bydd un system gydlynus yn cael gwared ar y cymhlethdod ac yn cynnig proses fwy hyblyg a all ymateb yn well i newidiadau a heriau yn y dyfodol, gan gyfrannu at nodau ac amcanion Gweinidogol. Bydd yn cynnig cyfundrefn sy'n haws i ddatblygwyr ei defnyddio, gan allu cyfrannu'n well felly at dwf economaidd ac ymdrechion i ddatblygu economi carbon isel. Bydd uno'r cyfundrefnau cydsynio gwahanol o dan un broses unigol yn arbed adnoddau o ran cyfranogiad cymunedau, ymgyngoreion statudol ac ACLlau, drwy leihau achosion o ddyblygu. Ceir cyfiawnhad pellach dros gynnwys y manteision hyn yn yr AERh, lle nad yw'n bosibl eu mesur nhw yn ariannol, o dan yr adran ar Fanteision Opsiwn 2. | |
|---|---|
| **Cyfanswm: £-** | **GP: £-** |

## Tystiolaeth allweddol, tybiaethau ac ansicrwydd

Mae amcangyfrifon o nifer y ceisiadau a'r costau dilynol a fydd yn gymwys fel rhan o gyfundrefn gydsynio newydd a gaiff ei rhagnodi gan y Bil yn seiliedig ar y sail dystiolaeth ganlynol:

- Asesiad o geisiadau seilwaith dros gyfnod 2013-2019 a ddarparwyd mewn adroddiad a luniwyd gan Arup Consultants dyddiedig 2019 (“Adroddiad Arup”)[2];
- Asesiad pellach o geisiadau seilwaith a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru hyd at 1 Ebrill 2022;
- Cyfranogiad Llywodraeth Cymru a'r ACLlau yn y prosesau cydsynio seilwaith presennol, gan gynnwys DACau (ymchwil bwrdd gwaith 2022/2023);
- Data ystadegol a data gwasanaeth rheolaidd pellach.

Nodir bod y costau penodol y dangoswyd tystiolaeth ohonynt ar gyfer y Bil yn seiliedig ar ddata cyfredol a hanesyddol ac felly y bydd rhai o'r costau manwl sy'n gysylltiedig â'i roi ar waith o bosibl yn newid yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod y sail dystiolaeth ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei chasglu dros gyfnod helaeth, a bod nifer o gostau penodedig wedi'u cynnwys fel ffioedd ymgeisio. Felly ystyrir ei bod yn cynnig y dystiolaeth orau sydd ar gael i lywio cynrychioliad cywir o'r costau a fydd yn gymwys ar gyfer y Bil dros y cyfnod arfarnu a ffordd addas o gymharu costau rhwng yr amrywiol opsiynau a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

[2] Ymchwil i Gost Datblygu Seilwaith yng Nghymru: Adroddiad Astudiaeth. Arup 2019

## Pennod 7 – Yr Opsiynau

7.1 Nodir yr arfarniad opsiynau llawn ym Mhennod 8. Caiff y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn eu cyflwyno, gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael. Cafodd y wybodaeth hon ei pharatoi drwy drafod â rhanddeiliaid allweddol a gwaith ymchwil yn seiliedig ar dystiolaeth.

7.2 Mae'r asesiad o'r costau a'r manteision yn seiliedig ar y cyfnod pum mlynedd rhwng 2024-25 a 2028-29. Os caiff y Bil ei basio, disgwylir iddo gael Cydsyniad Brenhinol ganol 2024 ac o ganlyniad, bydd y costau cychwynnol yn codi yn ystod 2024-25. Disgwylir y bydd y gyfundrefn gydsynio seilwaith yn gwbl weithredol erbyn canol 2025. Dewiswyd y 'cyfnod arfarnu' hwn oherwydd disgwylir i gostau cyfundrefn newydd i wahanol randdeiliaid fod yn gymharol gyson ymhen cyfnod byr, ac y caiff y manteision eu gwireddu yn y tymor byr i'r tymor canolig.

7.3 Mae'r canfyddiadau ar gyfer pob opsiwn a nodir ym Mhennod 8 yn seiliedig i raddau helaeth ar yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Arup ym mis Mawrth 2019 o'r enw: 'Ymchwil i Gost Datblygu Seilwaith yng Nghymru' ("Adroddiad Arup")[3]. Casglodd adroddiad Arup wybodaeth am ddatblygiadau seilwaith a gyflwynwyd rhwng mis Ebrill 2013 a mis Chwefror 2019. Casglwyd rhagor o wybodaeth gan adran Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ("PEDW") ar geisiadau ar gyfer datblygiadau seilwaith a gyflwynwyd y tu hwnt i ddyddiad Adroddiad Arup, sef o fis Chwefror 2019 hyd at 1 Ebrill 2022, er mwyn sicrhau sail dystiolaeth gyfredol a chadarn at ddibenion yr asesiad hwn. At ddiben Adroddiad Arup a cheisiadau PEDW, roedd 'datblygiadau seilwaith' yn cynnwys y canlynol: caniatâd cynllunio o dan adran 57(1) o DCGTh 1990; DAC o dan adran 62D o DCGTh 1990; a mathau eraill o ddatblygiadau seilwaith a oedd yn cynnwys cydsyniad perthnasol a oedd yn ymwneud â phriffyrdd, rheilffyrdd, trydan a harbyrau.

7.4 Ystyrir mai data hanesyddol ar geisiadau a gyflwynwyd i amrywiol awdurdodau cydsynio yw'r sail dystiolaeth fwyaf priodol ar gyfer pennu'r niferoedd posibl o geisiadau ar gyfer datblygiadau seilwaith sy'n debygol o gael eu cyflwyno bob blwyddyn. Fel y cyfryw, defnyddiwyd y ceisiadau sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Arup a cheisiadau PEDW i bennu costau a manteision ceisiadau yn y dyfodol i randdeiliaid o dan yr asesiad o'r opsiynau amgen a gyflwynir ym Mhennod 8. Cyfeirir at ffrâm amser Adroddiad Arup, h.y. y cyfnod o fis Ebrill 2013 hyd at fis Chwefror 2019, yn ogystal â'r ceisiadau a gyflwynwyd i PEDW o fis Chwefror 2019 hyd at 1 Ebrill 2022, fel y 'cyfnod asesu' at ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

---

[3] Ymchwil i Gost Datblygu Seilwaith yng Nghymru: Adroddiad Astudiaeth. Arup 2019

7.5 Rhaid nodi nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn defnyddio data damcaniaethol. Mae data hanesyddol wedi dangos bod cyfartaledd o chwe chais wedi cael eu cyflwyno bob blwyddyn ar gyfer seilwaith arwyddocaol yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, nodwn fod Gweinidogion Cymru wedi cael eu hysbysu am nifer sylweddol o gynigion ar gyfer DACau, ac ar adeg ysgrifennu, roedd penderfyniadau ar wyth cais cynllunio ar gyfer DACau ac un cydsyniad o dan Ddeddf Trydan 1989 wedi cael eu gwneud yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. At hynny, rydym yn disgwyl y bydd tua wyth cais ar gyfer DACau bob blwyddyn ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol nesaf yn seiliedig ar nifer yr hysbysiadau o fwriad i wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer DAC a gyflwynwyd gan ddatblygwyr. Er bod nifer y ceisiadau o'r fath yn cynyddu, yn ôl pob golwg, nodwn nad yw data damcaniaethol yn ddibynadwy, gan nad ydynt yn nodi'r rhagolygon tymor hir. Gellir tybio os bydd nifer y ceisiadau yn uwch neu'n is yn y dyfodol o dan yr opsiwn a ffefrir na'r nifer a nodwyd gan y data hanesyddol, y byddai hyn yn effeithio ar y costau blynyddol i ddatblygwyr a rhanddeiliaid eraill. Er enghraifft, os bydd nifer y ceisiadau yn uwch, byddai hyn yn arwain at gostau uwch i'r diwydiant datblygu ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau ychwanegol. Fodd bynnag, y fantais fyddai y byddai mwy o gynlluniau seilwaith yn debygol o gael eu rhoi ar waith a fyddai'n arwain at well seilwaith. Ni fyddai newidiadau i nifer y ceisiadau o gymharu â'r tueddiadau hanesyddol yn effeithio ar y costau i Lywodraeth Cymru o dan yr opsiwn a ffefrir gan y byddai modd eu hadennill yn llawn drwy ffioedd. Gan mai tybiaethau damcaniaethol yw'r rhain, er ein bod wedi eu nodi, ni ellir eu defnyddio i ddangos tystiolaeth o gostau at ddiben yr asesiad hwn.

7.6 Gwnaed rhai tybiaethau allweddol er mwyn asesu costau a manteision o dan yr opsiynau amgen a gyflwynir ym Mhennod 8. Cafodd y costau terfynol eu talgrynnu i'r £100 agosaf ac felly mae'n bosibl na fydd rhai cyfansymiau yn fanwl gywir o ganlyniad i'r talgrynnu hwn. Yn unol â chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF, caiff yr holl gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol eu cyflwyno mewn prisiau cyson. Uwchraddiwyd y costau hanesyddol i gyfleu prisiau 2022-23 gan ddefnyddio cyfres y datchwyddydd CDG. Wrth gyfrifo costau o dan bob opsiwn amgen, lle caiff y ceisiadau bob blwyddyn eu cofnodi ar bwynt degol, ni chafodd y cyfansymiau hyn eu talgrynnu er mwyn sicrhau cywirdeb. Caiff costau a gaiff eu had-dalu (er enghraifft, drwy dalu ffioedd) eu nodi mewn coch o dan bob tabl a chawsant eu cyfrif ar wahân i'r costau net i randdeiliaid. Caiff y costau net eu nodi mewn du ac maent yn cynnig asesiad mwy realistig o'r costau gwirioneddol i randdeiliaid, gan nad oes modd eu hadennill.

7.7 Mae'r ddogfen ategol ‘Papur Methodoleg yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol’ yn nodi'r manylion a'r gwaith cyfrifo sy'n sail i'r ffigurau ym Mhenodau 7 ac 8.

7.8 Caiff y pedwar opsiwn canlynol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ddatblygiadau seilwaith eu nodi ym Mhennod 8, a chyflwynir manteision ac anfanteision pob opsiwn.

1. **Opsiwn 1 – Gwneud dim. Gwneir penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer datblygiadau seilwaith arfaethedig yn unol â'r trefniadau deddfwriaethol presennol.**
2. **Opsiwn 2 – Rhoi math newydd o 'Gydsyniad Seilwaith Cymreig' ar waith ar gyfer datblygiadau neu waith sy'n anelu at adeiladu a/neu newid defnydd i greu 'Prosiect Seilwaith Cymreig'. Dyma'r opsiwn a ffefrir.**
3. **Opsiwn 3 – Creu corff cydsynio annibynnol i wneud penderfyniadau ar 'Gydsyniadau Seilwaith Cymreig'.**
4. **Opsiwn 4 – Rhoi cyfundrefn symlach ar waith i'w phennu gan uned gydsynio o fewn Llywodraeth Cymru.**

7.9 Ceir arfarniad cryno o'r costau sefydlu (lle y bo'n gymwys) a'r costau ymgeisio i randdeiliaid ar gyfer pob opsiwn isod, ac ymhelaethir ar y costau a'r manteision manwl ym Mhennod 8.

<u>Costau'r opsiwn</u>

| **Tabl A – Y costau trosiannol ar gyfer pob opsiwn gwahanol (lle y bo'n gymwys)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhanddeiliad | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 |
| Llywodraeth Cymru | Dd/G | £385,300 | £1,054,100 | £4,200 |
| ACLlau | Dd/G | £30,300 | £30,300 | £0 |
| Datblygwyr | Dd/G | £3,000 | £3,000 | £0 |
| Cymunedau | Dd/G | £0 | £0 | £0 |
| Ymgyngoreion Statudol | Dd/G | £0 | £0 | £0 |

| **Tabl B – Costau cylchol net bob blwyddyn[1]** *(dim ond er gwybodaeth y darperir y costau ychwanegol pellach a nodir mewn coch oherwydd disgwylir i'r costau hyn gael eu had-dalu, er enghraifft drwy dalu ffioedd)* | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhanddeiliad | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3[2] | Opsiwn 4 |
| Llywodraeth Cymru | £65,400 (£652,700 yn cael ei ad-dalu) | £0 (£567,700 yn cael ei ad-dalu) | £0 (£2,480,500 yn cael ei ad-dalu). Ar gyfer yr opsiwn hwn, byddai'r costau hyn yn gymwys i'r corff annibynnol fel costau parhaus, yn hytrach nag i Lywodraeth Cymru. | £0 (£718,100 yn cael ei ad-dalu). Yr un costau ag Opsiwn 1, ond byddai modd adennill yr holl gostau yn llawn. |
| ACLlau | £26,100 (£31,000 yn cael ei ad-dalu) | £21,200 (£38,900 yn cael ei ad-dalu) | £21,200 (£38,900 yn cael ei ad-dalu) | £26,100 (£31,000 yn cael ei ad-dalu). Yr un costau ag Opsiwn 1. |
| Datblygwyr | £4,788,900 | £4,208,400 | £5,390,300 | £4,757,900 |
| Cymunedau | Anhysbys | Anhysbys | Anhysbys | Anhysbys |
| Ymgyngoreion Statudol | £44,600 | £35,100 | £35,100 | £44,600. Yr un costau ag Opsiwn 1. |

1. Ar gyfer pob opsiwn, gwneir penderfyniadau ar geisiadau yn ystod 2024-25 o dan y cyfundrefnau presennol ac, fel y cyfryw, bydd y costau yn ystod y flwyddyn ariannol honno yr un peth â'r costau yn y llinell sylfaen (Opsiwn 1).

2. Mae cyfnod trosi hwy yn Opsiwn 3 yn golygu y gwneir penderfyniadau ar geisiadau a ddaw i law yn ystod 2025-26 o dan y cyfundrefnau presennol ac, fel y cyfryw, bydd y costau yn ystod y flwyddyn ariannol honno hefyd yr un peth â'r costau yn y llinell sylfaen.

# Pennod 8 – Costau a manteision

**Opsiwn 1 – Gwneud dim. Gwneir penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer datblygiadau seilwaith arfaethedig yn unol â'r trefniadau deddfwriaethol presennol.**

**Disgrifiad o Opsiwn 1**

8.1 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw newidiadau i'r cyfundrefnau cydsynio sy'n bodoli eisoes. Nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Crynhowyd y costau presennol er mwyn gallu cymharu'r opsiwn llinell sylfaen â'r opsiynau amgen eraill. Byddai'r opsiwn hwn yn cadw cyfundrefn gydsynio ranedig nad yw'n cynnig y siop un stop y mae'r diwydiant datblygu yn awyddus i'w chael.

**Costau Opsiwn 1**

| **Tabl C – Costau sefydlu net Opsiwn 1** | |
|---|---|
| Rhanddeiliad | Costau |
| Llywodraeth Cymru | Ddim yn gymwys i'r opsiwn hwn gan na fyddai unrhyw newidiadau i'r cyfundrefnau cydsynio sy'n bodoli eisoes. |
| ACLlau | |
| Datblygwyr | |
| Cymunedau | |
| Ymgyngoreion Statudol | |

| **Tabl D – Crynodeb o gostau net Opsiwn 1 bob blwyddyn i'r rhanddeiliaid a nodwyd *(dim ond er gwybodaeth y darperir y costau ychwanegol pellach a nodir mewn coch oherwydd disgwylir i'r costau hyn gael eu had-dalu, er enghraifft drwy dalu ffioedd)*** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhanddeiliad | DAC | Gorsafoedd cynhyrchu o dan y Ddeddf Trydan | Gorchymyn o dan y Ddeddf Harbyrau | Gorchymyn o dan y Ddeddf Priffyrdd | Gorchymyn DTG | Cyfanswm costau bob blwyddyn |
| Llywodraeth Cymru | £0 (£348,400 yn cael ei ad-dalu) | £0 (£46,300 yn cael ei ad-dalu) | £42,300 | £0 (£258,000 yn cael ei ad-dalu) | £23,100 | £65,400 (£652,700 yn cael ei ad-dalu) |
| ACLlau | £17,400 (£31,000 yn cael ei ad-dalu) | £1,000 | £2,400 | £4,800 | £500 | £26,100 (£31,000 yn cael ei ad-dalu) |
| Datblygwyr | £3,588,900 | £352,600 | £238,700 | £258,000 | £350,800 | £4,788,900 |
| Cymunedau | Anhysbys | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgyngoreion Statudol | £26,300 | £200 | £11,600 | £1,600 | £300 | (£40,000 + cost ychwanegol o £4,600 i Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") am wneud penderfyniadau ar drwyddedau morol) £44,600. |

(a) Llywodraeth Cymru

8.2 Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar geisiadau o dan y cyfundrefnau deddfwriaethol canlynol:

- caniatâd cynllunio o dan adran 57 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (drwy ddull 'galw i mewn' neu apêl);
- caniatâd cynllunio ar gyfer DACau o dan adran 62D o'r DCGTh 1990;
- trwyddedu morol o dan adran 65 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a ddirprwyir i CNC;
- cydsyniad i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989;
- Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan Ddeddf Harbyrau 1964;
- Gorchmynion o dan DTG;
- Gorchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

8.3 Drwy gymhwyso'r trothwyon deddfwriaethol presennol mewn ffordd ôl-weithredol at y 54 o geisiadau a gafwyd yn ystod y cyfnod asesu, rydym wedi tybio y bydd cyfartaledd o chwe chais bob blwyddyn. Rydym yn rhagweld, o blith y ceisiadau hyn, y byddai 19 ohonynt yn geisiadau â lefel cymhlethdod uchel (2.1 bob blwyddyn); y byddai 26 ohonynt yn geisiadau â lefel cymhlethdod ganolig (2.9 bob blwyddyn); ac y byddai naw ohonynt yn geisiadau â lefel cymhlethdod isel (1 bob blwyddyn).

*Caniatâd cynllunio o dan adran 57(1) o'r DCGTh 1990*

8.4 Caiff apeliadau yn erbyn penderfyniadau cynllunio eu hystyried gan PEDW yn bennaf ar ran Gweinidogion Cymru, er bod nifer bach yn cael eu hatgyfeirio at Weinidogion Cymru er mwyn iddynt wneud penderfyniad uniongyrchol yn eu cylch. Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud penderfyniad ar bob cais cynllunio a elwir i mewn. Mae PEDW yn rhan o Lywodraeth Cymru.

8.5 Ni chafwyd unrhyw geisiadau yn ystod y cyfnod asesu y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad arnynt o dan adran 57 o DCGTh 1990. Felly, amcangyfrifir mai sero fyddai'r costau i Lywodraeth Cymru ar gyfer y math hwn o gydsyniad.

*Caniatâd cynllunio ar gyfer DAC o dan adran 62D o DCGTh 1990*

8.6 Mae PEDW yn prosesu ceisiadau ar gyfer DAC ar ran Gweinidogion Cymru, gan lunio adroddiad argymhellion. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad ar gais ar gyfer DAC, ac unrhyw gydsyniadau eilaidd cysylltiedig, ar ôl ystyried yr adroddiad.

8.7 Archwiliwyd cyfanswm o 36 o geisiadau ar gyfer DAC yn ystod y cyfnod asesu, sef cyfartaledd o bedwar cais ar gyfer DAC bob blwyddyn, a gwnaed pob penderfyniad gan Weinidogion Cymru.

8.8 Caiff y gyfundrefn DAC ei gweithredu ar sail 'adennill costau llawn', a chodir ffi ar gyfer amrywiol gamau'r broses. Mae Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016[4] (fel y'u diwygiwyd) yn nodi'r manylion llawn am ffioedd. Mae ffi gychwynnol yn talu costau gweinyddol PEDW ac mae ffi penderfynu yn talu costau Llywodraeth Cymru. Caiff y costau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â phroses PEDW o archwilio cais eu codi ar ffurf cyfradd ddyddiol yn ogystal â'r ffioedd penodedig.

8.9 Gan ddibynnu ar natur y datblygiad arfaethedig, mae ceisiadau ar gyfer DAC yn destun proses archwilio sy'n defnyddio un o'r dulliau canlynol, neu gyfuniad ohonynt:

- Sylwadau ysgrifenedig;
- gwrandawiad/au;
- Ymchwiliad.

8.10 Caiff pob cais ar gyfer DAC ei weinyddu gan PEDW a chaiff y ffioedd hyn eu cynnwys fel rhan o'r ffi ymgeisio gyffredinol. Mae'n bosibl y caiff ffioedd eraill eu codi ar ymgeiswyr mewn perthynas â chyngor cyn ymgeisio dewisol gan PEDW, a hysbysiad cyn ymgeisio. Telir ffi penderfynu i Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru. Nodir y ffioedd llawn yn Nhabl G.

8.11 Ynghyd â'r costau safonol ac amrywiol sy'n gysylltiedig â gwaith a wneir gan PEDW a Chyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, mae'n bosibl y bydd costau gwirioneddol (allanol) i PEDW. Gallai'r costau gwirioneddol gynnwys hysbysebu, llogi lleoliadau, gwasanaethau cyfreithiol, penodi aseswr neu

[4] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/57/contents/made

gomisiynu adroddiadau gan ffynonellau allanol. Ac eithrio'r costau amcangyfrifedig ar gyfer hysbysebu, nid oes modd meintioli'r costau gwirioneddol ar gyfer ceisiadau ar gyfer DAC gan fod ceisiadau o'r fath yn amrywio. Caiff ffioedd eu codi ar ymgeiswyr ar sail adennill costau llawn, gan gynnwys y costau gwirioneddol hyn.

8.12 Caiff unrhyw gais am gydsyniad eilaidd a gyflwynir i Weinidogion Cymru ei brosesu a'i drafod er mwyn gwneud penderfyniad arno ochr yn ochr â'r cais ar gyfer y DAC, gan ddefnyddio'r un weithdrefn. Gellir dewis gwneud cais am gydsyniadau eilaidd ai peidio. Gall cynnwys cydsyniadau eilaidd gynyddu'r costau amrywiol sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniad ar y cais. Byddai'r costau hynny yn cael eu cynnwys yn y costau archwilio dyddiol, ond byddai'r costau sefydlog yn aros yr un peth. Gan fod y costau hyn yn amrywiol, nid ydynt yn hysbys.

8.13 Mae PEDW a Chyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru wedi darparu amrywiaeth o gostau sy'n gysylltiedig â thair lefel cymhlethdod wahanol DAC, yn seiliedig ar amser staff sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau ar geisiadau o'r fath.

8.14 Er mwyn darparu amrywiaeth costau ddangosol, rhannwyd ceisiadau i dair lefel cymhlethdod yn seiliedig ar natur y materion sy'n gysylltiedig â phob cais. Rhagwelir y caiff achosion cymhlethdod isel eu harchwilio drwy sylwadau ysgrifenedig. Disgwylir y caiff achosion cymhlethdod canolig eu harchwilio drwy wrandawiadau pwnc-benodol. Disgwylir y caiff achosion cymhlethdod uchel eu harchwilio drwy ymchwiliad.

8.15 Nid oes modd amcangyfrif nifer na chymhlethdod trafodaethau cyn ymgeisio neu amrywiadau ar ôl rhoi cydsyniad a gynhelir gan ymgeiswyr. Felly, ni chaiff y costau hyn eu cynnwys fel rhan o'r asesiad hwn ac maent yn anhysbys. Byddai unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn yn cael eu hadennill yn llawn.

| Tabl E – Costau DAC i Lywodraeth Cymru | | | |
|---|---|---|---|
| Lefel cymhlethdod DAC | Cost gyfartalog fesul cais i PEDW/Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio | Cyfanswm costau yn seiliedig ar nifer yr achosion dros y cyfnod asesu | Cyfanswm costau i Lywodraeth Cymru (gan gynnwys PEDW) bob blwyddyn |
| Isel | £32,200 | £289,400 | £32,200 |
| Canolig | £76,100 | £1,597,800 | £177,500 |
| Uchel | £208,100 | £1,248,900 | £138,800 |
| **Cyfanswm** | | **£3,136,000** | **£348,400** |

8.16 Yn seiliedig ar y lefel cymhlethdod dybiedig ac wedi'i gymhwyso mewn ffordd ôl-weithredol, amcangyfrifir y byddai'r 36 o geisiadau ar gyfer DAC dros y cyfnod asesu yn arwain at gost o ryw £348,400 y flwyddyn i Lywodraeth Cymru (gan gynnwys PEDW) yn y dyfodol.

8.17 Caiff yr holl gostau penderfynu i Lywodraeth Cymru (gan gynnwys PEDW) eu gwrthbwyso wrth i'r ymgeiswyr gyflwyno'r ffioedd perthnasol, gan greu opsiwn cost-niwtral i Weinidogion Cymru.

*Cydsyniad i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989*

8.18 Mae angen cydsyniad gan Weinidogion Cymru o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 i adeiladu, ehangu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu alltraeth rhwng 1MW a 350MW.

8.19 Yn ystod y cyfnod asesu, cyflwynwyd dau gais ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu. Yn seiliedig ar eu lefel cymhlethdod dybiedig ac wedi'i gymhwyso mewn ffordd ôl-weithredol, amcangyfrifir y byddai'r ddau gais hyn yn arwain at gost o ryw £46,300 y flwyddyn i Weinidogion Cymru yn y dyfodol. Caiff y costau hyn eu hadennill yn llawn gan Lywodraeth Cymru gan yr ymgeiswyr.

*Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan Ddeddf Harbyrau 1964*

8.20 Ers trosglwyddo swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 drwy rinwedd Deddf Cymru 2017, mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am wneud amrywiol fathau o orchmynion harbyrau, gan gynnwys Gorchmynion Diwygio Harbyrau Adran 14 a Gorchmynion Grymuso Harbyrau Adran 16.

8.21 Caiff y cyfrifoldeb dros elfennau gweithdrefnol y Gorchmynion hyn ei rannu gan swyddogion Llywodraeth Cymru ac, mewn rhai achosion, PEDW.

8.22 Caiff y weithdrefn ar gyfer gorchmynion nad ydynt yn cynnwys darpariaethau sy'n gysylltiedig â gweithfeydd (y cyfeirir atynt fel 'gorchmynion heb fod yn gysylltiedig â gweithfeydd') ei gweinyddu gan dîn Polisi Porthladdoedd Llywodraeth Cymru. Caiff PEDW ei phenodi gan Weinidogion Cymru i ymgymryd â'r elfennau gweithdrefnol ar gyfer rhai swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Harbyrau 1964, mewn perthynas â gorchmynion harbyrau sy'n gysylltiedig â "gweithfeydd", o dan baragraffau 7, 7A, 7B, 9A a 17 o fewn Atodlen 2 i'r Ddeddf.

8.23 Nid oes unrhyw gofnod o'r costau i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwneud penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer Gorchmynion Harbyrau gan fod pob cais yn ystod y cyfnod asesu wedi'i gyflwyno cyn y rhoddwyd cymhwysedd gweithredol i Weinidogion Cymru ymdrin â cheisiadau o'r fath. Nodir y ffioedd mewn canllawiau[5] ac yn gyffredinol, ystyrir eu bod yn rhy isel i dalu'r holl gostau y mae Llywodraeth Cymru yn mynd iddynt wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau.

8.24 Yn ystod y cyfnod asesu, cyflwynwyd pump cais ar gyfer Gorchmynion Grymuso Harbyrau a Gorchmynion Diwygio Harbyrau. Yn seiliedig ar eu lefel cymhlethdod dybiedig ac wedi'i gymhwyso mewn ffordd ôl-weithredol, amcangyfrifir y byddai'r pump cais hyn yn arwain at gost o ryw £42,300 y flwyddyn i Weinidogion Cymru yn y dyfodol. O ystyried natur isel y ffioedd, ni ragwelir y byddai Llywodraeth Cymru yn adennill y rhan fwyaf o'r gost hon gan ymgeiswyr.

*Gorchmynion o dan y DTG*

8.25 Gwneir penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer gorchmynion o dan DTG yng Nghymru gan Weinidogion Cymru a chânt eu gweinyddu gan PEDW, ac fel y cyfryw, gall ymgeisydd gael Gorchymyn o'r fath yn lle defnyddio'r broses ar gyfer DAC o dan Ddeddf Trydan 1989 os bydd yn bodloni meini prawf penodol.

8.26 Nodir y ffioedd ar gyfer cyflwyno Gorchmynion o dan y DTG o dan Atodlen 4 o Reolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006. Ni chaiff y ffioedd hyn eu cymhwyso ar gyfer datblygiadau alltraeth. Gall PEDW adennill ei chostau archwilio os cynhelir ymchwiliad.

8.27 Yn ystod y cyfnod asesu, cyflwynwyd un cais ar gyfer Gorchymyn o dan y DTG, ar gyfer datblygiad alltraeth. Yn seiliedig ar ei lefel cymhlethdod dybiedig ac

---

[5] Canllaw orchymyn harbwr trefniadol yng Nghymru 2018 (llyw.cymru)

wedi'i gymhwyso mewn ffordd ôl-weithredol, amcangyfrifir y byddai costau gwneud penderfyniad ar Orchmynion o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd oddeutu £23,100 y flwyddyn i Weinidogion Cymru. O dan y trefniadau ffioedd presennol ar gyfer Gorchmynion o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, nid oes modd adennill y gost hon gan ymgeiswyr.

*Gorchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980*

8.28 Amcangyfrifir bod cost gwneud penderfyniad o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i Weinidogion Cymru oddeutu £232,200 ar gyfartaledd. Yn ystod y cyfnod asesu, cyflwynwyd 10 cais ar gyfer gorchmynion i Weinidogion Cymru o dan adran 10, adran 14, adran 17 neu adran 28 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Byddai penderfyniadau ar y ceisiadau hyn hefyd yn cael eu gwneud o dan y gyfundrefn ddeddfwriaethol bresennol, gan arwain at gost amcangyfrifedig flynyddol o £258,000 i Lywodraeth Cymru (gan gynnwys PEDW). Caiff y gost hon ei hadennill gan ymgeiswyr.

(b) ACLlau

8.29 Nodir costau ACLlau o dan yr amrywiol gyfundrefnau cydsynio seilwaith ar gyfer yr opsiwn hwn isod.

| **Tabl F – Cyfanswm costau ACLl o dan Opsiwn 1** | | |
|---|---|---|
| Cyfundrefn ddeddfwriaethol | Cost fesul cais | Cyfanswm cost y flwyddyn |
| DAC | £12,094 (£7750 yn cael ei ad-dalu) | £48,400 (£31,000 yn cael ei ad-dalu) |
| Trydan | £4,344 | £1,000 |
| Harbyrau | £4,344 | £2,400 |
| DTG | £4,344 | £500 |

*Caniatâd cynllunio o dan adran 57(1) o DCGTh 1990*

8.30 Mae angen caniatâd cynllunio o dan adran 57 o DCGTh 1990 ar gyfer rhai datblygiadau seilwaith penodol. Yr ACLl sy'n gwneud penderfyniadau ar gyflwyniadau o'r fath, oni chânt eu galw i mewn neu y gwneir penderfyniad arnynt drwy apêl gan Weinidogion Cymru.

8.31 Yn ystod y cyfnod asesu, ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau y byddai penderfyniad yn cael ei wneud arnynt ar hyn o bryd o dan adran 57 o DCGTh 1990, ac felly amcangyfrifir nad oes unrhyw gostau i ACLlau ar gyfer y math hwn o gydsyniad.

*Caniatâd cynllunio ar gyfer DAC o dan adran 62D o DCGTh 1990*

8.32 Mae PEDW yn prosesu ceisiadau ar gyfer DAC ran Gweinidogion Cymru, gan lunio adroddiad argymhellion. Mae ACLlau yn gyfrifol am y gweithgareddau canlynol sy'n gysylltiedig â cheisiadau ar gyfer DAC:

- ymgynghori â'r ymgeisydd[6];
- ymgynghori â PEDW ar weithdrefnau sgrinio Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol (“EIA”) a chyfarwyddiadau pennu cwmpas;
- gosod hysbysiadau safle (bydd PEDW yn darparu copïau ohonynt);
- gosod copi o'r cais ar y gofrestr gynllunio leol;
- gofyn am wybodaeth gan y Cynghorau Cymuned perthnasol;
- llunio Adroddiad ar yr Effaith Leol (“LIR”);
- cyflwyno sylwadau i PEDW yn ystod y broses archwilio;
- monitro'r broses o weithredu'r caniatâd a sicrhau ei bod yn mynd rhagddi'n unol â'r cynlluniau ac unrhyw amodau.

8.33 Amcangyfrifir y bydd y broses o lunio LIR yn costio £7,750 i bob ACLl perthnasol[7] ar gyfer pob cais ar gyfer DAC. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr dalu ffi i dalu cost llunio'r LIR.

8.34 Ac eithrio LIR, amcangyfrifir ei bod hi'n costio £4,300 i ACLl ymdrin â chais ar gyfer DAC. Cost gyfartalog yw'r ffigur hwn, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan ACLlau yn ystod 2022. Ni chaiff y gost hon ei hadennill.

8.35 Yn seiliedig ar geisiadau yn ystod y cyfnod asesu, tybir bod angen mewnbwn gan ACLlau yn achos pedwar cais ar gyfer DAC bob blwyddyn. Felly amcangyfrifir cyfanswm costau o £48,400 y flwyddyn i ACLlau, nad oes modd adennill £17,400 ohono drwy'r ffi a godir ar gyfer LIR.

*Cydsyniad i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989*

8.36 Ar gyfer ceisiadau i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989, yr awdurdodau cynllunio perthnasol sy'n derbyn y cais a'r Datganiad Amgylcheddol ategol. Mae'n ofynnol iddynt gyflwyno eu barn ar ffurf ymateb ffurfiol i'r ymgeisydd ac i Weinidogion Cymru. Rhaid i'r awdurdod cynllunio perthnasol gyflwyno hysbysiad yn nodi unrhyw wrthwynebiad yn erbyn

[6] Os bydd yr Arolygiaeth yn cael hysbysiad gan ymgeisydd ei fod yn bwriadu darparu Datganiad Amgylcheddol, neu os bydd yr Arolygiaeth wedi cyhoeddi cyfarwyddyd sgrinio cadarnhaol, caiff yr ACLl ei hysbysu o'i ddyletswydd i ymgynghori â'r unigolyn sy'n bwriadu cyflwyno'r Datganiad Amgylcheddol ac i ddarparu gwybodaeth amgylcheddol berthnasol (PEDW 2019).
[7] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/datblygiadau-o-arwyddocad-cenedlaethol-dns-canllaw-gweithdrefnol-2019.pdf

cais ar gyfer gorsaf gynhyrchu o fewn pedwar mis, oni chytunir yn ysgrifenedig ar gyfnod hwy â'r ymgeisydd a Gweinidogion Cymru.

8.37 Tybir y bydd gwaith ymgynghori ar geisiadau o'r fath yn costio £1,000 y flwyddyn i ACLlau. Ni chaiff y costau hyn eu had-dalu gan yr ymgeisydd na Llywodraeth Cymru.

*Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan adran 14 o Ddeddf Harbyrau 1964*

8.38 Pan gaiff cais ar gyfer Gorchymyn Diwygio a Grymuso Harbyrau ei gyflwyno, bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ag amrywiaeth o sefydliadau ar yr effeithiau posibl ac unrhyw fesurau lliniaru neu amodau arfaethedig sy'n rhan o'r gorchymyn. Bydd yr ymgyngoreion yn amrywio gan ddibynnu ar y math o gais, ac maent yn cynnwys ACLlau.

8.39 Tybir y bydd gwaith ymgynghori ar geisiadau o'r fath yn costio £2,400 y flwyddyn i ACLlau. Ni chaiff y costau hyn eu had-dalu gan yr ymgeisydd na Llywodraeth Cymru.

*Gorchmynion o dan y DTG*

8.40 Pan gaiff cais ei gyflwyno o dan y DTG, mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ag ACLlau. Gall y costau i ACLlau ar gyfer Gorchmynion o dan y DTG amrywio, gan ddibynnu ar gymhlethdod y cais.

8.41 Tybir y bydd gwaith ymgynghori ar geisiadau o'r fath yn costio £500 y flwyddyn i ACLlau. Ni chaiff y costau hyn eu had-dalu gan yr ymgeisydd na Llywodraeth Cymru.

*Gorchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980*

8.42 Pan gaiff cais ei gyflwyno o dan y Ddeddf Priffyrdd, mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ag ACLlau.

8.43 Tybir y bydd gwaith ymgynghori ar geisiadau o'r fath yn costio £4,800 y flwyddyn i ACLlau. Ni chaiff y costau hyn eu had-dalu gan yr ymgeisydd na Llywodraeth Cymru.

(c) Y Diwydiant Datblygu

8.44 Datblygwyr[8] sy'n talu cost llunio eu cynllun arfaethedig a chael cydsyniad datblygu, gan gynnwys talu ffi (neu ffioedd) i'r awdurdod cydsynio perthnasol.

| **Tabl G – Costau datblygwyr o dan Opsiwn 1** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfundrefn ddeddfwriaethol | Costau paratoi i ddatblygwyr fesul cais* | Costau cyflwyno a phenderfynu i ddatblygwyr fesul cais* | Cyfanswm cost y flwyddyn |
| DAC | £670,000 | £227,200 | £3,588,900 |
| Trydan | £1,373,900 | £212,600 | £352,600 |
| Harbyrau | £176,300 | £253,400 | £238,700 |
| DTG | £2,110,000 | £1,046,900 | £350,800 |

** Y costau paratoi, cyflwyno a phenderfynu cyfartalog i ddatblygwyr ar gyfer rhai mathau penodol o seilwaith a ddarparwyd gan Adroddiad Arup 2019 (wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf).*

*Caniatâd cynllunio o dan adran 57(1) o DCGTh 1990*

8.45 Yn ystod y cyfnod asesu, ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau y byddai penderfyniad yn cael ei wneud arnynt ar hyn o bryd o dan adran 57 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac felly amcangyfrifir nad oes unrhyw gostau i'r diwydiant datblygu ar gyfer y math hwn o gydsyniad.

*Caniatâd ar gyfer DAC o dan adran 62D o DCGTh 1990*

8.46 Bydd ymgeiswyr sydd am gael caniatâd ar gyfer DAC yn cyflwyno cais i Weinidogion Cymru. Caiff y gyfundrefn DAC ei gweithredu ar sail ‘adennill costau llawn’, ac felly codir ffioedd ar gyfer amrywiol gamau o'r broses. Mae Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi'r manylion llawn.

[8] Ystyr “datblygwr” yn y cyd-destun hwn yw unigolyn neu sefydliad sydd am wneud cais ar gyfer datblygiad.

8.47 Mae Tabl H isod yn nodi'r costau llinell sylfaen safonol a manylion y ffioedd sy'n gysylltiedig â chais ar gyfer DAC. Mae'n bosibl y bydd costau ychwanegol yn berthnasol drwy gydol y broses archwilio er mwyn talu costau penderfynu.

| **Tabl H – Costau llinell sylfaen a manylion y ffioedd sy'n gysylltiedig â cheisiadau ar gyfer DAC (wedi'u nodi ar eu ffurf bur ac felly heb eu talgrynnu)** | |
|---|---|
| Costau Disgresiynol | |
| Gwasanaethau Cyn Ymgeisio – ACLl | £1,500 |
| Gwasanaethau Cyn Ymgeisio – PEDW | Cyfradd o £55 yr awr (ynghyd â TAW) |
| Costau Hanfodol | |
| Ffi Hysbysu | £580 |
| Ffi Gychwynnol (telir adeg cyflwyno) | £15,350 |
| Ffi ar gyfer Adroddiad ar yr Effaith Leol (telir adeg cyflwyno) | £7,750 (fesul ACLl perthnasol) |
| Sylwadau Ysgrifenedig<br>Gwrandawiad neu Ymchwiliad | Cyfradd ddyddiol o £870<br>Cyfradd ddyddiol o £920 |
| Ffi penderfynu (yn gymwys i bob prosiect DAC, ac eithrio ceisiadau ar gyfer llinellau trydan uwchben) | £14,700 (telir yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru) |

8.48 Bydd cyfanswm y costau yn amrywio yn ôl natur y datblygiad. Amcangyfrifir costau cyfartalog o £3,588,900 y flwyddyn i ddatblygwyr ar gyfer ceisiadau ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan yr opsiwn hwn.

*Cydsyniad i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989*

8.49 Gweinidogion Cymru sy'n rhoi cydsyniad i geisiadau Adran 36 yng Nghymru. Yn ôl Adroddiad Arup, amcangyfrifwyd cost gyfartalog o £1,586,500 i'r

datblygwr mewn perthynas â chyflwyno cais ar gyfer gorsaf gynhyrchu o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1980.

8.50 Yn seiliedig ar y costau fesul cais a nodwyd yn Adroddiad Arup a'r niferoedd amcangyfrifedig, amcangyfrifir mai'r costau i ddatblygwyr ar gyfer ceisiadau ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu fyddai £352,600 y flwyddyn.

*Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan adran 14 o Ddeddf Harbyrau 1964*

8.51 Yn seiliedig ar y costau fesul cais a nodwyd yn Adroddiad Arup a'u niferoedd amcangyfrifedig, amcangyfrifir mai'r costau i ddatblygwyr ar gyfer Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau fyddai £238,700 y flwyddyn.

*Gorchmynion o dan y DTG*

8.52 Gweinidogion Cymru sy'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer gorchmynion o dan y DTG yng Nghymru.

8.53 Yn seiliedig ar y costau fesul cais a nodwyd yn Adroddiad Arup a'u niferoedd amcangyfrifedig, amcangyfrifir mai'r costau i ddatblygwyr ar gyfer Gorchmynion o dan y DTG fyddai £350,800 y flwyddyn.

*Gorchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980*

8.54 Gweinidogion Cymru sy'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer gorchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 yng Nghymru.

8.55 Yn seiliedig ar y costau fesul cais i Lywodraeth Cymru wrth wneud penderfyniadau ar orchmynion priffyrdd a'u niferoedd amcangyfrifedig, amcangyfrifir mai'r costau i ddatblygwyr ar gyfer Gorchmynion Priffyrdd fyddai £258,000 y flwyddyn[9].

(d) Y Gymuned

8.56 Gall cymunedau a phartïon â diddordeb adolygu datblygiadau arfaethedig a chyflwyno sylwadau arnynt er mwyn rhoi eu barn. Fel y cyfryw, gallant gymryd rhan yn y broses gynllunio a dylanwadu ar y broses o ystyried y datblygiad arfaethedig. Ceir cyfle tebyg hefyd os cyflwynir apêl.

---

[9] Mae'r costau i ddatblygwyr ar gyfer cynlluniau priffyrdd yn seiliedig ar ddull sy'n cymhwyso eu costau penderfynu yn unig ar gyfer pob opsiwn a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Ceir esboniad llawn a chyfiawnhad dros y dull gweithredu a ddefnyddir ar gyfer cynlluniau priffyrdd yn y Papur Methodoleg.

8.57 Gall aelodau o'r cyhoedd gyflwyno sylwadau ar unrhyw gais cynllunio. Nid oes unrhyw ofyniad statudol i'r gymuned ddarparu ymatebion i ymgynghoriad sy'n gysylltiedig â cheisiadau ar gyfer datblygiadau seilwaith.

8.58 Mae cost amser i bartïon â diddordeb a'r cyhoedd wrth gymryd rhan yn y broses gynllunio. Fodd bynnag, mae'r gost yn amrywio, gan ddibynnu ar gefndir yr ymatebydd a natur ei ymateb. Felly, nid oes modd darparu swm yn seiliedig ar yr amser a gaiff ei dreulio yn cyflwyno sylwadau ar gynlluniau arfaethedig. Felly mae'r gost hon yn anhysbys. O dan yr opsiwn hwn, ystyrir y gallai fod achosion o ddyblygu cyfranogiad y gymuned, pe byddai'n rhaid i gymunedau gyflwyno sylwadau ar nifer o gyfundrefnau ar gyfer cynllun seilwaith unigol. Gallai hyn arwain at gostau ychwanegol o gymharu ag opsiynau eraill.

(e) Ymgyngoreion Statudol

8.59 Amcangyfrifodd Adroddiad Arup amrediad costau ar gyfer ymgyngoreion yn seiliedig ar y tasgau canlynol:

1. Costau amcangyfrifedig darparu ymateb o sylwedd i ymgeiswyr ar gyfer ymgynghoriad cyn ymgeisio;
2. Costau amcangyfrifedig darparu gwasanaethau i ymgeiswyr y tu hwnt i unrhyw ofynion statudol cyn cyflwyno cais a faint o'r gost honno a gafodd ei hadennill drwy ffi;
3. Costau amcangyfrifedig darparu ymateb i gais ar ôl ei gyflwyno;
4. Costau amcangyfrifedig cymryd rhan mewn archwiliad o gais (ac eithrio unrhyw ymateb ysgrifenedig i gyfnod ymgynghori).

**Tabl I – Costau cymryd rhan yn y prosesau cydsynio fesul ymgynghorai statudol (Arup 2019[10]) (ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf)**

| Cyfundrefn ddeddfwriaethol | Costau i'r ymgynghorai (£)[11] |
|---|---|
| Adran 57 o DCGTh 1990 | 1,200 - 3,100 |
| Adran 62D o DCGTh 1990 | 2,100 - 6,100 |
| DTG | 400 - 3,300 |
| Deddf Priffyrdd 1980 | 900 |
| Deddf Cynllunio 2008 | 2,600 - 62,600 |
| Adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 | 300 - 700 |
| Deddf Harbyrau 1964 | 700 - 25,400 |

[10] Arup 2019 'Ymchwil i Gost Datblygu Seilwaith yng Nghymru'
[11] Mae'r costau i ymgyngoreion statudol yn seiliedig ar gostau fesul cais fel y nodwyd yn adroddiad Arup 2019 ar gyfer y cyfnod asesu.

| Tabl J – Cyfanswm costau i ymgyngoreion statudol o dan Opsiwn 1 | | |
|---|---|---|
| Cyfundrefn ddeddfwriaethol | Cost fesul cais | Cyfanswm cost y flwyddyn |
| DAC | £6,580 | £26,320 |
| Trydan | £798 | £177 |
| Harbyrau | £20,910 | £11,617 |
| DTG | £2,956 | £328 |

*Caniatâd cynllunio o dan adran 57(1) o DCGTh 1990*

8.60 Yn ystod y cyfnod asesu, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw geisiadau y byddai penderfyniad yn cael ei wneud arnynt ar hyn o bryd o dan adran 57 o DCGTh 1990, ac felly amcangyfrifir nad oes unrhyw gostau i ymgyngoreion statudol ar gyfer y math hwn o gydsyniad.

*Caniatâd ar gyfer DAC o dan adran 62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*

8.61 Mae gofynion statudol sy'n ymwneud ag ymgyngoriadau cyn ymgeisio ac ymgyngoriadau wrth wneud penderfyniad ar gais ar gyfer DAC, ac mae'r gofynion hyn yn gymwys i gyrff penodedig.

8.62 Yn ogystal â'r gofynion statudol, gall Gweinidogion Cymru ymgynghori ar unrhyw ymgyngoreion eraill yr ystyrir ganddynt eu bod yn briodol. Fel y cyfryw, caiff ymgyngoriadau eu cynnal yn ôl disgresiwn ac maent yn amrywio.

8.63 Yn seiliedig ar ffigurau o Adroddiad Arup ar y costau ar gyfer ymateb i geisiadau ar gyfer DAC a'u niferoedd amcangyfrifedig, amcangyfrifir mai cyfanswm y costau blynyddol i ymgyngoreion statudol mewn perthynas ag ymateb i geisiadau ar gyfer DAC fyddai £26,300[12]. Fodd bynnag, dylid cydnabod y gall costau amrywio'n eang gan ddibynnu ar gyd-destun pob datblygiad arfaethedig. Er enghraifft, mae'n debygol y byddai angen cryn dipyn yn fwy o waith ymgysylltu â Cadw ar gyfer datblygiad a fyddai'n cael effaith bosibl ar ased treftadaeth ddynodedig nag ar gyfer datblygiad na fyddai'n cael unrhyw effeithiau sylweddol posibl ar ased treftadaeth.

*Cydsyniad i adeiladu a gweithredu gorsafoedd cynhyrchu o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989*

8.64 Mae Rheoliadau Gweithfeydd Trydan (Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017 yn diffinio'r cyrff ymgynghori ar gyfer ceisiadau ar gyfer cydsyniad o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 sy'n ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

[12] Costau bob blwyddyn ar gyfer pob ymgynghorai statudol.

8.65 Yn seiliedig ar ffigurau o Adroddiad Arup ar y costau ar gyfer ymateb i geisiadau ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu a'u niferoedd amcangyfrifedig, amcangyfrifir mai cyfanswm y costau blynyddol i bob ymgynghorai statudol mewn perthynas ag ymateb i geisiadau ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu fyddai £200.

*Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau o dan adran 14 o Ddeddf Harbyrau 1964*

8.66 Gweinidogion Cymru sy'n rhoi cydsyniad i geisiadau ar gyfer Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau yng Nghymru, a gall Gweinidogion Cymru ymgynghori â nifer o gyrff penodedig[13].

8.67 Yn seiliedig ar ffigurau o Adroddiad Arup ar y costau ar gyfer ymateb i geisiadau ar gyfer Gorchmynion Harbyrau a'u niferoedd amcangyfrifedig, amcangyfrifir mai cyfanswm y costau blynyddol i ymgyngoreion statudol mewn perthynas ag ymateb i geisiadau ar gyfer Gorchmynion Harbyrau fyddai £11,600.

*Gorchmynion o dan y DTG*

8.68 Mae gofynion ymgynghori statudol yn gymwys ar ôl cyflwyno cais am Orchymyn o dan y DTG. Yn seiliedig ar ffigurau o Adroddiad Arup ar y costau ar gyfer ymateb i geisiadau ar gyfer Gorchmynion DTG a'u niferoedd amcangyfrifedig, amcangyfrifir mai cyfanswm y costau blynyddol i ymgyngoreion statudol mewn perthynas ag ymateb i geisiadau ar gyfer Gorchmynion DTG fyddai £300.

*Gorchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980*

8.69 Mae gofynion statudol i ymgynghori mewn perthynas ag EIA pan gyflwynir cais ar gyfer gorchymyn Priffyrdd. Yn seiliedig ar ffigurau o Adroddiad Arup ar y costau ar gyfer ymateb i geisiadau ar gyfer Gorchmynion Priffyrdd a'u niferoedd amcangyfrifedig, amcangyfrifir mai cyfanswm y costau blynyddol i ymgyngoreion statudol mewn perthynas ag ymateb i geisiadau ar gyfer Gorchmynion Priffyrdd fyddai £1,600.

*Trwyddedu morol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*

8.70 Mae angen Trwydded Forol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r 2009 ar gyfer llawer o weithgareddau a gaiff eu cynnal yn y môr neu yn yr ardaloedd cyfagos.

[13] Fel y diffinnir yn Atodiad A o '[Canllaw orchymyn harbwr trefniadol yng Nghymru 2018 (llyw.cymru)]'.

Ar hyn o bryd, CNC sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar drwyddedau morol, a bydd y drefn honno'n parhau o dan yr opsiwn hwn.

8.71 Yn seiliedig ar gostau ar gyfer trawstoriad o achosion a ddarparwyd gan CNC a'u niferoedd amcangyfrifedig fel rhan o'r cyfundrefnau cydsynio seilwaith presennol, amcangyfrifir mai'r cyfanswm costau blynyddol i CNC mewn perthynas â gwneud penderfyniadau ar drwyddedau morol fyddai £4,600.

**Manteision Opsiwn 1**

Cyffredinol

8.72 O ganlyniad i'r trefniadau deddfwriaethol cymhleth ac anghyson presennol ar gyfer rhoi cydsyniad seilwaith, ceir cyfyngiadau ar allu proses newydd i wneud gwelliannau effeithlonrwydd. Lle bo angen cydsyniad o dan nifer o wahanol gyfundrefnau ar gyfer datblygiad seilwaith o bwys, ceir risg o ddryswch ac aneffeithlonrwydd i ymgeiswyr, cymunedau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fel ei gilydd. Gall hyn achosi oedi sylweddol i'r broses gydsynio a diffyg integreiddio wrth gyflwyno seilwaith.

Llywodraeth Cymru

8.73 Ar hyn o bryd, caiff penderfyniadau eu gwneud ar y lefel briodol ac maent yn cynnwys cymunedau a rhanddeiliaid perthnasol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ceir diffyg parhad ac effeithlonrwydd gweinyddol gan fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio gwahanol brosesau a gweithdrefnau i ymdrin â cheisiadau sydd, i bob pwrpas, yn gofyn am yr un hawliau ac yn cynnwys themâu tebyg o ran effaith, yn ogystal â gofynion ymgynghori anghyson.

8.74 Mae rhai prosesau cydsynio yn anfoddhaol o ran eu hamserlenni a'u gofynion[14]; ond yn achos y rhan fwyaf o'r cyfundrefnau cydsynio a restrir, mae gan Lywodraeth Cymru wahanol alluoedd o ran darparu'r holl hawliau sydd eu hangen ar ddatblygwr i roi cydsyniad ar waith. Mae'r diffyg cyfundrefn gydlynus unigol hwn yn golygu bod llai o eglurder o ran yr hyn y gwneir penderfyniad yn ei gylch, ac mae'n tanseilio amcan Llywodraeth Cymru i adeiladu economi gryfach, fwy gwyrdd yng Nghymru.

8.75 Mae'n bosibl na fydd y ffioedd cynlluniau ar gyfer y cyfundrefnau presennol yn adlewyrchu'r costau penderfynu gwirioneddol. Mae'n bosibl y caiff y ffioedd eu cynyddu o dan Opsiwn 2 er mwyn adlewyrchu'r costau gwirioneddol i Lywodraeth Cymru o ran gwneud penderfyniadau ar geisiadau.

[14] Cadarnhawyd hyn gan randdeiliaid o'r diwydiant datblygu wrth ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2018: “Newidiadau i'r broses o roi caniatâd seilwaith: Tuag at sefydlu proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru”.

8.76 O dan yr opsiwn hwn, ni fydd angen unrhyw newid i'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, gan felly arbed amser ac adnoddau i Lywodraeth Cymru, o ran drafftio'r ddeddfwriaeth newydd, llunio canllawiau ac ymateb i ymholiadau.

ACLlau

8.77 Mae'r trefniadau deddfwriaethol presennol yn diogelu ac yn codeiddio rôl ACLlau yn y system gynllunio ac yn gwarantu dull ar gyfer cyflwyno sylwadau. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes ‘siop un stop’ yn golygu ei bod hi'n bosibl y caiff cyfranogiad ACLlau ei ddyblygu ar draws amrywiaeth o gydsyniadau gwahanol, gan felly gynyddu'r llwyth gwaith. At hynny, gall y ffaith na chaiff ceisiadau y mae angen gwneud penderfyniad arnynt o dan ddeddfwriaeth lai cyffredin eu cyflwyno'n aml, fel Deddf Harbyrau 1974 a'r DTG, olygu y bydd ACLlau yn ei chael hi'n anodd cadw'r wybodaeth angenrheidiol i ymdrin â'r broses o roi cydsyniad ar gyfer datblygiadau o'r fath.

8.78 Ar hyn o bryd, mae ACLlau yn codi ffi safonol ar gyfer llunio LIR o dan y broses ar gyfer DAC. Fodd bynnag, nid oes ffi o'r fath yn gymwys o dan brosesau deddfwriaethol eraill, sy'n golygu bod yn rhaid i ACLlau dalu eu costau eu hunain am gyfrannu.

Y Diwydiant Datblygu

8.79 Mae datblygwyr yn debygol o fod yn gyfarwydd â chyfundrefnau cydsynio presennol a gallant ystyried y gost angenrheidiol wrth asesu hyfywedd y prosiect. Fodd bynnag, mae'r ffaith na chaiff rhai cyfundrefnau ymgeisio penodol eu defnyddio'n aml, a'r gwahaniaethau rhwng y gofynion deddfwriaethol, yn golygu nad yw datblygwyr yn debygol o ddatblygu dulliau syml ac effeithlon o ymdrin â'r amrywiol gyfundrefnau.

8.80 Mae'r ffaith nad oes ‘siop un stop’ yn golygu y gall fod angen sawl cydsyniad gwahanol ar ddatblygwyr, ar draws wahanol ddeddfwriaeth, er mwyn cyrraedd yr un nod, gan felly ychwanegu at y costau a'r risgiau. Gall cyfundrefn gydsynio dameidiog nad yw'n unedig olygu bod angen llawer o gydsyniadau, gan achosi oedi wrth roi datblygiadau ar waith.

8.81 Ar hyn o bryd, mae gofynion llai neu is ar gyfer ymgeiswyr o dan rai cyfundrefnau deddfwriaethol penodol, er enghraifft, nid oes unrhyw ofyniad ar gyfer ymgynghoriad cyn ymgeisio ar gyfer Gorchmynion Diwygio Harbyrau.

8.82 Ar hyn o bryd, nid oes gan rai cyfundrefnau fframweithiau polisi clir, sy'n arwain at fwy o risg i ddatblygwyr o gymharu â llunio polisi mwy pendant fel sail i'r broses ar gyfer DAC. Yn yr un modd, nid oes gan rai cyfundrefnau

deddfwriaethol amserlen statudol ar gyfer penderfyniadau sy'n arwain at ddiffyg sicrwydd i rai ymgeiswyr, y mae amserlenni clir o fudd iddynt er mwyn darparu rhagolygon costau cywir, a sicrwydd ar gyfer eu trefniadau llywodraethu.

Y Gymuned ac Ymgyngoreion Statudol

8.83 Oherwydd cymhlethdod, natur anrhagweladwy a chost y prosesau cydsynio presennol, gall fod yn anodd i'r gymuned gymryd rhan a lleisio barn. Yn aml, gall hyn olygu bod mantais i'r rhai sydd â'r mwyaf o amser ac adnoddau a'r wybodaeth orau am y broses.

8.84 Ar hyn o bryd, mae diffyg ymgyngoreion diffiniedig ar gyfer rhai cyfundrefnau deddfwriaethol penodol, sy'n golygu nad oes gwarant y caiff rhanddeiliaid trydydd parti eu cynnwys wrth ymgynghori ac na fyddant o bosibl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan.

8.85 Gall y gofyniad ar gyfer nifer o gydsyniadau o dan wahanol gyfundrefnau fod yn anodd i gymunedau ei ddeall, yn arbennig o ystyried y nifer bach o geisiadau a geir bob blwyddyn o dan rai cyfundrefnau penodol. O ystyried y cyfnodau hir a chymhlethdod achosion, mae cymunedau wedi'i chael hi'n anodd cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar rai prosiectau seilwaith.

**Opsiwn 2 – Rhoi math newydd o 'Gydsyniad Seilwaith Cymreig' ar waith ar gyfer datblygiadau neu waith sy'n anelu at adeiladu a/neu newid defnydd i greu 'Prosiect Seilwaith Cymreig'.**

**Disgrifiad o Opsiwn 2**

8.86 Mae'r opsiwn hwn yn cyflwyno proses gydsynio newydd ar gyfer datblygiadau seilwaith yng Nghymru. Byddai'n darparu ar gyfer proses gyson, dryloyw a phendant sy'n atgyfnerthu rôl cymunedau lleol ac yn symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau er mwyn gwella'r safonau gwasanaeth presennol.

8.87 Bydd angen CS ar ddatblygiad os bydd yn bodloni'r trothwyon a nodir mewn is-ddeddfwriaeth, neu os bydd wedi'i ddynodi'n ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol yng nghynllun defnydd tir cenedlaethol Cymru, 'Cymru'r Dyfodol'. At ddibenion eglurder, caiff datblygiadau sy'n bodloni'r trothwyon dangosol a nodir yn yr ymgynghoriad eu defnyddio i asesu effaith y cynnig hwn.

8.88 O dan yr opsiwn hwn, byddai Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer CS, yn dilyn argymhelliad gan Arolygydd penodedig PEDW. PEDW fyddai'n ymgymryd â'r dyletswyddau gweinyddol sy'n gysylltiedig â chais. Ar hyn o bryd, mae PEDW yn gweithredu fel un o is-adrannau Gweinidogol Llywodraeth Cymru, a byddai'r trefniant sefydliadol hwn yn parhau o dan Opsiwn 2.

8.89 Cynigir y byddai haen o drothwyon a meini prawf PSA dewisol yn cael eu gosod islaw'r trothwyon a'r meini prawf gorfodol. Ar gyfer y prosiectau dewisol hyn, byddai'r ymgeisydd yn penderfynu ai proses y CS neu un o'r cyfundrefnau deddfwriaethol presennol fyddai fwyaf addas ar gyfer y math o ddatblygiad a gynigir ganddo. Fodd bynnag, Gweinidogion Cymru fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol o ran a yw'r datblygiad yn cyfateb i PSA, ac felly a oes angen CS.

8.90 Cynhelir y broses gydsynio arfaethedig o fewn amserlen statudol a bydd yn cynnwys camau cyson i'w cymryd gan randdeiliaid. Bydd yn ofynnol i'r randdeiliaid allweddol gymryd rhan cyn cyflwyno cais, er mwyn sicrhau y gellir ffurfio datblygiad gan ystyried eu sylwadau. Bydd hefyd yn ofynnol i ACLlau gyflwyno LIR, sy'n asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar yr ardal leol, gan sicrhau y caiff safbwyntiau'r ACLl eu hystyried.

8.91 Byddai'r CS yn cynnwys ‘siop un stop’ ar gyfer prosiectau seilwaith a bennir gan y trothwyon perthnasol, gan felly ei gwneud hi'n bosibl cael gafael ar yr awdurdodiadau neu'r trwyddedau eraill sydd eu hangen ar yr un pryd, fel rhan o'r un cydsyniad. Bydd hyn yn sicrhau proses gyson sy'n effeithlon yn weinyddol ar gyfer penderfynu ar seilwaith ynni, gwastraff, dŵr a thrafnidiaeth mawr yng Nghymru.

8.92 O dan yr opsiwn hwn, byddai'r broses gydsynio arfaethedig yn cael ei rhoi ar waith yn llawn erbyn canol 2025, ac erbyn yr adeg honno, byddai'r holl ddarpariaethau deddfwriaethol cysylltiedig mewn grym. Mae'r sefyllfa hon yn dibynnu ar gael Cydsyniad Brenhinol i'r ddeddfwriaeth ar gyfer proses gydsynio newydd yng nghanol 2024, gan olygu y byddai cyfnod gweithredu o flwyddyn. Caiff y costau i'r amrywiol randdeiliaid eu hamlinellu isod. Disgwylir y byddai'r costau yn dechrau dod yn berthnasol ar yr adeg y caiff y darpariaethau deddfwriaethol eu cychwyn.

**Costau Opsiwn 2**

| **Tabl K – Costau trosi ar gyfer Opsiwn 2** | |
|---|---|
| Rhanddeiliad | Costau |
| Llywodraeth Cymru | £385,300 *(yn cynnwys cost o £330,000 ar gyfer rheoli achosion newydd a systemau TG, £43,000 ar gyfer hyfforddi a dosbarthu a £12,300 ar gyfer canllawiau untro ar gyfer y weithdrefn gydsynio newydd).* |
| ACLlau | £30,300 |
| Datblygwyr | £3,000 |
| Cymunedau | £0 |
| Ymgyngoreion Statudol | £0 |

| **Tabl L – Crynodeb o gostau net Opsiwn 2 bob blwyddyn i'r rhanddeiliaid a nodwyd (2025-26 i 2028-29)[1]** ***(dim ond er gwybodaeth y darperir y costau ychwanegol pellach a nodir mewn coch oherwydd disgwylir i'r costau hyn gael eu had-dalu, er enghraifft drwy dalu ffioedd)*** | |
|---|---|
| Rhanddeiliad | Cais am Gydsyniad Seilwaith |
| Llywodraeth Cymru | £0 (£567,700 yn cael ei ad-dalu) |
| ACLlau | £21,200 (£38,900 yn cael ei ad-dalu) |
| Datblygwyr | £4,208,400 |
| Cymunedau | Anhysbys |
| Ymgyngoreion Statudol | £35,100 |

1. Yn 2024-25, byddai'r costau yr un peth â'r llinell sylfaen (Opsiwn 1).

(a) Llywodraeth Cymru

8.93 Caiff ceisiadau ar gyfer CS eu cyflwyno i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt. Bydd PEDW yn prosesu ceisiadau a bydd Arolygydd penodedig yn cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad ar y cais ar ôl ystyried yr adroddiad.

8.94 At ddibenion yr asesiad hwn, mae cost prosesu a darparu adroddiad i Weinidogion Cymru yn seiliedig ar amcangyfrif o'r amser a'r costau staff sydd eu hangen ar hyn o bryd i benderfynu ar geisiadau ar gyfer DAC. Defnyddiwyd y dull hwn oherwydd ystyrir bod y tasgau dan sylw yn gymharol debyg i'r broses arfaethedig ar gyfer penderfynu ar CS.

8.95 Mae'r asesiad hwn o geisiadau ar gyfer CS yn y dyfodol o dan Opsiwn 2 yn seiliedig ar yr un nifer o brosiectau ag Opsiwn 1. Fodd bynnag, byddai cyfanswm o lai o geisiadau gan y byddai'r gofyniad i gael mwy nag un cydsyniad ar gyfer yr un datblygiad yn cael ei ddileu. Ar gyfer prosiectau a nodwyd yn ystod y cyfnod asesu, ceir esboniad o pam y byddai llai o geisiadau o dan Opsiwn 2 o gymharu ag Opsiwn 1 yn y Papur Methodoleg, Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Seilwaith (Cymru), Llywodraeth Cymru, Mehefin 2023.

8.96 Er yr ystyrir y gallai cyfundrefn CS newydd symlach arwain at ddatblygiadau ychwanegol yng Nghymru, byddai angen amser ar y diwydiant i addasu i'r broses. Felly, nid oes modd meintioli nifer y prosiectau ychwanegol a allai gael eu cyflwyno o dan broses newydd symlach fel y ceir o dan yr opsiwn hwn, gan y byddai yr un mor anodd rhagweld y gostyngiad posibl mewn ceisiadau er mwyn addasu ar gyfer proses newydd.

8.97 Gellir categoreiddio ceisiadau ar gyfer CS fel CSau dewisol (yn ôl disgresiwn Gweinidogion Cymru) neu orfodol. At ddibenion yr asesiad hwn, tybir y gall ymgeiswyr ddewis dilyn y broses benderfynu ar gyfer CS ar gyfer categorïau datblygiadau penodol yr ystyrir eu bod yn CSau dewisol (fel ffermydd solar neu dyrbinau gwynt), ond y byddant yn dewis gwneud cais i'r awdurdod cydsynio arferol ar gyfer mathau eraill o gynlluniau llai (fel cronfeydd gweithredu wrth gefn tymor byr).

8.98 Mae hyn oherwydd nad yw allbwn prosiect o reidrwydd yn pennu maint ei effeithiau. Er enghraifft, gall y broses bresennol ar gyfer penderfynu ar DAC gynnwys gorsafoedd cynhyrchu gwynt ar y tir yn ogystal â chronfeydd gweithredu wrth gefn tymor byr sy'n cael eu pweru gan dyrbinau nwy. Er y gall yr orsaf gynhyrchu gwynt gael effeithiau economaidd ac amgylcheddol sylweddol, fel arfer mae'r olaf yn cael effaith, ôl troed ac effeithiau amgylcheddol bach. Bydd y broses CS arfaethedig yn rhoi'r dewis i ddatblygwyr (yn ôl disgresiwn Gweinidogion Cymru) o ba brosesau cydsynio i ddilyn ac ar gyfer y prosiectau hynny ag effeithiau bach, mae'n bosibl nad proses CS yw'r llwybr mwyaf priodol.

| **Tabl M – Costau'r broses CS i Lywodraeth Cymru o dan Opsiwn 2** | | | |
|---|---|---|---|
| Lefel cymhlethdod DAC | Cost gyfartalog fesul cais i PEDW/Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio | Cyfanswm costau yn seiliedig ar nifer yr achosion dros y cyfnod asesu | Costau blynyddol cyfartalog (yn seiliedig ar 4.9 Cydsyniad Seilwaith bob blwyddyn) |
| Isel | £32,200 | £160,800 | £17,900 |
| Canolig | £76,100 | £1,826,000 | £202,900 |
| Uchel | £208,100 | £3,122,200 | £346,900 |
| **Cyfanswm** | | **£5,109,000** | **£567,700** |

8.99 Yn ystod y cyfnod asesu, penderfynwyd y byddai 44 o geisiadau y byddai disgwyl iddynt gael eu hystyried o dan y broses CS o dan yr opsiwn hwn. Yn seiliedig ar eu lefel cymhlethdod dybiedig ac wedi'i gymhwyso mewn ffordd ôl-weithredol, amcangyfrifir y byddai hyn yn arwain at gost o ryw £567,700 y flwyddyn i Lywodraeth Cymru (gan gynnwys PEDW) yn y dyfodol. Disgwylir i'r costau blynyddol hyn ddechrau yn 2025-26. Rhagwelir y caiff cost gwneud penderfyniad ar bob cais i Lywodraeth Cymru ei hadennill yn llawn drwy ffioedd ymgeiswyr. Felly nid oes unrhyw gost barhaus net i Lywodraeth Cymru o dan yr opsiwn hwn. Mae hyn yn arbediad cost blynyddol o ryw £65,400 i Lywodraeth Cymru (o gymharu â'r llinell sylfaen).

8.100 Byddai angen costau sefydlu, yn seiliedig ar yr angen i reoli achosion newydd a chael systemau TG newydd, hyfforddi staff PEDW, digwyddiadau rhannu gwybodaeth i ACLlau a'r diwydiant datblygu, yn ogystal â darparu canllawiau ar y broses newydd. Amcangyfrifir costau o £385,300 (sefydlu systemau TG newydd a rheoli achosion newydd - £330,000, hyfforddiant a lledaenu gwybodaeth £43,000, a chanllawiau £12,300). O ran gweithredu, disgwylir mai ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael Cydsyniad Brenhinol yng nghanol 2024 ac yn ystod y cyfnod gweithredu yn dilyn hynny yn 2024-25 y byddai'r costau sefydlu hyn yn berthnasol.

8.101 Ni fyddai unrhyw gostau trosiannol i randdeiliaid mewn perthynas â cheisiadau y byddai'r cyfundrefnau presennol yn berthnasol iddynt. Byddai penderfyniadau ar unrhyw geisiadau seilwaith a gyflwynwyd cyn i'r broses Cydsyniadau Seilwaith ddod i rym, ond sy'n cael eu hystyried o hyd, yn cael eu gwneud o dan y trefniadau a oedd ar waith adeg eu cyflwyno. Fel y cyfryw, tybir bod cost gwneud penderfyniadau ar geisiadau yn ystod 2024-25 yr un peth â'r gost yn senario'r llinell sylfaen (Opsiwn 1). Gan fod y costau penderfynu yn 2024-25 yr un peth ar draws pob opsiwn ac o ganlyniad, nad oes unrhyw effaith ar yr asesiad Gwerth am Arian, cafodd y costau hynny eu hepgor o'r dadansoddiad.

8.102 Er mwyn sicrhau y gellir adennill unrhyw gostau yr eir iddynt fel rhan o'r broses ymgeisio ar gyfer CS (gan gynnwys y cam cyn ymgeisio), ein bwriad yw darparu system ar gyfer codi ffioedd yn ystod amrywiol gamau'r broses hon. Rydym hefyd yn bwriadu ehangu'r gofyniad am ffioedd i'r cam ar ôl gwneud penderfyniad. Mae'n bosibl y caiff ceisiadau eu cyflwyno i ddiwygio CS, neu i ddiddymu CS, a bydd goblygiadau cost i Weinidogion Cymru a phartïon statudol eraill yn gysylltiedig â'r ddau. Yn debyg i DAC, rydym yn cynnig y dylid gallu adennill y gost weithredu lawn drwy ffioedd, yn unol ag egwyddorion cyllid cyhoeddus.

8.103 Nid oes modd meintioli nifer y trafodaethau cyn ymgeisio na'r amrywiadau ar ôl rhoi cydsyniad y gallai fod eu hangen na faint o adnoddau y gallai fod eu hangen i wneud penderfyniadau ar ddiwygiadau o'r fath. Felly mae'r gost hon yn anhysbys. Fodd bynnag, byddai unrhyw weithgarwch o'r fath gan Lywodraeth Cymru yn destun yr egwyddor adennill costau llawn gan ymgeiswyr.

(b) ACLlau

8.104 Bydd y broses o wneud cais am CS yn gofyn am fewnbwn sylweddol gan ACLlau, gan ddechrau yn ystod y cam cyn ymgeisio hyd at y broses archwilio. Bydd angen eu cyfranogiad hefyd yn ystod y cam ar ôl gwneud penderfyniad, er enghraifft, os cynigir amrywiadau i CS. Bydd strwythur ffioedd yn galluogi ACLlau i adennill costau (gan gynnwys gorbenion) am ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â CS.

8.105 Os bydd yr ymgeisydd yn gofyn am wasanaethau cyn ymgeisio, bydd yn ofynnol i bob ACLl ddarparu cyfres sylfaenol o wybodaeth benodedig, sy'n debygol o gynnwys y canlynol:

- Hanes cynllunio perthnasol y safle arfaethedig;
- Cyngor ar y gofyniad a'r cwmpas ar gyfer cyfraniadau adran 106 neu o dan yr Ardoll Seilwaith Cymunedol;
- Trafodaethau am unrhyw Ddatganiadau o Dir Cyffredin posibl;
- Syniad o'r materion lleol sy'n gysylltiedig â'r safle arfaethedig, gan gynnwys camau lliniaru posibl;
- Y fframwaith polisi lleol;
- Canllawiau ar unigolion, grwpiau neu gymdeithasau i ymgynghori â nhw.

8.106 Telir am y gwasanaethau hyn gan yr ymgeiswyr drwy ffi benodedig, y bwriedir iddi adennill y gost lawn.

8.107 O dan y broses bresennol ar gyfer DAC, mae'n ofynnol i'r ACLlau perthnasol lle lleolir y datblygiad gyflwyno LIR, sy'n darparu gwybodaeth ffeithiol am

effaith bosibl y datblygiad. Caiff y gofyniad hwn ei gadw ar gyfer y broses gydsynio ar gyfer CS. Bydd ar ffurf ffi benodedig. Ni fydd unrhyw ACLl arall sy'n cyflwyno LIR ar sail wirfoddol yn gymwys i gael ffi.

8.108 Caiff y ffi berthnasol ei chyfrifo drwy luosi cyflog cyfartalog swyddog cynllunio ACLl fesul awr â'r amser y mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i lunio LIR. Amcangyfrifir ar hyn o bryd bod y broses o lunio LIR yn costio £7,750 i bob ACLl[15] ar gyfer pob cais ar gyfer DAC. Gan dybio ffigur tebyg ar gyfer ceisiadau ar gyfer CS, mae hyn yn arwain at gyfanswm costau o £37,900 y flwyddyn i ACLlau (a gaiff ei ad-dalu gan ymgeiswyr), yn seiliedig ar amcangyfrif o 4.9 cais ar gyfer CS bob blwyddyn.

8.109 Yn ogystal â'r cyfraniad o ran yr LIR, bydd ACLlau yn mynd i gostau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan gyffredinol mewn archwiliadau ar gyfer CS, fel darparu tystiolaeth mewn gwrandawiadau. Amcangyfrifir y bydd y costau hyn yn gymharol debyg i gost cymryd rhan mewn ceisiadau ar gyfer DAC. Ar hyn o bryd, mae'n costio £4,300 i ACLl gymryd rhan mewn cais ar gyfer DAC. Felly, amcangyfrifir y bydd yn costio £21,200 y flwyddyn i ACLlau ymgymryd â'r broses CS yn ychwanegol at y broses ar gyfer LIR, na chaiff ei ad-dalu.

8.110 Ni fydd unrhyw newidiadau i'r system orfodi o'r model presennol o dan Opsiwn 1, lle mae ACLlau yn gyfrifol am gamau monitro a gorfodi, ac felly nid amcangyfrifir unrhyw gostau ychwanegol yn yr asesiad hwn.

8.111 Yn seiliedig ar dybiaeth o 4.9 cais ar gyfer CS bob blwyddyn, amcangyfrifir cyfanswm costau ymgysylltu â'r broses i ACLlau (LIR a chymryd rhan mewn archwiliadau) o ryw £59,100 y flwyddyn.

8.112 Yn ogystal â chyfranogiad ACLlau drwy'r broses CS, rhagwelir hefyd y byddai pedwar cais sy'n gymwys i fod yn destun CS dewisol yn cael eu cyflwyno fel ceisiadau cynllunio o dan adran 57 o DCGTh 1990, oherwydd eu math a'r tebygolrwydd y cânt eu cyflwyno i'r ACLl. Felly, amcangyfrifir y byddai tua 0.44 cais seilwaith yn cael ei benderfynu bob blwyddyn gan ACLlau, ar gost o £2,300 fesul cais. Byddai hyn yn arwain at gost ychwanegol o £1,000 y flwyddyn i ACLlau, a fyddai'n cael ei had-dalu drwy ffioedd.

8.113 Oherwydd y nifer bach o geisiadau o'r fath y mae ACLl yn penderfynu arnynt bob blwyddyn, tybir y gellid diystyru unrhyw gostau apêl i Lywodraeth Cymru at ddibenion yr asesiad hwn.

8.114 Yn seiliedig ar yr uchod, cyfanswm costau'r broses newydd ar gyfer cydsynio seilwaith o dan yr opsiwn hwn i ACLlau fyddai £60,100 y flwyddyn. Ni fyddai

[15] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/datblygiadau-o-arwyddocad-cenedlaethol-dns-canllaw-gweithdrefnol-2019.pdf

£21,200 o'r swm hwn yn cael ei ad-dalu. O gymharu â'r llinell sylfaen, mae hyn yn golygu arbediad cost net o ryw £4,800 bob blwyddyn i ACLlau. Disgwylir i'r arbediad cost hwn ddechrau yn 2025-26. Yn 2024-25, disgwylir i'r costau y bydd ACLlau yn mynd iddynt o ganlyniad i'r broses benderfynu fod yr un peth â'r costau yn yr opsiwn llinell sylfaen.

| **Tabl N – Costau i'r ACLlau ar gyfer proses CS o dan Opsiwn 2** | | |
|---|---|---|
| Tasg | Cost fesul cais | Cyfanswm cost y flwyddyn |
| Llunio Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) | £7,750 | £37,900 (y cyfan yn cael ei ad-dalu) |
| Cymryd rhan yn gyffredinol | £4,300 | £21,200 |
| Penderfynu ar geisiadau nad ydynt o dan gyfundrefn CS | £2,300 | £1,000 (y cyfan yn cael ei ad-dalu yn seiliedig ar 0.44 cais) |
| **Cyfanswm (y flwyddyn** | | **£60,100 (£38,900 yn cael ei ad-dalu)** |

8.115 O ran costau trosiannol, byddai cost untro i ACLlau am fynychu hyfforddiant wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru, er mwyn iddynt ddod yn gyfarwydd â'r broses newydd. Amcangyfrifir mai £30,300 fyddai'r costau hyn ac y byddent yn codi yn ystod y broses o weithredu'r gyfundrefn newydd yn 2024-25.

(c) Datblygwyr

8.116 Mae'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi cais yn amrywio, gan ddibynnu ar natur y cynllun.

8.117 At ddibenion yr asesiad hwn, tybir y bydd costau datblygwyr wrth baratoi ceisiadau ar gyfer CS yn gyson â'r costau ar gyfer ceisiadau ar gyfer DAC. Mae adroddiad Arup 2019 yn amcangyfrif cyfanswm costau cyfartalog o £897,200 i ddatblygwyr fesul cais ar gyfer DAC. Caiff y ffigur hwn ei gymhwyso at bob cais ar gyfer Cydsyniad Seilwaith, ac eithrio cynlluniau priffyrdd, ar gost flynyddol amcangyfrifedig o ryw £3,788,300 i ddatblygwyr. Ar gyfer y chwe chais ar gyfer CS y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno fel prosiectau priffyrdd, dim ond costau penderfynu a gaiff eu cymhwyso[16], gan arwain at gost flynyddol amcangyfrifedig o £177,100 i ddatblygwyr ar gyfer y cynlluniau hynny.

[16] Mae'r costau i ddatblygwyr ar gyfer cynlluniau priffyrdd yn seiliedig ar ddull sy'n cymhwyso eu costau penderfynu yn unig ar gyfer pob opsiwn a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Ceir esboniad llawn a chyfiawnhad dros y dull gweithredu a ddefnyddir ar gyfer cynlluniau priffyrdd yn y Papur Methodoleg.

| Tabl O – Costau i ddatblygwyr o adroddiad Arup 2019 (wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf) | |
|---|---|
| Tasg Datblygwr | Cost |
| Costau amcangyfrifedig paratoi cais | £670,000 |
| Costau amcangyfrifedig ymgymryd ag ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol | £23,300 |
| Costau amcangyfrifedig ymgymryd ag ymgynghoriad cyn ymgeisio anstatudol (h.y. cynnal digwyddiadau, rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau ac ati y tu hwnt i'r gofynion statudol) | £22,500 |
| Costau amcangyfrifedig cymryd rhan mewn archwiliad | £116,700 |
| Costau amcangyfrifedig gwneud diwygiad perthnasol i brosiect yn ystod y broses o archwilio cais, lle y gwnaed un. | £29,700 |
| Costau amcangyfrifedig gwneud diwygiad amherthnasol neu fân ddiwygiad i brosiect yn ystod y broses o archwilio cais, lle y gwnaed un. | £6,300 |
| Costau amcangyfrifedig creu a chynnal gwefan sy'n arddangos cais cyfan, am gyfnod o 6 mis | £17,500 |
| Costau amcangyfrifedig cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol neu gyfnodolyn perthnasol yn hysbysebu cais arfaethedig ar gyfer datblygiad, am gyfnod o wythnos | £11,300 |
| **Cyfanswm costau** | **£897,200** |

8.118 Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn rhoi dewis o ran sut y dylid gwneud penderfyniad ar gais ar gyfer DAC h.y. naill ai gan ACLlau neu Weinidogion Cymru. O dan yr opsiwn hwn, nodwyd y byddai ymgeiswyr yn gallu dewis gwneud cais am CS neu wneud cais am ganiatâd cynllunio i'r ACLl o dan rai amgylchiadau penodol. Amcangyfrifir mai'r ail ddewis fyddai'n berthnasol ar gyfer pedwar cais yn ystod y cyfnod asesu (0.44 bob blwyddyn).

8.119 Mae'r ffigur o £670,000 ar gyfer costau paratoi cais ar gyfer DAC o Adroddiad Arup yn cynnwys ffioedd ceisiadau cynllunio[17]. Wrth hepgor yr holl ffioedd

[17] Fel y cadarnheir ar dudalen 21 o Adroddiad Arup: Ymchwil i Gost Datblygu Seilwaith yng Nghymru: Adroddiad Astudiaeth. Arup 2019

ymgeisio sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o ffigur Adroddiad Arup, ceir cyfanswm costau datblygwr o £544,500 ar gyfer paratoi cais seilwaith i ACLl. Byddai ffi o £2,300 fesul cais yn daladwy ar wahân i ACLlau am wneud penderfyniad.

8.120 Felly, amcangyfrifir mai £546,800 yw'r cyfanswm costau i ddatblygwyr ar gyfer paratoi a chyflwyno cais seilwaith nad yw'n rhan o broses CS newydd. Yn seiliedig ar amcangyfrif o 0.44 o geisiadau o'r fath bob blwyddyn, byddai hyn yn arwain at gostau ychwanegol o £243,000 i'r diwydiant datblygu ar gyfer cyflwyno ceisiadau o'r fath i ACLlau yn y dyfodol.

8.121 Yn seiliedig ar yr uchod, cyfanswm y costau i ddatblygwyr o dan yr opsiwn hwn fyddai £4,208,400 y flwyddyn. Mae hyn yn arbediad cost (o gymharu â'r llinell sylfaen) o ryw £580,500 bob blwyddyn. Disgwylir i'r arbediad cost hwn ddechrau yn 2025-26. Yn 2024-25, disgwylir i'r costau y bydd datblygwyr yn mynd iddynt o ganlyniad i'r broses benderfynu fod yr un peth â'r costau yn yr opsiwn llinell sylfaen.

8.122 O ran costau trosiannol, byddai cost untro i'r diwydiant datblygu am fynychu hyfforddiant wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru, er mwyn iddo ddod yn gyfarwydd â'r broses newydd. Amcangyfrifir mai £3,000 fyddai'r costau hyn ac y byddent yn codi yn ystod y broses o weithredu'r gyfundrefn newydd yn 2024-25.

8.123 Mae atgyfnerthu'r cyfundrefnau cydsynio unigol i greu proses unigol symlach yn amlwg yn cynnig arbediad cost sylweddol i ddatblygwyr o gymharu â'r system bresennol o dan Opsiwn 1.

(d) Y Gymuned

8.124 Ni fydd unrhyw newidiadau i rôl y cyhoedd a phartïon â diddordeb yn y system gydsynio newydd o gymharu â'r system bresennol, fel y disgrifir yn Opsiwn 1. Felly, ni fydd unrhyw gostau newydd i bartïon â diddordeb a'r cyhoedd. Byddai uno'r cyfundrefnau cydsynio unigol presennol i greu proses CS unigol yn arwain at arbedion cost, drwy leihau'r achosion o ddyblygu cyfranogiad y gymuned.

8.125 Nid ystyrir bod modd meintioli'r manteision ariannol cysylltiedig i gymunedau o ganlyniad i Opsiwn 2. Felly, nid yw'r arbedion cost hyn yn hysbys.

(e) Ymgyngoreion statudol

8.126 Yn ystod y broses ar gyfer CS, o'r cam cychwynnol drwy'r cam archwilio a'r cam penderfynu, bydd sawl enghraifft lle y bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd neu

Lywodraeth Cymru hysbysu ymgyngoreion rhagnodedig a/neu ymgynghori â nhw.

8.127 Ni fydd unrhyw newidiadau i'r ffordd y bydd ymgyngoreion statudol yn ymgysylltu â'r broses gynllunio o dan y gyfundrefn CS arfaethedig.

8.128 Disgwylir y bydd y gost i ymgyngoreion statudol gymryd rhan yn y broses CS yn gymharol debyg i'r gost ar gyfer y broses bresennol ar gyfer DAC. Yn seiliedig ar y costau a nodwyd yn Adroddiad Arup a'r nifer o geisiadau a ragwelir bob blwyddyn, disgwylir mai'r cyfanswm y gost flynyddol i ymgyngoreion statudol fydd £32,200.

8.129 Yn ogystal, y costau i ymgyngoreion statudol ar gyfer ceisiadau y gwneir penderfyniad arnynt gan ACLlau fyddai £2,900 y flwyddyn.

8.130 O dan yr opsiwn hwn, byddai'r gofynion i CNC wneud penderfyniadau ar drwyddedau morol yn cael eu cynnwys fel rhan o'r broses ar gyfer CS. Er na fyddai bellach yn ofynnol i CNC wneud penderfyniadau ar drwyddedau morol, byddai costau yn codi i CNC wrth ryngweithio â'r broses gydsynio alltraeth. Ystyrir y byddai'r gost hon yr un peth ar gyfer pob opsiwn.

8.131 Yn yr un modd â'r LIR ar gyfer ACLlau, o dan yr opsiwn hwn cynigir y dylid cyflwyno'r gofyniad i CNC gyflwyno Adroddiad Effaith ar y Môr ("MIR"), sy'n dogfennu'r effaith ar yr amgylchedd morol pan fydd ymgeisydd yn ceisio cynnwys trwydded forol ochr yn ochr â'i gydsyniad.

8.132 Mae cost yr MIR i CNC yn debygol o fod yn debyg i gost ymgysylltu â'r broses o dan Opsiwn 1. Bydd Llywodraeth Cymru yn pennu ffi ar gyfer yr MIR gyda'r bwriad o adennill cost gweithgareddau nad ydynt yn destun cymorth grant. Byddai angen gwaith ymgynghori pellach i bennu swm priodol, felly ni ellir costio'r elfen ffioedd at ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

8.133 Yn seiliedig ar yr uchod, cyfanswm y gost i ymgyngoreion statudol o dan yr opsiwn hwn fyddai £35,100 y flwyddyn o gymharu â chost amcangyfrifedig o £44,600 y flwyddyn o dan Opsiwn 1. Mae hyn yn arbediad cost o ryw £9,500 y flwyddyn. Disgwylir y bydd yr arbediad cost yn berthnasol o 2025-26 (yn 2024-25, bydd y costau yr un peth ag ar gyfer Opsiwn 1). Mae'r arbediad hwn a ragwelir o dan Opsiwn 2 yn deillio o'r ffaith y bydd cyfundrefnau cydsynio yn cael eu huno o dan y broses ar gyfer CS. Felly, byddai ymgyngoreion statudol yn cymryd rhan mewn llai o geisiadau ar gyfer un datblygiad o gymharu ag Opsiwn 1.

**Manteision Opsiwn 2**

Llywodraeth Cymru

8.134 Yn ogystal ag arbedion effeithlonrwydd i Lywodraeth Cymru yn deillio o gyfundrefn symlach, gallai proses gydsynio unedig roi mantais gystadleuol i Gymru dros weinyddiaethau cyfagos drwy sicrhau cyfundrefn fwy effeithlon a chyson, cynyddu sicrwydd ac arwain at benderfyniadau amserol. Mae system gydlynus unigol yn cael gwared ar natur anrhagweladwy a chymhlethdod defnyddio gwahanol drefniadau cydsynio, ac yn cynnig proses fwy hyblyg a all ymateb yn well i newidiadau, heriau a chostau yn y dyfodol.

8.135 Mae darparu llwybr cydsynio newydd ar gyfer datblygiadau seilwaith arfaethedig yn cyfrannu at nodau ac amcanion Gweinidogol. Byddai ceisiadau ar gyfer CS yn fwy cost-effeithiol i ddatblygwyr, gan felly annog twf eocnomaidd ac ymdrechion i ddatblygu economi carbon isel, gan ar yr un pryd sicrhau proses graffu gadarn a democrataidd i bob rhanddeiliad.

8.136 Mae rhannau o'r trefniadau cydsynio presennol wedi ymsefydlu'n gadarn. Mae'n bosibl y bydd angen cryn dipyn o amser i'r ddeddfwriaeth newydd ddod yn rhan o'r drefn, ac felly y bydd yn llai effeithlon am gyfnod dros dro. Fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd y manteision tymor hir yn werth llawer mwy nag unrhyw ymyriadau dros dro ac y dylai'r broses o lunio canllawiau helpu i leihau unrhyw ddryswch.

ACLlau

8.137 Fel rhan o'r gyfundrefn CS, bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried safbwyntiau ACLlau ar rinweddau cais. Bydd gostyngiad yn nifer y ceisiadau ar wahân yn lleihau'r adegau lle y caiff cyfraniadau ACLlau eu dyblygu, a thrwy hynny arbed adnoddau.

8.138 Mae'r gyfundrefn CS yn cynnig cyfle i ACLlau gael eu had-dalu'n rhannol am eu cyfraniadau mewn perthynas â chyfundrefnau yr oeddent yn cymryd rhan ynddynt yn y gorffennol gan dalu eu costau eu hunain, fel gorchmynion o dan Ddeddf Harbyrau 1964. Mae'r dull safonol mewn perthynas ag ad-dalu costau yn cryfhau gallu ACLlau i gyfrannu gwybodaeth arbenigol at y broses gydsynio. Bydd hyn yn galluogi ACLlau i ddyrannu adnoddau priodol i'r broses CS. Bydd cyfle o hyd i ACLlau gael eu hariannu hefyd am waith ychwanegol drwy Gytundeb Perfformiad Cynllunio.

Datblygwyr

8.139 Bydd datblygwyr yn cael budd o gyfundrefn symlach a hygyrch, sy'n golygu y gellir cynnal archwiliadau effeithlon o fewn amserlen benodedig. Bydd gwell

cysondeb ar draws datblygiadau seilwaith mawr yng Nghymru, gan sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth gan ddatblygwyr o ran pa broses i'w defnyddio a chynnig effeithlonrwydd gweinyddol. Byddai dewis proses o'r fath yn cyfleu'r neges bod Cymru yn agored ar gyfer busnes.

8.140 Byddai proses gydsynio fwy unedig yn lliniaru unrhyw broblemau o ran amseru a chymhlethdod sy'n gysylltiedig â gwneud cais am gydsyniad o dan y fframweithiau deddfwriaethol rhanedig presennol. Mae dull 'siop un stop' o fudd i ddatblygwyr gan fod y gofyniad presennol i gael gafael ar awdurdodiadau eraill ochr yn ochr â'r prif gydsyniad yn arwain at gostau ac amser ychwanegol.

8.141 Gall cadw cyfundrefnau sydd eisoes yn bodoli, sy'n haenog ac sy'n dod o dan Ddeddfau ar wahân, fod yn ddryslyd i ddatblygwyr. Bydd cyfundrefn gydsynio newydd unedig yn galluogi'r datblygwr i gyfuno caniatadau cysylltiedig neu atodol mewn un caniatâd. Mae'r dull 'siop un stop' wedi'i brofi a'i gydnabod gan y diwydiant datblygu yn Lloegr[18]. Felly, prin iawn y byddai angen addasiadau gan ddatblygwyr i sefydlu proses debyg.

8.142 Mae angen sicrwydd ynghylch penderfyniadau er mwyn cadw ein sector seilwaith yn gystadleuol a gallu ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau. Ar hyn o bryd, mae'r drefn gydsynio yng Nghymru yn cael ei gosod o fewn cyfundrefnau sy'n bodoli eisoes nad ydynt yn cynnig sicrwydd o ran amserlenni, fel y gwna Deddf Cynllunio 2008 yn Lloegr. O dan y gyfundrefn CS, bydd amserlen statudol sefydlog ar gyfer gwneud penderfyniadau ar brosiectau seilwaith yn cynnig mwy o sicrwydd i'r diwydiant datblygu.

8.143 Bydd cynnwys y gallu i wneud cais am bwerau i gaffael tir neu hawliau mewn tir ar sail orfodol fel rhan o'r gyfundrefn CS yn hanfodol i ddatblygwyr, lle nad yw'n ymarferol caffael yr holl dir neu hawliau sydd eu hangen ar gyfer datblygiad drwy gytundeb, neu lle y byddai'n effeithio ar fuddiannau ymgymerwyr statudol.

8.144 Mae CS dewisol yn cynnig mwy o hyblygrwydd i ddatblygwyr ddewis y llwybr cydsynio mwyaf priodol ar gyfer datblygiadau seilwaith llai o faint.

Y Gymuned

8.145 Ni fydd unrhyw newidiadau i rôl y gymuned a phartïon â diddordeb yn y gyfundrefn gydsynio newydd o gymharu â'u rôl yn y system bresennol yn

[18] Mae'r Gymdeithas Cynllunio Seilwaith Genedlaethol (NIPA) yn gorff o unigolion a sefydliadau, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, sy'n rhan o'r gyfundrefn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol yn Lloegr o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (NIPA | NIPA (nipa-uk.org))

Opsiwn 1. Fel rhan o'r broses ar gyfer gwneud cais ar gyfer CS, bydd aelodau o'r cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb yn parhau i gael cyfle i ymgysylltu â chais ac i roi eu barn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniad ei hystyried.

8.146 Wrth ddarparu dull ‘siop un stop’, lle bydd pob cydsyniad sydd ei angen i roi prosiect ar waith wedi'i gynnwys mewn un cais, byddai'r trefniadau ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn symlach ac yn cynnig llwybr mwy hygyrch i aelodau'r cyhoedd gymryd rhan na'r llwybr sydd ar gael ar hyn o bryd. Rydym yn bwriadu ei gwneud hi'n ofynnol cysylltu â chymunedau lleol cyn cyflwyno ceisiadau ym mhob achos er mwyn sicrhau y gall sylwadau cymunedau lleol lywio datblygiadau, ac er mwyn darparu cysondeb i gymunedau wrth ymdrin ag unrhyw ddatblygiadau seilwaith neu ddatblygiadau mawr.

8.147 Byddai’r opsiwn hwn yn gwella’r trefniadau ar gyfer ymgynghori â chymunedau cyn cyflwyno cais ac yn cysoni’r tefniadau hynny ar gyfer cynlluniau seilwaith gan ffurfioli’r drefn ar gyfer yr holl ystod o gydsyniadau sydd eu hangen er mwyn i brosiect allu mynd yn ei flaen. Er enghraifft, os cynigir prosiect seilwaith a bod angen cydsyniad arno o dan y broses DAC ar gyfer yr elfennau cynllunio, o dan Ddeddf Drydan 1989 ar gyfer gorsaf cynhyrchu trydan alltraeth ac o dan Ddeddf Harbyrau 1964 ar gyfer elfennau’r porthladd. O dan y trefniadau cydsynio cyfredol, ni fyddai angen cynnal ymgynghoriad cyn cyflwyno cais ar yr orsaf gynhyrchu nag elfennau porthladd y cynnig. Byddai ymgynghoriad cyn ymgeisio’n fater gorfodol ar gyfer yr holl gydsyniadau sydd eu hangen ar y cynllun o dan y broses gydsynio sy’n cael ei chynnig. Drwy hynny, ymgysylltir yn llawn â chymunedau ar bob agwedd ar gynllun seilwaith o’r cam cynharaf posibl, yn hytrach nag ar rai elfennau yn unig fel ar hyn o bryd.

8.148 Ar gyfer yr opsiwn hwn, byddai gofyn i ddatblygwyr baratoi adroddiad ar yr ymgynghoriad cyn ymgeisio. Bydd yn rhaid cyflwyno’r adroddiad gyda’r cais a dangos sut y mae pob sylw a chynrychioliad a ddaeth i law am y cynllun gan randdeiliaid, gan gynnwys cymunedau, wedi’u hystyried, Byddai’n rhaid ateb y gofyn hwn mewn perthynas â’r prosiect seilwaith cyfan cyn y câi fynd yn ei flaen. Sicrheir felly bod ymgynghoriad ystyrlon yn cael ei gynnal â’r ymgeiswyr ar y prosiect cyfan. Nid oes asesu na chraffu ar hyn o dan y cyfundrefnau cyfredol.

8.149 Trwy grynhoi'r cydsyniadau niferus sydd eu hangen ar gyfer cynllun seilwaith mewn un cydsyniad, byddai hynny’n arbed amser ac adnoddau i gymunedau wrth ymgysylltu. Er enghraifft, ar hyn o bryd, o ran cais ar gyfer Morlyn Llanw, efallai y byddai angen cydsyniad ar gyfer y prif elfennau gweithredol fel Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, un neu fwy o Orchmynion Diwygio Harbwr ar gyfer elfennau’r porthladd, trwydded forol ar gyfer yr elfennau alltraeth yn ogystal â chydsyniadau eilaidd eraill (er enghraifft, trwydded ar gyfer

rhywogaethau). Yn yr enghraifft hon, byddai gofyn i gymunedau gymryd rhan mewn o leiaf 4 ymgynghoriad ar y prosiect, a hynny'n mae'n debygol dros gyfnodau gwahanol. Byddai'n dreth ar amser unigolion ac yn debygol o arwain at syrffed ar ymgynghoriadau, yn sgil gorfod ymgysylltu sawl gwaith â gwahanol elfennau o'r un cynnig. Oherwydd nifer yr ymgynghoriadau, gallai arwain at ddiffyg tryloywder ac mae perygl mawr y gallai unigolion golli o leiaf un ymgynghoriad ac yn anfwriadol, peidio â chynnig sylw ar elfen bwysig o'r cynllun. Byddai ymgynghori ar un broses gydsynio yn symleiddio pethau i gymunedau trwy alluogi cymunedau i ystyried cynnig cydlynus a chynhwysfawr, gan ei gwneud yn fwy tryloyw a chynyddu eu gallu i gynnig mewnbwn ar bob agwedd. Byddai hefyd yn osgoi dyblygu diangen lle byddent yn debygol o roi sylwadau tebyg sawl gwaith o dan y cyfundrefnau cyfredol ar gyfer yr un prosiect, gan wneud defnydd mwy effeithiol o'u hamser a'u hadnoddau.

8.150 Byddai manylion y darpariaethau ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau ar brosiectau seilwaith y penderfynir arnynt o dan gyfundrefn gydsynio newydd yn cael eu gosod allan mewn is-ddeddfwriaeth. Byddai hynny'n caniatáu i ddulliau ymgynghori ac ymgysylltu ar brosiectau seilwaith gael eu rhagnodi, a hyn sy'n bwysig, bydd modd eu diweddaru a'u cadw'n berthnasol. Er enghraifft, bydd technolegau newydd yn rhoi'r modd i ymgysylltu'n gynt ac yn fwy trylwyr â chymunedau ac efallai y byddai angen i'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol adlewyrchu hyn. Byddai'r opsiwn hwn yn cadw trefniadau ymgysylltu priodol a thrylwyr ar bob agwedd ar brosiect seilwaith yn addas at y dyfodol, yn wahanol i'r prosesau cydsynio ar wahân a geir ar hyn o bryd.

8.151 Er mwyn sicrhau bod y broses yn gyfarwydd ac yn hygyrch i'r cyhoedd, mae'n bosibl y bydd CS ar ffurf cydsyniad mwy confensiynol mewn sawl achos lle maent ar ffurf Offeryn Statudol ar hyn o bryd.

<u>Ymgyngoreion Statudol</u>

8.152 Fel rhan o'r broses ar gyfer gwneud cais ar gyfer CS, bydd ymgyngoreion statudol yn parhau i gael y cyfle i ymateb i geisiadau, a chaiff eu hymatebion eu hystyried gan y rhai sy'n gwneud y penderfyniad.

8.153 Er mwyn sicrhau y caiff pob corff a sefydliad angenrheidiol ei gynnwys fel rhan o'r broses, caiff pob ymgynghorai statudol a'r amgylchiadau lle dylid ymgynghori â'r ymgynghorai hwnnw eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnig mwy o sicrwydd i ymgyngoreion statudol, o gymharu â rhai o'r cyfundrefnau presennol lle nad yw eu rôl o bosibl wedi'i chodeiddio'n ffurfiol o fewn cyfreithiau.

8.154 Disgwylir y bydd y broses ar gyfer CS yn fwy effeithlon i ymgysylltu â hi'n weinyddol, gan y bydd y cydsyniadau sydd eu hangen yn symlach, ac y byddai gwaith ymgynghori yn cael ei gynnal ar ffurf gyson. Dylai'r dull unedig hwn hefyd leihau achosion o ddyblygu ymatebion ar gyfer yr un datblygiadau.

Cyfiawnhad ac eglurhad pellach ynghylch y manteision a amlinellir o dan yr opsiwn hwn

8.155 Mae manteision yr opsiwn hwn a restrir yn yr AERh yn cynnwys **cael gwared ar gymhlethdod, lleihau dyblygu a darparu proses fwy effeithiol.** Rydym wedi costio mantais defnyddio un gyfundrefn ar gyfer cyflwyno ceisiadau a phenderfynu arnynt, o’i chymharu â’r cyfundrefnau cydsynio niferus cyfredol. Nodir yr arbedion cost hyn yn rhannau eraill yr AERh: er enghraifft yr arbedion cost i ddatblygwyr o gyflwyno’u ceisiadau trwy un broses.

8.156 Ceir manteision ehangach yn sgil cael gwared ar gymhlethdod, lleihau dyblygu a darparu proses fwy effeithiol nad oes modd eu mesur. Er enghraifft, manteision o ran amser lle mae partïon â diddordeb ar hyn o bryd yn ymdrin â sawl cais ar gyfer yr un prosiect ond o dan broses gydsynio symlach, dim ond un cais y byddai gofyn iddynt ddelio ag ef. Bydd hyn yn amrywio’n fawr o gynllun i gynllun, gan ddibynnu ar natur y cynllun, gan gynnwys y math o gais, ei leoliad a’i effeithiau, a chan ddylanwadu ar nifer y rhanddeiliaid sydd â diddordeb a’r graddau y mae pobl yn gallu ymgysylltu (yn ôl eu hamgylchiadau personol).

8.157 Disgwylir y bydd manteision o ran adnoddau, megis yr amser a’r ymdrech a arbedir wrth gyflwyno cynlluniau a thystiolaeth i gefnogi cais, y bydd datblygwyr yn elwa arnynt wrth ddefnyddio un broses i baratoi a chyflwyno gwybodaeth. Fodd bynnag, bydd hyn hefyd yn amrywio o gynllun i gynllun gan ddibynnu ar natur y cynllun a’i leoliad, a hefyd ar yr adnoddau y byddai datblygwr yn barod i’w neilltuo ar gyfer pob cais. Felly hefyd mewn perthynas â’r wybodaeth y bydd gofyn i ymgyngoreion statudol ei chyflwyno. Byddai hynny hefyd yn amrywio o gynllun i gynllun a natur yr ymateb y gofynnir i ymgyngoreion statudol amdano.

8.158 Byddai manteision o ran adnoddau i Lywodraeth Cymru o ran amser ac adnoddau swyddogion ar y cynllun o orfod delio â llai o geisiadau ar gyfer yr un prosiect. Byddai hynny’n wir hefyd i awdurdodau lleol o orfod gwneud llai o gyfraniadau neu gynrychioliadau ar gynllun. Ar wahân i’r arbedion cost i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol y ceir tystiolaeth amdanynt mewn mannau eraill, nid yw’n hawdd mesur arbedion fel amser gan eu bod yn amrywio o gynllun i gynllun.

8.159 Gyda phroses gydsynio newydd sy’n cynnwys pwerau i gaffael tir neu hawliau mewn tir yn orfodol fel rhan o’r cais seilwaith, byddai hynny’n arwain at ragor o

fanteision o ran costau ac amser i ddatblygwyr trwy iddynt allu cael yr holl gydsyniadau tir sydd eu hangen arnynt fel rhan o un cais. Mae hon yn fantais nad oes modd ei chostio yn yr AERh gan y bydd y graddau y bydd prynu gorfodol wedi'i gynnwys mewn cydsyniadau yn y dyfodol yn amrywio'n fawr o gynllun i gynllun. Bydd gan bob cais ei ofynion ei hun o ran y tir sydd ei angen ar gyfer y datblygiad. Nid oes data hanesyddol clir am gaffael tir ac nid oes modd i ni felly gynnig ffigur ar y fantais hon yn yr AERh. Mae'r AERh yn darparu manylion mewn man arall am arbedion cost i ddatblygwyr yn sgil symleiddio'r broses ymgeisio iddynt, ond gallai caffael tir yn orfodol fel rhan o'r un cydsyniad fod yn fantais ehangach a allai arwain at ragor o arbedion cost.

8.160 Mae'r AERh yn rhestru **proses cydsynio mwy hyblyg** fel un o fanteision yr opsiwn hwn. Rydym wedi costio yn yr AERh yr arbedion cost a ddaw i ran datblygwyr a Llywodraeth Cymru yn sgil proses gydsynio mwy hyblyg trwy asesu sut y byddid yn debygol o fod wedi penderfynu ar geisiadau yn y gorffennol o dan broses newydd, gan ddibynnu ar faint a chymhlethdod y ceisiadau hynny. Er enghraifft, rydym wedi costio gorchmynion priffyrdd y penderfynir arnynt fel ceisiadau DAC cymhleth iawn o dan broses newydd, lle byddai'r weithdrefn yn debygol o ofyn am ymchwiliad oherwydd yr angen am graffu ychwanegol ar gyfer ceisiadau mor gymhleth. Felly, trwy asesu ceisiadau'r gorffennol a'u gweithdrefn debygol o dan broses newydd, rydym wedi costio ar gyfer proses mwy hyblyg o ran dilyn dull gweithredu cymesur lle byddai'n rhaid wrth weithdrefnau gwahanol ar gyfer ceisiadau seilwaith gwahanol o ran eu maint a'u cymhlethdod. Fodd bynnag, nid oes modd costio beth fydd mantais yr hyblygrwydd hwn yn y dyfodol o ran y ceisiadau go iawn a gyflwynir o dan broses newydd.

8.161 Mae cyfundrefn gydsynio newydd o dan yr opsiwn hwn yn cynnig manteision eraill o ran hyblygrwydd, megis gallu ymateb yn briodol pan ddaw technoleg seilwaith newydd. Er enghraifft, mae cyfundrefn newydd yn rhoi'r hyblygrwydd i ni allu ei diweddaru'n gyflym o ran y mathau o geisiadau y penderfynir arnynt drwyddi. Gallai hynny olygu manteision i ddatblygwyr o gael cyflwyno'u ceisiadau o dan broses effeithiol, wedi'i symleiddio. Mae hynny'n wahanol i'r sefyllfa bresennol lle na cheir yr hyblygrwydd i allu diweddaru gweithdrefnau ymgeisio. Fodd bynnag, mae'r manteision hyn yn seiliedig ar amgylchiadau'n newid yn y dyfodol. O ran technolegau yn y dyfodol, effeithir ar eu manteision i'r graddau eu bod yn arwain at benderfynu ar fathau penodol o brosiectau o dan gyfundrefn newydd yn y dyfodol. Nid ydym yn gwybod hynny. Felly nid oes modd mesur y manteision hynny.

8.162 O ran bod y broses newydd yn **symlach**, mae hon yn fantais sy'n deillio o'r ffaith bod y system yn fwy tryloyw ac yn haws i ddatblygwyr a rhanddeiliaid eraill fel cymunedau ac ymgyngoreion statudol sydd am gymryd rhan ynddi ei

deall. Nid oes elfen gost uniongyrchol i briodweddau fel ymwybyddiaeth o’r broses, a’r gallu i ddeall y broses, y gellir eu costio yn yr AERh.

8.163 O ran bod y broses yn **cyfrannu at amcanion a nodau Gweinidogion, fel economi carbon isel**. Fel y gwelir mewn mannau eraill yn yr AERh, rydym wedi costio manteision un broses gydsynio o ran yr arbedion cost i randdeiliaid gwahanol. Fodd bynnag, gall proses gydsynio esgor ar ragor o fanteision. Er enghraifft, mae system sy’n llai costus, sy’n fwy effeithiol ac sydd ag amserlen fwy pendant ar gyfer penderfynu ar geisiadau seilwaith yn debygol o annog pobl i fuddsoddi yng Nghymru. Dylai hynny annog y mathau o ddatblygu a allai gyfrannu at amcanion Llywodraeth Cymru ynghylch economi carbon isel a ffyniannus. Ni ellir priodoli costau uniongyrchol i’r manteision hyn gan eu bod yn rhai anuniongyrchol ac i bob pwrpas yn sgil-fanteision proses gydsynio newydd. Nid ydynt yn fanteision sy’n esgor ar arbedion cost clir ac uniongyrchol am gyflwyno ceisiadau a phenderfynu arnynt o dan broses newydd.

8.164 O ran bod y broses newydd yn **cyfrannu at ad-dalu ffioedd ACLlau,** mae cyfrifiadau lle caiff ACLlau eu had-dalu’n rhannol o dan broses gydsynio newydd wedi’u cynnwys yn yr arbedion cost i ACLlau a drafodir yn Opsiwn 2. Nid ydynt yn cael eu had-dalu o dan y cyfundrefnau sy’n bod ar hyn o bryd. Bwriad Llywodraeth Cymru yw ymgysylltu ag ACLlau wrth roi’r broses gydsynio newydd hon ar waith, gyda golwg ar ddatblygu model fyddai’n sicrhau eu bod yn adennill eu holl ffioedd am gyfrannu at benderfynu ar brosiectau seilwaith arwyddocaol. Nid ydym yn gallu dangos sut y caiff ACLlau eu had-dalu’n llawn o dan yr arbedion cost presennol yn yr AERh gan y bydd angen gwneud rhagor o waith ar hynny wrth roi’r broses gydsynio newydd ar waith.

**Opsiwn 3 – Creu corff cydsynio annibynnol i ymgymryd â chyfrifoldebau craffu ar gynllunio mewn perthynas â ‘Chydsyniadau Seilwaith Cymreig' ar ran Gweinidogion Cymru.**

**Disgrifiad o Opsiwn 3**

8.165 Mae Opsiwn 3 yn cynnig amrywiad ar Opsiwn 2, wrth fabwysiadu proses gydsynio fwy syml ac unedig, fel y CS, ond byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud gan Gorff Cyhoeddus Anadrannol newydd (“NDPB”)[19] a fyddai'n craffu'n benodol ar geisiadau ar gyfer CS ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r dull hwn yn unol â'r cynigion a nodwyd yn yr adroddiad o'r enw ‘Gwerthuso Perfformiad Cydsynio Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru’, Hyder

[19] Mae Llawlyfr Cyrff Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet yn diffinio Asiantaeth Weithredol fel corff cyhoeddus sy'n gweithredu fel cangen o'i Adran gartref. Rhagwelir y byddai'r sefydliad newydd yn gweithredu fel Asiantaeth Weithredol yn yr un ffordd â'r trefniant blaenorol ar gyfer yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru.

Consulting (UK) Limited (Ionawr 2013) a argymhellodd y dylai corff annibynnol wneud penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy.

8.166 Byddai'r corff newydd arfaethedig yn gweithredu'n ychwanegol at yr awdurdodau cydsynio eraill; sef yr ACLlau a Gweinidogion Cymru (drwy PEDW a Llywodraeth Cymru), a byddai'n gyfrifol am sicrhau y gwneir penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer CS o fewn amserlenni derbyniol gan wneuthurwyr penderfyniadau â phrofiad priodol. O ganlyniad i'r opsiwn hwn, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn ymgymryd â'r gwaith o archwilio PSAau (drwy PEDW) na gwneud penderfyniadau arnynt. Fodd bynnag, byddai Gweinidogion Cymru yn cadw pob swyddogaeth arall sydd ganddynt ar hyn o bryd, fel archwilio cynlluniau datblygu, gwneud penderfyniadau ar waith achos arall sy'n cynnwys apeliadau a cheisiadau a alwyd i mewn.

8.167 Yn ymarferol, rhagwelir y byddai rhai o staff PEDW yn cael eu trosglwyddo i'r NDPB newydd er mwyn cadw elfen o arbenigedd a pharhad, ac y byddai aelodau ychwanegol o staff yn cael eu recriwtio er mwyn cynnal yr NDBP.

8.168 Byddai gan y gwasanaeth newydd y pŵer i wneud penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer CS yn annibynnol ar Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, byddai NDPB newydd cyfan yn atebol yn y pen draw i Weinidogion Cymru, yn hytrach na'r sefyllfa sydd ohoni lle mae Gweinidogion Cymru yn atebol am benderfyniadau unigol. Gall partïon sy'n teimlo eu bod wedi cael cam wneud hawliad drwy'r Llysoedd os byddant o'r farn bod penderfyniad yn anghyfreithlon.

8.169 Fel NDPB, byddai'r sefydliad yn gorff ar wahân, a gweision cyhoeddus fyddai staff y corff, yn hytrach na gweision sifil. Byddai'n gweithredu hyd braich o Weinidogion Cymru ac ni fyddai'n rhan o un o Adrannau'r Llywodraeth[20]. Fel endid cyfreithiol ar wahân, byddai angen deddfwriaeth i'w greu ac i roi pwerau iddo. Byddai gan y sefydliad rywfaint o reolaeth weithredol dros ei bolisïau mewnol ei hun a byddai'n gallu codi ffioedd. Fodd bynnag, byddai'r penderfyniadau a wneir ganddo ar CSau yn ddarostyngedig i bolisi Llywodraeth Cymru. Byddai penderfyniadau unigol ar CSau yn cael eu gwneud gan unigolion â chymhwysedd technegol mewn sefydliad a nodir mewn statud.

8.170 Yn debyg i Opsiwn 2 ac yn amodol ar gael Cydsyniad Brenhinol (canol 2024), byddai'r NDPB arfaethedig yn gwbl weithredol erbyn canol 2026, ac erbyn yr adeg honno, byddai'r holl ddarpariaethau deddfwriaethol cysylltiedig mewn grym. Disgwylir y byddai'r costau i'r amrywiol rhanddeiliaid a nodir isod yn

[20] Mae canllawiau gan Swyddfa'r Cabinet ar gyrff cyhoeddus ar gael yma: Public Bodies Handbook – Part 1. Classification Of Public Bodies: Guidance for Departments (publishing.service.gov.uk)

dechrau yn ystod y cyfnod gweithredu hwn ac wrth i'r darpariaethau deddfwriaethol gychwyn.

**Costau Opsiwn 3**

| **Tabl P – Costau trosi ar gyfer Opsiwn 3** | |
|---|---|
| Rhanddeiliad | Costau |
| Llywodraeth Cymru | *£1,054,100 (yn cynnwys costau sefydlu sefydliad annibynnol a hyfforddiant untro, rhannu gwybodaeth a chanllawiau ar y weithdrefn gydsynio newydd).* |
| ACLlau | £30,300 |
| Datblygwyr | £3,000 |
| Cymunedau | £0 |
| Ymgyngoreion Statudol | £0 |

| **Tabl Q – Crynodeb o gostau net Opsiwn 3 bob blwyddyn i'r rhanddeiliaid a nodwyd (2026-27 i 2028-29)[1]** ***(dim ond er gwybodaeth y darperir y costau ychwanegol pellach a nodir mewn coch oherwydd disgwylir i'r costau hyn gael eu had-dalu, er enghraifft drwy dalu ffioedd)*** | |
|---|---|
| Rhanddeiliad | Cais am Gydsyniad Seilwaith |
| Y Corff Annibynnol ar gyfer costau parhaus | £0 (£2,480,500 yn cael ei ad-dalu) |
| ACLlau | £21,200 (£38,900 yn cael ei ad-dalu) |
| Datblygwyr | £5,390,300 |
| Cymunedau | Anhysbys |
| Ymgyngoreion Statudol | £35,100 |

1. Yn 2024-25 a 2025-26, disgwylir y bydd y costau yr un peth â'r costau yn y llinell sylfaen.

(a) Llywodraeth Cymru

8.171 Ni fydd gan Lywodraeth Cymru unrhyw swyddogaethau gwneud penderfyniadau newydd mewn perthynas â CSau, ac fel y disgwylir ag Opsiwn 2, mae'n annhebygol y bydd apeliadau mewn perthynas ag unrhyw geisiadau 'dewisol' y gwneir penderfyniad arnynt gan ACLlau. O ganlyniad, ni fydd unrhyw gost barhaus i Weinidogion Cymru.

8.172 Bydd y corff annibynnol yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bwriedir i'r sefydliad dalu ei holl gostau ei hun drwy ffioedd ymgeiswyr, ac felly ni ddylai fod angen unrhyw

wariant gan Lywodraeth Cymru i dalu costau parhaus. Fodd bynnag, bydd cost sefydlu gychwynnol o £1,054,100, a Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am y gost honno.

(b) Yr NDPB

8.173 Bydd y corff yn gyfrifol am broses ceisiadau ar gyfer CS a gwneud penderfyniadau arnynt. Bydd costau newydd yn gysylltiedig â pharhau i weithredu'r sefydliad newydd. Bydd yr NDPB hefyd yn gallu pennu ei gyllideb ei hun yn seiliedig ar ragolygon o geisiadau arfaethedig, a byddai'n llunio ei drefniadau llywodraethu a staffio ei hun.

8.174 Amcangyfrifir mai cyfanswm costau rhedeg cyfartalog y Corff Annibynnol ar gyfer CS fydd £2,480,500[21] y flwyddyn, a nodir manylion y costau hynny isod. Amcangyfrifir costau sefydlu o £1,054,100 ar gyfer y sefydliad newydd. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r costau trosi yn berthnasol yn 2024-26, a disgwylir y byddai costau blynyddol parhaus o 2026-27. O dan yr opsiwn hwn, gwneir penderfyniadau ar geisiadau a ddaw i law yn ystod 2024-25 a 2025-26 o dan y cyfundrefnau presennol a byddai'r costau cysylltiedig yn ystod y blynyddoedd hynny yr un peth â'r costau yn yr opsiwn llinell sylfaen.

*Costau staff*

8.175 Bydd angen staff newydd ar yr NDPB er mwyn cyflawni swyddogaethau'r sefydliad. Mae'r opsiwn hwn yn amcangyfrif cyfanswm o 33 o aelodau o staff, y rhagwelir y bydd yn cynnwys rhai aelodau o staff sydd eisoes wedi'u cyflogi yn PEDW[22]. Rhagwelir y bydd 23 o aelodau o staff llawn amser, gan gynnwys Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethu, a 10 aelod o'r bwrdd (y disgwylir iddo gyfarfod bedair gwaith y flwyddyn[23]).

8.176 Bydd gan y sefydliad newydd ryddid i bennu ei gyfansoddiad a'i delerau a'i amodau ei hun. Fodd bynnag, er hwylustod, ac er mwyn adlewyrchu'r disgwyliad y bydd rhai aelodau o staff yn trosglwyddo o PEDW i'r sefydliad newydd, cyfrifwyd costau gan ddefnyddio'r strwythurau presennol. H.y. yn seiliedig ar gostau staff Llywodraeth Cymru fesul gradd.

---

[21] Gweler Tabl S.

[22] Mae llwyth gwaith staff gweinyddol PEDW yn cynnwys cymysgedd o geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a ffynonellau gwaith eraill, fel apeliadau, felly mae'n anodd trosglwyddo staff yn uniongyrchol yn seiliedig ar waith presennol. Mae'n bosibl y bydd rhai ohonynt yn ymuno â'r sefydliad newydd neu y caiff rhai eu recriwtio drwy ymgyrchoedd allanol.

[23] Caiff sefydliad annibynnol sy'n rhoi cyngor mewn perthynas â'r system gynllunio yng Nghymru, Cymorth Cynllunio Cymru, ei lywodraethu gan Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys 15 o Gyfarwyddwyr-ymddiriedolwyr sy'n cyfarfod yn ffurfiol bedair gwaith y flwyddyn.

8.177 Byddai'n ofynnol i'r NDPB lunio fframweithiau llywodraethu a rheolaethau er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu mewn ffordd ddiduedd o Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn cynnwys penodi Cadeirydd a chreu Bwrdd Llywodraethu. Byddai'r Bwrdd yn gyfrifol am unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â llywodraethu'r sefydliad, gan gynnwys cyllid, staff, polisïau adnoddau dynol, rheoli risgiau a heriau.

8.178 Tybiwyd y byddai strwythur y Bwrdd Llywodraethu yn cynnwys Cadeirydd, a fyddai'n cael cydnabyddiaeth ariannol o £42,100 y flwyddyn, ac y byddai'r 10 aelod arall yn cael cydnabyddiaeth ariannol o £9,000 y flwyddyn.

8.179 Mae nifer y staff sy'n ofynnol yn seiliedig ar y dybiaeth y caiff tua 4.9 cais ar gyfer CS eu cyflwyno bob blwyddyn.

8.180 Caiff cyfrifoldebau staff newydd eu cyflwyno oherwydd natur annibynnol yr asiantaeth newydd. Er enghraifft, bydd angen staff sy'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau corfforaethol, fel cyfathrebu ac adnoddau dynol.

8.181 Amcangyfrifir y bydd cyfanswm costau cyflog y strwythur staffio a ragwelir (costau staff o ddydd i ddydd a chostau’r Bwrdd Llywodraethu) oddeutu £1,524,000[24] y flwyddyn. Yn ogystal, rhagwelir y bydd costau wrth gefn o £152,400[25] y flwyddyn.

8.182 Yn ogystal â chostau cyflog, rhagwelir y bydd costau sefydlu untro mewn perthynas â recriwtio, adleoli a hyfforddi staff, gan gynnwys ar systemau newydd. Amcangyfrifir mai £137,900[26] fydd y costau hyn.

8.183 Tybir y byddai angen cyllideb ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau proffesiynol eraill ar y sefydliad, gan gynnwys gwasanaethau cyfieithu. Rhagwelir y bydd costau blynyddol parhaus o £368,100[27] yn hyn o beth.

8.184 Byddai Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am roi polisïau cyffredinol ar waith ar gyfer y gyfundrefn newydd. Byddai cost yn gysylltiedig â digwyddiadau hyfforddi a rhannu gwybodaeth o dan arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer y gyfundrefn newydd, gan gynnwys costau i hyfforddi aelodau'r NDPB ar fanylion penodol y gyfundrefn newydd. Rhagwelir mai cost untro o £26,000 fyddai'r gost hon.

---

[24] Gweler paragraffau 3.63 i 3.65 o Bapur Methodoleg, Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Seilwaith (Cymru), Llywodraeth Cymru, Mehefin 2023 am ddadansoddiad manwl o’r gost hon.
[25] Mae'r costau wrth gefn, sef 10%, yn cynnwys costau teithio a chynhaliaeth, archwilio ac ati.
[26] Gweler paragraff 3.66 o Bapur Methodoleg, Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Seilwaith (Cymru), Llywodraeth Cymru, Mehefin 2023 am ddadansoddiad manwl o’r gost hon.
[27] Gweler paragraff 3.68 o Bapur Methodoleg, Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Seilwaith (Cymru), Llywodraeth Cymru, Mehefin 2023 am ddadansoddiad manwl o’r gost hon.

8.185 Byddai cost untro hefyd yn gysylltiedig â darparu canllawiau ar y gofynion newydd a hysbysu rhanddeiliaid, gan gynnwys ACLlau, am y newidiadau. Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am baratoi'r canllawiau, yn hytrach na'r NDPB. Amcangyfrifir y byddai cyfanswm o 15 o ddogfennau canllaw, ac y byddai eu paratoi a'u rhannu yn costio cyfanswm o £12,300 i Lywodraeth Cymru.

*Seilwaith sefydliadol*

8.186 Byddai angen i'r NDPB sefydlu'r holl seilwaith y byddai ei angen i'w weithredu, gan gynnwys TGCh, cyfarpar/dodrefn a rhent.

| **Tabl R – Costau ar gyfer seilwaith sefydliadol yr NDPB** | | |
|---|---|---|
| Seilwaith | Cost sefydlu | Cost barhaus (y flwyddyn) |
| TGCh (gan gynnwys meddalwedd a chaledwedd mewnol a system TGCh gyhoeddus) | £684,700 | £312,800 |
| Rhent | | £42,500 |
| Gosodiadau a ffitiadau | £193,100 | |
| Cyfleusterau | | £39,000 |

8.187 Mae'r opsiwn hwn yn cyflwyno'r angen i gaffael seilwaith TGCh penodol newydd, gan gynnwys cronfa ddata, system rheoli cofnodion a system cyfathrebu mewnol, ynghyd â gwefan a gwasanaeth TGCh i'r cyhoedd.

8.188 Byddai angen cryn fuddsoddiad ariannol er mwyn dylunio a gweithredu seilwaith TGCh penodol ar gyfer sefydliad newydd. Amcangyfrifir y byddai angen £684,700, ac y byddai costau parhaus o £312,800 y flwyddyn. Mae'r costau yn seiliedig ar ddarparu gwasanaeth, gan gynnwys rhyngwyneb ar y we a fyddai'n galluogi unigolion i gyflwyno ceisiadau ar gyfer CS ar ffurf electronig.

8.189 Rhagwelir y byddai angen gweithredu ar wahân yn llwyr o ystad Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau annibyniaeth sefydliadol neu gyfreithiol ar Weinidogion Cymru. Rhagwelir y byddai angen safle ar wahân ar y sefydliad newydd yng Nghaerdydd neu gerllaw, gyda'r nod o annog staff presennol PEDW i drosglwyddo i'r sefydliad newydd. Byddai rhentu swyddfeydd tebyg yng nghanol dinas Caerdydd, gyda digon o le i hyd at 16 o aelodau o staff ar

unrhyw un adeg yn unol â threfniadau gweithio'n hyblyg, yn costio tua £42,500 y flwyddyn.

8.190 Byddai costau pellach yn gysylltiedig â chostau cychwynnol dodrefnu'r adeilad (‘ffitiadau a gosodiadau’) a byddai costau parhaus ar gyfer cyfleusterau, gan gynnwys cyfleustodau ac ardrethi. Amcangyfrifir mai costau cychwynnol y ffitiadau a'r gosodiadau fyddai £193,100, ac y byddai costau blynyddol pellach o £39,000 ar gyfer cyfleusterau. Ni fyddai unrhyw gostau dibrisiant ychwanegol yn berthnasol dros y cyfnod o bum mlynedd at ddibenion yr asesiad hwn (ac eithrio TGCh y cafodd y costau cynnal a chadw parhaus eisoes eu hamcangyfrif).

*Yswiriant*

8.191 Amcangyfrifir mai'r costau yswiriant ar gyfer pob aelod o staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd, fyddai £41,600 y flwyddyn.

*Cyllid*

8.192 Bydd yr NDPB ar gyfer CS yn cael incwm ffioedd o gostau ceisiadau a phenderfyniadau (a'r trefniadau ar ôl penderfyniadau) ar gyfer ceisiadau ar gyfer CS, a godir ar yr ymgeisydd. Fel y nodir yn Opsiwn 2, byddai'r ffioedd yn cael eu codi yn ystod amrywiol gamau o'r broses hon, gan anelu at adennill costau llawn. Caiff y ffioedd eu diffinio, ar ôl proses ymgynghori, mewn is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Byddai'r sefydliad yn gallu pennu ei restr ffioedd ei hun er mwyn ymdrin â'i wariant o dan yr egwyddor o adennill costau llawn.

8.193 Mae'n bosibl y bydd modd i'r corff annibynnol gynhyrchu incwm ychwanegol hefyd drwy gynnig gwasanaethau eraill, ond ni ellir amcangyfrif y gost hon at ddibenion yr asesiad hwn.

*Cyfanswm costau*

| **Tabl S – Cyfanswm costau'r NDPB** | | |
|---|---|---|
| Ffynhonnell y gost | Cost sefydlu | Cost barhaus (y flwyddyn) |
| Hyfforddiant a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â chyfundrefn CS newydd | £26,000 | |
| Canllawiau cychwynnol | £12,300 | - |
| Costau staff | £137,900 | £1,524,000 |
| Gwasanaethau proffesiynol | - | £368,100 |
| Costau wrth gefn | - | £152,400 |
| Yswiriant | - | £41,600 |
| TGCh (gan gynnwys cyfarpar mewnol a system TGCh gyhoeddus) | £684,700 | £312,800 |
| Gosodiadau a ffitiadau | £193,100 | - |
| Rhent | - | £42,500 |
| Cyfleusterau[28] | - | £39,000 |
| **Cyfanswm** | **£1,054,100** | **£2,480,500** |

(c) ACLlau

8.194 Byddai'r trefniadau i ACLlau ymgysylltu â'r gyfundrefn gynllunio ar gyfer CS yr un peth ag ar gyfer Opsiwn 2. Amcangyfrifir y bydd yn costio £60,100 (na fyddai £21,200 ohono yn cael ei ad-dalu) y flwyddyn i ACLlau ymgysylltu â'r broses CS (yn seiliedig ar y 44 o geisiadau yn ystod y cyfnod asesu y byddai penderfyniad yn cael ei wneud arnynt fel CS, a phedwar cais a fyddai'n cael penderfyniad unigol, sef cyfartaledd o 4.9 a 0.44 cais y flwyddyn). Fel gydag Opsiwn 2, mae hyn yn cynrychioli arbediad cost tebyg i'r llinell sylfaen. Byddai cost untro o £30,300 hefyd i'r ACLlau er mwyn mynychu hyfforddiant / digwyddiadau ymgyfarwyddo. Byddai'r gost hon yn gymwys yn ystod cyfnod gweithredu'r gyfundrefn newydd rhwng 2024-26.

[28] Cyfleustodau, ardrethi, gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

(d) Datblygwyr

8.195 Cost flynyddol amcangyfrifedig ymgysylltu â'r gyfundrefn CS i ddatblygwyr o dan yr opsiwn hwn fyddai oddeutu £2,666,800, heb gynnwys ffioedd ymgeisio. Ar gyfer yr opsiwn hwn, byddai gan yr NDPB ryddid i bennu ei restr ffioedd ei hun er mwyn adennill ei gostau yn llawn. Er y bydd y tasgau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau ar geisiadau yn parhau yr un peth, mae'n debygol y bydd gorbenion uwch yn gysylltiedig ag Opsiwn 2, er mwyn ystyried y costau TG, adnoddau dynol a llywodraethu uwch sy'n gysylltiedig ag annibyniaeth sefydliadol ar Lywodraeth Cymru. Felly, bydd y gorbenion sefydliadol yn cynyddu'n sylweddol. Er mwyn talu'r costau hyn, defnyddir ffioedd i dalu cost flynyddol lawn yr NDPB. Yn seiliedig ar 4.9 cais y flwyddyn, amcangyfrifir mai £507,400 fydd y ffi hon ar sail achosion unigol, ac y caiff £2,480,500 o incwm ei dalu bob blwyddyn gan ddatblygwyr. Fel ar gyfer Opsiwn 2, byddai costau blynyddol ychwanegol o £243,000 i'r diwydiant datblygu ar gyfer paratoi a chyflwyno ceisiadau seilwaith nas cynhwyswyd o dan broses CS newydd ac y bydd gofyn i ACLlau wneud penderfyniadau arnynt.

8.196 Amcangyfrifir cyfanswm cost flynyddol o £5,390,300 i ddatblygwyr. Bydd y gost hon yn codi o 2026-27. Mae hyn yn cynrychioli cost ychwanegol o ryw £601,400 y flwyddyn i ddatblygwyr o gymharu â'r llinell sylfaen. Yn 2024-25 a 2025-26 (y cyfnod gweithredu ar gyfer yr opsiwn hwn), gwneir penderfyniadau ar geisiadau o dan y cyfundrefnau presennol a byddai'r costau blynyddol yr un peth â'r costau yn senario'r llinell sylfaen.

8.197 Byddai cost untro i'r diwydiant datblygu ar gyfer mynychu hyfforddiant / digwyddiadau ymgyfarwyddo yr un peth ag ar gyfer Opsiwn 2, sef £3,000 a byddai'n codi yn ystod cyfnod gweithredu'r gyfundrefn newydd yn 2024-26.

8.198 Byddai uno'r cyfundrefnau cydsynio i greu'r broses unedig ar gyfer Cydsyniadau Seilwaith yn arwain at arbedion cost drwy leihau achosion o ddyblygu gwariant datblygwyr ar nifer o geisiadau gwahanol sy'n gysylltiedig â'r un datblygiad.

(e) Y Gymuned

8.199 Ni fydd unrhyw newidiadau i rôl y cyhoedd a phartïon â diddordeb yn y gyfundrefn gydsynio newydd o gymharu â'u rôl yn y system bresennol, fel y disgrifir yn Opsiwn 1 a 2. Felly, ni fydd unrhyw gostau newydd i bartïon â diddordeb a'r cyhoedd.

8.200 Gallai uno'r cyfundrefnau cydsynio i greu cyfundrefn unigol arwain at arbedion cost drwy leihau achosion o ddyblygu cyfranogiad y gymuned.

(f) Ymgyngoreion Statudol

8.201 Disgwylir y bydd cost cyfranogi i ymgyngoreion statudol yn gymharol debyg i'r broses bresennol ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, ac y bydd yr un peth â Chydsyniad Seilwaith o dan Opsiwn 2, sef £35,100 y flwyddyn.

8.202 Gallai uno'r cyfundrefnau cydsynio i greu cyfundrefn unigol arwain at arbedion cost drwy leihau achosion o ddyblygu ymgysylltiad ymgyngoreion.

**Manteision Opsiwn 3**

Llywodraeth Cymru

8.203 Amlinellir manteision cyffredinol y broses CS arfaethedig o dan Opsiwn 2, yn amodol ar yr ychwanegiadau canlynol.

8.204 Byddai NDPB a fyddai'n gyfrifol am bob agwedd ar y broses gydsynio yn dileu'r angen i Lywodraeth Cymru oruchwylio penderfyniadau Arolygwyr, gan felly gyflymu'r broses a gwella effeithlonrwydd.

8.205 Gallai'r incwm a gynhyrchir yn sgil gweithgarwch busnes annibynnol alluogi'r sefydliad i gyfrannu at leihau'r baich ar bwrs y wlad yn y tymor hwy.

8.206 Byddai annibyniaeth y sefydliad yn golygu ei fod yn amlwg yn ddiduedd ac yn galluogi iddo ddangos pellter oddi wrth Weinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau. Bydd y sefydliad newydd yn hunangynhwysol ac yn hunangynhaliol, sydd o fudd i Lywodraeth Cymru gan na fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau mwyach.

8.207 Gallai'r ffaith na fyddai Llywodraeth Cymru na'r Gweinidogion yn goruchwylio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer seilwaith arwyddocaol arwain at ganfyddiad bod diffyg democratiaeth. Gall y cyhoedd hefyd fod yn amharod i dderbyn y syniad o fiwrocratiaeth ychwanegol drwy greu sefydliad sector cyhoeddus newydd.

8.208 Mae pryderon o ran cynnal y lefel ofynnol o adnoddau arbenigol er mwyn sicrhau y gellir rhedeg y busnes yn effeithiol yn risg ddifrifol i unrhyw sefydliad newydd. Mae'r gallu i recriwtio i'r proffesiwn cynllunio eisoes yn heriol. Bydd cynigion i adleoli staff a chamau gweithredu sy'n arwain naill ai at fwy o gystadleuaeth neu at gyfleoedd cyfyngedig i staff wneud cynnydd yn arwain at risg o golli staff profiadol. Gallai hyn arwain at ddiffygion gwasanaeth ym mhob rhan o'r proffesiwn.

8.209 Bydd creu NDPB yn golygu y bydd angen sefydlu seilwaith TGCh newydd er mwyn diwallu'r angen busnes hwn. Mae datblygu seilwaith amgen penodol er mwyn cyrraedd safonau gwasanaeth presennol yn peri risg sylweddol i barhad busnes. Amcangyfrifir y byddai caffael a datblygu seilwaith o'r fath yn cymryd 24-36 mis, a all arwain at risgiau cyflawni a ‘phroblemau cychwynnol’ posibl.

8.210 Nid yw'r arbedion maint sydd ar gael i Lywodraeth Cymru o fudd i'r gorbenion ychwanegol sy'n gysylltiedig â sefydliad sy'n gweithredu'n annibynnol. At hynny, ni fyddai'r sefydliad yn gallu dibynnu ar y gwasanaethau corfforaethol mewnol sydd ar gael o fewn Llywodraeth Cymru. Felly, mae'n debygol y byddai'n rhaid i'r sefydliad drosglwyddo'r costau rhedeg uwch hyn i ymgeiswyr.

8.211 O ystyried maint bach iawn y sefydliad, a'r nifer cymharol isel o staff a fydd yn rhan ohono, ystyrir y byddai costau ychwanegol sefydlu a chynnal NDPB yn anghymesur ac na fyddent yn cynnig gwerth am arian.

ACLlau

8.212 Amlinellir manteision cyffredinol y gyfundrefn CS o dan Opsiwn 2.

8.213 Byddai sefydlu sefydliad newydd tebyg i fodel sy'n bodoli eisoes yn galluogi rhanddeiliaid i addasu'n hawdd. Fodd bynnag, gall gymryd amser i'r sefydliad newydd ddod yn gwbl weithredol, gan arwain at lefel gwasanaeth dros dro nad yw mor integredig, nac mor hygyrch, â'r gwasanaeth y mae rhanddeiliaid wedi arfer ag ef.

Datblygwyr

8.214 Amlinellir manteision cyffredinol y gyfundrefn CS i ddatblygwyr o dan Opsiwn 2, a byddai manteision ac anfanteision tebyg i ddatblygwyr o ran addasu i'r rhai a nodwyd ar gyfer ACLlau.

8.215 Byddai sefydlu sefydliad newydd tebyg i fodel sy'n bodoli eisoes yn galluogi rhanddeiliaid i addasu'n hawdd. Fodd bynnag, gall gymryd amser i'r sefydliad newydd ddod yn gwbl weithredol, gan arwain at lefel gwasanaeth dros dro nad yw mor integredig, nac mor hygyrch, â'r gwasanaeth y mae rhanddeiliaid wedi arfer ag ef.

8.216 Gallai sefydlu sefydliad annibynnol newydd arwain at benderfyniadau mwy amserol i ymgeiswyr, yn deillio o arbedion effeithlonrwydd a ffyrdd newydd o weithio. Fodd bynnag, bydd ffioedd sylweddol uwch yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, er mwyn talu'r costau rhedeg uwch sy'n gysylltiedig ag annibyniaeth ar

Lywodraeth Cymru. Gallai ffioedd uwch olygu na fyddai datblygwyr yn dewis buddsoddi i ddatblygu seilwaith yng Nghymru gan ddewis cyfundrefnau llai costus yn Lloegr, er enghraifft, yn lle hynny.

Y Gymuned

8.217 Amlinellir manteision cyffredinol y gyfundrefn CS i randdeiliaid cymunedol o dan Opsiwn 2, a byddai manteision ac anfanteision tebyg i'r gymuned o ran addasu i'r rhai a nodwyd ar gyfer ACLlau.

8.218 Gallai didueddrwydd gwleidyddol y gwasanaeth newydd arwain at ganfyddiad o ddiffyg atebolrwydd democrataidd yn deillio o'r ffaith bod y sefydliad yn gwbl annibynnol ar Weinidogion Cymru.

Ymgyngoreion Statudol

8.219 Amlinellir manteision cyffredinol y gyfundrefn CS i ymgyngoreion statudol o dan Opsiwn 2, a byddai manteision ac anfanteision tebyg i ymgyngoreion statudol o ran addasu i'r rhai a nodwyd ar gyfer ACLlau.

**Opsiwn 4 – Sefydlu uned cynllunio seilwaith fawr o fewn Llywodraeth Cymru a diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r cyfundrefnau presennol er mwyn darparu cyfundrefn seilwaith cyson ar ffurf dull carlam.**

**Disgrifiad o Opsiwn 4**

8.220 Ni fydd angen unrhyw ymyriadau ar ffurf deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer yr opsiwn hwn, ac mae'n debyg i Opsiwn 1. Fodd bynnag, o dan yr opsiwn hwn, cynigir y dylid diwygio'r amrywiol Reoliadau, Rheolau a Gorchmynion o dan Ddeddfau sy'n llywodraethu'r prosesau cyfredol ac amrywiol ar gyfer cydsynio seilwaith er mwyn cymathu gweithdrefnau lle y bo'n bosibl. Byddai hyn yn cynnwys newid is-ddeddfwriaeth i ddiwygio amserlenni ymgynghori, gofynion archwilio, a ffioedd er mwyn darparu ar gyfer prosesau ymgeisio tebyg ar draws y gwahanol gyfundrefnau cydsynio. Y bwriad fyddai symleiddio'r broses ymgeisio i bob rhanddeiliad ond gan ar yr un pryd gynnal y ddeddfwriaeth sylfaenol benodol sy'n llywodraethu'r gwahanol gyfundrefnau.

8.221 Byddai PEDW yn archwilio datblygiadau arfaethedig o hyd ac yn gwneud argymhellion, a byddai'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio sy'n rhan o Lywodraeth Cymru yn prosesu penderfyniadau ar ran Gweinidogion Cymru. Caiff uned benodol ei sefydlu o fewn y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, yn seiliedig ar ei Changen Gwaith Achos Cynllunio bresennol, i ddarparu tîm cydgysylltiedig a phenodol er mwyn symleiddio'r broses o ddarparu seilwaith.

**Costau Opsiwn 4**

| **Tabl T – Costau trosi ar gyfer Opsiwn 4** | |
|---|---|
| Rhanddeiliad | Costau |
| Llywodraeth Cymru | £4,200 *(ar gyfer canllawiau untro ar y weithdrefn gydsynio newydd).* |
| ACLlau | £0 |
| Datblygwyr | £0 |
| Cymunedau | £0 |
| Ymgyngoreion Statudol | £0 |

| **Tabl U – Crynodeb o gostau net Opsiwn 4 bob blwyddyn i'r rhanddeiliaid a nodwyd (2025-26 i 2028-29)[1]** ***(dim ond er gwybodaeth y darperir y costau ychwanegol pellach a nodir mewn coch oherwydd disgwylir i'r costau hyn gael eu had-dalu, er enghraifft drwy dalu ffioedd)*** | |
|---|---|
| Rhanddeiliad | Cyfundrefn symlach ar gyfer cydsyniadau sy'n bodoli eisoes |
| Llywodraeth Cymru | £0 (£718,100 yn cael ei ad-dalu). Yr un costau ag Opsiwn 1, ond byddai modd adennill yr holl gostau yn llawn. |
| ACLlau | £26,100 (£31,000 yn cael ei ad-dalu). Yr un costau ag Opsiwn 1. |
| Datblygwyr | £4,757,900 Arbediad cost o £31,000 y flwyddyn o'i gymharu ag Opsiwn 1. |
| Cymunedau | Yr un costau ag Opsiwn 1, sy'n anhysbys. |
| Ymgyngoreion Statudol | £44,600. Yr un costau ag Opsiwn 1. |

1. Yn 2024-25, gwneir penderfyniadau ar geisiadau o dan y cyfundrefnau presennol a byddai'r costau yr un peth â'r opsiwn llinell sylfaen.

(a) Llywodraeth Cymru

8.222 Byddai'r uned arfaethedig wedi'i lleoli o fewn swyddfeydd presennol Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio staff presennol. Byddai staff PEDW yn parhau yn eu rolau presennol gan helpu'r Arolygwyr penodedig i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru ar waith achos. Fel y cyfryw, nid ystyrir bod angen asesu'r costau sy'n gysylltiedig â'r safle, y staff na'r swyddogaethau corfforaethol gan na fyddent yn wahanol i Opsiwn 1. Fodd bynnag, yn yr opsiwn hwn, byddai'r holl gostau yn cael eu had-dalu'n llawn.

8.223 Byddai costau untro i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â diwygio is-ddeddfwriaeth. Byddai costau o'r fath yn cael eu cynnwys o fewn gwaith

corfforaethol Llywodraeth Cymru, ac nid ystyrir bod angen eu costio fel rhan o'r asesiad hwn.

8.224 Byddai cost untro hefyd i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â darparu canllawiau penodol ar y gofynion newydd a hysbysu rhanddeiliaid, gan gynnwys ACLlau, am y newidiadau. Ar gyfer gweithdrefnau ymgeisio symlach, amcangyfrifir y byddai angen pump dogfen ganllaw (er mwyn diweddaru neu ddisodli'r canllawiau presennol ar y cyfundrefnau a gaiff eu hystyried gan randdeiliaid fel rhan o geisiadau unigol) ar gyfanswm cost o £4,200 i Lywodraeth Cymru. Gan y byddai'r cyfundrefnau presennol yn parhau o dan yr opsiwn hwn, ond wedi eu haddasu, ni fyddai costau ar gyfer hyfforddiant na digwyddiadau ymgyfarwyddo i randdeiliaid. Byddai'r costau trosi ar gyfer paratoi'r canllawiau newydd yn codi yn 2024-25, a disgwylir y byddai costau blynyddol parhaus yn codi o 2025-26 (yn 2024-25, gwneir penderfyniadau ar geisiadau o dan y cyfundrefnau presennol a bydd y costau yr un peth â'r costau yn senario'r llinell sylfaen).

8.225 Nid oes modd meintioli'r manteision ariannol a fyddai'n deillio o arbedion effeithlonrwydd, o ganlyniad i gyfundrefn gydsynio symlach, yn union. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu ar sail adennill costau llawn.

(b) ACLlau

8.226 Ni fyddai unrhyw newidiadau i'r ffordd y mae ACLlau yn ymgysylltu â'r cyfundrefnau cynllunio o gymharu â'u rôl bresennol o dan Opsiwn 1. Amcangyfrifir y bydd yn costio £57,100 y flwyddyn i ACLlau ymgymryd â'r broses (yn seiliedig ar y 54 o geisiadau ar gyfer datblygiadau seilwaith dros y cyfnod asesu). O'r cyfanswm hwn, ni fyddai £26,100 yn cael ei ad-dalu.

8.227 Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws gwahanol gyfundrefnau deddfwriaethol, mae'n bosibl y caiff gofyniad newydd ei gyflwyno ar gyfer LIR mewn achosion lle nad oes eu hangen ar hyn o bryd, a allai arwain at gostau cyfranogi uwch i ACLlau. Fodd bynnag, dylai costau o'r fath gael eu had-dalu gan y datblygwr drwy gyfundrefn ffioedd ddiwygiedig.

(c) Datblygwyr

8.228 Mae'n bosibl y bydd arbedion cost i ddatblygwyr drwy becyn cydsyniadau cydamserol a allai leihau achosion o ddyblygu, symleiddio'r broses a sicrhau mwy o sicrwydd o ran canlyniadau.

8.229 Er mwyn sicrhau cysondeb, mae'n bosibl y bydd ffioedd ymgeisio rhai cyfundrefnau yn cynyddu ac y bydd eu hamserlenni ar gyfer gwneud

penderfyniadau yn cael eu hymestyn, a allai arwain at gostau uwch i ddatblygwyr. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yr effaith gyffredinol yn fuddiol am y rhesymau a nodwyd yn y paragraff uchod.

8.230 Amcangyfrifir y bydd y costau i ddatblygwyr yn debyg i Opsiwn 1. Gan y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at ddiwygio cyfundrefnau cydsynio eraill drwy ddeddfwriaeth i sicrhau eu bod yn fwy cyson â gofynion y broses gydsynio DAC, mae llawer o'r costau'n seiliedig ar y gyfundrefn DAC. Drwy sicrhau mwy o gydweddu â'r broses DAC i sicrhau mwy o gysondeb ac effeithlonrwydd rhwng y gwahanol gyfundrefnau, yn ogystal â chymhwyso ei fodel ffioedd sy'n seiliedig ar adennill costau llawn, amcangyfrifir y bydd yn costio £4,757,900 y flwyddyn i ddatblygwyr gyflwyno ceisiadau o dan yr opsiwn hwn. Mae hyn yn arbediad cost o £31,000 y flwyddyn i ddatblygwyr o gymharu â'r llinell sylfaen.

(d) Y Gymuned

8.231 Ni fydd unrhyw newidiadau o ran y costau i gymunedau a rhanddeiliaid eraill yn y gyfundrefn newydd o gymharu â'r system bresennol yn Opsiwn 1.

(e) Ymgyngoreion Statudol

8.232 Ni fydd unrhyw newidiadau o ran y costau i ymgyngoreion statudol yn y gyfundrefn newydd o gymharu â'u rôl yn y system bresennol yn Opsiwn 1. O ran trwyddedu morol, o dan yr opsiwn hwn, nid oes unrhyw gynlluniau i gynnwys swyddogaethau corff arall o fewn swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Bydd CNC yn parhau'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar drwyddedau morol, yn debyg i Opsiwn 1.

**<u>Manteision Opsiwn 4</u>**

<u>Llywodraeth Cymru</u>

8.233 Byddai sefydlu uned newydd i wneud penderfyniadau ar bob darn o waith achos seilwaith yn arwain at lai o gostau, o gymharu â'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu corff allanol annibynnol fel yr amlinellir o dan Opsiwn 3. At hynny, byddai'n lleihau'r risg o darfu ar y busnes i ddefnyddwyr gwasanaethau ac yn arwain at arbedion cost sylweddol.

8.234 Gallai symleiddio'r broses o gydsynio seilwaith, o ran gweithdrefnau penderfynu a ffocws staff, arwain at well effeithlonrwydd o fewn Llywodraeth Cymru a PEDW. Er enghraifft, gallai Arolygydd unigol oruchwylio pecyn o wahanol gydsyniadau deddfwriaethol ar gyfer yr un datblygiad. Gallai creu

uned arbenigol hefyd feithrin gwell effeithlonrwydd gweinyddol drwy alluogi'r staff i ganolbwyntio ar waith achos sydd o arwyddocâd cenedlaethol yn unig.

8.235 Drwy beidio â chreu prosesau symlach, byddai nifer o fanteision mewn perthynas â gwell hygyrchedd ac effeithlonrwydd yn cael eu colli gan y byddai'r cyfundrefnau cydsynio yn rhanedig o hyd.

ACLlau

8.236 Dylai gwell cysondeb ar draws is-ddeddfwriaeth symleiddio'r broses a ddefnyddir gan ACLlau i ymgysylltu â'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith o bwys. Gallai'r posibilrwydd y caiff y gofyniad am LIR ei ehangu i gynnwys datblygiadau nad oedd eu hangen ar eu cyfer yn flaenorol gynyddu gallu ACLlau i ddarparu gwybodaeth fanwl am effeithiau lleol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Datblygwyr

8.237 Gallai'r gallu i gymeradwyo gwahanol elfennau o ddatblygiad mewn pecyn cydsyniadau cydamserol leihau achosion o ddyblygu, symleiddio'r broses a sicrhau mwy o sicrwydd o ran canlyniadau. Gallai uned unigol yn benodol ar gyfer cydsynio seilwaith hefyd wella effeithlonrwydd canlyniadau a gwella'r trefniadau i ddatblygwyr ymgysylltu â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd problemau o hyd o ran hygyrchedd y gyfraith.

Y Gymuned

8.238 Gallai'r gwell cysondeb ar draws is-ddeddfwriaeth helpu i wella hygyrchedd y broses i'r cyhoedd, drwy symleiddio'r system. Fodd bynnag, bydd problemau o hyd o ran hygyrchedd y gyfraith.

Ymgyngoreion Statudol

8.239 Gallai'r gwell cysondeb ar draws is-ddeddfwriaeth helpu i wella effeithlonrwydd y broses ymgysylltu i ymgyngoreion drwy symleiddio'r system. Gallai system sy'n golygu y gellir archwilio nifer o geisiadau ar yr un pryd o dan wahanol gyfundrefnau helpu ymgyngoreion statudol i ddeall y cyd-destun ehangach sy'n gysylltiedig â datblygiadau. Fodd bynnag, bydd problemau o hyd o ran hygyrchedd y gyfraith.

**Crynodeb a’r Opsiwn a Ffefrir**

8.240 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gan ei fod yn cynnig nifer o fanteision meintioledig. Yn gyntaf, mae'n cynnig dull gweithredu unedig wedi'i symleiddio

mewn perthynas â rhoi cydsyniad i seilwaith o bwys yng Nghymru, ac mae'n cynnig gwell prosesau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned drwy systemau cyson ar gyfer gwneud penderfyniadau o dan fframwaith polisi cyson. Caiff manteision Opsiwn 2 eu hategu gan y lefel gyffredinol isaf o gostau blynyddol a ragwelir i'r holl brif randdeiliaid, o blith y pedwar opsiwn a ystyriwyd. Cydnabyddir bod rhai costau sefydlu cychwynnol yn gysylltiedig ag Opsiwn 2 o gymharu â'r opsiynau eraill, ond ystyrir y byddai'r costau cychwynnol hyn yn cael eu gwrthbwyso gan yr arbedion tymor hir y byddai cyfundrefn gydsynio symlach yn eu cynnig.

**Tabl V – Y costau sefydlu net ar gyfer pob opsiwn gwahanol (lle y bo'n gymwys)**

| Rhanddeiliad | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Dd/G | £385,300 | £1,054,100 | £4,200 |
| ACLlau | Dd/G | £30,300 | £30,300 | £0 |
| Datblygwyr | Dd/G | £3,000 | £3,000 | £0 |
| Cymunedau | Dd/G | £0 | £0 | £0 |
| Ymgyngoreion Statudol | Dd/G | £0 | £0 | £0 |

**Tabl W – Costau net bob blwyddyn**
***(mae'r ffigurau coch yn nodi costau a gaiff eu had-dalu)***

| Rhanddeiliad | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | £65,400 (£652,700 yn cael ei ad-dalu) | £0 (£567,700 yn cael ei ad-dalu) | £0 (£2,480,500 yn cael ei ad-dalu). Ar gyfer yr opsiwn hwn, byddai'r costau hyn yn gymwys i'r corff annibynnol, yn hytrach nag i Lywodraeth Cymru, fel costau parhaus. | £0 (£718,100 yn cael ei ad-dalu). Yr un costau ag Opsiwn 1, ond byddai modd adennill yr holl gostau yn llawn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ACLlau | £26,100 (£31,000 yn cael ei ad-dalu) | £21,200 (£38,900 yn cael ei ad-dalu) | £21,200 (£38,900 yn cael ei ad-dalu) | £26,100 (£31,000 yn cael ei ad-dalu). Yr un costau ag Opsiwn 1. |
| Datblygwyr | £4,788,900 | £4,208,400 | £5,390,300 | £4,757,900 |
| Cymunedau | Anhysbys | Anhysbys | Anhysbys | Anhysbys |
| Ymgyngoreion Statudol | £44,600 | £35,100 | £35,100 | £44,600. Yr un costau ag Opsiwn 1. |

| **Tabl X – Y cyfanswm costau net bob blwyddyn ar gyfer pob opsiwn gwahanol, wedi'u cymhwyso dros y cyfnod arfarnu o 2024-25 i 2028-29** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 |
| 2024-25 | - | £418,600 (sefydlu) | £1,087,300 (costau sefydlu dros gyfnod o ddwy flynedd). | £4,200 (sefydlu) |
| 2025-26 | £4,925,000 | £4,264,700 (parhaus ar ôl gweithredu) | £4,925,000 ar gyfer parhau â'r gyfundrefn bresennol o dan Opsiwn 1 ar gyfer 2025-26. | £4,828,500 (parhaus ar ôl gweithredu) |
| 2026-27 | £4,925,000 | £4,264,700 | £5,446,600 (parhaus ar ôl gweithredu) | £4,828,500 |
| 2027-28 | £4,925,000 | £4,264,700 | £5,446,600 | £4,828,500 |
| 2028-29 | £4,925,000 | £4,264,700 | £5,446,600 | £4,828,500 |
| **Cyfanswm y costau sy'n gymwys dros y cyfnod arfarnu o 2024-25 i 2028-29** | **£19,700,000** | **£17,477,500** | **£22,352,300** | **£19,318,300** |
| **Cost o gymharu ag Opsiwn 1 (llinell sylfaen)** | **-** | **£-2,222,500** | **£2,652,300** | **£-381,700** |

8.241 Cymhwyswyd y cyfanswm costau net dros y cyfnod arfarnu o 2024-25 i 2028-29 a amlinellir uchod ar sail cymhwyso'r costau parhaus o flwyddyn 2 (2025-26) ymlaen ar gyfer pob opsiwn. Mae hyn yn ystyried y ffaith bod costau sefydlu / gweithredu yn gymwys o dan rai opsiynau ar gyfer blynyddoedd 1 a 2, a bod costau parhaus ar gyfer cyfundrefnau gwell a chyfundrefnau newydd yn dechrau ym mlwyddyn 2, gan felly sicrhau cysondeb o ran y ffordd y caiff y costau ar draws yr opsiynau eu cymharu.

8.242 Bydd sefydlu cyfundrefn CS unigol yn cynnig system â phroses symlach ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn gwneud gwelliant ystyrlon i'r safonau gwasanaeth presennol, a rhoi mwy o sicrwydd wrth wneud penderfyniadau. Rhagwelir y bydd pob rhanddeiliad yn cael budd o gyfundrefn symlach a mwy hygyrch, sy'n golygu y gellir cynnal archwiliadau a gwneud penderfyniadau mewn ffordd effeithlon o fewn amserlen benodedig.

# Pennod 9 – Asesiadau o’r Effaith

9.1 Cynhaliwyd asesiadau effaith penodol, sy'n cwmpasu'r Bil cyfan. Mae crynodeb o'r effeithiau i’w weld isod. Bydd asesiadau effaith penodol yn cael eu cyhoeddi, fel y bo'n briodol.

Hawliau Plant

9.2 Ni fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol ar hawliau plant na phobl ifanc. Effaith net y Bil yw uno a symleiddio prosesau a chreu mwy o gyfleoedd i gymunedau gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

9.3 Mewn rhai achosion, mae'r hawliau hyn eisoes yn bodoli, er enghraifft yn y system gynllunio, er prin y mae plant a phobl ifanc yn ymwneud â phenderfyniadau cynllunio. Er bod gwelliant yn hawliau plant yn rhinwedd y cyfle i gyfrannu barn ar benderfyniadau lle na fyddai hyn wedi bod yn bosibl o'r blaen, mae hyn yn cael ei ystyried yn welliant bach iawn. Nid yw cyflwyno'r Bil yn rhoi unrhyw gyfle penodol i hyrwyddo gwybodaeth na dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Cydraddoldeb

9.4 Mae'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral gyffredinol o ran cydraddoldeb. Y tu hwnt i'r angen i ymgynghori a chynnal digwyddiadau ymgysylltu cyn ymgeisio ar rai mathau o ddatblygiad lle nad oes gofynion i wneud hynny ar hyn o bryd, ni fydd unrhyw newid sylweddol i'r dyletswyddau ar unigolion, na’u hawliau.

Prawfesur Gwledig

9.5 Gall ceisiadau unigol am CS o dan gyfundrefn y Bil gyflwyno effaith fwy uniongyrchol ar fywydau pobl, busnesau a chymunedau gwledig na’r rheini mewn ardaloedd trefol. Ystyrir y bydd y mecanweithiau sydd yn y Bil, y gofyniad i ymgynghori cyn ymgeisio, i ymgynghori ar y cais ac archwilio'n ystyrlon y cais a'r sylwadau a dderbynnir o ganlyniad, yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. Bydd effaith unrhyw ddatblygiad seilwaith yn y dyfodol ar y boblogaeth wledig yn cael ei hystyried yn rhan o'r penderfyniad cyffredinol ar geisiadau unigol.

Data

9.6 Bydd y Bil yn uno'r ddeddfwriaeth a'r prosesau presennol sydd eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth i Weinidogion Cymru neu ACLlau. Mae'r cyfundrefnau presennol eisoes yn cydymffurfio â’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Felly, ni fydd y Bil yn cyflwyno unrhyw

ofynion gwybodaeth newydd, gan gyfuno'r prosesau presennol yn unig. Nid oes angen Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data llawn.

<u>Y Gymraeg</u>

9.7 Mae'r Bil yn cynnig disodli prosesau ymgeisio sydd eisoes yn gwbl ddwyieithog (gan gynnwys y gallu i'r cyhoedd wneud sylwadau mewn gwrandawiadau neu ymholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg). Nid oes bwriad newid sut y gall unigolyn ddatgan ei ddewis iaith wrth ryngweithio â Llywodraeth Cymru drwy'r broses hon. Nid oes effeithiau positif na negyddol.

<u>Bioamrywiaeth</u>

9.8 Bydd y Bil yn uno prosesau cydsynio ar gyfer ceisiadau lle gallai materion bioamrywiaeth fod wedi cael eu hystyried ar wahân yn flaenorol, ac ar adeg wahanol, i agweddau eraill o'r penderfyniad ar y cynigion hyn. O ganlyniad, bwriad y Bil yw sicrhau bod materion bioamrywiaeth yn cael eu hystyried yn rhan o benderfyniad ehangach ar bob prosiect seilwaith mawr, sy'n ofynnol o ran polisi cenedlaethol, a gofynion deddfwriaeth eraill fel y ddyletswydd o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Ni fydd y Bil yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar fioamrywiaeth.

<u>Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol</u>

9.9 Ar ôl rhoi sylw i'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, mae'r Bil ei hun yn gwasanaethu i beidio â chael unrhyw effaith economaidd-gymdeithasol. Gall y penderfyniadau dilynol sy'n deillio o'r Bil maes o law arwain at greu cyfleoedd cyflogaeth, a allai greu cyfle i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad, er bod y penderfyniadau hynny eisoes yn cael eu gwneud o dan y cyfundrefnau cydsynio unigol ar wahân presennol. Bydd ystyried y ddyletswydd hon yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a ragnodir o dan y Bil.

<u>Cyfiawnder</u>

9.10 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder ar gyfer y Bil sydd wedi nodi effaith potensial isel ar y system gyfiawnder. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi penderfynu na fydd unrhyw effaith i'r System Gyfiawnder neu bydd yr effaith honno yn fach iawn.

9.11 Mae hyn oherwydd, er bod y Bil yn cyflwyno troseddau newydd ac achosion sifil, mae'n dod â phrosesau cydsynio presennol at ei gilydd o dan un broses gyson ac felly byddai'r dull arfaethedig yn ailgyfeirio cynigion presennol o dan gyfundrefn gydsynio newydd.

9.12 Rhagwelir mai bach iawn fydd nifer yr achosion gorfodi, ar gyfer yr amcangyfrif o bum cais CS y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar y ddealltwriaeth bresennol na fu unrhyw erlyniadau na gorfodaeth gyfatebol mewn perthynas â DAC a Gorchmynion Cydsyniad Datblygu, sef y cyfundrefnau y mae'r pwerau arfaethedig yn seiliedig arnynt.

9.13 Efallai y bydd angen diweddaru Rheolau’r Weithdrefn Sifil er mwyn adlewyrchu'r amserlenni ar gyfer Adolygiad Barnwrol. Nid oes canllawiau dedfrydu penodol i gynllunio ac felly ni fyddai angen diweddaru canllawiau. Ystyrir na fyddai cost yn gysylltiedig â'r cynigion i'r system gyfiawnder.

Asesiad Cystadleuaeth

9.14 Mae prawf hidlo cystadleuaeth wedi'i gwblhau ar gyfer y ddeddfwriaeth, ac mae i’w weld isod:

| Prawf hidlo cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad(au) y mae’r rheoliad newydd yn effeithio arni, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad(au) y mae’r rheoliad newydd yn effeithio arni, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad(au) y mae’r rheoliad newydd yn effeithio arni, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn sylweddol fwy nag eraill? | Na fyddent |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu rai posibl nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu bodloni? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu rai posibl nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu bodloni? | Na fyddai |
| **C8**: A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynnyrch? | Na fyddai |

9.15 Ystyriwyd effaith gyfyngedig darpariaeth y Bil ar gystadleuaeth yn fanwl. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth.

# Pennod 10 – Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Mae’r amserlenni statudol ar gyfer penderfynu ar geisiadau CS i’w gweld yn y Bil yn adran 56. Mae'r ddarpariaeth honno hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron y Senedd adroddiadau blynyddol ar eu cydymffurfiaeth â'r amserlen statudol a defnyddio unrhyw gyfarwyddyd i estyn yr amserlen statudol honno fesul achos. Bydd gwaith monitro ffurfiol o broses CS yn cael ei wneud yn rhan o'r adroddiad hwnnw.

10.2 Cynigir prosiect gwerthuso cyffredinol o fewn 5 mlynedd i'w weithredu i fesur canlyniad y broses, ac i nodi unrhyw welliannau yn y dyfodol y gallai fod eu hangen.

# Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol

# BIL SEILWAITH (CYMRU)

---

## NODIADAU ESBONIADOL

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Seilwaith (Cymru) ("y Bil") a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 12 Mehefin 2023. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.

**CRYNODEB A'R CEFNDIR**

2. Bydd y Bil yn diwygio sut y rhoddir cydsyniad i seilwaith yng Nghymru. Bydd yn sefydlu proses cydsynio seilwaith unedig o'r enw Cydsyniad Seilwaith ("CS") ar gyfer mathau penodedig o seilwaith mawr ar y tir ac ar y môr, o'r enw Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol ("PSAau"). Bydd y rhain, ar y cyfan, yn cynnwys prosiectau ynni, prosiectau trafnidiaeth, prosiectau trin gwastraff, prosiectau dŵr a phrosiectau nwy. Bydd y CS yn disodli, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, nifer o gyfundrefnau statudol presennol ar gyfer cydsynio i PSAau, a bydd yn rhesymoli'r nifer o awdurdodiadau sy'n ofynnol i adeiladu a gweithredu PSA mewn un cydsyniad.

3. Cyhoeddwyd papur ymgynghori, *Newidiadau i'r broses o roi caniatâd seilwaith: Tuag at sefydlu proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru*, ar 30 Ebrill 2018 sy'n nodi prif egwyddorion y Bil. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Gorffennaf 2018 a chyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2018[29]. Defnyddiwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad i hysbysu datblygiad cynigion y Bil.

4. Mae'r Bil yn cynnwys 146 o adrannau sydd wedi eu trefnu'n 9 Rhan, a 3 Atodlen.

**SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU**

**Rhan 1 – Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol**

5. Mae Rhan 1 o'r Bil yn diffinio ystyr Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol a'r prosiectau cymwys a fydd yn ddarostyngedig i'r broses gydsynio hon.

***Term allweddol***

**Adran 1 – Ystyr "prosiect seilwaith arwyddocaol"**

6. Mae adran 1 yn darparu bod datblygiad yn "Prosiect Seilwaith Arwyddocaol" ("PSA") os yw'n dod o fewn un o blith tri o gategorïau. Er mwyn bod yn PSA, rhaid i brosiectau:

---

[29] Newidiadau i gymeradwyo gwaith datblygu'r seilwaith | LLYW.CYMRU.

- dod o dan un o'r diffiniadau a bennir yn Rhan 1 o'r Bil,
- bod wedi eu pennu mewn cyfarwydd a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22, neu
- bod wedi eu pennu fel PSA yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, sef fframwaith y mae'r ofynnol i Weinidogion Cymru ei wneud o dan adran 60(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("Deddf 2004").

7. Enw'r fframwaith presennol o dan Ddeddf 2004 yw "Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040"[30]. Nid yw'r fframwaith presennol yn pennu prosiectau fel rhai sy'n brosiectau seilwaith arwyddocaol at ddibenion y Bil, ond caiff fframweithiau sy'n disodli'r fframwaith hwnnw wneud hynny.

8. Ceir tri o dermau a ddiffinnir yn y Bil sy'n arbennig o bwysig at ddibenion y disgrifiadau o PSAau yn Rhan 1, sef "datblygiad" (gweler adran 131), "Cymru" ac "ardal forol Cymru" (gweler adran 141).

*Ynni*

## Adran 2 – Y seilwaith trydan

9. Mae adran 2 yn datgan yr amgylchiadau y bydd seilwaith trydan yn PSA oddi tanynt, sef:
   - adeiladu gorsaf gynhyrchu (heblaw gorsaf ynni gwynt ar y tir), pan ddisgwylir y bydd ganddi gapasiti cynhyrchu gosodedig o rhwng 50MW (yn gynhwysol) a 350MW;
   - addasu neu estyn gorsaf gynhyrchu (heblaw gorsaf ynni gwynt ar y tir), pan ddisgwylir mai effaith hynny fydd cynyddu'r capasiti cynhyrchu gosodedig 50MW o leiaf, fodd bynnag, ni chaniateir i effaith yr estyniad gynyddu'r capasiti cynhyrchu cyfan y tu hwnt i 350MW;
   - adeiladu gorsaf ynni gwynt ar y tir, y disgwylir y bydd ganddi gapasiti cynhyrchu gosodedig o 50MW o leiaf;
   - addasu neu estyn gorsaf ynni gwynt ar y tir, pan ddisgwylir mai effaith hynny fydd cynyddu'r capasiti cynhyrchu gosodedig 50MW o leiaf;
   - gosod llinellau trydan uwchben y ddaear sy'n gysylltiedig ag adeiladu, estyn neu addasu gorsaf gynhyrchu sy'n PSA y disgwylir y bydd ganddynt foltedd enwol o 132KV ac y byddant yn 2 gilomedr o hyd o leiaf (i'r graddau y maent yng Nghymru).

## Adran 3 – Cyfleusterau nwy naturiol hylifedig

10. Mae adran 3 yn datgan yr amgylchiadau y bydd datblygiad sy'n ymwneud â chyfleuster nwy naturiol hylifedig yn PSA oddi tanynt, sef:
    - ar gyfer adeiladu cyfleuster, pan ddisgwylir i gynhwysedd storio'r cyfleuster fod yn 43 o filiynau o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu os disgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster fod yn 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod o leiaf;

[30] Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (llyw.cymru).

- ar gyfer addasu cyfleuster, pan ddisgwylir i gynhwysedd storio presennol y cyfleuster gynyddu 43 o filiynau o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu os disgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster gynyddu 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod o leiaf.

**Adran 4 – Cyfleusterau derbyn nwy**

11. Mae adran 4 yn datgan yr amgylchiadau y bydd datblygiad sy'n ymwneud â chyfleusterau derbyn nwy yn PSA oddi tanynt, sef:
    - adeiladu cyfleuster derbyn nwy pan ddisgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster fod yn fwy na 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod;
    - addasu cyfleuster derbyn nwy pan ddisgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster presennol gynyddu 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod o leiaf.

12. Mae is-adran (3) yn pennu, er mwyn bod yn gymwys fel PSA, na chaniateir i gyfleuster dderbyn nwy sy'n tarddu o Gymru, Lloegr, neu'r Alban, y môr tiriogaethol sy'n gyfagos at y tiriogaethau hynny, neu'r Parth Ynni Adnewyddadwy. Y "Parth Ynni Adnewyddadwy" yw'r ardal o'r môr y tu hwnt i fôr tiriogaethol y Deyrnas Unedig lle y mae gan y DU hawliau elwa ar gyfer cynhyrchu ynni o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr 1982 (Cmnd 8941). Yn ogystal, ni chaniateir i'r nwy fod wedi cyrraedd y cyfleuster o Loegr neu'r Alban, neu fod wedi ei drin eisoes mewn cyfleuster arall ar ôl iddo gyrraedd Cymru.

**Adran 5 – Hollti hydrolig am olew a nwy a nwyeiddio glo**

13. Mae adran 5 yn datgan yr amgylchiadau y bydd hollti hydrolig am olew a nwy a nwyeiddio glo yn PSA oddi tanynt, sef:
    - datblygiad sy'n ymwneud â fforio, arfarnu neu gynhyrchu ar y tir fethan haen lo, olew siâl neu nwy siâl gan ddefnyddio dulliau cloddio anghonfensiynol, gan gynnwys hollti hydrolig ac eithrio gwneud tyllau turio fforiol nad yw'n golygu cynnal hollti hydrolig, a
    - datblygiad sy'n gysylltiedig â nwyeiddio glo yn y strata, ac eithrio gwneud tyllau turio fforiol at ddiben samplu creiddiol.

**Adran 6 – Mwyngloddio glo brig**

14. Mae adran 6 yn datgan bod creu mwynglawdd glo brig neu gloddio a gweithio glo o fwynglawdd glo brig yng Nghymru yn PSA.

*Trafnidiaeth*

**Adran 7 – Priffyrdd**

15. Mae adran 7 yn datgan bod adeiladu ac addasu neu wella priffordd yn PSA:
    - pan fydd y briffordd (ar ôl ei hadeiladu) yng Nghymru;
    - pan mai Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd;
    - pan fydd y briffordd (ar ôl ei hadeiladu) yn briffordd ddi-dor o fwy nag 1 cilometr o hyd.

16. Er mwyn i addasu neu wella priffordd fod yn PSA rhaid iddi hefyd fod yn debygol y bydd hynny'n cael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd.

17. Mae is-adrannau (4) i (6) yn pennu eithriadau.

**Adran 8 – Rheilffyrdd**

18. Mae adran 8 yn datgan bod adeiladu rheilffordd yn PSA:
    - pan fydd y rheilffordd (ar ôl ei hadeiladu) yn dechrau, yn gorffen ac yn aros yng Nghymru,
    - pan fydd y rheilffordd (ar ôl ei hadeiladu neu ei haddasu) yn rhan o rwydwaith a weithredir gan weithredwr a gymeradwywyd, a
    - pan fydd y rheilffordd (ar ôl ei hadeiladu) yn cynnwys darn o drac sy'n ddi-dor am fwy na 2 gilometr o hyd.

19. Mae'r adran hon hefyd yn datgan bod addasu rheilffordd yn PSA:
    - pan fydd y rhan o'r rheilffordd sydd i'w haddasu yn rhan o reilffordd sy'n dechrau, yn gorffen ac yn aros yng Nghymru,
    - pan fydd y rheilffordd yn rhan o rwydwaith a weithredir gan weithredwr a gymeradwywyd, a
    - pan fydd yr addasiad i'r rheilffordd yn cynnwys gosod darn o drac sy'n ddi-dor am fwy na 2 gilometr o hyd.

20. Mae'r adran hon yn pennu nad yw'n gymwys i adeiladu neu addasu rheilffordd i'r graddau y bo'r rheilffordd yn ffurfio rhan (neu y bydd yn ffurfio rhan ar ôl ei hadeiladu) o gyfnewidfa nwyddau rheilffordd.

21. Nid yw adeiladu rheilffordd yn PSA os yw'n ddatblygu a ganiateir. Datblygu a ganiateir yw datblygu y mae caniatâd cynllunio wedi ei roi iddo gan erthygl 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y mae'n cael effaith o bryd i'w gilydd).

**Adran 9 – Cyfnewidfeydd nwyddau rheilffordd**

22. Mae adran 9 yn pennu'r amgylchiadau y mae adeiladu cyfnewidfa nwyddau rheilffordd yn PSA oddi tanynt, sef:
    - rhaid i'r tir y lleolir y gyfnewidfa nwyddau rheilffordd arno:
        - bod yng Nghymru, a
        - bod ag arwynebedd o 60 o hectarau o leiaf (ar ôl ei hadeiladu),
    - rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd allu trin:
        - llwythi o nwyddau oddi wrth fwy nag un traddodwr ac i fwy nag un traddodai, a
        - o leiaf bedwar trên nwyddau y dydd,
    - rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd fod yn rhan o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru,
    - rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd gynnwys warysau y gellir danfon nwyddau iddynt o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru naill ai yn uniongyrchol neu drwy gyfrwng math arall o drafnidiaeth, a
    - ni chaiff y gyfnewidfa nwyddau rheilffordd fod yn rhan o sefydliad milwrol.

23. Mae'r adran hon hefyd yn pennu'r amgylchiadau y mae addasu cyfnewidfa nwyddau rheilffordd yn PSA oddi tanynt, sef:
    - rhaid i'r tir y lleolir y gyfnewidfa nwyddau rheilffordd arno fod yng Nghymru;
    - rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd allu trin:
        - llwythi o nwyddau oddi wrth fwy nag un traddodwr ac i fwy nag un traddodai, a
        - o leiaf bedwar trên nwyddau y dydd;
    - rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd fod yn rhan o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru;
    - rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd gynnwys warysau y gellir danfon nwyddau iddynt o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru naill ai yn uniongyrchol neu drwy gyfrwng math arall o drafnidiaeth;
    - ni chaiff y gyfnewidfa nwyddau rheilffordd fod yn rhan o sefydliad milwrol;
    - rhaid i'r addasiad gynyddu arwynebedd y tir y lleolir y gyfnewidfa nwyddau rheilffordd arno 60 o hectarau o leiaf.

**Adran 10 – Cyfleusterau harbwr**

24. Mae adran 10 yn pennu'r amgylchiadau y bydd adeiladu cyfleusterau harbwr yn PSA oddi tanynt, sef:
    - bod y prosiect yn gyfan gwbl yng Nghymru, yn ardal forol Cymru, neu yn y naill a'r llall,
    - na fydd y prosiect yn borthladd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl, nac yn ffurfio rhan o borthladd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl, a
    - bod y prosiect yn gallu trin llwytho neu ddadlwytho y swm perthnasol o ddeunydd y flwyddyn o leiaf.

25. Bydd addasiadau i gyfleusterau harbwr yn PSA pan ddisgwylir mai effaith yr addasiad fydd cynyddu y swm perthnasol y flwyddyn o leiaf swm y deunydd y mae'r harbwr yn gallu ei drin.

26. Mae'r adran hon yn pennu'r symiau perthnasol.

**Adran 11 – Meysydd awyr**

27. Mae adran 11 yn pennu'r amgylchiadau y mae adeiladu maes awyr sydd yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru yn PSA oddi tanynt, sef:
    - y gall y maes awyr (ar ôl ei adeiladu) ddarparu gwasanaethau cludo teithwyr awyr ar gyfer o leiaf 1 filiwn o deithwyr bob blwyddyn, neu
    - y gall y maes awyr (ar ôl ei adeiladu) ddarparu gwasanaethau cludo cargo awyr ar gyfer o leiaf 5,000 o symudiadau cludo awyr gan awyrennau cargo bob blwyddyn.

28. Mae'r adran hefyd yn pennu'r amgylchiadau y mae addasu maes awyr yn PSA oddi tanynt, sef:

- bod yr addasu yn cynyddu nifer y teithwyr y gall y maes awyr ddarparu gwasanaethau cludo teithwyr awyr ar eu cyfer 1 filiwn y flwyddyn o leiaf, neu
- bod yr addasu yn cynyddu nifer y symudiadau cludo awyr gan awyrennau cargo y gall y maes awyr ddarparu gwasanaethau cludo cargo awyr ar eu cyfer 5,000 y flwyddyn o leiaf.

*Dŵr*

**Adran 12 – Argaeau a chronfeydd dŵr**

29. Mae adran 12 yn pennu'r amgylchiadau y bydd datblygiad sy'n ymwneud ag argaeau a chronfeydd dŵr yn PSA oddi tanynt, sef:
    - adeiladu argae neu gronfa ddŵr yng Nghymru os yw cyfaint disgwyliedig y dŵr a gedwir yn ôl gan yr argae neu a gaiff ei storio yn y gronfa ddŵr yn fwy na 10 miliwn o fetrau ciwbig;
    - addasu argae neu gronfa ddŵr yng Nghymru os yw cyfaint ychwanegol disgwyliedig y dŵr a gedwir yn ôl gan yr argae neu a gaiff ei storio yn y gronfa ddŵr o ganlyniad i'r addasiad yn fwy na 10 miliwn o fetrau ciwbig.

**Adran 13 – Trosglwyddo adnoddau dŵr**

30. Mae adran 13 yn pennu bod trosglwyddo adnoddau dŵr yn PSA:
    - pan fo'r datblygiad yn cael ei gynnal gan un neu ragor o ymgymerwyr dŵr,
    - pan fo'r datblygiad yn digwydd yng Nghymru,
    - pan ddisgwylir y bydd cyfaint y dŵr a drosglwyddir o ganlyniad i'r datblygiad yn fwy na 100 miliwn o fetrau ciwbig y flwyddyn, a
    - pan fo'r datblygiad yn galluogi trosglwyddo adnoddau dŵr, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau.

*Dŵr gwastraff*

**Adran 14 – Gweithfeydd trin dŵr gwastraff**

31. Mae adran 14 yn pennu bod adeiladu neu addasu gwaith trin dŵr gwastraff yn PSA:
    - pan fo'r gwaith trin yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru,
    - pan fo capasiti disgwyliedig y gwaith trin (ar ôl ei adeiladu) yn fwy na chyfwerth poblogaeth o 500,000, a
    - yn achos addasiad, pan mai effaith ddisgwyliedig yr addasiad yw cynyddu capasiti'r gwaith fwy na chyfwerth poblogaeth o 500,000.

32. Mae adeiladu neu addasu seilwaith i drosglwyddo neu storio dŵr gwastraff yn PSA:
    - pan fo'r seilwaith yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru,
    - pan mai prif ddiben y seilwaith yw:
        - trosglwyddo dŵr gwastraff ar gyfer ei drin, neu
        - storio dŵr gwastraff cyn ei drin, neu'r ddau,
    - pan ddisgwylir i'r seilwaith (ar ôl ei adeiladu) fod â chapasiti i storio mwy na 350,000 o fetrau ciwbig o ddŵr gwastraff, a

- yn achos addasiad, pan ddisgwylir mai effaith yr addasiad yw cynyddu capasiti'r seilwaith i storio dŵr gwastraff fwy na 350,000 o fetrau ciwbig.

*Gwastraff*

**Adran 15 – Cyfleusterau gwastraff peryglus**

33. Mae adran 15 yn pennu bod adeiladu cyfleuster gwastraff peryglus yn PSA:
    - os yw'r cyfleuster yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru,
    - os prif ddiben y cyfleuster yw gwaredu gwastraff peryglus yn derfynol neu ei adfer, ac
    - os disgwylir i'r cyfleuster (ar ôl ei adeiladu) fod â'r capasiti a bennir yn is-adran (2).

34. Mae'r adran hefyd yn pennu bod addasu cyfleuster gwastraff peryglus yn PSA:
    - os yw'r cyfleuster yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru,
    - os prif ddiben y cyfleuster yw gwaredu gwastraff peryglus yn derfynol neu ei adfer, ac
    - os disgwylir i'r addasiad gynyddu capasiti'r cyfleuster fel a bennir yn is-adran (3)(c).

**Adran 16 – Cyfleusterau gwaredu daearegol gwastraff ymbelydrol**

35. Mae adran 16 yn pennu bod datblygiad sy'n ymwneud â chyfleuster gwaredu daearegol gwastraff ymbelydrol yn PSA:
    - pan fo un neu ragor o dyllau turio yng Nghymru neu ardal forol Cymru yn cael ei adeiladu neu eu hadeiladu o leiaf 200 metr o ddyfnder o dan arwyneb y ddaear neu wely'r môr, a'u prif ddiben yw cael data er mwyn penderfynu a yw'r safle yn addas ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol gwastraff ymbelydrol, a
    - pan fo cyfleuster gwaredu daearegol gwastraff ymbelydrol yn cael ei adeiladu yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru.

*Pŵer i ddiwygio*

**Adran 17 – Pŵer i ychwanegu, amrywio neu ddileu prosiectau**

36. Mae adran 17 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio Rhan 1 drwy reoliadau er mwyn ychwanegu math newydd o brosiect at y diffiniad o brosiect seilwaith arwyddocaol neu i amrywio neu ddileu'r prosiectau seilwaith arwyddocaol presennol a ddiffinnir yn y Bil. Ni chaniateir ychwanegu neu amrywio prosiectau ond os yw'r prosiect newydd, neu unrhyw amrywiad i brosiect presennol, ar gyfer cynnal gwaith ym meysydd ynni, atal llifogydd, mwynau, cludiant, dŵr, dŵr gwastraff a gwastraff a bod y gwaith i'w gynnal yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru.

*Dehongli*

**Adran 18 – Prosiectau trawsffiniol**

37. Mae adran 18 yn egluro bod cyfeiriadau yn Rhan 1 at ddatblygiad sydd "yng Nghymru" neu "yn ardal forol Cymru" yn cynnwys datblygiad sydd yn rhannol yn yr ardaloedd hynny. Mae hefyd yn egluro, pan fo cydsyniad seilwaith yn ofynnol ar gyfer datblygiad sy'n rhannol yng Nghymru neu yn rhannol ym

mharth Cymru, nad yw cydsyniad seilwaith ond yn ofynnol i'r graddau y bo'r datblygiad yng Nghymru neu ym mharth Cymru.

**Rhan 2 – Gofyniad am gydsyniad seilwaith**

38. Mae Rhan 2 o'r Bil yn gosod gofyniad am gydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad sy'n brosiect seilwaith arwyddocaol neu'n ffurfio rhan o brosiect seilwaith arwyddocaol, a'r effaith ar gyfundrefnau statudol eraill.

***Y gofyniad***

**Adran 19 – Gofyniad am gydsyniad seilwaith**

39. Mae adran 19 yn gosod gofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer datblygiad sy'n brosiect seilwaith arwyddocaol neu'n ffurfio rhan o brosiect seilwaith arwyddocaol (fel y'i diffinnir yn adran 1). Cyfeirir at y cydsyniad gofynnol yn y Bil fel "cydsyniad seilwaith".

**Adran 20 – Effaith gofyniad am gydsyniad seilwaith**

40. Mae adran 20(1) a (2) yn rhestru'r cydsyniadau na ellir eu cael neu eu rhoi mewn perthynas â datblygiad, i'r graddau y bo cydsyniad seilwaith yn ofynnol ar gyfer y datblygiad.

41. Mae is-adran (3) yn rhestru gorchmynion neu awdurdodiadau na ellir eu gwneud neu eu cadarnhau mewn perthynas â phriffordd neu mewn cysylltiad ag adeiladu, gwella neu addasu priffordd, i'r graddau y bo cydsyniad seilwaith yn ofynnol.

42. Mae is-adran (4) yn pennu, os yw cydsyniad seilwaith yn ofynnol er mwyn adeiladu neu addasu priffordd, nad yw adran 110 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn gymwys.

***Pwerau i newid y gofyniad neu ei effaith***

**Adran 21 – Pŵer i ychwanegu neu ddileu mathau o gydsyniad**

43. Mae adran 21 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 20(1) a (2) i ychwanegu neu ddileu math o gydsyniad neu er mwyn amrywio'r achosion y mae math o gydsyniad yn dod o fewn adran 20 oddi tanynt. Mae adran 21 hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch y mathau o gydsyniad a'r achosion y mae math o gydsyniad yn dod o fewn adran 20(1) a (2) ai peidio mewn perthynas â hwy.

44. Mae is-adran (2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio, addasu, ddiddymu neu ddirymu deddfiad drwy reoliadau. Mae is-adran (3) yn egluro ystyr "cydsyniad" yn yr adran.

**Adran 22 – Cyfarwyddydau sy'n pennu bod datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol**

45. Mae adran 22 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd sy'n pennu bod datblygiad penodol yn brosiect seilwaith arwyddocaol, os bydd y datblygiad, ar ôl ei gwblhau, yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru a bod y datblygiad yn brosiect neu'n ffurfio rhan o brosiect

y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod o arwyddocâd cenedlaethol, a'i fod o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau.

46. Mae is-adran (3) yn egluro bod pŵer cyfarwyddyd o dan is-adran (1) dim ond yn gymwys i ddatblygiad i'r graddau y bo'r datblygiad yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru.

47. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod y gwneir cais iddo am gydsyniad neu awdurdodiad ddarparu unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru i'w galluogi hwy i wneud cyfarwyddyd o dan is-adran (1), ac i benderfynu o dan ba delerau y dylid rhoi cyfarwyddyd o'r fath.

**Adran 23 – Cyfarwyddydau bod ceisiadau i'w trin fel ceisiadau am gydsyniad seilwaith**

48. Mae adran 23 yn darparu, os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 22, fod gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyfarwyddo i gais a grybwyllir yn adran 20(1) neu (2) gael ei drin fel cais am gydsyniad seilwaith neu i gyfarwyddo person sy'n cynnig gwneud cais i'w drin fel cais am gydsyniad seilwaith.

49. Caiff cyfarwyddydau a wneir o dan yr adran hon ddarparu i ddarpariaethau penodedig mewn unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys deddfiadau yn y Bil) gael effaith mewn perthynas â'r cais neu'r cais arfaethedig neu i gael eu trin fel pe cydymffurfiwyd â hwy mewn perthynas â'r cais neu'r cais arfaethedig.

50. Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod perthnasol atgyfeirio'r cais at Weinidogion Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd gyfarwyddo'r awdurdod perthnasol i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach nes clywir yn wahanol.

51. Mae is-adran (5) yn pennu ystyr "awdurdod perthnasol" yn yr adran hon.

**Adran 24 – Cyfarwyddydau sy'n pennu nad yw datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol**

52. Mae adran 24 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd sy'n pennu nad yw datblygiad a fyddai'n brosiect seilwaith arwyddocaol fel arall yn brosiect seilwaith arwyddocaol at ddiben y Bil hwn. Ni chaniateir rhoi cyfarwyddyd a wneir o dan adran 24 ond os bydd y datblygiad yn rhannol yng Nghymru neu yn rhannol yn ardal forol Cymru.

53. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r cyfarwyddyd ac adrodd i'r Senedd fod cyfarwyddyd wedi ei roi.

**Adran 25 – Cyfarwyddydau o dan adrannau 22 i 24: darpariaeth gyffredinol**

54. Mae adran 25 yn datgan y caniateir rhoi unrhyw gyfarwyddyd a wneir o dan adrannau 22 i 24 yn ddarostyngedig i amodau ac y caiff bennu o fewn pa gyfnod o amser y mae'n cael effaith.

55. Caniateir i gyfarwyddyd a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adrannau hyn gael ei roi yn dilyn archiad oddi wrth ddatblygwr neu yn unochrog. Nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried archiad am gyfarwyddyd oni bai ei fod yn archiad cymhwysol oddi wrth ddatblygwr. Ar ôl gwneud penderfyniad ar archiad cymhwysol, rhaid i Weinidogion Cymru roi rhesymau dros eu penderfyniad i'r person a wnaeth yr archiad.

**Adran 26 – Cyfarwyddydau o dan adran 22: rheoliadau ynghylch y weithdrefn**

56. Mae adran 26 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch materion gweithdrefnol mewn cysylltiad â chyfarwyddydau o dan adrannau 22 i 24 o'r Bil hwn.

**Rhan 3 – Gwneud cais am gydsyniad seilwaith**

57. Mae Rhan 3 o'r Bil yn nodi'r weithdrefn cyn gwneud cais, sut y mae cais am gydsyniad seilwaith i'w wneud i Weinidogion Cymru a'r gofynion o ran cyhoeddusrwydd a hysbysu. Mae hefyd yn nodi rhai gweithdrefnau sy'n ymwneud â chaffael tir yn orfodol fel rhan o gydsyniad seilwaith.

*Cymorth i geisyddion*

**Adran 27 – Darparu gwasanaethau cyn gwneud cais**

58. Mae adran 27 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch darparu gwasanaethau cyn gwneud cais gan Weinidogion Cymru, awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru neu Gyfoeth Naturiol Cymru. Bwriedir i wasanaethau cyn gwneud cais gynorthwyo darpar ymgeiswyr cyn iddynt gyflwyno cais am gydsyniad seilwaith.

59. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth ynghylch:
- yr amgylchiadau y mae'n rhaid darparu gwasanaethau cyn gwneud cais oddi tanynt,
- ffurf a chynnwys archiadau am wasanaethau cyn gwneud cais, gan gynnwys yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyflwyno i fynd gydag archiad,
- pa wasanaethau y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, awdurdodau cynllunio lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru eu darparu, gan gynnwys pryd a sut y maent i'w darparu,
- y gofynion ar Weinidogion Cymru, awdurdodau cynllunio lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru i gyhoeddi gwybodaeth ynghylch yr ystod o wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir ganddynt, a
- camau eraill y mae'n ofynnol i unrhyw berson eu cymryd mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau cyn gwneud cais.

**Adran 28 – Cael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir**

60. Mae adran 28 yn galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi ceisydd am gydsyniad seilwaith i gyflwyno hysbysiad i'r personau a bennir yn is-adran (4).

61. Mae'n ofynnol i dderbynnydd hysbysiad roi i'r ceisydd yn ysgrifenedig enw a chyfeiriad unrhyw berson y mae'r derbynnydd yn credu ei fod yn berchennog neu'n feddiannydd y tir neu'n berson sydd â buddiant yn y tir neu bŵer drosto.

62. Diben hyn yw galluogi'r ceisydd i gydymffurfio â darpariaethau adran 29 neu a wneir o dan adran 29 (darpariaethau ynghylch hysbysu am gais arfaethedig), 30 (darpariaethau ynghylch ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd cyn gwneud cais), ac adrannau 61 i 69 (darpariaethau mewn gorchmynion sy'n awdurdodi caffael yn orfodol).

63. Mae'r adran hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi'r ceisydd i gyflwyno hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i dderbynnydd hysbysiad roi i'r ceisydd yn ysgrifenedig enw a chyfeiriad unrhyw berson y mae'r derbynnydd yn credu bod ganddo hawlogaeth i wneud hawliad am ddigolllediad pe bai'r cais am gydsyniad seilwaith yn cael ei gymeradwyo a'r datblygiad yn digwydd.

64. Mae i'r geiriau "person a chanddo fuddiant yn y tir" a "person sydd â phŵer i werthu a thrawsgludo'r tir neu i ryddhau'r tir" yr ystyr a roddir i "person interested in the land" a "a person having power to sell and convey the land or to release the land" yn y drefn honno yn adran 5(1) o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965.

65. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch hysbysiad a roddir o dan yr adran hon, yn hysbysu'r personau a restrir o dan is-adran (4), pan fo cais arfaethedig am gydsyniad seilwaith neu gais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad caffael yn orfodol.

66. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn drosedd pan fo person wedi methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â hysbysiad a roddir o dan yr adran, mewn achos pan fo'r person wedi darparu gwybodaeth anwir. Mae'r drosedd yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

67. Pan gyflawnir y drosedd gan gorff corfforedig, gellir dal swyddogion y corff hwnnw yn atebol am y drosedd hefyd, gweler adran 133.

*Y weithdrefn cyn gwneud cais*

**Adran 29 – Hysbysu am gais arfaethedig**

68. Mae adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cynnig gwneud cais am gydsyniad seilwaith yn gyntaf hysbysu:
- Gweinidogion Cymru;
- pob awdurdod cynllunio lleol a phob cyngor cymuned ar gyfer yr ardal y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddi (pan fo datblygiad arfaethedig yng Nghymru);
- Cyfoeth Naturiol Cymru a phob awdurdod cynllunio lleol a phob cyngor cymuned y mae'r person yn ystyried ei fod yn briodol (pan fo datblygiad arfaethedig yn ardal forol Cymru);
- Aelodau o'r Senedd etholaethol a rhanbarthol ar gyfer pob ardal lle y lleolir datblygiad arfaethedig;

- Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli etholaethau yng Nghymru ar gyfer pob ardal lle y lleolir datblygiad arfaethedig; ac
- unrhyw bersonau eraill, neu berson arall o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau am y cais.

69. Rhaid i hysbysiad o dan yr adran hon gydymffurfio ag unrhyw ofynion a bennir mewn rheoliadau, a all gynnwys gofynion yn ymwneud â:
    - ffurf a chynnwys hysbysiad,
    - pa wybodaeth, dogfennau neu ddeunydd arall y mae rhaid iddo fynd gyda hysbysiad, a
    - sut a phryd y mae hysbysiad i'w roi.

70. Pan fônt wedi cael hysbysiad sy'n cydymffurfio â'r holl ofynion o dan yr adran hon, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru anfon hysbysiad ysgrifenedig at y person a gyflwynodd ffurflen hysbysu yn wreiddiol, yn cadarnhau fod yr hysbysiad wedi ei dderbyn ac y gall y darpar ymgeisydd symud ymlaen i'r ymgynghoriad cyn gwneud cais.

71. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch (ymhlith pethau eraill):
    - ffurf a chynnwys yr hysbysiad;
    - sut y mae hysbysiad i'w roi, a
    - o fewn pa gyfnod y mae hysbysiadau o'r fath i'w rhoi.

72. Nid yw'r gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru o dan yr adran hon yn gymwys os yw'r cais arfaethedig yn cael ei wneud yn dilyn cyfarwyddyd sy'n pennu bod datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol, ac y gwnaed archiad cymhwysol o dan adran 22.

**Adran 30 – Ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd cyn gwneud cais**

73. Mae adran 30 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n cynnig cyflwyno cais am gydsyniad seilwaith gynnal ymgynghoriad ar gais arfaethedig cyn ei gyflwyno. Nid yw unrhyw ymgynghoriad neu gyhoeddusrwydd a gynhelir cyn i gais arfaethedig gael hysbysiad gan Weinidogion Cymru o dan adran 29 i'w drin fel ymgynghoriad neu gyhoeddusrwydd o dan yr adran hon.

74. Mae'r adran hon hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer ymgynghoriadau, neu mewn cysylltiad â hwy, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill):
    - pwy y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy,
    - sut y mae ymgynghoriadau i'w cynnal,
    - ymateb i ymgynghoriadau, gan gynnwys ymateb drwy lunio adroddiad a'i gyhoeddi,
    - amserlenni mewn cysylltiad ag ymgynghoriadau, a
    - sut y mae'n ofynnol rhoi cyhoeddusrwydd i ymgynghoriadau.

***Y weithdrefn gwneud cais***

**Adran 31 – Gwneud cais am gydsyniad seilwaith**

75. Mae adran 31 yn ei gwneud yn ofynnol i gais am gydsyniad seilwaith gael ei wneud i Weinidogion Cymru ac yn darparu ni chaniateir rhoi cydsyniad seilwaith oni wneir cais amdano.

76. Mae hefyd yn ofynnol i gais am gydsyniad seilwaith bennu'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef, a rhaid i'r cais gynnwys adroddiad ymgynghoriad cyn gwneud cais a gorchymyn seilwaith drafft.

77. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch (ymhlith pethau eraill):
- ffurf a chynnwys cais,
- sut y mae cais i'w wneud,
- pa wybodaeth, dogfennau neu ddeunyddiau eraill y mae rhaid eu cynnwys mewn cais,
- sut y prosesir cais,
- sut y gellir amrywio cais neu ei dynnu yn ôl,
- hysbysiadau yn ymwneud â chais, a
- y cyfnod y mae rhaid gwneud cais o'i fewn (gan gynnwys unrhyw estyniadau i'r cyfnod hwnnw).

78. Caiff rheoliadau hefyd roi swyddogaeth i unrhyw berson.

**Adran 32 – Penderfynu ar ddilysrwydd cais a hysbysu'r ceisydd**

79. Mae adran 32 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, pan fônt yn cael cais am gydsyniad seilwaith, benderfynu a ydynt yn derbyn cais fel cais dilys ai peidio.

80. Rhaid ystyried bod cais yn ddilys os yw'n dod i law o fewn y cyfnod a bennir mewn rheoliadau a'i fod yn cydymffurfio â'r gofynion a osodir gan adran 31 neu odani. Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad i'r ceisydd am benderfyniad i dderbyn y cais fel cais dilys.

81. Pan na fo cais yn cydymffurfio â'r gofynion yn yr adran hon neu adran 31 ac na ellir ei dderbyn gan Weinidogion Cymru, rhaid iddynt roi hysbysiad i'r ceisydd am y penderfyniad hwn, gan gynnwys y rhesymau pam na ellir ei dderbyn fel cais dilys.

**Adran 33 – Hysbysiad am geisiadau a dderbynnir a chyhoeddusrwydd**

82. Mae adran 33 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu partïon penodol pan fônt wedi derbyn cais fel cais dilys.

83. Rhaid rhoi hysbysiad i bob awdurdod cynllunio lleol a chyngor cymuned y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddo. Pan fo datblygiad yn ardal forol Cymru, rhaid rhoi hysbysiad i unrhyw awdurdod cynllunio lleol neu gyngor cymuned y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol a rhaid rhoi hysbysiad i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru. Mae hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu unrhyw bersonau eraill a bennir mewn rheoliadau.

84. Rhaid rhoi hysbysiad hefyd i Aelodau o'r Senedd etholaethol a rhanbarthol, yn ogystal ag Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli etholaethau yng Nghymru ar gyfer pob ardal lle y lleolir datblygiad arfaethedig.

85. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi cyhoeddusrwydd i gais yn y modd a bennir mewn rheoliadau a rhaid i hynny hefyd gynnwys y dyddiad cau ar gyfer cael sylwadau, ac ni chaiff y dyddiad cau ddod i ben cyn diwedd cyfnod byrraf ar gyfer sylwadau a bennir mewn rheoliadau.

86. Fodd bynnag, gall Gweinidogion Cymru estyn y dyddiad cau ar gyfer cael sylwadau, a chânt hefyd estyn y dyddiad cau fwy nag unwaith. Pan arferir y pŵer hwn, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgymryd â chyhoeddusrwydd a rhoi hysbysiad eto, gan bennu'r dyddiad cau newydd ar gyfer cael sylwadau.

87. Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r ceisydd i hysbysu personau am gais a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais yn y modd a bennir yn y cyfarwyddyd.

**Adran 34 – Rheoliadau ynghylch hysbysiadau a chyhoeddusrwydd**

88. Mae adran 34 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau:
- ynghylch ffurf a chynnwys hysbysiadau am geisiadau a dderbynnir (adran 32) a hysbysiadau am gyhoeddusrwydd (adran 33), sut y'u rhoddir a'r amserlenni ar gyfer eu rhoi,
- ynghylch sut y mae sylwadau i'w rhoi mewn ymateb i hysbysiad neu gyhoeddusrwydd o dan adran 33, ffurf a chynnwys y sylwadau hynny a'r amserlenni ar gyfer eu cyflwyno,
- sy'n gosod gofyniad ar bersonau a bennir mewn rheoliadau i ymateb i hysbysiad a roddir o dan adran 32(2)(c), ac
- ynghylch sut y caiff personau ymateb i gyhoeddusrwydd o dan adran 33 a sut y rhoddir cyhoeddusrwydd i sylwadau.

89. Caiff rheoliadau hefyd roi swyddogaeth, gan gynnwys swyddogaeth sy'n ymwneud ag arfer disgresiwn, i unrhyw berson er mwyn sicrhau yr ymgymerir â'r gofynion o ran rhoi cyhoeddusrwydd a rhoi hysbysiad gan y parti mwyaf priodol fesul achos unigol.

**Adran 35 – Adroddiadau ar yr effaith leol**

90. Mae adran 35 yn gwneud darpariaeth ynghylch awdurdodau cynllunio lleol a chynghorau cymuned yn ymateb i hysbysiad neu gyhoeddusrwydd ynghylch datblygiad arfaethedig drwy gyflwyno adroddiad ar yr effaith leol sy'n nodi manylion ynghylch effaith debygol y datblygiad arfaethedig ar ardal awdurdod lleol a chyngor cymuned.

91. Pan fo datblygiad arfaethedig yn ardal awdurdod cynllunio lleol a bod yr awdurdod yn cael hysbysiad o gais a dderbynnir o dan adran 33(2)(a)(i) rhaid

i'r awdurdod gyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad cau a bennir yn yr hysbysiad.

92. Caiff cyngor cymuned a hysbysir am ddatblygiad arfaethedig o dan adran 33(2)(a)(ii) hefyd gyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad cau a bennir yn yr hysbysiad, ond nid yw'n ofynnol iddo wneud hynny.

93. Pan fo datblygiad arfaethedig yn ardal forol Cymru, caiff unrhyw awdurdod cynllunio lleol neu gyngor cymuned y rhoddir hysbysiad iddo am y datblygiad arfaethedig o dan adran 33(2)(b)(ii) gyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad cau a bennir yn yr hysbysiad.

94. Pan fo awdurdod cynllunio neu gyngor cymuned yn cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol ac eithrio mewn ymateb i hysbysiad a roddir o dan adran 33(2), rhaid iddynt gyflwyno'r adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad cau a bennir mewn cyhoeddusrwydd o dan adran 33(3).

95. Mae'r adran hon hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ragnodi ffurf a chynnwys adroddiad ar yr effaith leol a rhaid i unrhyw adroddiad a gyflwynir i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r gofynion a bennir yn y rheoliadau.

**Adran 36 – Adroddiadau effaith ar y môr**

96. Mae adran 36 yn ei gwneud yn ofynnol i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru gyflwyno adroddiad effaith ar y môr i Weinidogion Cymru pan gaiff ei hysbysu am gais am ddatblygiad arfaethedig yn ardal forol Cymru, os yw'r gorchymyn drafft a gyflwynir mewn cais am gydsyniad seilwaith yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trwydded forol dybiedig.

97. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru hefyd gyfarwyddo Corff Adnoddau Naturiol Cymru i gyflwyno adroddiad effaith ar y môr mewn cysylltiad â chais am gydsyniad seilwaith.

98. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff Corff Adnoddau Naturiol Cymru gyflwyno adroddiad effaith ar y môr mewn cysylltiad â chais am gydsyniad seilwaith ac eithrio mewn ymateb i hysbysiad a roddir o dan adran 33(2)(b)(i) neu gyfarwyddyd a roddir o dan adran 36(2).

99. Rhaid i adroddiad effaith ar y môr roi manylion am effaith debygol y datblygiad arfaethedig ar yr amgylchedd morol.

100. Rhaid i adroddiad a gyflwynir mewn ymateb i is-adran (1) gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad cau a bennir yn yr hysbysiad. Rhaid i adroddiad a gyflwynir mewn ymateb i gyfarwyddyd o dan is-adran (2) gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad cau a bennir yn y cyfarwyddyd. Rhaid i adroddiad effaith ar y môr a gyflwynir yn wirfoddol, ac eithrio mewn

ymateb i hysbysiad neu gyfarwyddyd, gael ei gyflwyno cyn y dyddiad cau a ddarperir ar gyfer ymateb i gyhoeddusrwydd o dan adran 33(3).

101. Mae'r adran hon hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ragnodi ffurf a chynnwys adroddiad effaith ar y môr a rhaid i unrhyw adroddiad a gyflwynir i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r gofynion hynny a bennir mewn rheoliadau.

**Adran 37 – Hysbysiad am bersonau a chanddynt fuddiant mewn tir y mae archiad caffael gorfodol yn ymwneud ag ef**

102. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru wedi derbyn cais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir, neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir, fod rhaid i'r ceisydd roi enwau a gwybodaeth ragnodedig arall mewn perthynas â phersonau a chanddynt fuddiant yn y tir i Weinidogion Cymru. Mae'n ofynnol i'r ceisydd ymholi'n ddyfal i ganfod enwau personau yr effeithir arnynt.

**Adran 38 – Ymgynghoriad ar ôl cais mewn perthynas â chaffael gorfodol**

103. Mae adran 38 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn gwneud darpariaeth i geisydd am gydsyniad seilwaith gynnal ymgynghoriad pan fo'r cais yn cynnwys archiad i gaffael tir yn orfodol, ac mewn cysylltiad â hynny. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth fanwl ynghylch yr ymgynghoriad sy'n ofynnol gan gynnwys yr wybodaeth sydd i'w darparu yn ystod yr ymgynghoriad ac amserlen yr ymgynghoriad.

**Rhan 4 – Archwilio ceisiadau**

104. Mae Rhan 4 o'r Bil yn nodi'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer archwilio ceisiadau am gydsyniad seilwaith.

*Penodi awdurdod archwilio*

**Adran 39 – Penodi awdurdod archwilio**

105. Mae adran 39(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi person neu banel o bersonau i archwilio pob cais dilys am gydsyniad seilwaith.

106. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru benodi person neu banel o bersonau i archwilio cais i ddirymu neu newid gorchymyn cydsyniad seilwaith (er nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru wneud hynny). Wrth benderfynu pa un a ddylid penodi person neu banel o bersonau i archwilio cais o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso unrhyw feini prawf a nodir mewn dogfen a gyhoeddir o dan is-adran (3).

107. Caiff Gweinidogion Cymru benodi person neu benodi person i banel neu ddirymu penodiad person neu berson ar banel ar unrhyw adeg.

108. Mae'r adran hon hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth bellach ar gyfer penodi person neu benodi panel o dan yr adran hon, neu mewn cysylltiad â hynny.

109. Yn y Bil cyfeirir at berson neu banel o bersonau a benodir o dan yr adran hon fel "awdurdod archwilio".

*Archwilio ceisiadau*

**Adran 40 – Awdurdod archwilio i archwilio ceisiadau**

110. Mae adran 40 yn darparu bod gan awdurdod archwilio y swyddogaeth o archwilio cais y'i penodir mewn cysylltiad ag ef.

**Adran 41 – Dewis o ymchwiliad, gwrandawiad neu weithdrefn ysgrifenedig**

111. Mae adran 41 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod archwilio ddyfarnu sut y mae pob cais a archwilir ganddo i'w archwilio cyn diwedd cyfnod a bennir mewn rheoliadau.

112. Rhaid i'r awdurdod archwilio ddyfarnu pa un a yw'r cais i'w archwilio ar sail y cais neu ar sail sylwadau ysgrifenedig (os oes rhai) ynghylch y cais, mewn gwrandawiad, mewn ymchwiliad lleol neu drwy unrhyw gyfuniad o'r gweithdrefnau hyn. Wrth ddyfarnu ar y gweithdrefnau hynny, rhaid i'r awdurdod archwilio ddarparu y bydd archwiliad o'r cais yn cynnwys gwrandawiad, oni bai bod y dyfarniad yn darparu ar gyfer ymchwiliad lleol neu fod yr awdurdod archwilio yn ystyried na fyddai gwrandawiad yn cynorthwyo'r archwiliad.

113. Caniateir i'r awdurdod archwilio amrywio ei ddyfarniad o ran sut y mae cais i'w archwilio ar unrhyw adeg cyn y penderfynir ar y cais sy'n cael ei archwilio.

114. Mae'n ofynnol i'r awdurdod archwilio hysbysu unrhyw berson neu unrhyw berson o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau am ei ddyfarniad o dan is-adran (1). Rhaid i'r awdurdod archwilio hefyd hysbysu personau a bennir mewn rheoliadau os bydd yn amrywio dyfarniad a wnaed o dan is-adran (1).

115. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dogfen sy'n nodi'r meini prawf sydd i'w cymhwyso gan awdurdod archwilio wrth ddyfarnu sut y mae cais i'w archwilio.

**Adran 42 – Y weithdrefn archwilio**

116. Mae adran 42 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad ag archwilio cais o dan Ran 4. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â gwneud dyfarniad o dan adran 41, ynghylch sut y mae cais i'w archwilio, ynghylch materion paratoadol a materion yn dilyn ymchwiliad ac ynghylch y modd y cynhelir archwiliad.

**Adran 43 – Pŵer i fynd ar dir mewn cysylltiad ag archwiliad**

117. Mae adran 43 yn darparu y caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru fynd ar dir ar adeg resymol er mwyn edrych ar y safle mewn cysylltiad â'r archwiliad o gais.

118. Mae is-adran (2) yn darparu amodau ar gyfer y person sy'n mynd ar y tir, gan gynnwys bod rhaid iddo ddarparu tystiolaeth o'i awdurdodiad a datgan diben mynd ar y tir cyn mynd arno, os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, a bod rhaid iddo adael y tir wedi ei ddiogelu yr un mor effeithiol rhag tresmaswyr ag yr oedd pan aeth arno. Mae is-adran (2)(e) yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu amodau eraill ar gyfer mynd ar y tir wrth roi eu hawdurdodiad.

119. Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n rhwystro'n fwriadol berson sy'n gweithredu wrth arfer y swyddogaeth o fynd ar dir ac mae'n agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

**Adran 44 – Pŵer i fynd ar dir y Goron mewn cysylltiad ag archwiliad**

120. Mae adran 44 yn darparu na chaiff person fynd ar dir y Goron mewn cysylltiad ag archwiliad o gais, oni fo wedi cael caniatâd person yr ymddengys bod ganddo hawl i'w roi neu awdurdod priodol y Goron.

121. Mae'r adran hon hefyd yn darparu nad yw is-adrannau penodedig o adran 43 yn gymwys mewn perthynas â thir y Goron.

**Adran 45 – Pŵer awdurdod archwilio i gynnal ymchwiliad lleol**

122. Mae adran 45 yn caniatáu i awdurdod archwilio gynnal ymchwiliad lleol at ddibenion archwilio cais.

123. Caiff yr awdurdod archwilio, drwy wŷs, ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson fod yn bresennol yn yr ymchwiliad yn unol â'r gofynion a bennir yn y wŷs a rhoi tystiolaeth, a'i gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddangos unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud ag unrhyw fater o dan sylw yn yr ymchwiliad.

124. Rhaid i'r wŷs bennu ar ba adeg ac ym mha le y mae'n ofynnol i'r person fod yn bresennol. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i'r person fod yn bresennol oni fo'i dreuliau am fod yn bresennol yn cael eu talu neu eu cynnig i'r person.

125. Pan fo person yn gwrthod cydymffurfio â gofyniad mewn gwŷs neu'n methu â chydymffurfio â gofyniad o'r fath yn fwriadol, neu'n newid, yn atal, yn cuddio neu'n dinistrio'n fwriadol ddogfen y mae'n ofynnol i'r person ei dangos, bydd y person wedi cyflawni trosedd a gellir ei roi ar brawf mewn Llys Ynadon neu Lys y Goron. Os dyfernir y person yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.

126. Caiff yr awdurdod archwilio sy'n cynnal yr ymchwiliad hefyd weinyddu llwon a chymryd tystiolaeth o dan lw.

**Adran 46 – Mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad**

127. Pan gynhelir ymchwiliad lleol, mae adran 46 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl dystiolaeth lafar yn cael ei chlywed yn gyhoeddus a bod yr holl dystiolaeth ddogfennol ar gael i'r cyhoedd edrych arni.

128. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol ("awdurdod gweinidogol") gyfarwyddo nad yw tystiolaeth lafar i'w chlywed,

ac nad yw tystiolaeth ddogfennol ar gael i edrych arni, ond gan bersonau penodol yn unig (ac nid y cyhoedd) os yw'r awdurdod gweinidogol wedi ei fodloni y byddai datgelu'r dystiolaeth i'r cyhoedd yn debygol o arwain at ddatgelu gwybodaeth am ddiogelwch cenedlaethol neu fesurau a gymerwyd (neu sydd i'w cymryd) i sicrhau diogelwch unrhyw dir neu eiddo ac y byddai datgelu'r wybodaeth i'r cyhoedd yn erbyn y buddiant cenedlaethol.

129. Os yw awdurdod gweinidogol yn ystyried rhoi cyfarwyddyd o'r fath, caiff y Cwnsler Cyffredinol benodi person ("cynrychiolydd penodedig") i gynrychioli buddiannau personau sydd wedi eu hatal rhag gwrando ar dystiolaeth neu edrych ar dystiolaeth.

130. Mae'r adran hon hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn gan awdurdod gweinidogol cyn y rhoddir cyfarwyddyd pan fo cynrychiolydd penodedig wedi ei benodi ac ynghylch swyddogaethau cynrychiolydd penodedig.

**Adran 47 – Talu cynrychiolydd penodedig pan fo mynediad at dystiolaeth wedi ei gyfyngu**

131. Mae adran 47 yn gwneud darpariaeth ynghylch talu'r cynrychiolydd penodedig pa un a yw'r ymchwiliad yn digwydd ai peidio.

**Adran 48 – Aseswyr**

132. Mae adran 48 yn caniatáu i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru benodi asesydd er mwyn cynorthwyo i archwilio cais o ran mater arbenigol penodol neu bwnc penodol. Ni chaniateir penodi person yn asesydd onid yw'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru yn ystyried bod y person yn meddu ar arbenigedd sy'n addas i gynorthwyo'r awdurdod archwilio.

**Adran 49 – Cymorth cyfreithiol**

133. Mae adran 49 yn caniatáu i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru benodi bargyfreithiwr neu gyfreithiwr i ddarparu cyngor a chymorth cyfreithiol i'r awdurdod archwilio mewn cysylltiad â'r archwiliad o dan Ran 4 o'r Bil.

134. Pan benodir bargyfreithiwr neu gyfreithiwr, caiff y bargyfreithiwr neu'r cyfreithiwr, er enghraifft, gynorthwyo'r awdurdod archwilio drwy gwestiynu ar lafar berson sy'n cyflwyno sylwadau mewn gwrandawiad neu ymchwiliad ar ran yr awdurdod archwilio.

**Adran 50 – Adroddiadau gan awdurdod archwilio**

135. Pan fo gan Weinidogion Cymru y swyddogaeth o benderfynu ar gais yn dilyn archwilio'r cais gan yr awdurdod archwilio, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod archwilio gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru. Rhaid i'r adroddiad nodi canfyddiadau a chasgliadau'r awdurdod archwilio mewn cysylltiad â'r cais a'i argymhellion ynghylch y penderfyniad sydd i'w wneud ar y cais.

**Adran 51 – Pŵer i gyfarwyddo archwiliad pellach**

136. Mae adran 51 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod archwilio i ailagor ei archwiliad o gais ar ôl cael adroddiad gan yr awdurdod archwilio.

137. Pan ailagorir archwiliad, rhaid ei gynnal yn unol ag unrhyw ofynion a bennir yn y cyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (1).

138. Bydd yn ofynnol i'r awdurdod archwilio gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru sy'n nodi ei ganfyddiadau a'i gasgliadau mewn cysylltiad â'r cais a'i argymhellion ynghylch y penderfyniad sydd i'w wneud ar y cais ar ôl i archwiliad a ailagorir o dan yr adran hon ddod i ben.

**Adran 52 – Gorchmynion yn ymwneud â chostau partïon mewn achos archwilio**

139. Mae adran 52 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion ynghylch costau'r ceisydd, costau awdurdod cynllunio, costau Gweinidogion Cymru eu hunain neu gostau unrhyw barti arall mewn achos archwilio (a gaiff gynnwys costau mewn cysylltiad â gwrandawiad neu ymchwiliad nad yw'n digwydd) ac ynghylch y person neu'r personau y mae'n rhaid iddynt dalu'r costau hyn.

140. Mae is-adran (4) yn nodi sut y mae costau sy'n daladwy yn rhinwedd gorchymyn o'r fath i'w hadennill.

**Rhan 5 – Penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith**

141. Mae rhan 5 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau ynghylch penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith.

142. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch pwy sy'n penderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith a wneir o dan adran 31 ("cais"), yr hyn y mae'n rhaid i benderfynwr ei ystyried wrth benderfynu ar gais, yr amserlen ar gyfer gwneud y penderfyniad, a gwneud y penderfyniad.

*Penderfynwr*

**Adran 53 – Swyddogaeth penderfynu ar geisiadau**

143. Mae adran 53 yn datgan mai'r awdurdod archwilio sydd â'r swyddogaeth o benderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau ac mai Gweinidogion Cymru sydd â'r swyddogaeth o benderfynu ar unrhyw gais arall am gydsyniad seilwaith.

144. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo mai awdurdod archwilio sydd â'r swyddogaeth o benderfynu ar y cais yn lle Gweinidogion Cymru, neu mai Gweinidogion Cymru sydd â'r swyddogaeth o benderfynu ar gais yn lle awdurdod archwilio.

*Polisïau statudol a materion perthnasol eraill*

**Adran 54 – Penderfynu ar geisiadau: ystyriaethau cyffredinol**

145. Mae adran 54 yn darparu bod rhaid penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith drwy roi sylw i unrhyw ddatganiad polisi seilwaith sy'n cael effaith

mewn perthynas â datblygiad o'r disgrifiad y mae cais yn ymwneud ag ef ("datganiad polisi perthnasol"), Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (a gyhoeddwyd gyntaf yn 2019 gyda'r teitl *Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040*), i'r graddau y mae'n berthnasol i ddatblygiad o'r disgrifiad y mae cais yn ymwneud ag ef a chynllun morol a luniwyd ac a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru (a gyhoeddwyd gyntaf yn 2019 gyda'r teitl *Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru*). Mae hefyd yn darparu bod rhaid i unrhyw benderfyniad ar gais am gydsyniad seilwaith gael ei wneud yn unol â'r polisïau statudol a restrir uchod, oni fo ystyriaethau perthnasol yn dangos fel arall. Mae is-adran (2) yn cadarnhau, os yw dogfen bolisi statudol fel y'i rhestrir yn nodi bod lleoliad yn addas, neu y gallai fod yn addas, ar gyfer datblygiad penodol, nad yw hynny yn atal gwneud penderfyniad gwahanol ar gais os yw ystyriaethau perthnasol eraill yn dangos y dylid gwneud hynny.

**Adran 55 – Dyletswydd i roi sylw i faterion penodol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau**

146. Mae adran 55 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) i roi'r sylw i'r canlynol wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith:
- unrhyw adroddiad ar yr effaith leol a gyflwynir cyn y dyddiad cau neu unrhyw adroddiad ar yr effaith forol a gyflwynir cyn y dyddiad cau, a bennir naill ai mewn hysbysiad neu gyhoeddusrwydd o dan adran 33,
- unrhyw archwiliad a gynhelir o dan Ran 4,
- unrhyw faterion a bennir mewn rheoliadau mewn perthynas â datblygiad o'r disgrifiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef,
- dymunoldeb lliniaru newid hinsawdd ac ymaddasu iddo; ac
- unrhyw ystyriaeth berthnasol arall.

**Adran 56 – Materion y caniateir eu diystyru wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau**

147. Mae adran 56 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio ddiystyru sylwadau (gan gynnwys tystiolaeth) wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith, os ydynt neu os yw'n ystyried bod y sylwadau:
- yn flinderus neu'n wacsaw,
- yn ymwneud â rhinweddau polisi a nodir mewn datganiad polisi seilwaith, yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol neu mewn unrhyw gynllun morol; neu
- yn ymwneud â digolledu am gaffael yn orfodol dir neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir.

148. Caiff rheoliadau ddiwygio'r materion y caniateir eu diystyru i bennu materion pellach neu i newid neu ddileu materion a bennir eisoes yn adran 55.

***Yr amserlen***

**Adran 57 – Yr amserlen ar gyfer penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith**

149. Mae adran 57 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amserlen ar gyfer penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae is-adran (1) yn datgan bod rhaid i'r

awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru benderfynu ar gais cyn diwedd y cyfnod o 52 o wythnosau sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y cais ei dderbyn yn gais dilys o dan adran 32 neu unrhyw gyfnod arall y cytunir arno rhwng y ceisydd a Gweinidogion Cymru.

150. Mae adran 57(2) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i estyn, drwy gyfarwyddyd, y cyfnodau ar gyfer penderfynu ar gais a grybwyllir yn is-adran (1). O dan is-adran (3), caiff Gweinidogion Cymru roi mwy nag un cyfarwyddyd mewn perthynas â chais (gan ganiatáu iddynt estyn y cyfnod penderfynu sawl gwaith) a chaniateir iddynt roi cyfarwyddyd ar ôl diwedd y cyfnodau a grybwyllir yn is-adran (1).

151. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd a phersonau eraill a bennir mewn rheoliadau am y cyfarwyddyd, cyhoeddi'r cyfarwyddyd a gosod datganiad ynghylch y cyfarwyddyd gerbron Senedd Cymru yn egluro ei effaith a pham y'i rhoddwyd.

152. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno i'r Senedd adroddiadau blynyddol ar eu cydymffurfedd â'r ddyletswydd a osodir gan is-adran (1) a sut y maent yn arfer y swyddogaethau a roddir gan is-adran (2).

153. Mae is-adran (6) yn caniatáu i'r cyfnod o 52 o wythnosau a grybwyllir yn is-adran (1)(a) gael ei ddiwygio drwy reoliadau. Mae unrhyw reoliadau a wneir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

***Y penderfyniad***

**Adran 58 – Rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith**

154. Pan fydd Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ar gais, mae adran 58 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru naill ai gwneud gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad seilwaith neu wrthod rhoi cydsyniad seilwaith.

155. Pan fydd awdurdod archwilio wedi penderfynu ar gais, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol iddo naill ai hysbysu Gweinidogion Cymru am ei benderfyniad i wneud gorchymyn yn rhoi cydsyniad seilwaith neu wrthod rhoi cydsyniad seilwaith.

156. Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad gan yr awdurdod archwilio bod gorchymyn cydsyniad seilwaith i'w wneud, rhaid i Weinidogion Cymru wneud y gorchymyn.

157. Mae'r adran hon hefyd yn pennu, pan fo cydsyniad seilwaith naill ai yn cael ei roi neu ei wrthod, bod rhaid i geisyddion, awdurdodau cynllunio lleol a chynghorau cymuned perthnasol, Cyfoeth Naturiol Cymru (nid yw hyn ond yn gymwys pan fo adroddiad effaith ar y môr wedi ei gyflwyno) ac unrhyw berson arall neu unrhyw bersonau eraill o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau gael eu hysbysu am y penderfyniad.

158. Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth sy'n rheoleiddio'r weithdrefn i'w dilyn os yw Gweinidogion Cymru yn cynnig gwneud gorchymyn cydsyniad seilwaith ar delerau sy'n sylweddol wahanol i'r rhai a gynigir yn y cais.

**Adran 59 – Datblygiad y caniateir rhoi cydsyniad seilwaith ar ei gyfer**

159. Mae adran 59 yn pennu'r datblygiad y caniateir rhoi cydsyniad seilwaith ar ei gyfer.

160. Caniateir rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad y mae cydsyniad seilwaith yn ofynnol ar ei gyfer (gweler adran 19 ar gyfer trafodaeth ynghylch datblygiad y mae cydsyniad seilwaith yn ofynnol ar ei gyfer), yn ogystal â "datblygiad cysylltiedig".

161. "Datblygiad cysylltiedig" yw datblygiad sy'n gysylltiedig â datblygiad y mae cydsyniad seilwaith y ofynnol ar ei gyfer (neu unrhyw ran ohono) ac sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn gyfan gwbl yn ardal forol Cymru neu'n gyfan gwbl yng Nghymru ac ardal forol Cymru.

162. Ceir esboniad o ystyr "Cymru" ac "ardal forol Cymru" yn adran 141 (dehongli cyffredinol).

163. Os rhoddir cydsyniad seilwaith ar gyfer "datblygiad cysylltiedig", nid yw'n ofynnol cael unrhyw un o'r cydsyniadau a grybwyllir yn adran 20 (fel y caniateir diwygio'r adran honno gan adran 21]) ar gyfer y "datblygiad cysylltiedig".

**Adran 60 – Rhesymau dros benderfynu rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith**

164. Mae adran 60 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio datganiad o'u rhesymau dros benderfynu naill ai gwneud gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad seilwaith neu wrthod rhoi cydsyniad seilwaith. Rhaid anfon copi o'r datganiad at y ceisydd, unrhyw awdurdod cynllunio neu gyngor cymuned sydd wedi cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r cais, Cyfoeth Naturiol Cymru os yw wedi cyflwyno adroddiad effaith ar y môr i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r cais ac unrhyw berson neu unrhyw berson o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau. Rhaid i'r datganiad gael ei gyhoeddi yn y modd y maent yn ystyried ei fod yn briodol.

165. Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod archwilio lunio datganiad o'i resymau dros benderfynu gwneud gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad seilwaith neu wrthod rhoi cydsyniad seilwaith. Rhaid anfon copi o'r datganiad at y ceisydd, unrhyw awdurdod cynllunio neu gyngor cymuned sydd wedi cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r cais, Cyfoeth Naturiol Cymru os yw wedi cyflwyno adroddiad effaith ar y môr i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r cais ac unrhyw berson neu unrhyw berson o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau. Rhaid i'r datganiad gael ei gyhoeddi yn y modd y mae'r awdurdod archwilio yn ystyried ei fod yn briodol.

## Rhan 6 – Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith

166. Mae Rhan 6 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gorchmynion cydsyniad seilwaith. Mae adran 61 yn pennu yr hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith. Mae adrannau 62 i 70 yn gwneud darpariaethau ynghylch gorchmynion sy'n awdurdodi caffael yn orfodol. Mae adrannau 71 i 82 yn darparu cyfyngiadau penodol ar yr hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn, a hefyd yn darparu pwerau penodol i gynnwys darpariaethau penodol mewn gorchmynion. Mae adran 83 yn nodi manylion y weithdrefn ar gyfer cyhoeddi gorchmynion cydsyniad seilwaith.

167. Mae adrannau 84 i 91 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith. Mae adrannau 92 i 99 yn ymwneud ag effaith gorchmynion cydsyniad seilwaith ac maent yn cynnwys darpariaethau ynghylch cyfnod para gorchymyn cydsyniad seilwaith, heriau cyfreithiol, rhwymedigaethau cynllunio a digolledu mewn achos pan fo amddiffyniad o awdurdodiad statudol yn gymwys mewn achos sifil neu droseddol am niwsans.

### *Darpariaeth mewn gorchmynion: cyffredinol*

### Adran 61 – Yr hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith

168. Mae'r adran hon yn pennu'r hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith.

169. Mae is-adrannau (1) a (2) yn darparu y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith osod gofynion mewn perthynas â'r datblygiad y rhoddir cydsyniad seilwaith ar ei gyfer. Mae'r mathau o ofynion y caniateir eu gosod yn cynnwys gofynion sy'n cyfateb i amodau y gellid bod wedi eu gosod wrth roi unrhyw ganiatâd, cydsyniad neu awdurdodiad, neu roi unrhyw hysbysiad a fyddai wedi bod yn ofynnol ar gyfer y datblygiad oni bai am adran 20(1) neu unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan adran 82. Mae'r gofynion y caniateir eu gosod hefyd yn cynnwys rhwymedigaethau i gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru neu unrhyw berson arall, i'r graddau nad yw hynny o fewn adran 61(2)(a).

170. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith hefyd wneud darpariaeth yn ymwneud â'r datblygiad y rhoddir cydsyniad ar ei gyfer, neu faterion sy'n atodol iddo.

171. Mae is-adran (4) yn pennu bod y ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-adran (3) yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1.

172. Mae is-adran (5) yn darparu y caiff rheoliadau ychwanegu mater at Ran 1 o Atodlen 1 neu amrywio neu ddileu unrhyw fater a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1.

173. Mae is-adran (6) yn darparu y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gymhwyso, addasu neu eithrio deddfiad sy'n ymwneud ag unrhyw fater y caniateir gwneud

darpariaeth ar ei gyfer yn y gorchymyn. Caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith hefyd ddiwygio, ddiddymu neu ddirymu deddfiadau sy'n gymwys yn lleol y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod hynny'n briodol o ganlyniad i ddarpariaeth yn y gorchymyn neu mewn cysylltiad â'r gorchymyn. Caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith hefyd gynnwys unrhyw ddarpariaeth y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn briodol er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth arall yn y gorchymyn a chaiff hefyd gynnwys unrhyw ddarpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth atodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

174. Mae is-adran (7) yn datgan na chaiff gorchmynion cydsyniad seilwaith greu troseddau, rhoi pŵer i greu troseddau na newid pŵer presennol i greu troseddau oni wneir y ddarpariaeth o dan is-adran (3) a'i bod yn ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion a restrir ym mharagraff 29(1) o Atodlen 1 (creu troseddau penodol).

175. Mae is-adran (8) yn datgan, i'r graddau y caniateir cynnwys darpariaeth ar gyfer mater neu sy'n ymwneud â mater mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith, na chaniateir gwneud darpariaeth o'r math hwnnw drwy orchymyn o dan adran 14 neu 16 o Ddeddf Harbyrau 1964 neu orchymyn o dan adran 1 neu 3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992.

176. Mae Atodlen 1 yn rhestru'r materion sy'n ymwneud â'r datblygiad y rhoddir cydsyniad ar ei gyfer, neu sy'n atodol iddo, fel y cyfeirir ato yn adran 60(3). Mae paragraffau 28 a 29 o Atodlen 1 yn cynnwys materion a fydd, os ydynt wedi eu cynnwys mewn gorchymyn cydsyniad, yn ei gwneud yn ofynnol i'r gorchymyn fod ar ffurf offeryn statudol, fel a bennir yn adran 82(3)(a).

### *Darpariaeth mewn gorchmynion sy'n awdurdodi caffael yn orfodol*

### Adran 62 – Diben caniatáu awdurdodi caffael yn orfodol

177. Mae adran 62 yn darparu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol onid yw Gweinidogion Cymru yn fodlon bod y tir:

- yn ofynnol ar gyfer y datblygiad y mae'r cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef,
- yn ofynnol er mwyn hwyluso'r datblygiad hwnnw neu fod y tir yn ddeilliadol i'r datblygiad hwnnw, neu
- yn dir amnewid sydd i'w roi yn gyfnewid am y tir yr awdurdodir ei gaffael yn orfodol o dan adran 68 (tiroedd comin, mannau agored etc.: caffael tir yn orfodol) neu adran 69 (tiroedd comin, mannau agored etc.: caffael hawliau dros dir yn orfodol),

a bod achos cymhellol er budd y cyhoedd i'r tir gael ei gaffael yn orfodol.

### Adran 63 – Tir y gall awdurdodiad i gaffael yn orfodol ymwneud ag ef

178. Mae adran 63 yn darparu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol onid yw'r tir yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru a bod un o'r amodau a ganlyn wedi ei fodloni:

- yr amod yn is-adran (2) yw bod y cais am gydsyniad seilwaith yn cynnwys archiad i awdurdodi caffael y tir yn orfodol;
- yr amod yn is-adran (3) yw bod yr holl bersonau a chanddynt fuddiant yn y tir yn cydsynio i'r ddarpariaeth hon gael ei chynnwys;
- yr amod yn is-adran (4) yw bod y weithdrefn a bennir mewn rheoliadau wedi ei dilyn mewn perthynas â'r tir hwnnw.

179. Mae "Cymru" ac "ardal forol Cymru" wedi eu diffinio yn adran 141.

**Adran 64 – Cais am ddarpariaethau caffael yn orfodol**

180. Mae adran 64 yn darparu bod Rhan 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 yn gymwys (gydag addasiadau penodedig) i unrhyw orchymyn cydsyniad seilwaith sy'n cynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol.

181. Fodd bynnag, caiff y gorchymyn ei hun wneud darpariaethau i'r gwrthwyneb.

182. Mae Deddf Prynu Gorfodol 1965 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer trosglwyddo perchenogaeth y tir i'r awdurdod caffael.

183. Ystyr "awdurdod caffael" yw'r awdurdod cyhoeddus neu berson arall a awdurdodir gan y gorchymyn cydsyniad seilwaith i gaffael y tir.

**Adran 65 – Digolledu am gaffael tir yn orfodol**

184. Mae adran 65 yn cyfyngu ar y ddarpariaeth y caniateir ei gwneud ynghylch digolledu am gaffael tir yn orfodol mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol. (Yn enwedig, cyfyngir ar y darpariaethau digolledu o dan Ddeddfau presennol, megis Deddf Digollediad Tir 1961.)

**Adran 66 – Tir ymgymerwyr statudol**

185. Mae adran 66 yn gymwys i dir ("tir ymgymerwyr statudol") y mae ymgymerwr statudol wedi ei gaffael at ddiben ei ymgymeriad ac, o ganlyniad i sylw a wnaed ynghylch cais am gydsyniad seilwaith, mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y defnyddir y tir at ddibenion cyflawni ymgymeriad yr ymgymerwr statudol neu y delir buddiant yn y tir at y dibenion hynny.

186. Er mwyn i orchymyn cydsyniad seilwaith gael ei wneud sy'n cynnwys darpariaeth yn awdurdodi caffael tir ymgymerwyr statudol yn orfodol, rhaid bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod natur a lleoliad y tir yn golygu:
   - y gellir prynu'r tir a pheidio â'i amnewid heb niwed difrifol i gyflawni'r ymgymeriad, neu
   - y gellir ei brynu a'i amnewid am dir arall heb unrhyw niwed o'r fath.

187. Yn yr un modd, ni chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth yn awdurdodi caffael hawl dros dir ymgymerwyr statudol yn orfodol onid yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni:
   - y gellir prynu'r hawl heb niwed difrifol i gyflawni'r ymgymeriad, neu
   - y gellir unioni unrhyw niwed drwy ddefnyddio tir arall gan yr ymgymerwr statudol.

**Adran 67 – Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

188. Mae adran 67 yn gymwys i dir y mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen arno a ddelir gan yr Ymddiriedolaeth yn anhrosglwyddadwy. Mae'n darparu y bydd gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael tir o'r fath yn orfodol yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd (ystyriaeth bellach gan y Senedd) os yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gwneud gwrthwynebiad mewn sylw ynghylch cais am gydsyniad seilwaith ac nad yw'r gwrthwynebiad hwnnw wedi ei dynnu yn ôl.

**Adran 68 – Tiroedd comin, mannau agored etc.: caffael tir yn orfodol**

189. Mae adran 68 yn gymwys i dir sy'n ffurfio rhan o dir comin, man agored neu randir tanwydd neu ardd gae. Mae'r adran hon yn darparu y bydd gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael tir o'r fath yn orfodol yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un o'r canlynol yn gymwys:

- bod tir amnewid wedi ei roi neu y bydd yn cael ei roi yn gyfnewid am y tir yr awdurdodir ei gaffael yn orfodol ("tir y gorchymyn") ac y bydd y tir amnewid wedi ei freinio yn y person y mae tir y gorchymyn wedi ei freinio ynddo ac yn ddarostyngedig i'r un hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion;
- pan fo tir y gorchymyn yn fan agored yn unig neu'n ffurfio rhan o fan agored yn unig, nad oes unrhyw dir addas ar gael i'w roi yn gyfnewid neu nad yw tir addas ar gael ond am bris afresymol, a'i bod er budd y cyhoedd i ddechrau'r datblygiad yn gynharach nag sy'n debygol o fod yn bosibl pe bai'r gorchymyn yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd;
- pan fo tir y gorchymyn yn fan agored yn unig neu'n ffurfio rhan o fan agored yn unig, ei fod yn cael ei gaffael at ddiben dros dro;
- os nad yw'r tir a gaffaelir yn fwy na 200 metr sgwâr o faint neu os yw'n angenrheidiol er mwyn lledu neu ddraenio priffordd bresennol (neu yn rhannol er mwyn lledu ac yn rhannol er mwyn draenio priffordd o'r fath), a bod rhoi tir arall yn gyfnewid amdano yn ddiangen.

190. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un o'r eithriadau hyn yn gymwys, rhaid iddynt gofnodi'r ffaith honno yn y gorchymyn neu fel arall yn yr offeryn neu ddogfen arall sy'n cynnwys y gorchymyn.

191. Ni chaiff unrhyw dir amnewid fod yn ddim llai o ran arwynebedd na'r tir a gaffaelir yn orfodol, ac ni chaiff fod yn llai manteisiol na'r tir hwnnw.

**Adran 69 – Tiroedd comin, mannau agored etc.: caffael hawliau dros dir yn orfodol**

192. Mae adran 69 yn gymwys i dir sy'n ffurfio rhan o dir comin, man agored neu randir tanwydd neu ardd gae. Mae'r adran hon yn darparu y bydd gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael yn orfodol hawl newydd dros dir o'r fath yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd oni fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un o'r canlynol yn gymwys:

- na fydd tir y gorchymyn, pan fydd hawl y gorchymyn yn weithredol drosto, yn llai manteisiol nag yr oedd ynghynt i'r personau y'i breinir ynddynt, ac unrhyw bersonau eraill (os oes rhai) sydd â hawlogaeth i hawliau comin neu hawliau eraill, a'r cyhoedd;
- bod tir amnewid wedi ei roi neu y bydd yn cael ei roi yn gyfnewid am hawl y gorchymyn a bod y tir hwnnw wedi ei freinio neu bydd yn cael ei freinio yn y personau y breinir tir y gorchymyn ynddynt ac y bydd y tir amnewid hwnnw yn ddarostyngedig i'r un hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion â thir y gorchymyn;
- pan fo tir y gorchymyn yn fan agored yn unig, nad oes unrhyw dir addas ar gael i'w roi yn gyfnewid am hawl y gorchymyn neu nad yw tir addas ar gael ond am bris afresymol, a'i fod er budd y cyhoedd i ddechrau'r datblygiad yn gynharach nag sy'n debygol o fod yn bosibl pe bai'r gorchymyn yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd;
- pan fo tir y gorchymyn yn fan agored yn unig, ei fod yn cael ei gaffael at ddiben dros dro;
- os nad yw'r tir y caffaelir yr hawl drosto yn fwy na 200 metr sgwâr o faint neu os yw'r hawl yn angenrheidiol er mwyn lledu neu ddraenio priffordd bresennol (neu mewn cysylltiad yn rhannol â lledu ac yn rhannol â draenio priffordd o'r fath), a bod rhoi tir arall yn gyfnewid am hawl y gorchymyn yn ddiangen er budd y person sydd â hawlogaeth i hawliau comin neu hawliau eraill neu er budd y cyhoedd.

193. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un o'r eithriadau hyn yn gymwys, rhaid iddynt gofnodi'r ffaith honno yn y gorchymyn neu fel arall yn yr offeryn neu ddogfen arall sy'n cynnwys y gorchymyn.

194. Yn yr adran hon, ystyr "hawl y gorchymyn" yw'r hawl yr awdurdodir ei chaffael yn orfodol, ac ystyr "tir y gorchymyn" yw'r tir y mae hawl y gorchymyn i fod yn arferadwy drosto. Ystyr "tir amnewid" yw tir a fydd yn ddigonol i ddigolledu'r personau a grybwyllir yn is-adran (9) am yr anfanteision a fyddai'n digwydd iddynt o ganlyniad i gaffael hawl newydd dros dir yn orfodol.

## Adran 70 – Hysbysiad o awdurdodiad i gaffael yn orfodol

195. Mae adran 70 yn darparu bod rhaid i reoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson a awdurdodwyd gan orchymyn cydsyniad seilwaith i gaffael tir yn orfodol neu i berson y mae'r gorchymyn yn awdurdodi creu hawl newydd er ei fudd ("y darpar brynwr") roi, gyhoeddi neu arddangos "hysbysiad caffael yn orfodol". Rhaid i'r hysbysiad hwnnw gynnwys yr wybodaeth a nodir yn is-adran (2).

196. Rhaid hefyd anfon yr hysbysiad at y Prif Gofrestrydd Tir ac mae i fod yn bridiant tir lleol mewn cysylltiad â'r tir y mae'n ymwneud ag ef.

### *Darpariaeth mewn gorchmynion: cyfyngiadau a phwerau penodol*

## Adran 71 – Hawliau tramwy cyhoeddus

197. Mae adran 71 yn pennu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith ond diddymu hawl tramwy cyhoeddus dros dir os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni

bod hawl tramwy arall wedi ei darparu neu y bydd yn cael ei darparu, neu nad yw'n ofynnol darparu hawl tramwy arall.

198. Pan fo gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi caffael tir ac yn diddymu hawl tramwy cyhoeddus nad yw'n hawl tramwy cerbydol dros y tir, ni chaiff y gorchymyn ddarparu i'r hawl tramwy gael ei diddymu yn gynharach na'r dyddiad y cyhoeddir y gorchymyn, a rhaid i Weinidogion Cymru gyfarwyddo y bydd yr hawl tramwy yn cael ei adfer os diddymir yr hawl dros y tir cyn cwblhau caffael y tir ond y rhoddir y gorau i'r cynnig i gaffael y tir.

**Adran 72 – Pŵer i drechu hawddfreintiau a hawliau eraill**

199. Mae'r adran hon yn diwygio adran 205 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 fel bod y pŵer i drechu hawddfreintiau a hawliau eraill ar gyfer cynnal gwaith adeiladu neu waith cynnal a chadw yn adran 203 a'r pŵer dilynol i dalu digollediad yn adran 204 o'r Ddeddf honno yn gymwys pan fo cydsyniad seilwaith wedi ei roi ar gyfer y gwaith adeiladu neu'r gwaith cynnal a chadw.

**Adran 73 – Diddymu hawliau, a symud ymaith gyfarpar, ymgymerwyr statudol etc.**

200. Mae adran 73 yn gymwys pan fo gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi caffael tir a bod y tir yn dod o dan un neu ragor o'r categorïau a ganlyn:
- tir y mae gan ymgymerwr statudol neu weithredwr rhwydwaith cod cyfathrebu electronig hawl drosto a bennir yn is-adran (2) ("hawl berthnasol");
- bod "cyfamod cyfyngol perthnasol" yn gymwys i'r tir (sef cyfamod cyfyngol sydd o fudd i'r ymgymerwyr statudol wrth iddynt gynnal eu hymgymeriadau);
- bod cyfarpar cyfathrebu electronig neu gyfarpar a freiniwyd yn yr ymgymerwyr statudol neu gyfarpar sy'n eiddo iddynt ("cyfarpar perthnasol") ar y tir, odano neu drosto.

201. Pan fo'r adran hon yn gymwys, ni chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ddiddymu hawl berthnasol neu gyfamod cyfyngol perthnasol neu symud ymaith gyfarpar perthnasol onid yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod gwneud hynny yn angenrheidiol i gynnal y datblygiad y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef.

**Adran 74 – Tir y Goron**

202. Mae adran 74(1) yn darparu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith awdurdodi caffael buddiant yn nhir y Goron yn orfodol (mae "Tir y Goron" wedi ei ddiffinio yn adran 131(2)) oni fo'r buddiant yn cael ei ddal am y tro ac eithrio gan y Goron neu ar ran y Goron, a bod awdurdod priodol y Goron (mae "awdurdod priodol y Goron" wedi ei ddiffinio yn adran 132(5)) yn cydsynio i'r caffael.

203. Mae is-adran (2) yn darparu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys unrhyw ddarpariaeth arall sy'n gymwys mewn perthynas â thir y Goron, neu

hawliau y mae'r Goron yn cael budd ohonynt, oni fo awdurdod priodol y Goron yn cydsynio.

**Adran 75 – Gweithredu gorsafoedd cynhyrchu**

204. Mae'r adran hon yn darparu na chaniateir gwneud gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi gweithredu gorsaf gynhyrchu onid yw'r datblygiad y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn golygu neu'n cynnwys adeiladu neu estyn yr orsaf gynhyrchu.

**Adran 76 – Cadw llinellau trydan yn osodedig uwchben y ddaear**

205. Mae'r adran hon yn darparu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith awdurdodi cadw llinellau trydan yn osodedig uwchben y ddaear onid yw'r datblygiad y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn golygu neu'n cynnwys gosod y llinell uwchben y ddaear.

**Adran 77 – Dargyfeirio cyrsiau dŵr**

206. Mae'r adran hon yn darparu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi dargyfeirio unrhyw ran o gwrs dŵr mordwyol gael ei wneud onid yw'r darn newydd arfaethedig o gwrs dŵr yn fordwyol mewn modd rhesymol gyfleus gan lestrau sy'n gyfarwydd â defnyddio'r cwrs dŵr a ddargyfeirir.

207. Os yw gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi dargyfeirio unrhyw ran o gwrs dŵr mordwyol, cymerir hefyd fod y gorchymyn yn awdurdodi dargyfeirio unrhyw lwybr halio neu dramwyfa arall sy'n gyfagos i'r rhan honno.

**Adran 78 – Priffyrdd**

208. Mae'r adran hon yn darparu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith awdurdodi codi tollau mewn perthynas â phriffordd onid oes cais i'r perwyl hwnnw wedi ei gynnwys yn y cais am y gorchymyn.

**Adran 79 – Harbyrau**

209. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith ddarparu ar gyfer creu awdurdod harbwr, darparu ar gyfer addasu pwerau neu ddyletswyddau awdurdod harbwr, ac awdurdodi trosglwyddo eiddo, hawliau neu atebolrwyddau o un awdurdod harbwr i un arall oddi tanynt.

**Adran 80 – Gollwng dŵr**

210. Mae'r adran hon yn gymwys i orchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi gollwng dŵr i ddyfroedd mewndirol neu strata tanddaearol. Nid yw'r person y rhoddir cydsyniad seilwaith iddo yn cael pŵer cyffredinol i gymryd dŵr na'i gwneud yn ofynnol i ddŵr gael ei ollwng o'r dyfroedd mewndirol nac o darddleoedd eraill y bwriedir i'r gollyngiadau a awdurdodir gan y gorchymyn gael eu gwneud ohonynt.

**Adran 81 – Cydsyniad tybiedig o dan drwydded forol**

211. Mae'r adran hon yn darparu y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith dybio y dyroddwyd trwydded forol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ar gyfer unrhyw weithgaredd lle Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod

trwyddedu priodol (fel y'i diffinnir yn adran 113 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009) ar ei gyfer.

212. Nid yw person sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r drwydded forol dybiedig yn cyflawni trosedd o dan adran 101 o'r Bil hwn, ond yn hytrach mae'n cyflawni trosedd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

213. Nid yw'r Bil hwn yn rhwystro trwydded forol dybiedig rhag cael ei hamrywio, ei hatal dros dro, ei dirymu neu ei throsglwyddo yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

**Adran 82 – Dileu gofynion cydsynio a thybio cydsyniadau**

214. Mae adran 82(1) yn darparu y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth sy'n dileu'r gofyniad i roi cydsyniad a bennir mewn rheoliadau, neu sy'n tybio bod cydsyniad a bennir mewn rheoliadau wedi ei roi, os yw'r awdurdod a fyddai fel arfer yn rhoi'r cydsyniad:
    - wedi rhoi ei gydsyniad i gynnwys y ddarpariaeth yn y gorchymyn cyn diwedd y cyfnod a bennir mewn rheoliadau (is-adran (2)), neu
    - heb wrthod rhoi ei gydsyniad i gynnwys darpariaeth o'r fath cyn diwedd y cyfnod a bennir mewn rheoliadau (is-adran (3)).

215. Mae is-adran (4) yn caniatáu i reoliadau ddarparu eithriadau i'r gofyniad i fodloni'r amodau a nodir yn is-adrannau (2) a (3).

***Y weithdrefn ar gyfer gorchmynion cydsyniad seilwaith***

**Adran 83 – Gorchmynion cydsyniad seilwaith: eu cyhoeddi a'r weithdrefn**

216. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi gorchymyn cydsyniad seilwaith yn y modd y maent yn ystyried ei fod yn briodol.

217. Fodd bynnag rhaid i'r gorchymyn gael ei gynnwys mewn offeryn statudol os yw'r gorchymyn yn cynnwys darpariaeth a wneir o dan adran 61(3) sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion a restrir ym mharagraffau 28 a 29 o Atodlen 1 (creu troseddau penodol drwy orchymyn cydsyniad seilwaith), neu ddarpariaeth a wneir wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 60(6)(a) neu (b) (addasu deddfiadau drwy orchymyn cydsyniad seilwaith).

218. Pan fo gorchymyn wedi ei gynnwys mewn offeryn statudol, mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru gopi o'r offeryn, y fersiwn ddiweddaraf o unrhyw blan a gyflenwyd gan y ceisydd mewn cysylltiad â'r cais a datganiad o'r rhesymau a luniwyd o dan adran 60 cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

***Newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith etc.***

**Adran 84 – Ystyr "dogfennau penderfyniad" a "gwall"**

219. Mae'r adran hon yn nodi diffiniadau at ddibenion adrannau 85 a 86.

**Adran 85 – Pŵer i gywiro gwallau mewn dogfennau penderfyniad**

220. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gywiro gwallau mewn dogfen penderfyniad ("dogfen penderfyniad" yw'r gorchymyn cydsyniad seilwaith neu'r hysbysiad sy'n hysbysu'r ceisydd bod ei gais am gydsyniad seilwaith wedi ei wrthod).

221. Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer i gywiro gwallau os ceir cais ysgrifenedig i gywiro gwall oddi wrth unrhyw berson neu heb i gais o'r fath gael ei wneud.

222. Mae is-adran (4) yn darparu, os yw'r ddogfen penderfyniad yn orchymyn cydsyniad seilwaith, bod rhaid i'r pŵer i gywiro gwallau gael ei arfer drwy orchymyn, ac os cynhwysir y gorchymyn sy'n cael ei gywiro mewn offeryn statudol, rhaid gwneud y cywiriad drwy orchymyn sydd wedi ei gynnwys mewn offeryn statudol.

223. Mae is-adran (5) yn darparu, os yw'r ddogfen penderfyniad yn hysbysiad o wrthodiad, bod rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu pŵer i gywiro'r ddogfen drwy roi hysbysiad i'r ceisydd.

**Adran 86 – Cywiro gwallau: rheoliadau**

224. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn i gywiro gwall mewn dogfen penderfyniad.

225. Caiff y rheoliadau gynnwys, er enghraifft, ddarpariaeth ynghylch:
- unrhyw ymgynghoriad y mae rhaid iddo ddigwydd,
- yr amgylchiadau pan fo rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad yn egluro'r rhesymau dros gywiro'r gwall,
- effaith gwneud cywiriad a pheidio â gwneud cywiriad, a
- pryd y mae cywiriad yn cymryd effaith.

***Gwneud newidiadau i orchmynion cydsyniad seilwaith a'u dirymu***

**Adran 87 – Diffiniadau**

226. Mae'r adran hon yn nodi diffiniadau at ddibenion adrannau 88 a 89.

**Adran 88 – Pŵer i newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith**

227. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i newid gorchymyn cydsyniad seilwaith ac i ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

228. Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy newid gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan adran 61 (yr hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith), ond yn ddarostyngedig i'r rheolau yn yr adran hon.

229. Caniateir arfer y pŵer ar gais a wneir gan y ceisydd neu olynydd yn nheitl y ceisydd, person a chanddo fuddiant yn y tir neu unrhyw berson arall y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael effaith er ei fudd, ac o dan yr

amgylchiadau a nodir yn is-adran (4) caniateir i gais gael ei wneud gan awdurdod cynllunio.

230. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd newid neu ddirymu gorchymyn cysyniad seilwaith heb i gais gael ei wneud.

231. Caiff Gweinidogion Cymru wrthod arfer y pŵer os ydynt o'r farn y dylai'r datblygiad, o ganlyniad i'r newid, fod yn destun cais am orchymyn cydsyniad seilwaith newydd.

232. Mae is-adran (7) yn rhoi enghreifftiau o rai o'r pethau y gellir eu gwneud gan ddefnyddio'r pŵer o dan is-adran (1) i newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith. Mae'n cynnwys, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i symud ymaith neu addasu adeiladau neu ofynion presennol a'i gwneud yn ofynnol i roi'r gorau i ddefnydd o dir.

233. Mae is-adran (8) yn egluro nad yw arfer y pŵer yn is-adran (1) yn effeithio ar unrhyw waith adeiladu na gweithrediadau eraill a gynhaliwyd eisoes, oni bai bod y newid neu ddirymu yn ei gwneud yn ofynnol i symud ymaith neu addasu gwaith adeiladu.

**Adran 89 – Y weithdrefn: newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith**

234. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn ar gyfer newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith.

235. Caiff y rheoliadau, er enghraifft, wneud darpariaeth ynghylch sut y mae rhaid gwneud cais i newid neu ddirymu cydsyniad seilwaith, y broses o wneud penderfyniad ar gyfer cais o'r fath ac effaith penderfyniad i arfer y pŵer i newid neu ddirymu gorchymyn.

236. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo gan berson fuddiant ym mheth, ond nid y cyfan, o'r tir y mae gorchymyn cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef, na chaiff y person wneud cais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith ond mewn cysylltiad â'r tir y mae gan y person fuddiant ynddo.

237. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith sydd wedi ei gynnwys mewn offeryn statudol i hefyd gael ei gynnwys ar ffurf offeryn statudol.

**Adran 90 – Newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith: trefniadau ffurfiol**

238. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi gorchymyn a wneir o dan adran 85 neu 88 neu hysbysiad a roddir o dan adran 85 yn y modd y maent yn meddwl ei fod yn briodol, ond os yw'n ofynnol i'r gorchymyn gael ei gynnwys mewn offeryn statudol, rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r offeryn gerbron Senedd Cymru.

**Adran 91 – Newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith: digolledu**

239. Gwneir darpariaeth ynghylch digolledu am newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith yn Atodlen 2.

***Effaith gorchmynion cydsyniad seilwaith***

**Adran 92 – Hyd gorchymyn cydsyniad seilwaith**

240. Mae'r adran hon yn darparu, pan roddir cydsyniad i ddatblygiad drwy orchymyn cydsyniad seilwaith, bod rhaid i'r datblygiad hwnnw ddechrau o fewn cyfnod a bennir mewn rheoliadau, neu'r cyfnod a bennir yn y gorchymyn. Canlyniad methu â dechrau datblygiad o fewn y cyfnod cymwys fydd bod y gorchymyn cydsyniad seilwaith yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

241. Pan fo gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi caffael tir yn orfodol, mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i unrhyw gamau a bennir mewn rheoliadau gael eu cymryd cyn diwedd cyfnod a bennir mewn rheoliadau neu'r cyfnod a bennir yn y gorchymyn. Os na chymerir y camau hyn cyn diwedd y cyfnod cymwys, mae'r awdurdodiad a roddir gan y gorchymyn i gaffael y tir yn orfodol yn peidio â chael effaith.

**Adran 93 – Pryd y mae datblygiad yn dechrau**

242. Mae'r adran hon yn datgan y cymerir bod datblygiad yn dechrau ar y dyddiad cynharaf y mae unrhyw weithrediad sylweddol sy'n ffurfio'r datblygiad, neu a gynhelir at ddibenion y datblygiad, yn dechrau cael ei gynnal.

243. Ystyr "gweithrediad sylweddol" yw unrhyw weithrediad, ond ceir pŵer yn is-adran (2) i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau y mathau o weithrediadau nad ydynt yn "gweithrediad sylweddol".

**Adran 94 – Heriau cyfreithiol**

244. Mae'r adran hon yn darparu na chaniateir herio'r canlynol ond drwy adolygiad barnwrol:
- gorchymyn cydsyniad seilwaith,
- gwrthod rhoi cydsyniad seilwaith,
- penderfyniad i beidio â derbyn cais yn gais dilys,
- penderfyniad mewn perthynas â chywiro gwallau mewn dogfen penderfyniad,
- penderfyniad mewn perthynas â newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith, neu
- unrhyw beth arall a wneir, neu nas gwneir, gan Weinidogion Cymru neu awdurdod archwilio mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith, neu gais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith,

ac, ym mhob achos rhaid bod y ffurflen gais wedi ei ffeilio cyn diwedd cyfnod o 6 wythnos. Gellir dod o hyd i'r cyfnodau y gall y 6 wythnos ddechrau ynddynt yn is-adrannau (1)(b), (2)(b), (3)(b), (4)(b), (5)(b) a (6)(b).

245. Nid yw'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â methiant i benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith, na chais i newid neu ddirymu gorchymyn

cydsyniad seilwaith, nac unrhyw beth sy'n gohirio (neu'n debygol o ohirio) penderfyniad ar y ceisiadau hynny.

**Adran 95 – Budd gorchymyn cydsyniad seilwaith**

246. Mae adran 95 yn darparu y bydd gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael effaith er budd y tir y gwneir y gorchymyn mewn perthynas ag ef a phawb sydd am y tro â buddiant yn y tir, oni fo'r gorchymyn yn gwneud darpariaeth i'r gwrthwyneb.

**Adran 96 – Rhwymedigaethau cynllunio**

247. Mae adran 96 yn diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("DCGTh") er mwyn caniatáu i'r ceisydd sy'n hybu prosiect seilwaith arwyddocaol ymrwymo i gytundebau gydag awdurdodau lleol, yn yr un modd ag y gall datblygwr sy'n ceisio caniatâd cynllunio o dan DCGTh. Gelwir y cytundebau hyn yn "rhwymedigaethau cydsyniad seilwaith".

248. Mae is-adran (3) yn diwygio adran 106A o DCGTh. Effaith y diwygiad yw y caniateir amrywio neu ollwng rhwymedigaeth cydsyniad seilwaith drwy gytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a'r person y mae'r rhwymedigaeth cydsyniad seilwaith yn orfodadwy yn ei erbyn. Mae'r diwygiad hefyd yn darparu y caiff y person y mae'r rhwymedigaeth cydsyniad seilwaith yn orfodadwy yn ei erbyn wneud cais i Weinidogion Cymru i'r rhwymedigaeth gael ei gollwng neu ei hamrywio (os Gweinidogion Cymru wnaeth benderfynu, neu a fydd yn penderfynu, ar y cais yr ymrwymwyd i'r rhwymedigaeth mewn cysylltiad ag ef).

249. Mater i'r awdurdod cynllunio lleol fydd gorfodi'r rhwymedigaeth.

250. Mae is-adran (5) yn gwneud darpariaeth ynghylch heriau cyfreithiol mewn cysylltiad â rhwymedigaethau cynllunio.

**Adran 97 – Tir o dan falltod**

251. Gall datganiad polisi seilwaith sy'n nodi lleoliad fel lleoliad addas (neu leoliad addas o bosibl) ar gyfer prosiect seilwaith arwyddocaol greu malltod yn y lleoliad hwnnw, gan leihau gwerthoedd tir a'i gwneud yn anodd gwerthu'r tir. Gall malltod hefyd ddeillio o gais yn cael ei wneud am orchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi caffael tir yn orfodol neu o roi awdurdodiad o'r fath.

252. Mae adran 97 yn diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("DCGTh") er mwyn caniatáu i berchen-feddianwyr yr effeithiwyd yn andwyol arnynt yn y ffordd hon i gael y budd o ddarpariaethau presennol DCGTh sy'n ymwneud â malltod drwy wneud y disgrifiadau tir hyn yn dir o dan falltod ("blighted land") at ddiben DCGTh.

253. Mae DCGTh yn darparu gweithdrefn sy'n galluogi personau sydd â buddiannau penodol yn y tir sydd o dan falltod i gyflwyno hysbysiad i awdurdod priodol ("appropriate authority") yn ei gwneud yn orfodol i'r awdurdod brynu buddiant y personau. Effaith is-adran (6) yw mai'r "awdurdod priodol" yn

achos malltod a achosir gan ddatganiad polisi seilwaith yw'r ymgymerwr statudol a enwir fel person priodol i gynnal y datblygiad a bennir yn y datganiad polisi seilwaith, neu Weinidogion Cymru pan nad oes ymgymerwr o'r fath wedi ei enwi. Gweinidogion Cymru sydd i benderfynu ar unrhyw anghydfodau o ran pwy yw'r awdurdod priodol.

254. Mae is-adran (4) yn atal yr awdurdod priodol rhag cyflwyno gwrth-hysbysiad i hysbysiad malltod ar y sail nad oes ganddynt unrhyw fwriad i gynnal y datblygiad.

**Adran 98 – Niwsans: awdurdodiad statudol**

255. Mae adran 98 yn rhoi awdurdodiad statudol i gynnal datblygiad y rhoddir cydsyniad iddo drwy orchymyn cydsyniad seilwaith ac ar gyfer gwneud unrhyw beth arall a awdurdodir drwy'r gorchymyn. Mae is-adran (2) yn darparu y rhoddir awdurdodiad statudol at y diben o ddarparu amddiffyniad mewn achosion sifil a throseddol am niwsans. Mae is-adrannau (1) a (2) yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb a wneir drwy orchymyn cydsyniad seilwaith.

**Adran 99 – Digolledu mewn achos pan fo amddiffyniad o awdurdodiad statudol yn gymwys**

256. Mae adran 99 yn rhoi hawl i ddigolllediad mewn achosion pan fo, yn rhinwedd adran 98 neu delerau gorchymyn cydsyniad seilwaith, amddiffyniad o awdurdodiad statudol mewn achos sifil neu droseddol am niwsans mewn cysylltiad ag unrhyw waith awdurdodedig.

257. Mae is-adran (2) yn diffinio "gwaith awdurdodedig" fel datblygiad y rhoddir gorchymyn cydsyniad seilwaith ar ei gyfer ac unrhyw beth arall a awdurdodir gan y gorchymyn.

258. Mae is-adran (3) yn gosod dyletswydd ar y person sy'n cynnal y gwaith awdurdodedig, neu y cynhelir y gwaith hwnnw ar ei ran, i ddigolledu unrhyw berson y mae cynnal y gwaith awdurdodedig yn cael effaith niweidiol ar ei dir.

259. Mae anghydfodau ynghylch digollediad o dan is-adran (3) yn cael eu hatgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys.

260. Mae is-adran (5) yn darparu bod adran 10(2) o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 (cyfyngu ar ddigolledu) yn gymwys i adran 99(3) fel y mae'n gymwys i adran 10(2) o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965.

261. Rhaid i unrhyw reol neu egwyddor a gymhwysir i'r dehongliad o adran 10 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 gael ei chymhwyso i'r dehongliad o adran 99(3) gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol.

262. Mae is-adran (7) yn darparu bod Rhan 1 o Ddeddf Digollediad Tir 1973 (p. 26) (digollediad am ddibrisiant yng ngwerth tir gan ffactorau ffisegol a achosir gan

ddefnydd o waith cyhoeddus) yn gymwys mewn perthynas â gwaith awdurdodedig fel pe bai:

- cyfeiriadau yn y Rhan honno at unrhyw "public works" yn gyfeiriadau at waith awdurdodedig;
- cyfeiriadau yn y Rhan honno at "the responsible authority" yn gyfeiriadau at y person y mae'r gorchymyn seilwaith yn cael effaith er ei fudd am y tro;
- adrannau 1(6) a 17 wedi eu hepgor.

263. Ni chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth sy'n cael yr effaith o ddileu neu addasu cymhwysiad adran 99.

*Dehongli*

**Adran 100 – Ystyr "tir"**

264. Mae adran 100 yn darparu, yn Rhan 6, fod "tir" yn cynnwys unrhyw fuddiant mewn tir neu unrhyw hawl drosto.

**Rhan 7 – Gorfodi**

265. Mae Rhan 7 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau ynghylch troseddau sy'n ymwneud â datblygu heb gydsyniad seilwaith a thorri telerau gorchymyn cydsyniad seilwaith, neu fethiant i gydymffurfio â'r telerau hynny, a'r gallu i gyflwyno hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig.

266. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch pa offerynnau gorfodi sydd ar gael i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i gynorthwyo o ran ymgymryd â dyletswyddau gorfodi, yn ogystal â'r terfynau amser ar gyfer cymryd unrhyw gamau gorfodi.

*Troseddau*

**Adran 101 – Datblygu heb gydsyniad seilwaith**

267. Mae'r adran hon yn darparu bod person yn cyflawni trosedd pan fo person yn cynnal, neu'n peri cynnal, datblygiad y mae cydsyniad seilwaith yn ofynnol ar ei gyfer ar adeg pan na fo cydsyniad o'r fath mewn grym mewn cysylltiad â'r datblygiad.

268. Gellir rhoi person ar brawf mewn Llys Ynadon neu Lys y Goron, ac os dyfernir y person yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.

**Adran 102 – Torri telerau gorchymyn cydsyniad seilwaith**

269. Mae'r adran hon yn darparu y cyflawnir trosedd os yw person, heb esgus rhesymol, yn cynnal, neu'n peri cynnal, datblygiad sy'n torri telerau gorchymyn cydsyniad seilwaith neu'n methu â chydymffurfio â thelerau gorchymyn cydsyniad seilwaith.

270. Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o drosedd o dan yr adran hon i brofi nad oedd y toriad neu fethiant i gydymffurfio wedi digwydd ond oherwydd gwall yn y gorchymyn cydsyniad seilwaith a bod y gwall wedi ei gywiro o dan adran 85.

271. Gellir rhoi person ar brawf mewn Llys Ynadon neu Lys y Goron, ac os dyfernir y person yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.

**Adran 103 – Terfynau amser**

272. Mae'r adran hon yn nodi terfynau amser ar gyfer cyhuddo person mewn perthynas â'r troseddau sydd wedi eu creu gan adrannau 101 a 102.

**Adran 104 – Pwerau i fynd ar dir at ddibenion gorfodi**

273. Mae'r adran hon yn caniatáu i berson sydd wedi ei awdurdodi gan awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru i fynd ar dir at ddibenion asesu a yw trosedd o dan adran 101 neu adran 102 yn cael ei chyflawni neu wedi ei chyflawni. Caniateir i'r pŵer hwn gael ei arfer ar unrhyw adeg resymol a dim ond os oes sail resymol dros fynd ar y tir at y diben o dan sylw.

274. Pan fo person wedi ei awdurdodi i fynd ar dir, rhaid iddo ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad i wneud hynny a diben mynd ar y tir, os gofynnir iddo wneud hynny, a chaiff fynd ag unrhyw bersonau eraill sy'n angenrheidiol ar y tir. Rhaid iddo hefyd adael y tir wedi ei ddiogelu'n effeithiol rhag tresmaswyr os yw'n ymadael â'r tir ar adeg pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol.

275. Mae'r adran hon hefyd yn pennu na chaiff person sydd wedi ei awdurdodi i fynd ar dir fynnu mynediad i adeilad a ddefnyddir fel annedd oni roddwyd 24 o oriau o rybudd o'r mynediad bwriadedig i holl feddianwyr yr adeilad.

**Adran 105 – Gwarant i fynd ar dir**

276. Mae'r adran hon yn darparu y caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant sy'n rhoi pŵer i fynd ar dir os yw'r ynad heddwch wedi ei fodloni bod sail resymol dros fynd ar dir i asesu a yw trosedd o dan adran 101 neu 102 yn cael ei chyflawni, neu wedi ei chyflawni, ar y tir neu mewn cysylltiad â'r tir a bod mynediad i'r tir wedi ei wrthod neu fod gwrthodiad yn cael ei ddisgwyl yn rhesymol, neu fod yr achos yn un brys.

277. Mae mynediad i dir i'w drin fel pe bai wedi ei wrthod os na cheir ateb i gais am fynediad o fewn cyfnod rhesymol.

278. Pan ddyroddir gwarant o dan yr adran hon, nid yw'n rhoi pŵer i fynd ar dir ond ar un achlysur yn unig ac ar adeg resymol yn unig, oni fo'r cais yn achos brys, a bydd yn peidio â chael effaith ar ddiwedd un mis o'r dyddiad y'i dyroddir.

279. Pan fo person wedi ei awdurdodi i fynd ar dir, rhaid iddo ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad i wneud hynny a diben mynd ar y tir, os gofynnir iddo wneud hynny, a chaiff fynd ag unrhyw bersonau eraill sy'n angenrheidiol ar y tir. Rhaid iddo hefyd adael y tir wedi ei ddiogelu'n effeithiol rhag tresmaswyr os yw'n ymadael â'r tir pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol.

**Adran 106 – Hawliau mynediad: darpariaethau atodol**

280. Mae'r adran hon yn creu trosedd pan fo person yn rhwystro'n fwriadol berson sy'n arfer pŵer mynediad o dan adran 104 neu 105. Gellir rhoi person ar brawf mewn Llys Ynadon, ac os dyfernir y person yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.

281. Mae'r adran hon hefyd yn darparu, os difrodir tir neu eiddo arall wrth arfer y pŵer i fynd ar dir, y caiff y person sy'n dioddef y difrod adennill digollediad oddi wrth yr awdurdod cynllunio perthnasol a awdurdododd y mynediad neu Weinidogion Cymru os mai hwythau a awdurdododd y mynediad.

282. Rhaid gwneud hawliad am ddigolledriad o dan yr adran hon yn ysgrifenedig o fewn 12 mis, sy'n dechrau â'r diwrnod yr achoswyd y difrod, neu'r diwrnod olaf yr achoswyd y difrod os y digwyddodd hynny dros gyfnod o fwy nag un diwrnod, a rhaid i unrhyw anghydfodau sy'n codi gael eu hatgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys a'u penderfynu ganddo yn unol ag adran 4 o Ddeddf Digolledriad Tir 1961.

**Adran 107 – Hawliau mynediad: tir y Goron**

283. Mae'r adran hon yn darparu nad yw'r pŵer i fynd ar dir gyda gwarant neu heb warant o dan adrannau 104 a 105 yn gymwys i dir y Goron.

**Adran 108 – Pwerau gorfodi morol**

284. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009") drwy fewnosod adran newydd 243A yn y Ddeddf honno.

285. Mae adran newydd 243A yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i benodi personau at ddibenion gorfodi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 yng Nghymru ac yn rhanbarth glannau Cymru (ac mewn perthynas ag unrhyw lestr, unrhyw awyren neu unrhyw strwythur morol yn y rhanbarth hwn, ac eithrio unrhyw long ryfel Brydeinig).

286. Mae'r pŵer yn rhoi disgresiwn eang i Weinidogion Cymru o ran pwy a benodir ganddynt, ac mae'n rhoi i berson a benodir o dan yr adran hon y pwerau gorfodi cyffredin a nodir ym Mhennod 2 o Ran 8 o Ddeddf 2009 (pwerau gorfodi cyffredin), gan gynnwys:

- pwerau mynediad, chwilio ac ymafael,
- pwerau i gofnodi tystiolaeth o droseddau a'i gwneud yn ofynnol i bersonau rhoi eu henwau a'u cyfeiriadau,
- pwerau i'w gwneud yn ofynnol i ddangos trwyddedau,
- pwerau i'w gwneud yn ofynnol i bersonau penodol fod yn bresennol,
- pwerau i gyfarwyddo llestrau neu osodiadau morol i borthladd,
- pwerau sy'n ymwneud â chynorthwyo swyddogion gorfodi,
- pwerau i ddefnyddio grym rhesymol, a
- pwerau i wneud gwybodaeth sy'n ymwneud â sylweddau penodol a gwrthrychau penodol yn ofynnol.

*Hysbysiadau gwybodaeth*

**Adran 109 – Pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol**

287. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i unrhyw berson sy'n berchen ar y tir neu'n ei feddiannu neu sydd ag unrhyw fuddiant arall ynddo, neu sy'n cynnal gweithrediadau ar y tir neu sy'n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben, pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y gallai trosedd o dan adran 101 neu adran 102 fod wedi ei chyflawni ar y tir neu mewn cysylltiad â'r tir.

288. Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i berson sy'n cynnal gweithrediadau yn ardal forol Cymru pan fo Gweinidogion Cymru yn amau y gallai trosedd fod wedi ei chyflawni yn ardal forol Cymru neu mewn cysylltiad â hi.

289. Mae'r adran hon hefyd yn rhagnodi yr hyn yn mae rhaid ei phennu mewn hysbysiad gwybodaeth ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r person y'i cyflwynir iddo roi'r wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad i'r graddau y gall wneud hynny. Rhaid i'r hysbysiad hefyd nodi canlyniadau tebygol methu ag ymateb.

**Adran 110 – Troseddau o fethu â chydymffurfio â hysbysiadau gwybodaeth**

290. Mae adran 110(1) yn darparu bod person yn cyflawni trosedd pan nad yw person y cyflwynwyd hysbysiad gwybodaeth iddo yn cydymffurfio â gofyniad yn yr hysbysiad ar ôl diwedd cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad, ond mae'n amddiffyniad i'r person os yw'n gallu profi bod ganddo esgus rhesymol dros fethu â chydymffurfio. Mae person sy'n euog o'r drosedd hon ar euogfarn ddiannod yn agored i ddirwy.

291. Mae is-adran (5) yn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'n darparu gwybodaeth y mae'n yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol, neu'n gwneud hynny'n ddi-hid. Mae person sy'n euog o'r naill drosedd neu'r llall yn agored i ddirwy.

292. O dan yr adran hon mae'n bosibl i berson gael ei euogfarnu o fwy nag un drosedd mewn perthynas â'r un hysbysiad gwybodaeth drwy gyfeirio at gyfnodau gwahanol.

***Hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig***

**Adran 111 – Hysbysiad datblygiad anawdurdodedig**

293. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad datblygiad anawdurdodedig pan ddyfernir person yn euog o drosedd o dan adrannau 101 a 102 mewn cysylltiad â thir.

294. Ar gyfer troseddau o dan adran 101, caiff hysbysiad bennu'r camau sydd i'w cymryd i ddileu'r datblygiad ac adfer y tir i'w gyflwr cyn i'r datblygiad gael ei gynnal, a rhaid cymryd y camau hynny cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

295. Ar gyfer troseddau o dan adran 102, caiff hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i'r person y cyflwynir hysbysiad iddo unioni'r toriad neu'r methiant i gydymffurfio cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

296. Pan gyflwynir hysbysiad datblygiad anawdurdodedig, mae'r adran hon yn pennu y caiff yr hysbysiad bennu cyfnodau gwahanol ar gyfer cymryd camau gwahanol.

297. Mae'r adran hon hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a gaiff bennu materion ychwanegol y mae rhaid eu pennu mewn hysbysiad datblygiad anawdurdodedig.

***Cydymffurfio â hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig***

**Adran 112 – Gorchymyn i ganiatáu camau sy'n ofynnol gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig**

298. Mae'r adran hon yn caniatáu i berchennog tir wneud cais i Lys Ynadon am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson arall a chanddo fuddiant yn y tir ganiatáu i'r perchennog gymryd y camau hynny sy'n ofynnol gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig.

299. Pan fo'r llys wedi ei fodloni bod person a chanddo fuddiant yn y tir yn atal y perchennog rhag cymryd y camau hynny, caiff y llys wneud gorchymyn.

**Adran 113 – Pŵer i fynd ar dir a chymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig**

300. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo unrhyw gamau y mae'n ofynnol eu cymryd gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig heb eu cymryd cyn diwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, y caiff yr awdurdod cynllunio a ddyroddodd yr hysbysiad datblygiad anawdurdodedig, neu Weinidogion Cymru, os mai hwythau a ddyroddodd yr hysbysiad, fynd ar y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef ar unrhyw adeg resymol a chymryd y cam neu'r camau ei hun neu eu hunain.

301. Mae'r adran hon hefyd yn darparu bod person sy'n rhwystro'n fwriadol berson sy'n arfer pŵer o dan yr adran hon yn cyflawni trosedd. Gellir rhoi person ar brawf mewn Llys Ynadon, ac os dyfernir y person yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.

**Adran 114 – Adennill costau cydymffurfio â hysbysiad datblygiad anawdurdodedig**

302. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru yn arfer y pŵer o dan adran 113, y caiff yr awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru adennill ei gostau neu eu costau oddi wrth berson sydd ar y pryd yn berchennog ar y tir.

303. Mae unrhyw gostau y gellir eu hadennill, hyd nes iddynt gael eu hadennill, yn bridiant ar y tir y mae'r hysbysiad datblygiad anawdurdodedig yn ymwneud ag ef ac yn cymryd effaith fel pridiant tir lleol ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y

diwrnod y mae'r awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru yn cwblhau'r cam neu'r camau a bennir yn yr hysbysiad datblygiad anawdurdodedig y mae'r costau'n ymwneud ag ef.

304. Mae'r adran hon hefyd yn pennu y caniateir symud ymaith ddeunyddiau o dir wrth gymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig a phan na fo perchennog y deunyddiau yn hawlio'r deunyddiau ac yn mynd â hwy i ffwrdd o fewn 3 diwrnod gan ddechrau drannoeth y diwrnod y'i symudir ymaith, caniateir gwerthu'r deunyddiau.

305. Os caiff y deunyddiau eu gwerthu, rhaid talu'r enillion i'r person a oedd yn berchen ar y deunyddiau, ar ôl didynnu unrhyw gostau y gellir eu hadennill.

306. Ni chaniateir adennill costau oddi wrth y Goron.

***Hysbysiadau stop dros dro***

**Adran 115 – Pŵer i ddyroddi hysbysiad stop dros dro**

307. Mae'r adran hon yn darparu'r pŵer i awdurdod cynllunio perthnasol ddyroddi hysbysiad stop dros dro mewn perthynas â thir yn ei ardal lle y mae'n ystyried bod gweithgarwch wedi cael ei gynnal neu yn cael ei gynnal sy'n drosedd o dan adran 100 neu adran 101 ac y dylai'r gweithgarwch gael ei stopio ar unwaith. Nid yw'r pŵer i ddyroddi hysbysiad stop dros dro yn rhychwantu Gweinidogion Cymru.

308. Mae'r adran hon hefyd yn rhagnodi'r hyn y mae rhaid ei bennu mewn hysbysiad stop dros dro, i bwy y caniateir rhoi hysbysiad stop dros dro a sut y mae rhaid arddangos yr hysbysiadau hynny.

**Adran 116 – Cyfyngiadau ar bŵer i ddyroddi hysbysiad stop dros dro**

309. Mae'r adran hon yn darparu na chaiff hysbysiad stop dros dro wahardd defnyddio adeilad fel annedd nac unrhyw weithgarwch neu amgylchiadau a bennir mewn rheoliadau.

310. Ni chaiff hysbysiadau stop dros dro ychwaith wahardd unrhyw weithgarwch sydd wedi ei gynnal, neu sy'n cael ei gynnal, am o leiaf 4 blynedd cyn y dyddiad yr arddangosir hysbysiad stop dros dro am y tro cyntaf, ac eithrio gweithgarwch sy'n weithrediadau adeiladu, peiriannu neu fwyngloddio neu'n weithrediadau eraill, neu sy'n ddeilliadol i hynny, neu waredu gwastraff.

**Adran 117 – Hyd etc. hysbysiad stop dros dro**

311. Mae'r adran hon yn darparu bod hysbysiad stop dros dro yn cymryd effaith pan arddangosir copi ohono am y tro cyntaf ac yn peidio â chael effaith ar ddiwedd cyfnod o 28 o ddiwrnodau, sy'n dechrau ar y dyddiad y'i arddangosir am y tro cyntaf, oni bai bod cyfnod byrrach wedi ei bennu yn yr hysbysiad neu fod y llys yn caniatáu gwaharddeb o dan adran 120.

312. Mae'r adran hon hefyd yn pennu y bydd hysbysiad stop dros dro yn peidio â chael effaith os yw'r awdurdod cynllunio perthnasol yn tynnu'r hysbysiad yn ôl cyn diwedd y cyfnod y byddai fel arall yn cael effaith ar ei gyfer.

313. Pan ddyroddir hysbysiad stop dros dro, mae'r adran hon yn atal yr awdurdod cynllunio perthnasol rhag dyroddi ail hysbysiad stop na hysbysiad stop dilynol mewn cysylltiad â'r un gweithgarwch, oni fo'r awdurdod wedi dyroddiad hysbysiad datblygiad anawdurdodedig neu waharddeb.

**Adran 118 – Y drosedd o dorri hysbysiad stop dros dro**

314. Mae'r adran hon yn darparu bod person yn cyflawni trosedd pan fo person yn cynnal gweithgarwch sydd wedi ei wahardd gan hysbysiad stop dros dro ar unrhyw adeg pan fydd hysbysiad o'r fath yn cael effaith.

315. Fodd bynnag, mae'n amddiffyniad i berson brofi na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad iddo ac nad oedd yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, am fodolaeth yr hysbysiad stop dros dro.

316. Gellir rhoi person ar brawf mewn Llys Ynadon neu Lys y Goron, ac os dyfernir y person yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn. Mae hefyd yn bosibl o dan yr adran hon i berson gael ei euogfarnu o fwy nag un drosedd mewn perthynas â'r un hysbysiad stop dros dro drwy gyfeirio at gyfnodau gwahanol.

**Adran 119 – Digolledіad am golled o ganlyniad i hysbysiad**

317. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo gweithgarwch a bennir mewn hysbysiad stop dros dro wedi ei awdurdodi drwy orchymyn cydsyniad seilwaith a roddwyd cyn y diwrnod y mae'r hysbysiad yn cymryd effaith, neu pan fo'r awdurdod cynllunio perthnasol yn tynnu'r hysbysiad yn ôl, y caiff unrhyw berson a chanddo fuddiant yn y tir y mae hysbysiad stop dros dro yn ymwneud ag ef wneud hawliad i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod cynllunio perthnasol am unrhyw golled neu ddifrod a ddioddefir gan y person y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i effaith yr hysbysiad o fewn 12 mis.

318. Nid yw'r adran hon yn gymwys i unrhyw weithgarwch a bennir yn yr hysbysiad sydd wedi ei awdurdodi drwy orchymyn cydsyniad seilwaith a roddir ar y diwrnod y mae'r hysbysiad stop dros dro yn cymryd effaith neu ar ôl hynny, nac os yw'r awdurdod cynllunio perthnasol yn tynnu hysbysiad yn ôl ar ôl i gydsyniad gael ei roi ac mae hefyd yn pennu'r amgylchiadau lle nad yw digolledіad yn daladwy oddi tanynt.

**Adran 120 – Gwaharddeb i atal gweithgarwch gwaharddedig**

319. Mae'r adran hon yn darparu y caiff awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru wneud cais i'r Uchel Lys neu'r llys sirol am waharddeb sy'n atal gweithgarwch gwirioneddol neu ddisgwyliedig sy'n drosedd o dan naill ai adran 101 neu adran 102 mewn perthynas â thir.

320. Caiff y llys roi gwaharddeb ar unrhyw delerau y mae'n ystyried eu bod yn briodol at ddiben atal y gweithgarwch hwnnw, er na chaniateir dyroddi gwaharddeb o dan yr adran hon yn erbyn y Goron.

*Cyffredinol*

**Adran 121 – Ystyr "awdurdod cynllunio perthnasol"**

321. Mae'r adran hon yn pennu pwy sy'n awdurdod cynllunio perthnasol at ddibenion Rhan 7 o'r Bil.

**Rhan 8 – Swyddogaethau atodol**

322. Mae Rhan 8 o'r Bil yn darparu nifer o swyddogaethau atodol, ar gyfer Gweinidogion Cymru yn bennaf, i hwyluso gweithrediad y system a sefydlir gan y Bil ac i roi pwerau i Weinidogion Cymru i addasu'r system drwy ddatgymhwyso ei gofynion neu wneud darpariaeth arbennig ar gyfer ceisiadau gan y Goron (gan gynnwys swyddfeydd y Goron a chyrff y Goron).

*Ffioedd*

**Adran 122 – Ffioedd am gyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau cydsyniad seilwaith**

323. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â chodi ffioedd gan awdurdod cyhoeddus penodedig am gyflawni swyddogaeth cydsyniad seilwaith ac am ddarparu gwasanaeth cydsyniad seilwaith. Caiff y rheoliadau roi swyddogaeth i unrhyw berson a darparu bod symiau ffioedd i'w cyfrifo drwy gyfeirio at y costau yr eir iddynt wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth cydsyniad seilwaith.

324. Caiff y rheoliadau wneud darpariaethau gan gynnwys:
- pryd y caniateir, a phryd na chaniateir, codi ffi;
- y swm y caniateir ei godi;
- yr hyn y caniateir, a'r hyn na chaniateir, ei ystyried wrth gyfrifo'r swm a godir;
- pwy sy'n agored i dalu ffi a godir;
- i bwy y telir ffioedd;
- pryd y mae ffi a godir yn daladwy;
- adennill ffioedd a godir;
- ildio, lleihau neu ad-dalu ffioedd;
- effaith talu neu fethu â thalu ffioedd a godir;
- trosglwyddo ffioedd sy'n daladwy i un person i berson arall;
- cyflenwi neu gyhoeddi gwybodaeth at unrhyw un neu ragor o ddibenion y rheoliadau.

*Hawl mynediad*

**Adran 123 – Pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir**

325. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i berson sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru i fynd ar dir at ddibenion cynnal arolwg o dir neu gymryd lefelau ohono, mewn cysylltiad â:
- cais am gydsyniad seilwaith (neu gais arfaethedig);

- gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael yn orfodol y tir hwnnw neu fuddiant ynddo neu hawl drosto.

326. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson a awdurdodir sy'n mynd ar dir i ddangos tystiolaeth o'r awdurdodiad hwnnw, os gofynnir iddo wneud hynny, rhoi hysbysiad o'r bwriad i fynd ar dir os yw'r tir wedi ei feddiannu a chydymffurfio ag unrhyw amodau a nodir yn yr awdurdodiad. Caiff person sydd wedi ei awdurdodi hefyd fynd ag unrhyw bersonau eraill sy'n angenrheidiol ar y tir a rhaid iddo, os yw'n ymadael â'r tir pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol, ei adael wedi ei ddiogelu yr un mor effeithiol rhag tresmaswyr ag yr oedd pan aeth arno.

327. Mae awdurdodiad i gynnal arolwg o dir hefyd yn cynnwys yr hawl i chwilio a thurio i ganfod natur y pridd neu i ganfod a oes mwynau yn bresennol os rhoddwyd hysbysiad ymlaen llaw o'r bwriad hwn.

328. Mae'r adran hon yn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn rhwystro'n fwriadol berson a awdurdodir i fynd ar dir rhag gwneud hynny. Caniateir adennill digolledigad am unrhyw ddifrod a achosir i dir neu eiddo oddi wrth y person a awdurdodir i fynd ar y tir.

## Adran 124 – Pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir: tir y Goron

329. Mae'r adran hon yn darparu bod y pwerau a nodir yn adran 123 hefyd yn gymwys i dir y Goron, yn ddarostyngedig i'r person sy'n arfer y pŵer yn cael caniatâd i fynd ar y tir oddi wrth y person yr ymddengys fod ganddo'r hawl i'w roi neu awdurdod priodol y Goron (a ddiffinnir yn adran 132).

330. Mae'r adran hon hefyd yn darparu nad yw is-adrannau penodedig o adran 123 yn gymwys mewn perthynas â Thir y Goron.

## *Datganiadau polisi seilwaith*

## Adran 125 – Datganiadau polisi seilwaith

331. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy hysbysiad, i ddynodi dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith, os yw'n ddogfen a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ac yn nodi polisi i lywio'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â phrosiectau seilwaith arwyddocaol. Caiff Gweinidogion Cymru dynnu yn ôl ddynodiad dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith drwy hysbysiad ysgrifenedig. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw hysbysiad sy'n dynodi dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith, y datganiad polisi seilwaith ei hun ac unrhyw hysbysiad am dynnu yn ôl.

332. Arwyddocâd dynodi dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith o dan yr adran hon yw bod rhaid i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith drwy roi sylw i unrhyw ddatganiad polisi seilwaith perthnasol (gweler adran 54(1)).

## *Cofrestr o geisiadau a gwasanaethau cyn gwneud cais*

**Adran 126 – Cofrestr o geisiadau a gwasanaethau cyn gwneud cais**

333. Mae adran 126 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr o:
    - ceisiadau am gydsyniad seilwaith;
    - ceisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais y mae Gweinidogion Cymru wedi eu cael;
    - gwasanaethau cyn gwneud cais a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru.

334. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnwys manylion yn y gofrestr o geisiadau dilys, ceisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais a'r gwasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir.

335. Rhaid cyhoeddi'r gofrestr (is-adran (5)).

336. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio gynnal cofrestr o geisiadau am gydsyniad seilwaith yn ei ardal, ceisiadau i'r awdurdod cynllunio am wasanaethau cyn gwneud cais ac unrhyw wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan yr awdurdod (is-adran (6)).

337. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol hefyd i Gyfoeth Naturiol Cymru gynnal cofrestr o geisiadau y mae'n eu cael am wasanaethau cyn gwneud cais, yn ogystal ag unrhyw wasanaethau cyn gwneud cais a ddarparwyd ganddo mewn cysylltiad â chais.

338. Mae is-adran (7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch ffurf a cynnwys unrhyw gofrestr sy'n ofynnol ei chynnal gan yr adran neu odani a chaiff wneud darpariaeth arall mewn cysylltiad â mynediad gan y cyhoedd i ddogfennau sy'n ymwneud â chofnodion yn y gofrestr neu amseriad cofnodion.

*Ymgyngoreion statudol*

**Adran 127 – Pŵer i ymgynghori a dyletswydd i ymateb i ymgynghoriad**

339. Mae adran 127 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru neu awdurdod archwilio i ymgynghori ag awdurdod cyhoeddus a bennir mewn rheoliadau fel rhan o'r broses archwilio, ac o ganlyniad mae dyletswydd ar yr awdurdod i roi ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriad hwnnw o fewn cyfnod penodedig.

340. Caiff rheoliadau bennu ffurf a gofynion ymgynghoriadau. Caiff rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol i awdurdod yr ymgynghorir ag ef o dan yr adran hon roi adroddiad i Weinidogion Cymru ynghylch cydymffurfedd yr awdurdod â gofynion yr ymgynghoriad.

*Cyfarwyddydau Gweinidogion Cymru*

**Adran 128 – Cyfarwyddydau i awdurdodau cyhoeddus**

341. Mae adran 128 yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdod cynllunio, Corff Adnoddau Naturiol Cymru neu awdurdod Cymreig datganoledig a bennir mewn rheoliadau, i wneud pethau mewn perthynas â chais.

342. Mae is-adran (3) yn egluro y caiff cyfarwyddydau ymwneud â cheisiadau penodol neu awdurdodau penodol neu i geisiadau neu awdurdodau yn gyffredinol.

343. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer adennill costau, neu mewn cysylltiad ag adennill costau, y mae awdurdodau cyhoeddus wedi mynd iddynt wrth gyflawni cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru (is-adran (4)).

**Adran 129 – Pŵer i ddatgymhwyso gofynion**

344. O dan adran 129 caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau a fyddai'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo y caniateir datgymhwyso gofynion a osodir gan y Bil hwn mewn achos a bennir yn y rheoliadau. Rhaid i'r rheoliadau bennu'r gofynion y caniateir eu datgymhwyso a gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd.

345. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r cyfarwyddyd a gosod datganiad ynghylch y cyfarwyddyd gerbron Senedd Cymru yn egluro ei effaith a pham y'i gwnaed.

***Rheoliadau ar geisiadau'r Goron***

**Adran 130 – Ceisiadau gan y Goron**

346. Mae adran 130 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a gaiff addasu neu eithrio unrhyw ddeddfiadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn sydd i'w dilyn cyn i gais gan y Goron gael ei wneud, gwneud cais gan y Goron, a'r broses o wneud penderfyniad ar gyfer cais o'r fath. Mae'r pŵer yn gymwys i geisiadau am gydsyniad seilwaith a cheisiadau i newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith.

**Rhan 9 – Darpariaethau cyffredinol**

347. Mae Rhan 9 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud â mwy nag un rhan o'r Bil neu'r holl Fil. Mae adrannau 134, 135, 136 a 137 yn gwneud darpariaethau ynghylch rhoi hysbysiadau, cyfarwyddydau a dogfennau eraill ac yn gwneud darpariaeth ynghylch y dyletswyddau sy'n gymwys wrth gyhoeddi rhywbeth o dan y Bil. Mae adran 138 yn gwneud darpariaethau ynghylch y cyfyngiadau sy'n gymwys i unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil neu orchymyn cydsyniad seilwaith a wneir o dan y Bil ac mae adran 139 yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud rheoliadau. (Mae adran 83 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gorchmynion cydsyniad seilwaith.) Mae adrannau 142 a 143 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaethau deilliadol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol, darpariaethau darfodol neu ddarpariaethau arbed pellach drwy reoliadau.

***Datblygiad***

**Adran 131 – Ystyr "datblygiad"**

348. Mae adran 131 yn nodi ystyr "datblygiad" at ddibenion y Bil. Mae popeth sy'n "development" at ddibenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("DCGTh")

hefyd yn ddatblygiad at ddibenion y Bil, ac mae cwmpas "datblygiad" wedi ei ehangu y tu hwnt i hyn o ran ambell i beth.

349. Mae adran 55(1) o DCGTh yn diffinio "development" fel "the carrying out of building, engineering, mining or other operations in, on, over or under land, or the making of any material change in the use of any buildings or other land", yn ddarostyngedig i eglurhadau pellach yn yr adran honno.

350. Mae is-adran (2) o adran 131 yn darparu bod "newid sylweddol yn y defnydd" (o ystyr "development" yn adran 55(1) o DCGTh) yn cynnwys:
- trosi tanwydd gorsaf gynhyrchu fel y bydd petroliwm hylifol crai, cynnyrch petroliwm neu nwy naturiol yn dod yn danwydd ar ei chyfer, a
- cynyddu'r defnydd a ganiateir o faes awyr (pa un a ganiateir hynny drwy ganiatâd cynllunio o dan DCGTh neu orchymyn cydsyniad seilwaith a wneir o dan y Bil).

351. Mae is-adran (3) yn darparu bod gwaith penodol i'w drin fel datblygiad i'r graddau na fyddai fel arall yn ddatblygiad o dan DCGTh, gan gynnwys:
- gwaith i ddymchwel adeilad rhestredig neu ei addasu neu ei estyn mewn modd a fyddai'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig,
- dymchwel adeilad mewn ardal gadwraeth,
- gwaith sy'n arwain at ddymchwel neu ddinistrio heneb gofrestredig, neu at unrhyw ddifrod i heneb gofrestredig,
- gwaith at ddiben symud ymaith neu atgyweirio heneb gofrestredig neu unrhyw ran ohoni,
- gwaith at ddiben gwneud unrhyw addasiadau i heneb gofrestredig neu wneud unrhyw ychwanegiadau ati, a
- gweithrediadau i foddi tir, neu weithrediadau tipio ar dir, y mae heneb gofrestredig ynddo, arno neu odano.

352. Mae datblygiad o dan DCGTh yn ymwneud â datblygiad ar dir yn ardaloedd awdurdodau cynllunio ac nid datblygiad yn y môr y tu allan i ffiniau eu hardaloedd. Mae is-adran (4) yn darparu bod datblygiad o dan y Bil yn cynnwys gweithrediadau a newidiadau defnydd yn y môr ac mewn ardaloedd eraill sydd wedi eu gorchuddio â dyfroedd. Mae'r graddau y mae datblygiad yn y môr wedi ei gwmpasu mewn perthynas â PSA yn dibynnu ar ba un a yw'r diffiniad o PSA yn cwmpasu datblygiad yn "ardal forol Cymru". Mae "ardal forol Cymru" wedi ei ddiffinio yn adran 141.

### *Tir y Goron*

### Adran 132 – Tir y Goron ac "awdurdod priodol y Goron"

353. Mae'r adran hon yn diffinio'r ymadroddion "Tir y Goron", "buddiant y Goron", "buddiant y Ddugiaeth" ac "awdurdod priodol y Goron" at ddibenion y Bil. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid atgyfeirio unrhyw gwestiwn ynghylch pwy yw awdurdod priodol y Goron mewn perthynas ag unrhyw dir i'r Trysorlys, y mae ei benderfyniad yn derfynol.

*Troseddau*

**Adran 133 – Troseddau gan gyrff corfforedig**

354. Mae'r adran hon yn darparu, pan gyflawnir trosedd o dan adran 28, 101, 102, 110 neu 118 gan gorff corfforedig ac y profir bod y drosedd wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad uwch-swyddog i'r corff neu berson a oedd yn honni ei fod yn uwch-swyddog i'r corff, neu y gellir ei phriodoli i esgeulustod ar ei ran, y bydd y person hwnnw yn euog o drosedd (yn ogystal â'r corff corfforedig) ac y bydd yn agored i gael ei erlyn. Yn yr adran hon, ystyr "uwch-swyddog" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforedig.

*Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill*

**Adran 134 – Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill**

355. Mae'r adran hon yn cynnwys darpariaeth ynghylch sut y mae hysbysiadau, cyfarwyddydau a dogfennau eraill i'w cyflwyno.

**Adran 135 – Rhoi hysbysiad etc. i bersonau sy'n meddiannu tir neu sydd â buddiant mewn tir**

356. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch cyflwyno hysbysiad neu ddogfen i berson a chanddo fuddiant mewn tir neu sy'n meddiannu tir. Mae adran 134 yn gymwys yn ogystal â'r adran hon.

**Adran 136 – Cyflwyno dogfennau i'r Goron**

357. Mae'r adran hon yn pennu bod rhaid i unrhyw hysbysiad neu ddogfen y mae'n ofynnol gan y Bil hwn neu odano iddo gael ei gyflwyno neu iddi gael ei chyflwyno i'r Goron gael ei gyflwyno neu ei chyflwyno i awdurdod priodol y Goron, ac nid yw'r rheolau ynghylch rhoi hysbysiadau a nodir yn adrannau 134 a 135 yn gymwys. At ddibenion yr adran hon, mae "y Goron" yn cynnwys Dugiaeth Caerhirfryn a Dugiaeth Cernyw.

*Cyffredinol*

**Adran 137 – Dyletswyddau i gyhoeddi**

358. Pan fo'r Bil hwn yn gosod dyletswydd i gyhoeddi rhywbeth, rhaid iddo gael ei gyhoeddi ar ffurf electronig. Nid oes unrhyw beth yn yr adran hon yn rhwystro'r person sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd rhag cyhoeddi mewn modd arall yn ogystal â chyhoeddi ar ffurf electronig.

**Adran 138 – Rheoliadau a gorchmynion: cyfyngiadau**

359. Mae'r adran hon yn nodi y caiff rheoliadau o dan adrannau 30, 33, 34, 46(6), 61(5), 89(3), 122 a 127 o'r Bil neu orchymyn cydsyniad seilwaith neu orchymyn o dan adran 88 gynnwys darpariaeth y byddai cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol (h.y. "the appropriate Minister") yn ofynnol ar ei chyfer o dan unrhyw un neu ragor o baragraffau 8(1)(a) neu (c), 10 neu 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

360. Mae'r adran hon hefyd yn darparu y caiff rheoliadau o dan adrannau 30, 33, 34, 46(6), 61(5), 89(3), 122 a 127 o'r Bil neu orchymyn cydsyniad seilwaith neu orchymyn o dan adran 88 gynnwys darpariaeth y byddai'n ofynnol ymgynghori â'r Gweinidog priodol yn ei chylch o dan baragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru. Gweler yr ohebiaeth rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru dyddiedig 8 Ionawr[31] sy'n cadarnhau cydsyniad o dan Atodlen 7B i'r darpariaethau, gan gynnwys ymrwymiad i ymgynghori â Llywodraeth y DU cyn gwneud rheoliadau sy'n effeithio ar gyrff a gadwyd yn ôl.

361. Ni chaiff rheoliadau a gorchmynion o dan unrhyw adran arall o'r Ddeddf hon gynnwys darpariaeth y byddai cydsyniad y Gweinidog priodol yn ofynnol ar ei chyfer o dan baragraff 8, 10 neu 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru; ac ni chânt gynnwys darpariaeth y byddai'n ofynnol ymgynghori â'r Gweinidog priodol yn ei chylch o dan baragraff 11(2) neu (2A) o Atodlen 7B i'r Ddeddf honno pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

**Adran 139 – Rheoliadau: y weithdrefn**

362. Mae'r adran hon yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau i'w arfer drwy offeryn statudol.

363. Mae is-adran (3) yn darparu bod offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan yr adrannau canlynol o'r Bil i'w wneud o dan y weithdrefn gadarnhaol (h.y. dylai drafft o'r offeryn fod wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad):

- adran 17 - pŵer i ychwanegu, amrywio neu ddileu prosiectau;
- adran 21 - pŵer i ychwanegu neu ddileu mathau o gydsyniad;
- adran 22(2)(c) - cyfarwyddydau sy'n pennu bod datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol;
- adran 53(1) – pŵer i'r awdurdod archwilio i benderfynu ar fathau penodol o geisiadau am gydsyniad seilwaith;
- adran 56(3) – diweddaru materion y caniateir eu diystyru wrth benderfynu ar geisiadau;
- adran 57(6) – pŵer i ddiwygio'r amserlen ar gyfer penderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith;
- adran 61(5) – yr hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith;
- adran 122 – ffioedd am gyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau cydsyniad seilwaith;
- adran 128 – cyfarwyddydau i awdurdodau cyhoeddus;
- adran 129 – pŵer i ddatgymhwyso gofynion;

[31]https://busnes.senedd.cymru/documents/s144189/LJC6-04-24%20Papur%2016%20Llythyr%20gan%20y%20Gweinidog%20Newid%20Hinsawdd%2022%20Ionawr%202024.pdf.

- adran 130 – ceisiadau gan y Goron;
- adran 142 – pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc., ond dim ond pan fo'r rheoliadau yn diwygio, yn diddymu neu'n addasu fel arall ddarpariaeth mewn Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig, Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Ddeddf gan Senedd Cymru;
- paragraff 2(1) o Atodlen 2.

364. Mae offerynnau sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan unrhyw bŵer arall yn y Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol (h.y. caniateir eu diddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru).

**Adran 140 – Cyfarwyddydau: cyffredinol**

365. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddyd a roddir o dan y Bil hwn neu yn ei rhinwedd fod yn ysgrifenedig.

**Adran 141 – Dehongli cyffredinol**

366. Mae'r adran hon yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Bil.

**Adran 142 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.**

367. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru y caniateir ei ddefnyddio i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, a darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed. Caiff rheoliadau a wneir ddiwygio, addasu, ddiddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys deddfiad a geir yn y Bil hwn).

**Adran 143 – Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau**

368. Mae'r adran hon yn cyfeirio at Atodlen 3 sy'n gwneud darpariaeth o ganlyniad i'r Bil hwn.

**Adran 144 – Darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed**

369. Mae'r adran hon yn pennu'r holl ddarpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed perthnasol.

**Adran 145 – Dod i rym**

370. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch pa bryd y mae darpariaethau'r Bil yn dod i rym. Bydd y darpariaethau yn y Bil yn Rhan 1, y darpariaethau yn Rhannau 2 i 8 sy'n rhoi pwerau i wneud rheoliadau neu'n gwneud darpariaeth ynghylch yr hyn y caniateir ei wneud neu'r hyn na chaniateir ei wneud, drwy arfer pŵer i wneud rheoliadau, a Rhan 9 (heblaw adran 143) yn dod i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil hwn y Cydsyniad Brenhinol. Daw darpariaethau eraill y Bil hwn i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

**Adran 146 – Enw byr**

371. Enw byr y Bil hwn yw Deddf Seilwaith (Cymru) 2024.

**Atodlen 1 – Darpariaeth sy'n ymwneud â datblygiad neu faterion sy'n atodol iddo**

372. Mae Atodlen 1 wedi ei chyflwyno gan adran 61. Caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith wneud darpariaeth atodol (gweler adran 61(3)) ac mae'r ddarpariaeth atodol y caniateir ei gwneud yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) ddarpariaeth sy'n ymwneud â'r rhestr o faterion yn Atodlen 1.

**Atodlen 2 – Digolledu am newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith**

373. Mae Atodlen 2 wedi ei chyflwyno gan adran 91 ac mae'n gwneud darpariaeth ynghylch digolledu am newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

**Paragraff 1 – Newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith: digolledu**

374. Pan fo gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael ei newid neu ei ddirymu gan Weinidogion Cymru heb fod cais yn cael ei wneud, mae'r paragraff hwn yn rhoi hawlogaeth i gael eu digolledu am golledion penodol i bersonau a chanddynt fuddiant yn y tir y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef, personau a chanddynt fuddiant mewn mwynau ar y tir hwnnw neu bersonau y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael effaith er eu budd.

375. Wrth wneud hawliad i Weinidogion Cymru, mae gan y personau hynny hawlogaeth i gael eu digolledu gan Weinidogion Cymru am unrhyw wariant y mae'r personau wedi mynd iddo wrth gynnal gwaith (gan gynnwys gwaith paratoadol penodol a ddisgrifir yn is-baragraff (4)) a ddaw yn ofer o ganlyniad i newid neu ddirymu'r gorchymyn cydsyniad seilwaith.

376. Mae gan y personau hynny hawlogaeth hefyd, wrth wneud cais, i gael eu digolledu gan Weinidogion Cymru am unrhyw golled neu ddifrod arall y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i'r newid neu'r dirymu.

377. Mae is-baragraff (5) yn pennu nad yw digollediad yn daladwy mewn cysylltiad â gwaith penodol a cholledion penodol.

378. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch yr amserlen a'r broses ar gyfer gwneud hawliad am ddigollediad o dan y paragraff hwn.

**Paragraff 2 – Digolledu am ddibrisiant: cyflwyniad a thermau allweddol**

379. Mae'r paragraff hwn yn darparu bod paragraffau 3 i 9 yn gymwys pan fo digollediad am ddibrisiant o fwy na'r isafswm a bennir mewn rheoliadau yn dod yn daladwy.

380. Ystyr "digollediad am ddibrisiant" yn y paragraff hwn (a pharagraffau 3 i 10) yw digollediad sy'n daladwy mewn cysylltiad â cholled neu ddifrod sy'n ddibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir.

381. Mae'r paragraff hwn hefyd yn nodi diffiniadau eraill at ddibenion paragraffau 2 i 10.

**Paragraff 3 – Dosrannu digollediad am ddibrisiant a phenderfynu ar anghydfodau**

382. Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch dosrannu digollediad am ddibrisiant a phenderfynu ar anghydfodau ynghylch dosraniad o'r fath.

383. Mae is-baragraff (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddosrannu'r digolledIad am ddibrisiant rhwng gwahanol rannau o'r tir y mae'r hawliad am ddigolledIad yn ymwneud ag ef os ydynt yn ystyried ei bod yn ymarferol gwneud hynny ac mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi manylion unrhyw ddosraniad o'r fath i'r hawlydd ac unrhyw bersonau y maent yn ystyried bod y dosraniad yn cael effaith sylweddol arnynt.

384. Mae is-baragraff (2) yn nodi manylion sut y mae rhaid i Weinidogion Cymru, wrth wneud dosraniad, rannu'r tir yn rhannau a dosbarthu'r digolledIad am ddibrisiant rhwng y rhannau hynny yn ôl sut y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y rhannau hynny wedi eu heffeithio gan y gorchymyn a achosodd i ddigolledIad fod yn daladwy.

385. Mae is-baragraff (3) yn nodi manylion y personau a gaiff atgyfeirio anghydfod ynghylch dosraniad digolledIad i'r Uwch Dribiwnlys ac mae is-baragraff (4) yn nodi manylion y personau sydd â hawlogaeth i gael eu clywed gan yr Uwch Dribiwnlys.

386. Mae is-baragraffau (5), (6) a (7) yn gwneud rheolau sy'n gymwys pan gaiff anghydfod ynghylch dosraniad ei atgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys.

**Paragraff 4 – Hysbysiad o ddigolledIad am ddibrisiant**

387. Mae'r paragraff hwn yn nodi manylion y broses sydd i'w dilyn pan fo digolledIad am ddibrisiant yn dod yn daladwy.

388. Pan fo digolledIad am ddibrisiant yn dod yn daladwy, rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno "hysbysiad digolledu" i'r cyngor ar gyfer y sir neu'r fwrdeistref sirol dros yr ardal lle y lleolir y tir neu unrhyw ran o'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, ac (os nad y cyngor hwnnw yw'r awdurdod cynllunio dros yr ardal) i'r awdurdod cynllunio dros yr ardal.

389. Mae is-baragraff (3) yn nodi'r hyn y mae rhaid i hysbysiad digolledu ei gynnwys, ac mae is-baragraff (4) yn datgan bod hysbysiad digolledu yn bridiant tir lleol.

**Paragraff 5 – Peidio â chynnal datblygiad hyd nes y bo digolledIad yn cael ei dalu neu ei sicrhau**

390. Mae'r paragraff hwn yn gwahardd person rhag cynnal datblygiad penodol ar dir y mae hysbysiad digolledu wedi ei gofrestru yn ei gylch hyd nes y bo unrhyw swm sy'n adenilladwy mewn cysylltiad â'r digolledIad a bennir yn yr hysbysiad wedi ei dalu neu ei sicrhau er boddhad Gweinidogion Cymru.

391. Mae is-baragraff (2) yn nodi manylion y datblygiad y mae'r gwaharddiad yn gymwys iddo, ac mae is-baragraffau (3) a (4) yn nodi'r amgylchiadau nad yw'r gwaharddiad yn gymwys oddi tanynt.

**Paragraff 6 – Y swm sy'n adenilladwy gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â digolledu**

392. Mae'r paragraff hwn yn nodi'r rheolau sy'n gymwys i bennu'r swm sy'n adenilladwy gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â digollediad a bennir mewn hysbysiad digolledu cofrestredig.

**Paragraff 7 – Talu etc. swm sy'n adenilladwy**

393. Mae is-baragraff (1) yn darparu bod swm sy'n adenilladwy yn daladwy i Weinidogion Cymru fel un taliad cyfalaf, fel cyfres o randaliadau cyfalaf a llog wedi eu cyfuno neu fel cyfres o daliadau blynyddol neu gyfnodol eraill a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru. Mae is-baragraff (2) yn nodi manylion y dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i ystyried sylwadau cyn iddynt arfer eu pŵer i wneud cyfarwyddyd o dan is-baragraff 1(c).

394. Mae is-baragraff (3) yn darparu, os nad yw'r swm sy'n daladwy yn cael ei dalu fel un taliad cyfalaf, bod rhaid iddo gael ei sicrhau yn y modd a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

395. Os yw person yn dechrau datblygiad gan dorri paragraff 5, o dan is-baragraff (4), mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyflwyno hysbysiad i'r person sy'n pennu'r swm y maent yn ystyried ei fod yn adenilladwy o dan baragraff 6 ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person dalu'r swm hwnnw o fewn cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

396. Mae is-baragraff (5) yn nodi pa bryd y bydd person yn dechrau datblygiad at ddibenion is-baragraff (4).

**Paragraff 8 – Adennill digollediad oddi wrth awdurdod caffael wrth gaffael yn orfodol neu werthu**

397. Pan fo buddiant mewn tir yn cael ei gaffael yn orfodol neu'n cael ei werthu i awdurdod sy'n meddu ar bwerau prynu gorfodol, a bod hysbysiad digolledu yn cael ei gofrestru mewn cysylltiad â'r tir, mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau y mae gan Weinidogion Cymru hawlogaeth i adennill digollediad oddi wrth yr awdurdod caffael oddi tanynt. Mae'r paragraff hwn hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch y swm sy'n adenilladwy.

**Paragraff 9 – Darpariaethau cyffredinol ynghylch digolledu am ddibrisiant**

398. Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch digolledu am ddibrisiant ac yn darparu bod y rheolau yn adran 5 o Ddeddf Digollediad Tir 1961 (rheolau ar gyfer asesu digollediad) yn gymwys at ddiben asesu digollediad am ddibrisiant sy'n daladwy o dan yr Atodlen hon. Mae'r paragraff hwn hefyd yn gwneud amryw o ddarpariaethau penodol ynghylch digollediad am ddibrisiant pan fo buddiant mewn tir yn ddarostyngedig i forgais.

**Paragraff 10 – Penderfynu ar geisiadau am ddigollediad**

399. Mae'r paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gwestiwn ynghylch digollediad y ceir anghydfod yn ei gylch gael ei atgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys a'i benderfynu ganddo.

**Atodlen 3 – Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau**

400. Mae Atodlen 3 wedi ei chyflwyno gan adran 143 ac mae'n nodi diwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

# Atodiad 2 – Mynegai o Ofynion y Rheolau Sefydlog

Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

| Rheolau Sefydlog | | Adran | Tudalennau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. | Datganiad yr Aelod | 1 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil. | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | 6-12 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 66-129 |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol: (a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu; (b) manylion y Bil, a (c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau). | Pennod 4 – Ymgynghori | 13-16 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio. | Pennod 4 – Ymgynghori | 13-16 |

| Rheolau Sefydlog | | Adran | Tudalennau |
|---|---|---|---|
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. | Pennod 4 – Ymgynghori | 13-16 |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil. | Atodiad1 – Nodiadau Esboniadol | 131-185 |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol: (a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt; (b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt; (c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil; (d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac (e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 66-129 |

| Rheolau Sefydlog | | Adran | Tudalennau |
|---|---|---|---|
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 66-129 |
| 26.6(x) | Os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o’r fath: (a) y person neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae’r pŵer i gael ei arfer; (b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo’r pŵer; ac (c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae’r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i’w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall). | Pennod 5 – Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | 17-65 |
| 26.6(xi) | Os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy’n nodi ei farn ef ar a yw’r tâl yn briodol neu beidio. | Nid yw’r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i’r Bil hwn | Ddim yn berthnasol |
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 128-129 |

| Rheolau Sefydlog | | Adran | Tudalennau |
|---|---|---|---|
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Nid yw’r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B ynghylch Tabl Tarddiadau yn gymwys i’r Bil hwn oherwydd mai darn o ddeddfwriaeth annibynnol yw’r Bil ac nad yw’n tarddu o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi. | Ddim yn berthnasol |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy’n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi’n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6C yn berthnasol i'r Bil hwn gan nad yw'r Bil yn bwriadu diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol. | Ddim yn berthnasol |

# Atodiad 3 – Rhestr o brosiectau i’w rhagnodi yn PSAau

| Math o Ddatblygiad | Colofn A – Trothwy PSA gorfodol ar gyfer prosiectau dosbarth A | Colofn B – Trothwy PSA a gyfarwyddwyd i’w osod mewn canllawiau y gall datblygwyr gael Cyfarwyddyd o dan Ddosbarth B ar ei gyfer i’w osod mewn is-ddeddfwriaeth |
|---|---|---|
| **1. Seilwaith trydan** | | |
| **1A. Gorsafoedd cynhyrchu ar y tir (ac eithrio'r rhai sy'n cynhyrchu trydan o ynni’r gwynt ar y tir a bennir yn 1C a dosbarthiadau storio ynni a bennir yn 1D); a** | **Adeiladu:**<br><br>Adeiladu gorsaf ynni gwynt, lle disgwylir y bydd gan yr orsaf gynhyrchu gapasiti cynhyrchu gosodedig rhwng 50MW a 350MW<br><br>**Addasu neu estyn:**<br><br>Addasu neu estyn gorsaf gynhyrchu, lle y bydd effaith hynny yn arwain at gynnydd o 50MW neu fwy yn ei chapasiti cynhyrchu gosodedig, fodd bynnag, ni ddylai effaith yr estyniad gynyddu'r capasiti cynhyrchu cyffredinol y tu hwnt i 350MW. | **Adeiladu:**<br><br>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle disgwylir y bydd gan yr orsaf gynhyrchu gapasiti gosodedig rhwng 10MW a 50MW.<br><br>**Addasu neu estyn:**<br><br>Addasu neu estyn gorsaf gynhyrchu, lle y bydd effaith hynny yn arwain at gynnydd o 10MW neu fwy yn ei chapasiti cynhyrchu gosodedig, fodd bynnag, ni ddylai effaith yr estyniad gynyddu'r capasiti cynhyrchu cyffredinol y tu hwnt i 350MW. |

| | | |
|---|---|---|
| **1B. Gorsafoedd cynhyrchu ar y môr hyd at derfynau atfor y môr tiriogaethol, ac eithrio'r dosbarthiadau storio ynni hynny a bennir yn 1D)** | **Adeiladu:**<br><br>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle disgwylir y bydd gan yr orsaf gynhyrchu gapasiti cynhyrchu gosodedig rhwng 50MW a 350MW<br><br>**Addasu neu estyn:**<br><br>Addasu neu estyn gorsaf gynhyrchu, lle y bydd effaith hynny yn arwain at gynnydd o 50MW neu fwy yn ei chapasiti cynhyrchu gosodedig, fodd bynnag, ni ddylai effaith yr estyniad gynyddu'r capasiti cynhyrchu cyffredinol y tu hwnt i 350MW. | **Adeiladu:**<br><br>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle disgwylir y bydd gan yr orsaf gynhyrchu gapasiti gosodedig rhwng 1MW a 50MW.<br><br>**Addasu neu estyn:**<br><br>Addasu neu estyn gorsaf gynhyrchu, lle y bydd effaith hynny yn arwain at gynnydd o 1MW neu fwy yn ei chapasiti cynhyrchu gosodedig, fodd bynnag, ni ddylai effaith yr estyniad gynyddu'r capasiti cynhyrchu cyffredinol y tu hwnt i 350MW. |
| **1C. Gorsafoedd ynni gwynt ar y tir** | **Adeiladu:**<br><br>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle disgwylir y bydd gan yr orsaf gynhyrchu gapasiti cynhyrchu gosodedig o 50MW neu fwy.<br><br>**Addasu neu estyn:**<br><br>Addasu neu estyn gorsaf gynhyrchu, lle y bydd effaith hynny yn arwain at gynnydd o 50MW neu fwy. | **Adeiladu:**<br><br>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle disgwylir y bydd gan yr orsaf gynhyrchu gapasiti gosodedig rhwng 10MW a 50MW.<br><br>**Addasu neu estyn:**<br><br>Addasu neu estyn gorsaf gynhyrchu, lle y bydd effaith hynny yn arwain at gynnydd o 10MW neu fwy yn ei chapasiti cynhyrchu gosodedig. |
| **1D. Storio Ynni Energy Storage – Gorsaf lle y caiff ynni trydanol ei drosi'n fath o ynni y gellir ei storio, lle y caiff yr ynni hwnnw ei storio, a lle caiff yr ynni** | Nid oes trothwy gorfodol wedi'i bennu. | **Adeiladu:**<br><br>Adeiladu cyfleuster storio, lle disgwylir y bydd gan y cyfleuster storio10 MW o gapasiti storio. |

| | | |
|---|---|---|
| **hwnnw ei aildrosi yn ôl i ynni trydanol. Nid yw hyn yn cynnwys system hydrodrydan lle mae trydan yn cael ei gynhyrchu gan y defnydd o ddŵr sy'n cael ei bwmpio i gronfa ddŵr uwch** | | **Addasu neu estyn:**<br><br>Addasu neu estyn cyfleuster storio, lle y bydd effaith hynny yn arwain at gynnydd o 10MW neu fwy yn ei chapasiti storio. |
| **1E. Llinellau trydan uwchben, sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu a ddisgrifir yn 1A-1D.** | **Gosod:**<br><br>Disgwylir y bydd gan y llinell drydan uwchben foltedd enwol o 132KV a bydd yn 2KM o hyd fan lleiaf. | **Gosod:**<br><br>Disgwylir y bydd gan y llinell drydan uwchben foltedd enwol o lai na 132KV; neu<br><br>Disgwylir y bydd gan y llinell drydan uwchben foltedd enwol o 132KV a bydd yn llai na 2KM o hyd.<br><br>**Addasu neu uwchraddio:**<br><br>Unrhyw waith addasu neu estyn llinell drydan uwchben hyd at a chan gynnwys 132KV. |
| **2. Olew a mwynau** | | |
| **2A. Cyfleusterau nwy naturiol hylifedig** | **Adeiladu:**<br><br>Disgwylir i gynhwysedd storio'r cyfleuster fod yn 43 o filiynau o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu fod â chyfradd llif uchaf o 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod o leiaf; neu<br><br>**Addasu:**<br><br>Disgwylir i gynhwysedd storio'r cyfleuster gynyddu 43 o filiynau o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu fod cyfradd llif uchaf y cyfleuster yn cynyddu 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod o leiaf. | **Adeiladu:**<br><br>Disgwylir i gynhwysedd storio'r cyfleuster fod yn 10 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu fod â chyfradd llif uchaf o 1 filiwn metr ciwbig safonol y diwrnod o leiaf; neu<br><br>**Addasu:**<br><br>Disgwylir i gynhwysedd storio'r cyfleuster gynyddu 10 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu fod cyfradd llif uchaf y cyfleuster yn cynyddu 10 miliwn o fetrau ciwbig safonol y diwrnod neu fwy. |

| | | |
|---|---|---|
| **2B. Cyfleusterau derbyn nwy** | **Adeiladu:**<br><br>Disgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster fod yn fwy na 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod; neu<br><br>**Addasu:**<br><br>Disgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster presennol gynyddu 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod o leiaf. | **Adeiladu:**<br><br>Disgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster fod yn fwy na 1 filiwn metr ciwbig safonol y diwrnod; neu<br><br>**Addasu:**<br><br>Disgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster presennol gynyddu 1 filiwn metr ciwbig safonol y diwrnod o leiaf. |
| **2C. Olew neu nwy anghonfensiynol** | Datblygiad sy’n ymwneud â fforio, arfarnu neu gynhyrchu methan gwely glo, olew siâl neu nwy siâl gan ddefnyddio technegau echdynnu anghonfensiynol, gan gynnwys hollti hydrolig, ac eithrio gwneud tyllau turio fforiol nad yw’n cynnwys defnyddio technegau echdynnu anghonfensiynol o’r fath. | Dim trothwy dewisol. |
| **2D. Nwyeiddio glo tanddaearol** | Datblygiad sy’n gysylltiedig â nwyeiddio glo yn y strata, ac eithrio gwneud tyllau turio fforiol at ddiben samplu creiddiol. | Dim trothwy dewisol. |
| **2E. Mwyngloddio glo brig** | Datblygiad sy’n cynnwys cloddio a gweithio glo o’r ddaear drwy ei dynnu o fwynglawdd brig neu fenthyg ar safle newydd. | Dim trothwy dewisol. |
| **3. Trafnidiaeth** | | |
| **3A. Priffyrdd** | **Adeiladu:**<br><br>Os Gweinidogion Cymru, neu unrhyw gwmni o dan | **Adeiladu:**<br><br>Os Gweinidogion Cymru, neu unrhyw gwmni o dan |

| | | |
|---|---|---|
| | berchnogaeth lwyr Gweinidogion Cymru, fydd yr Awdurdod Priffyrdd; ac os bydd y briffordd pan gaiff ei hadeiladu yn briffordd ddi-dor o fwy nag 1 cilometr o hyd.<br><br>**Addasu a gwella:**<br><br>Os Gweinidogion Cymru, neu unrhyw gwmni o dan berchnogaeth lwyr Gweinidogion Cymru, fydd yr Awdurdod Priffyrdd; ac os yw'r addasu neu'r gwella yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd (h.y. bod angen EIA) | berchnogaeth lwyr Gweinidogion Cymru, fydd yr Awdurdod Priffyrdd; ac os bydd y briffordd pan gaiff ei hadeiladu yn briffordd ddi-dor o fwy nag 1 cilometr o hyd. |
| **3B. Rheilffyrdd sy'n dechrau, gorffen ac yn aros yng Nghymru, ac nad ydynt wedi'u pennu'n Ddatblygiad a Ganiateir o fewn Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.** | **Adeiladu:**<br><br>Bydd y gwaith adeiladu yn cael ei wneud gan weithredwr a gymeradwywyd a bydd yn cynnwys darn o drac sy'n ddi-dor am fwy na 2 gilometr o hyd.<br><br>**Addasu:**<br><br>Bydd y gwaith addasu yn cael ei wneud gan weithredwr a gymeradwywyd a bydd yn cynnwys darn o drac sy'n ddi-dor am fwy na 2 gilometr o hyd. | **Adeiladu:**<br><br>Bydd y gwaith adeiladu yn cael ei wneud gan weithredwr a gymeradwywyd a bydd yn cynnwys darn o drac sy'n ddi-dor am fwy na 2 gilometr o hyd.<br><br>**Addasu:**<br><br>Bydd y gwaith addasu yn cael ei wneud gan weithredwr a gymeradwywyd a bydd yn cynnwys darn o drac sy'n ddi-dor am fwy na 2 gilometr o hyd. |
| **3C. Cyfnewidfeydd nwyddau rheilffordd** | **Adeiladu:**<br><br>Ar ôl ei hadeiladu, disgwylir i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd fod yn gallu trin o leiaf pedwar trên nwyddau y dydd.<br><br>**Addasu:**<br><br>Disgwylir i'r addasiad gynyddu nifer y trenau nwyddau y gellir eu trin o leiaf pedwar y dydd. | **Adeiladu:**<br><br>Ar ôl ei hadeiladu, disgwylir i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd fod yn gallu trin hyd at bedwar trên nwyddau y dydd.<br><br>**Addasu:**<br><br>Disgwylir i'r addasiad gynyddu nifer y trenau nwyddau y gellir eu trin y dydd. |

| | | |
|---|---|---|
| **3D. Porthladdoedd a Harbyrau** | Gwaith adeiladu neu addasu cyfleusterau harbwr a fydd yn arwain at gynnydd blynyddol yn eu gallu i drin:<br><br>a) yn achos cyfleusterau ar gyfer llongau cynwysyddion, 50,000 Uned Cyfwerth â Deg Troedfedd;<br><br>b) yn achos cyfleusterau ar gyfer llongau gyrru i mewn ac allan, 25,000 o unedau; neu<br><br>c) yn achos cyfleusterau ar gyfer llongau cargo o unrhyw ddisgrifiad arall, 500,000 o dunelli. | **Gweithfeydd:**<br><br>Disgwylir i'r cyfleusterau harbwr, ar ôl eu hadeiladu, arwain at weithrediad effeithlon yr harbwr a disgwylir i'r cyfleusterau gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd (h.y. bod angen EIA). |
| **3E. Meysydd Awyr** | **Adeiladu:**<br><br>Disgwylir i'r maes awyr, ar ôl ei adeiladu, allu darparu:<br><br>Gwasanaethau cludo teithwyr awyr ar gyfer o leiaf 1 filiwn o deithwyr bob blwyddyn, neu<br><br>Wasanaethau cludo cargo awyr ar gyfer o leiaf 5,000 o symudiadau cludo awyr gan awyrennau cargo bob blwyddyn.<br><br>**Addasu a gwella:**<br><br>Disgwylir i'r maes awyr, ar ôl ei addasu neu'i wella:<br>gynyddu nifer y teithwyr y gall y maes awyr ddarparu gwasanaethau cludo teithwyr awyr ar eu cyfer 1 filiwn y flwyddyn o leiaf, neu<br><br>gynyddu nifer y symudiadau cludo awyr gan awyrennau cargo y gall y maes awyr ddarparu gwasanaethau cludo cargo awyr ar eu cyfer 5,000 y flwyddyn o leiaf. | **Adeiladu:**<br><br>Disgwylir i'r maes awyr, ar ôl ei adeiladu, allu darparu:<br><br>Gwasanaethau cludo teithwyr awyr ar gyfer hyd at 1 filiwn o deithwyr bob blwyddyn, neu<br><br>Wasanaethau cludo cargo awyr ar gyfer o leiaf 5,000 o symudiadau cludo awyr gan awyrennau cargo bob blwyddyn.<br><br>**Addasu a gwella:**<br><br>Disgwylir i'r maes awyr, ar ôl ei addasu neu'i wella:<br>gynyddu nifer y teithwyr y gall y maes awyr ddarparu gwasanaethau cludo teithwyr awyr ar eu cyfer hyd at 1 filiwn y flwyddyn, neu<br><br>gynyddu nifer y symudiadau cludo awyr gan awyrennau cargo y gall y maes awyr ddarparu gwasanaethau cludo cargo awyr ar eu cyfer hyd at 5,000 y flwyddyn. |

| 4. Dŵr | | |
|---|---|---|
| **4A. Argaeau a chronfeydd dŵr** | **Adeiladu:**<br><br>Disgwylir i’r cyfaint o ddŵr a gedwir yn ôl gan yr argae neu a gaiff ei storio yn y gronfa ddŵr fod yn fwy na 10 miliwn o fetrau ciwbig.<br><br>**Addasu:**<br><br>Disgwylir i’r cyfaint o ddŵr a gedwir yn ôl gan yr argae neu a gaiff ei storio yn y gronfa ddŵr o ganlyniad i’r addasiad fod yn fwy na 10 miliwn o fetrau ciwbig. | **Adeiladu:**<br><br>Disgwylir i’r cyfaint o ddŵr a gedwir yn ôl gan yr argae neu a gaiff ei storio yn y gronfa ddŵr fod yn fwy na 1 filiwn o fetrau ciwbig.<br><br>**Addasu:**<br><br>Disgwylir i’r cyfaint o ddŵr a gedwir yn ôl gan yr argae neu a gaiff ei storio yn y gronfa ddŵr o ganlyniad i’r addasiad fod yn fwy na 1 filiwn o fetrau ciwbig. |
| **4B. Trosglwyddo adnoddau dŵr** | Disgwylir i gyfaint y dŵr a drosglwyddir o ganlyniad i’r datblygiad fod yn fwy na 100 miliwn o fetrau ciwbig y flwyddyn rhwng:<br><br>• Basnau afonydd yng Nghymru;<br>• Ardaloedd ymgymerwyr dŵr yng Nghymru; neu<br>• Basn afon yng Nghymru ac ardal ymgymerwr dŵr yng Nghymru.<br><br>Nid yw’r datblygiad yn ymwneud â throsglwyddo dŵr yfed. | Ni chynigir trothwyon dewisol. |
| **4C. Gweithfeydd trin dŵr gwastraff** | **Adeiladu gweithfeydd trin dŵr gwastraff:**<br><br>Mae capasiti disgwyliedig y gwaith trin yn fwy na chyfwerth poblogaeth o 500,000.<br><br>**Adeiladu seilwaith ar gyfer trosglwyddo neu storio dŵr gwastraff:**<br><br>Prif ddiben y seilwaith fydd naill ai:<br><br>(i) trosglwyddo dŵr gwastraff i’w drin, neu | Ni chynigir trothwyon dewisol. |

| | | |
|---|---|---|
| | (ii) storio dŵr gwastraff cyn ei drin,<br><br>neu'r ddau, a<br><br>disgwylir i'r seilwaith fod â chapasiti i storio mwy na 350,000 o fetrau ciwbig o ddŵr gwastraff.<br><br>**Addasu gweithfeydd trin dŵr gwastraff sydd eisoes yn bodoli:**<br><br>Disgwylir i effaith yr addasiad gynyddu capasiti'r gwaith trin fwy na chyfwerth poblogaeth o 500,000.<br><br>**Addasu seilwaith ar gyfer trosglwyddo neu storio dŵr gwastraff:**<br><br>Prif ddiben y seilwaith fydd naill ai:<br><br>(i) trosglwyddo dŵr gwastraff i'w drin, neu<br><br>(ii) storio dŵr gwastraff cyn ei drin,<br><br>neu'r ddau, a<br><br>disgwylir i effaith yr addasiad gynyddu capasiti'r seilwaith i storio dŵr gwastraff fwy na 350,000 o fetrau ciwbig. | |
| **5. Gwastraff** | | |
| **5A. Cyfleusterau gwastraff peryglus** | **Adeiladu:**<br><br>Safleoedd tirlenwi neu gyfleusterau storio dwfn sydd â chapasiti o fwy na 100,000 o dunelli o wastraff peryglus y flwyddyn. Mewn unrhyw achos arall, | Ni chynigir unrhyw drothwyon dewisol. |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfleusterau sydd â chapasiti o fwy na 30,000 o dunelli o wastraff peryglus y flwyddyn.<br><br>**Addasu:**<br><br>Disgwylir i effaith yr addasiad i safle dirlenwi neu gyfleuster storio dwfn gynyddu'r capasiti fwy na 100,000 o dunnelli o wastraff peryglus y flwyddyn. Mewn unrhyw achos arall, disgwylir i gapasiti'r cyfleuster gynyddu 30,000 o dunelli o wastraff peryglus y flwyddyn. | |
| **5B. Cyfleuster gwaredu daearegol gwastraff ymbelydrol yn derfynol** | Datblygiad sy'n cynnwys adeiladu un twll turio neu ragor, a chynnal unrhyw waith cloddio, adeiladu neu saernïo cysylltiedig, at y prif ddiben o gael gwybodaeth, data neu samplau er mwyn penderfynu a yw safle yn addas ar gyfer adeiladu neu ddefnyddio cyfleuster gwaredu daearegol gwastraff ymbelydrol sy'n fwy na 200 o fetrau o ddyfnder. | Ni chynigir unrhyw drothwyon dewisol. |

## Atodiad 4 – Costau Datblygu (Arup 2019)

| COSTAU (fel y'u cymerwyd yn eu ffurf bur o Adroddiad Arup ac nid wedi'u talgrynnu) | Adran 57 o DCGTh 1990 (£) | DAC (£) | DTG (£) | Deddf Priffyrdd 1980 (£) | Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (£) | Adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 (£) | Deddf Harbyrau 1964 (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o gostau paratoi ceisiadau | 1,255,417 | 670,000 | 2,110,000 | 15,882,750 | 1,800,000 | 1,373,888.89 | 176,333 |
| Amcangyfrif o gostau cynnal unrhyw ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio (lle mae'n ofyniad) | 64,542 | 23,333 | | | 266,250 | | |
| Amcangyfrif o gostau ymgymryd ag unrhyw ymgynghoriad cyn ymgeisio anstatudol (h.y. cynnal digwyddiadau, rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau etc y tu allan i ofynion statudol) | 78,229 | 22,500 | 110,000 | 433,650 | 685,000 | 21222.22 | 150,000 |
| Amcangyfrif o gostau cymryd rhan mewn archwiliad mewn cais | 81,306 | 116,667 | 800,000 | 3,254,375 | 1154,167 | 148291.67 | |
| Amcangyfrif o gostau gwneud gwelliant sylweddol i brosiect wrth archwilio cais, lle gwnaed un. | 89,667 | 29,667 | 75,000 | 2,912,500 | 275,000 | 17,250 | 47,450 |
| Amcangyfrif o gostau gwneud gwelliant ansylweddol neu fân welliant i brosiect wrth archwilio cais, lle gwnaed un | 5,750 | 6,250 | 40,000 | 770,000 | 70,000 | 11312.5 | 32,500 |
| Amcangyfrif o gostau creu a chynnal gwefan sy'n dangos cais cyfan, am gyfnod o 6 mis | 5,583 | 17,500 | 20,000 | 17,500 | 9,500 | 10,000 | 17,500 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o gostau cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol neu gyfnodolyn perthnasol yn hysbysebu darpar gais i'w ar gyfer datblygiad, am gyfnod o 1 wythnos | 5,992 | 11,313 | 1,913 | 11,313 | 9,756 | 4,538 | 5,906 |
| **Cyfanswm** | **1,586,486** | **897,230** | **3,156,913** | **23,282,088** | **4,269,673** | **1,586,503.28** | **429,689** |